

2022/23

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon

Ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023

HC 1506

Ofcom

# Y Swyddfa Gyfathrebiadau Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-2023

## Ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023

Cyflwynir i Senedd y DU yn unol â Pharagraffau 11 a 12 Atodlen 1 Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 12 Gorffennaf 2023.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion yr Alban.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru gan y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon o dan delerau'r Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ac Ofcom.

HC 1506

© Hawlfraint Ofcom (2023)

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded
Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall.

I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom i ofcomcontactcentre@ofcom.org.uk.

ISBN 978-1-5286-4181-4
E02925828
SG/2023/119

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Neges y Cadeirydd** | **4** |
| **Adroddiad y Prif Weithredwr** | **5** |
| **Ein pwerau a'n dyletswyddau** | **6** |
| **Adran A: Adroddiad perfformiad** | **8** |
| **Uchafbwyntiau 2022/23** | 9 |
| Y prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd | 46 |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid | 51 |
| Ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol | 54 |
| Egwyddorion rheoleiddio Ofcom | 56 |
| Adolygiad ariannol | 59 |
| Cyfrifoldeb corfforaethol | 65 |
| Adroddiad cynaliadwyedd | 67 |
| **Adran B: Adroddiad atebolrwydd** | **69** |
| Llywodraethu | 70 |
| Ein gweithwyr | 97 |
| Adroddiad taliadau | 100 |
| Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd Brydeinig, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon | 108 |
| **Adran C: Datganiadau ariannol** | **112** |
| Datganiad incwm a gwariant | 113 |
| Datganiad o incwm net cynhwysfawr | 113 |
| Datganiad am y sefyllfa ariannol | 114 |
| Datganiad am newidiadau mewn ecwiti | 115 |
| Datganiad am y llifoedd arian parod | 116 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 117 |
| **Adran D: Atodiadau** | **152** |
| A1. Adran 400 | 153 |
| A2. Datganiadau rheoleiddio | 154 |
| A3. Rhaglen ymchwiliadau | 158 |
| A4. Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu | 159 |
| A5. Gorfodi a pheirianneg sbectrwm | 163 |
| A6. Trwyddedu sbectrwm | 164 |
| A7. Cynaliadwyedd | 170 |

# Neges y Cadeirydd

## Yr Arglwydd Grade, CBE
Cadeirydd

Mae wedi bod yn un o anrhydeddau mawr fy ngyrfa i wasanaethu fel Cadeirydd Ofcom dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae Ofcom yn atebol i'r Senedd ac i bobl y DU, ac mae'n gyfrifoldeb ac yn fraint y mae aelodau ein Bwrdd a'n cydweithwyr yn ei gydnabod yn llawn.

Mae'r sector cyfathrebu heddiw yn un llawn newid ac aflonyddwch, nad yw'n cael ei rwystro gan y math o ffiniau sector traddodiadol a oedd yn arfer bodoli hyd yn oed bum mlynedd yn ôl. Dyna pam mae rôl Ofcom fel rheoleiddiwr cydgyfeiriol yn fwyaf addas ar gyfer heriau traws-swyddogaethol ein hoes ym maes telegyfathrebiadau, darlledu, post, sbectrwm a gwasanaethau ar-lein. Mae'r ffordd rydym yn gweithio yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r cyhoedd yn defnyddio cyfathrebu a chynnwys bob dydd: ar yr un pryd fel defnyddwyr, cynulleidfaoedd, pobl sy'n creu cynnwys a dinasyddion.

Pan ymunais â'r Bwrdd ym mis Mai 2022, roedd Ofcom eisoes wedi ymgolli yn y paratoadau ar gyfer pasio'r Bil Diogelwch Ar-lein, sy'n estyniad hollbwysig i'w ddyletswyddau fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau. Mae'r Bil bellach yn agos at Gydsyniad Brenhinol, sy'n golygu bod y cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu yn cael y cyfle i weld yr hyn rydw i wedi'i weld drosof fy hun ers dod yn Gadeirydd Ofcom, sef gwybodaeth, llythrennedd data, a chymysgedd o brofiad gweithredol a pholisïau sydd gan y tîm i oruchwylio cyflwyno'r darn hwn o ddeddfwriaeth flaengar.



**"Mae ein gwaith yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r cyhoedd yn defnyddio cyfathrebu a chynnwys bob dydd: ar yr un pryd fel defnyddwyr, cynulleidfaoedd, pobl sy'n creu cynnwys a dinasyddion."**

Rwyf wedi bod yn glir o'r dechrau nad yw'r Bil Diogelwch Ar-lein am ddatrys bob her a ddaw yn sgil y byd digidol sy'n dod yn fwyfwy cymhleth a soffistigedig. Nid oes botwm hud y gallwn ei bwyso i wneud llwyfannau'n fwy diogel i blant yn awtomatig, neu i leihau'r risg o ddod ar draws deunydd cas neu beryglus ar-lein. Fodd bynnag, fel sefydliad, rydym yn gwbl barod, ac yn awyddus, i sicrhau bod y gwasanaethau a'r llwyfannau sy'n rhan o waith y Bil yn deall a chyflawni eu cyfrifoldebau o ran cydymffurfio.

Yn yr un modd â holl ddyletswyddau Ofcom, bydd didueddrwydd, tryloywder ac ymrwymiad i ymgynghori a chynnig adborth yn ganolog i roi'r Bil Diogelwch Ar-lein ar waith. Mae'r un ysbryd o feddwl annibynnol, gwrthrychol, heb unrhyw ddylanwad personol, gwleidyddol neu fasnachol, wedi bod yn hanfodol i'n gwaith dros yr 20 mlynedd diwethaf. Bydd yn parhau i addasu ein dulliau o reoleiddio'r sector cyfathrebu, hyd yn oed wrth – yn enwedig wrth – i heriau, fformatau a chyfleoedd newydd godi.

Ers ein hadroddiad blynyddol diwethaf, mae'r argyfwng costau byw wedi gwneud bywyd yn llawer anoddach i lawer iawn o bobl. Mae llawer iawn o'n gwaith dros y 12 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar hawliau defnyddwyr o ran costau cynyddol ar gyfer gwasanaethau ffôn cartref, ffôn symudol, band eang a phost, heb sôn am y risg gynyddol o dwyll ar-lein a thelegyfathrebiadau. Nid yn unig mae cystadleuaeth yn y sector telegyfathrebiadau yn hanfodol i ddefnyddwyr, ond hefyd i iechyd ehangach economi'r DU.

Mae gwerth hefyd wrth galon ein gwaith o reoleiddio darlledu a'r cyfryngau, gan gynnwys cadw lluosogrwydd ffynonellau newyddion, neu hyrwyddo gweithdrefnau cwynion teg a thryloyw. Un o'n tasgau yw sicrhau bod y BBC yn gallu addasu a ffynnu mewn amgylchedd cystadleuol. Yn gynharach eleni, fe wnaethom gyhoeddi datganiad newydd yn moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, sydd, ymysg pethau eraill, yn gosod gofynion eang ar wasanaethau ar-lein y BBC fel iPlayer am y tro cyntaf, gan hefyd sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu cynnwys amrywiol i wylwyr a gwrandawyr ar draws y Gwledydd. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod y BBC yn barod ar gyfer y dyfodol, heb anwybyddu'r presennol.

Rydym yn barod i gyflawni hyn i gyd a mwy, gan ystyried ein hegwyddor gweithredu graidd bob amser – er mwyn hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr a chydbwyso rheoleiddio effeithiol â rhyddid mynegiant ar yr un pryd.

# Adroddiad y Prif Weithredwr

## Y Fonesig Melanie Dawes DCB
Prif Weithredwr

Eleni mae Ofcom yn dathlu ei ben-blwydd yn 20 oed. Pan gawsom ein creu yn 2003, mae hi'n deg i ddweud na allai'r un ohonom fod wedi rhagweld maint ac ehangder y newid a fyddai'n effeithio ar y diwydiannau cyfathrebu yn ystod y ddwy ddegawd ddiwethaf.

Yn 2023, mae llawer mwy o ffyrdd i bobl a busnesau gyfathrebu. Mae cysylltiadau symudol a band eang wedi gwella'n aruthrol. Mae dyfeisiau a gwasanaethau newydd yn cael eu rhoi ar waith drwy'r amser, ac mae angen mwy o led band. Mae pob un ohonom yn newid y ffordd rydym yn cael gafael ar newyddion ac adloniant, yn rhedeg ein busnesau ac yn cadw mewn cysylltiad â'n gilydd.

Dros y blynyddoedd i ddod, mae'n amlwg bod arloesi'n mynd i barhau i sbarduno newid, boed hynny'n llwyfannau newydd, ehangu radio digidol DAB ymhellach, neu ddatblygiadau ym maes deallusrwydd artiffisial a realiti estynedig. Mae sicrhau ein bod yn gallu manteisio ar y cyfleoedd a lliniaru'r heriau a ddaw yn sgil hyn yn rhan fawr o waith Ofcom.

Mae angen rhyngrwyd cyflym, dibynadwy a diogel y gallwn ddibynnu arni ar bob un ohonom yn y DU. Mae angen i wasanaethau hefyd fod yn fforddiadwy gyda phris cystadleuol. Rwy'n arbennig o falch o'r gwaith y mae Ofcom wedi'i wneud eleni i hybu argaeledd a chodi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol. Diolch i'n fframwaith buddsoddi rheoleiddiol, rydym hefyd wedi gweld band eang ffeibr yn cael ei gyflwyno'n gyflym, gan gyrraedd dros hanner cartrefi'r DU ym mis Mawrth 2023. Yn y cyfamser, roedd ein hymrwymiad i'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir wedi golygu ein bod yn teithio 42,000 o filltiroedd i brofi'r ddarpariaeth symudol a sicrhau bod gweithredwyr yn darparu data cywir i wella derbyniad mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd.



**"Rydym yn barod i ddechrau ar y gwaith heriol o weithredu'r Bil Diogelwch Ar-lein, gan reoleiddio'r llwyfannau a'r gwasanaethau sy'n pweru'r gwefannau a'r apiau mwyaf poblogaidd a dylanwadol."**

Yn 2022/23, parhaodd Ofcom i sicrhau bod y DU yn cael ei gwasanaethu gan gyfryngau y gallwn ymddiried ynddynt a'u gwerthfawrogi, gan ddarparu gwybodaeth ac adloniant o'r radd flaenaf sy'n adlewyrchu ein gwlad, a newyddion cywir a diduedd y gallwn ymddiried ynddo. Gwnaethom barhau i ddal y BBC a'r diwydiant ehangach i gyfrif, gan ddiweddaru trwydded weithredu'r BBC ar gyfer yr oes ddigidol a gweithio gyda'r Llywodraeth ar y Bil Cyfryngau a fydd yn cefnogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus i ffynnu yn y blynyddoedd i ddod.

Yn ddiweddarach yn 2023, bydd Ofcom yn cael pwerau newydd drwy'r Bil Diogelwch Ar-lein i sicrhau bywyd mwy diogel ar-lein i bawb, yn enwedig pobl ifanc a phlant. Rydym wedi treulio'r ychydig flynyddoedd diwethaf yn paratoi ar gyfer y dasg bwysig hon – fel y tystia ein hadroddiad ar y flwyddyn gyntaf o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos a gyhoeddwyd fis Hydref diwethaf – felly gallwn fwrw iddi ar ôl i'r Senedd basio deddfau newydd. Ein nod yw sbarduno gwelliant ar ran defnyddwyr ar draws gwasanaethau chwilio a chyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau bod pawb yn gallu parhau i fwynhau'r gwasanaethau maen nhw'n eu mwynhau.

Roedd Ofcom hefyd yn chwarae rhan bwysig yn cefnogi'r economi ehangach drwy sicrhau bod sbectrwm di-wifr ar gael i ddiwydiannau a phobl yr oedd ei angen arnynt. Rydym wedi cryfhau ein gwaith o fonitro'r Post Brenhinol a'r ffordd maent yn darparu'r gwasanaethau post y mae defnyddwyr yn dibynnu arnynt.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Ofcom wedi tyfu wrth i ni baratoi ar gyfer ein dyletswyddau newydd fel rheoleiddiwr. Rydym wedi croesawu pobl o'r diwydiant technoleg, elusennau, darparwyr cyfathrebiadau a'r sector cyhoeddus, gan ychwanegu at dîm sydd eisoes yn dalentog ac sy'n mynd yn fwyfwy amrywiol. Rydym yn ffodus bod gennym ni'r fath angerdd, arbenigedd a sgiliau. O ystyried cwmpas eang ein gwaith, rwy'n credu'n gryf bod Ofcom yn darparu gwerth gwych am arian i ddinasyddion ac i'r cwmnïau sy'n talu ein ffioedd. Ar sail tebyg am debyg, mae ein cyllidebau wedi cael eu pennu mewn termau ariannol ym mhob blwyddyn ond un ers 2015. Rydym wedi amsugno pwysau sylweddol o chwyddiant drwy ymdrechu'n barhaus am arbedion effeithlonrwydd, gan gynnwys costau TG is a llai o ofod swyddfa yn Llundain.

I mi, mae llawenydd mawr gwaith Ofcom – a'r cyfrifoldeb sydd ganddo – yn deillio o'r ffaith ein bod yn helpu i ddiogelu pethau y mae pobl wir yn eu gwerthfawrogi yn eu bywydau. Ein ffonau symudol, ein hoff raglenni teledu, y cyfryngau cymdeithasol sy'n ein cysylltu â'r bobl rydym yn eu caru – dyma hanfodion newydd bywyd. Ond maen nhw hefyd yn bethau sy'n wirioneddol bwysig i ni.

Os yw'r blynyddoedd diwethaf wedi dysgu unrhyw beth i ni, mae cyfathrebu'n bwysig. Rwy'n falch bod modd ymddiried yn Ofcom i gynnal y cysylltiadau hynny rhwng pobl a busnesau ledled y DU. Rwy'n falch o rôl Ofcom yn cynnal y gwasanaethau hyn ledled y DU.

# Ein pwerau a'n dyletswyddau

## Cenhadaeth Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, darlledu cynnwys radio a theledu, gwasanaethau fideo ar-alw, y post a'r sbectrwm radio y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y Deyrnas Unedig i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu diogelu rhag ymarfer niweidiol a rhag cael eu trin yn niweidiol. Lle bo'n briodol, rydym yn hyrwyddo cystadleuaeth, buddsoddi ac arloesi fel sail ar gyfer sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr. Mae Ofcom yn rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos sydd wedi'u sefydlu yn y DU ac rydym ar fin ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU o dan y Bil Diogelwch Ar-lein. Rydym yn awdurdod cyhoeddus annibynnol ac yn atebol i'r Senedd am ein dyletswyddau cyhoeddus.

Rydym yn atebol i'r Senedd Brydeinig a thrwy'r Llysoedd, ac i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Llywodraethau datganoledig. Rydym yn rhoi cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein gwaith ar weithredu darparwr gwasanaeth cyffredinol band eang yn y Deyrnas Unedig) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y Deyrnas Unedig (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

### Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol. Yn ôl Deddf Cyfathrebiadau 2003, ein prif ddyletswydd o ran cyflawni ein swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau'n ymwneud â diogelu defnyddwyr, cyfathrebiadau a chystadleuaeth; mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adran hon. Mae ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yn llywio cyfeiriad ein gwaith, ac yn cynnwys sicrhau:

- bod gan y Deyrnas Unedig amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
- y gwneir y defnydd gorau posibl o'r sbectrwm radio;
- bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o safon yn cael eu darparu gan sefydliadau gwahanol, sy'n apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu ymosodol, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu heb gyfiawnhad;
- bod y BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiaeth â safonau cynnwys priodol, ei berfformiad yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol;
- bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y Deyrnas Unedig; a
- bod seilwaith digidol ar draws y DU yn gryf, yn ddiogel ac yn gadarn.

**"Lle bo'n briodol, rydym yn hyrwyddo cystadleuaeth fel sail ar gyfer sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr"**

Ym mis Tachwedd 2020, daeth rheolau newydd i rym a oedd yn rhoi'r cyfrifoldeb i Ofcom dros sicrhau bod llwyfannau rhannu fideos sydd wedi'u sefydlu yn y DU yn cymryd camau priodol i ddiogelu defnyddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny rhag y perygl o wylio cynnwys niweidiol. Bydd Ofcom yn dod yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein ehangach ar ôl i'r Bil Diogelwch Ar-lein – sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd – gael ei gymeradwyo. Bydd y Bil Diogelwch Ar-lein, ymysg pethau eraill, yn cyflwyno dyletswydd newydd ar Ofcom i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag niwed a achosir gan gynnwys ar wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddylunio systemau a phrosesau priodol i leihau'r risg o niwed o'r fath.

Ar 1 Hydref 2022, dechreuodd y drefn reoleiddio newydd a sefydlwyd gan y Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021 yn ffurfiol. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswyddau diogelwch newydd cryfach ar ddarparwyr telegyfathrebiadau, gyda phwerau newydd i'r Llywodraeth nodi gofynion diogelwch. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldebau newydd ar Ofcom i sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio.

Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo'r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol ynghylch gwasanaethau post a thelegyfathrebiadau, yn wahanol i'w bwerau gyda theledu a radio. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau amgen o ddatrys anghydfod yr ydym wedi'u cymeradwyo.

## Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau i wneud y canlynol:

- gorfodi'r gwaharddiadau ar gytundebau gwrth-gystadleuol a chamddefnyddio safle goruchafol, a ddiffinnir yn Neddf Cystadleuaeth 1998; ac
- ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Byddwn yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau cystadleuaeth neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.

## Ein gwerthoedd

Er mwyn sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb, rydym yn: hyrwyddo dewis, sicrhau safonau ac atal niwed. Rhagoriaeth, cydweithio, grymuso, hyblygrwydd a pharch yw'r geiriau sy'n egluro orau sut rydym yn gweithio a sut rydym yn gwneud pethau yn Ofcom.

Mae ein gwerthoedd yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn trin ein gilydd, sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd, sut rydym yn uniaethu â'n rhanddeiliaid, sut rydym yn barnu perfformiad a sut rydym yn cydweithio i gyflawni ein blaenoriaethau. Mae ein gwerthoedd yn ganolog i'n heffeithiolrwydd, ac yn cefnogi'r sefydliad rydym eisiau bod.


Rhagoriaeth


Hyblygrwydd


Cydweithio


Parch


Grymuso

Ofcom
Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb



ADRAN A

# PERFFORMIAD

Mae'r adran hon yn egluro sut rydym wedi perfformio yn erbyn yr amcanion sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Gwaith Ofcom. Rydym yn edrych ar effaith ein gwaith ar ran pobl a busnesau yn y Deyrnas Unedig.

# Uchafbwyntiau 2022/23

## Buddsoddi mewn rhwydweithiau cadarn a diogel

- **Band eang gwell** – mae rheoliadau newydd, a osodwyd ym mis Mawrth 2021 ac sydd wedi'u dylunio i gymell a chefnogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr llawn newydd, yn cael effaith gadarnhaol. Mae rhwydweithiau ffeibr llawn yn ehangu'n gyflym, gyda dros 50% o aelwydydd yn y DU ym mis Mawrth yn cael eu pasio gan o leiaf un darparwr, sy'n gyfystyr â thwf o 17 pwynt canran mewn ychydig dros flwyddyn – a chynnydd o bron i saith gwaith o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl.
- **Dyfodol gwasanaethau symudol** – mae'r galw am wasanaethau symudol yn dal i dyfu'n gyflym. Mae angen buddsoddiad i gefnogi rhwydweithiau. Er mwyn annog buddsoddiad, roeddem wedi egluro ein dull gweithredu ar gyfer y farchnad symudol yn y dyfodol a dyrannu tonnau awyr. Er mwyn helpu pobl i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch pa ddarparwr symudol i'w ddefnyddio, rydym yn datblygu gwybodaeth well am ansawdd rhwydweithiau.
- **Rhwydweithiau diogel a saff** – bydd dyletswyddau newydd a gyflwynwyd o dan Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021 yn ein helpu i ddiogelu pobl gyda rhwydweithiau diogel. Rydym yn gweithio'n agosach nag erioed gyda'r diwydiant i gefnogi diogelwch a chadernid. Gwnaethom barhau i helpu i roi strategaeth Llywodraeth y DU ar amrywiaethu gwerthwyr ar waith, gyda'r nod o sicrhau marchnad gyflenwi telegyfathrebu gystadleuol, arloesol, diogel a chadarn.

## Cysylltu pawb

- **Post fforddiadwy a dibynadwy** – yn dilyn adolygiad o ddyfodol rheoleiddio'r post, bydd defnyddwyr y post yn dal i allu cael gafael ar y gwasanaethau syml, fforddiadwy a dibynadwy. Mae rheolau newydd yn golygu mwy o amddiffyniadau i gwsmeriaid parseli hefyd.
- **Darpariaeth symudol gyffredin** – mae cael signal symudol da yn hanfodol er mwyn i bobl gadw mewn cysylltiad, ac i fyw a gweithio wrth symud. Gwnaethom oruchwylio cynnydd gweithredwyr symudol o ran adeiladu Rhwydwaith Gwledig a Rennir i wella derbyniad mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd, gan gynnwys teithio 42,000 o filltiroedd i brofi darpariaeth a sicrhau bod gweithredwyr yn darparu data cywir.
- **Telegyfathrebiadau cyffredinol** rydym yn parhau i weithredu'r cynllun Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang sy'n golygu bod band eang teilwng ar gael i filoedd yn rhagor o gartrefi erbyn hyn. Gwnaethom benderfyniadau i ddiogelu blychau ffôn lle mae eu hangen fwyaf o hyd ac i ddileu'r gofynion ynghylch darparu gwasanaethau peiriannau ffacs.

# Tegwch i gwsmeriaid

- **Ffôn a band eang fforddiadwy** – gyda chostau byw yn cynyddu, roeddem wedi pwyso ar fwy o ddarparwyr i gynnig tariffau cymdeithasol, ac wedi annog y rheini sy'n gwneud hynny i'w hyrwyddo'n fwy effeithiol. Mae'r nifer sy'n manteisio arnynt wedi cynyddu'n sylweddol, ond gallai miliynau mwy o bobl elwa o hyd.
- **Diogelu defnyddwyr** - Dylai cwsmeriaid gael yr wybodaeth gywir, ar yr adeg iawn, am eu contractau - gan eu helpu i wneud dewisiadau gwell, gan felly, yn aml, arbed arian o ganlyniad i hynny. Rydym yn monitro cydymffurfiad â'n rheolau'n gyson, gan agor ymchwiliadau lle rydym yn credu bod darparwyr yn methu.
- **Mynd i'r afael â sgamiau** – Mae sgamiau'n achosi niwed ariannol ac emosiynol i filiynau o bobl, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed. Mae ein hymyriad yn golygu bod rhaid i ddarparwyr wneud mwy i helpu i atal rhifau ffôn rhag cael eu camddefnyddio. Roeddem hefyd wedi codi ymwybyddiaeth o alwadau niwsans drwy gyfryngau cymdeithasol a sianeli eraill.

# Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach

- **Rhyddhau sbectrwm** – Sbectrwm radio, adnodd cenedlaethol y mae llawer iawn o alw amdano, yw'r seilwaith di-wifr sy'n cefnogi bywydau modern, busnesau a'r economi ddigidol. Fe wnaethom nodi sbectrwm newydd sy'n gallu cefnogi gwasanaethau arloesol sy'n tyfu gan ddefnyddio dyfeisiau symudol, dronau a lloerennau, ac edrych ar sut gellid ei ryddhau i sefydliadau sydd eisiau cynnig y gwasanaethau hyn.
- **Cymorth Gemau'r Gymanwlad** – Buom yn gweithio'n agos gyda phwyllgor trefnu Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 i gynnal digwyddiad hynod lwyddiannus. Fe wnaeth ein tîm sbectrwm gyhoeddi trwyddedau sbectrwm blaenoriaeth ar gyfer amrywiaeth o offer di-wifr hanfodol fel meicroffonau, camerâu, monitorau yn y glust a walkie-talkies, gan roi rhagor o brofiad gweithredol i ni y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol mawr tebyg yn y dyfodol.
- **Strategaeth gofod** – Bydd pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a theithwyr ar awyrennau a llongau yn cael band eang gwell, ar ôl i ni gyhoeddi mwy o donnau awyr ar gyfer gwasanaethau lloeren, gan ddyblu'r capasiti sydd ar gael.

# Cefnogi a datblygu'r cyfryngau yn y DU

- **Sicrhau amrywiaeth ym maes darlledu** – Dylai'r sector darlledu fod mor amrywiol â'r cynulleidfaoedd y mae'n eu gwasanaethu. Rydym wedi ehangu ehangder y data rydym yn ei gasglu ar weithluoedd darlledwyr i helpu i hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad, ar ôl i ni nodi rhagor o welliannau yr oedd angen i'r sector eu gwneud. Fe wnaethom gyhoeddi fframwaith a chanllawiau newydd ar sut rydym yn casglu ac yn defnyddio'r data amrywiaeth hwn.
- **Sicrhau bod rheoleiddio yn addas i'r diben** - Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i sicrhau bod rheoleiddio'n cyd-fynd â newidiadau yn y sector ac ymddygiad cynulleidfaoedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth i wneud yn siŵr bod ei system reoleiddio newydd arfaethedig, o dan y Bil Cyfryngau, yn gweithio i gynulleidfaoedd, ac rydym eisoes wedi ehangu ein gwaith yn edrych ar effeithiau technolegau newydd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg.
- **Rheoleiddio'r BBC** – Fe wnaethom gwblhau adolygiad o sut rydym yn rheoleiddio'r BBC, a sut mae'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd, cystadleuwyr ac achwynwyr. Arweiniodd yr adolygiad hwn at Drwydded Weithredu wedi'i diweddaru ar gyfer y BBC. Yn ein hadroddiad blynyddol ar y BBC, gwelsom er ei fod yn parhau i gyflawni ei gylch gwaith, mae cynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol o ddefnyddio ei wasanaethau ac yn llai bodlon arno'n gyffredinol

# Gwasanaethu a diogelu cynulleidfaoedd

- **Cynnal safonau darlledu** – Rydym wedi parhau i osod a gorfodi safonau darlledu, i ddiogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol ar deledu a radio, ac i ystyried pwysigrwydd hawl darlledwyr i ryddid mynegiant. Eleni, gwnaethom asesu 36,908 o gwynion, cwblhau 78 o ymchwiliadau a chanfod 70 achos a oedd yn torri ein rheolau darlledu.
- **Gwasanaethau radio digidol newydd** – Eleni rydym wedi parhau i drwyddedu gwasanaethau radio digidol DAB newydd ar raddfa fach ledled y DU. Mae ein rhaglen drwyddedu yn y maes hwn wedi arwain at 177 o orsafoedd radio digidol newydd ar yr awyr ledled y DU, gan roi mynediad i wrandawyr at amrywiaeth o gynnwys lleol ac arbenigol sy'n diwallu eu hanghenion.
- **Sicrhau bod cynnwys yn hygyrch i bawb** – Rydym wedi parhau i orfodi gofynion sylfaenol ar gyfer gwasanaethau mynediad fel isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion. Rydym wedi canfod fod Channel 4 wedi torri amodau ei drwydded darlledu yn dilyn cyfnod segur estynedig yn ei wasanaethau mynediad yn 2021. Nid oedd yn bodloni'r gofyniad i isdeitlo 90% o'i oriau rhaglenni ar Freesat ac roedd wedi methu cyfathrebu â chynulleidfaoedd am y peth. Fe wnaeth adolygiad ar wahân ganfod y dylai sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau darlledu adolygu'r cynlluniau wrth gefn sydd ganddynt ar waith ar gyfer methiannau trosglwyddo. Fe wnaethom hefyd lansio adolygiad o'n canllawiau ar gyfer hygyrchedd darlledu, gan gynnwys canllawiau penodol ar wasanaethau ar-alw.

# Sefydlu rheoleiddio diogelwch ar-lein

- **Paratoi ar gyfer pwerau newydd** – Rydym yn nodi map ar gyfer rheoleiddio, gan gynnwys yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gan gwmnïau rheoledig a'r hyn y byddwn yn ei wneud yn y 100 diwrnod cyntaf ar ôl i'n pwerau diogelwch ar-lein gael eu rhoi. Gwnaethom gyhoeddi dwy alwad am dystiolaeth, un yn canolbwyntio ar risgiau cynnwys anghyfreithlon a mesurau lliniaru a gofynion tryloywder a'r llall ar risgiau i blant a sut gellir eu lleihau.
- **Ehangu ein harbenigedd** – Cyn ymgymryd â'n pwerau newydd, fe wnaethom barhau i ddatblygu ein harbenigedd mewn technolegau digidol, dadansoddi data a seiberddiogelwch, gyda swyddi newydd gan gwmnïau technoleg mawr, y byd academaidd a'r byd polisi. Fe wnaethom dyfu ein Canolfan Data ac Arloesi a'n canolfan ym Manceinion. Gwnaethom hefyd gyhoeddi arweinydd newydd ar gyfer ein Grŵp Diogelwch Ar-lein, cyn weithredwr Google, Gill Whitehead.
- **Llwyfannau rhannu fideos** – Fe wnaethom ddefnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth statudol i gyfrannu at adroddiad ar yr hyn mae llwyfannau rhannu fideos yn ei wneud i ddiogelu eu defnyddwyr, gan ddod o hyd i lawer o lwyfannau sy'n barod i gael eu rheoleiddio. Mae'r adroddiad yn nodi ein prif ganfyddiadau o'r flwyddyn gyntaf o reoleiddio. Rydym wedi datblygu gwybodaeth sylfaenol gynhwysfawr am y sector llwyfannau rhannu fideos drwy ein rhaglen o waith ymchwil, ymgysylltu goruchwyliol a chasglu gwybodaeth. Er bod gan bob llwyfan fesurau diogelwch ar waith, mae angen mesurau cadarnach i atal plant rhag cael mynediad at bornograffi.



## Cynnydd i gyflawni ein Cynllun Gwaith

Mae'r adran hon yn egluro'r hyn rydym wedi'i gyflawni yn ein meysydd blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn, a'r effaith ar bobl a busnesau.

Rydym yn cyhoeddi Cynllun Gwaith Ofcom bob mis Mawrth. Mae r Cynllun hwn yn egluro'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni dros y flwyddyn ariannol i ddod, er mwyn sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb ar draws y Deyrnas Unedig a'i gwledydd.

Roedd y meysydd gwaith a bennwyd ar gyfer 2022/23 yn ystyried yr hyn a oedd yn digwydd yn y farchnad gyfathrebu ac anghenion newidiol pobl a busnesau, yn erbyn cefndir o sectorau deinamig sy'n parhau i fuddsoddi ac arloesi, yn ogystal â lefelau uchel o chwyddiant. Roedd ein cynllun yn cydnabod y ddibyniaeth gynyddol ar rwydweithiau cyfathrebu'r DU o ran y ffordd rydym yn byw, yn gweithio, yn siopa ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn ymgynghori ar ein cynllun bob blwyddyn i wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu'r adborth a gawn gan bartïon sydd â diddordeb, yn ogystal â chyflawni dyletswyddau Ofcom. Mae'r cynllun gwaith hefyd yn cynnwys ein rhaglen waith, sy'n egluro prif weithgareddau'r flwyddyn.

***Nodiadau i'r darllenydd:*** *Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Drwy'r testun, mae "eleni" yn cyfeirio at y flwyddyn ariannol honno. Yn yr un modd, oni nodir hynny, mae misoedd yn cyfeirio at y mis perthnasol yn y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, mae "Awst" yn golygu Awst 2022; mae "Ionawr" yn golygu Ionawr 2023*

# Buddsoddi mewn rhwydweithiau cadarn a diogel

**Rhaid i rwydweithiau ffôn a band eang y DU barhau i wella er mwyn diwallu anghenion y DU yn y dyfodol. Mae rheolau Ofcom yn darparu'r hyblygrwydd a'r sefydlogrwydd ar gyfer buddsoddi er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd.**

### Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Mae band eang gwell yn cyrraedd mwy o bobl. Mae cyfran y cartrefi sy'n gallu cael rhyngrwyd ffeibr-llawn gwibgyswllt wedi codi eleni o tua thraean i dros hanner. Ym mis Mawrth, gall tua 14.8m o aelwydydd yn y DU gael mynediad at o leiaf un rhwydwaith ffeibr llawn, cynnydd o dros 5m mewn adeiladau mewn blwyddyn a chynnydd o saith gwaith o bum mlynedd yn ôl.
- Mae marchnadoedd symudol wedi gweld buddsoddiad, cystadleuaeth ac arloesedd – sy'n golygu bod gan gwsmeriaid ddewis eang o wasanaethau, am brisiau sy'n cymharu'n dda â gwledydd eraill. Mae ein hadolygiad o'r sector hwn yn golygu y gallwn ymateb yn gyflym i gynnal y manteision hyn mewn marchnad sy'n newid yn gyflym.
- Rydym yn defnyddio pwerau newydd a gyflwynwyd o dan y Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021 i sicrhau bod cwmnïau ffôn a band eang yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a chadernid eu rhwydweithiau.

### Pam mae hyn yn bwysig

- Mae pobl yn dibynnu ar rwydweithiau cyfathrebu i fyw, gweithio, siopa a defnyddio gwasanaethau cyhoeddus – o alwadau fideo i weithio o bell, gemau ar-lein, bancio a gofal iechyd. Mae cartref cyffredin y DU bellach yn defnyddio bron i chwe terabeit o ddata bob blwyddyn. Mae angen cysylltiadau symudol a band eang cyflym a fforddiadwy arnom i ehangu i bob rhan o'r wlad.
- Mae'r genhedlaeth newydd o rwydweithiau band eang sy'n gallu delio â gigabits hyd at 30 gwaith yn gyflymach – ac yn llawer mwy dibynadwy – na'r llinellau copr hŷn maen nhw'n eu disodli. Nid yn unig mae rhwydweithiau symudol 5G yn gyflymach na rhai'r cenedlaethau blaenorol, ond maent hefyd yn cynnig gwell darpariaeth a chapasiti, gan greu'r potensial ar gyfer gwasanaethau newydd ac arloesol.
- Gan ein bod yn dibynnu ar y rhwydweithiau hyn, rhaid iddynt fod yn gryf, yn ddiogel ac yn gadarn yn erbyn cyfnodau segur ac ymosodiadau seiber. Nid yw disgwyliadau pobl o ansawdd y gwasanaeth gan y rhwydweithiau hyn erioed wedi bod yn uwch.



**"Gall tua 14.8m o aelwydydd yn y DU gael mynediad at o leiaf un rhwydwaith ffeibr llawn, cynnydd o dros 5m mewn adeiladau mewn blwyddyn a chynnydd o saith gwaith o bum mlynedd yn ôl"**

# 70%

**Erbyn mis Medi 2022, roedd gan 70% o gartrefi fynediad at fand eang sy'n gallu delio â gigabits, o'i gymharu â 47% (13.7m) yn 2021.**

Mae rhwydweithiau ffeibr llawn yn ehangu'n gyflym, gyda dros 50%/14.8m mewn aelwydydd yn y DU ym mis Mawrth yn cael eu pasio gan o leiaf un darparwr, twf o 17 pwynt canran a 5.2m o adeiladau ychwanegol mewn ychydig dros flwyddyn – a chynnydd o bron i saith gwaith o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl.



# Ein gwaith eleni

## Band eang cyflymach a mwy dibynadwy

Ym mis Mawrth 2021, ar ddiwedd ein Hadolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Cyfanwerthol, roeddem wedi rhoi rheoliadau newydd ar waith i helpu i siapio dyfodol rhwydwaith sefydlog y DU. Bydd y rheolau hyn yn aros yn eu lle tan fis Mawrth 2026. Hyd yma, maent wedi llwyddo i hyrwyddo buddsoddiad mewn band eang gigabit.

Mae hyn yn cael ei drosi'n rhwydweithiau mwy a chyflymach. Erbyn mis Medi 2022, roedd gan 70% o gartrefi fynediad at fand eang sy'n gallu delio â gigabits, o'i gymharu â 47% (13.7m) yn 2021. Mae rhwydweithiau ffeibr llawn yn ehangu'n gyflym, gyda dros 50%/14.8m mewn aelwydydd yn y DU ym mis Mawrth yn cael eu pasio gan o leiaf un darparwr, twf o 17 pwynt canran a 5.2m o adeiladau ychwanegol mewn ychydig dros flwyddyn - a chynnydd o bron i saith gwaith o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl.

Mae hyn yn cael ei gyflawni gan gyfuniad o weithredwyr mwy (Openreach a Virgin Media O2) a gefnogir gan nifer o ddarparwyr mwy newydd ledled y DU. Mae'r cwmnïau llai hyn yn dyblu eu hôl troed ar y cyd bob blwyddyn, a gyda'i gilydd maent yn disgwyl cyrraedd 11.5m o gartrefi erbyn diwedd 2023.

Wrth i'r farchnad ddatblygu, mae gennym rôl bwysig o ran sicrhau bod cystadleuaeth yn cael ei chyflwyno'n deg. Rydym yn parhau i fonitro cydymffurfiad ac effeithiolrwydd yr ymrwymiadau a wnaed gan BT Group, ac ymddygiad BT Group a'i gangen rhwydwaith, Openreach. Eleni, fe wnaethom edrych ar gynnig prisio ffeibr llawn newydd gan Openreach (a elwir yn Equinox 2). Ar ôl cyfnod estynedig o adolygu, ym mis Mai 2023 gwelsom nad oedd wedi codi unrhyw bryderon ynghylch cystadleuaeth a oedd yn mynnu ein bod yn ymyrryd, a byddwn yn parhau i fonitro'r farchnad telegyfathrebiadau sefydlog.

Ar wahân, gwnaethom ehangu ein gwaith sy'n ymwneud â'r wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr am eu gwasanaeth band eang. O ran ansawdd gwasanaeth, rydym nawr yn mesur mwy o'r ffactorau sy'n gallu effeithio ar brofiadau defnyddwyr band eang. Roeddem hefyd wedi edrych ar ba wybodaeth ychwanegol sy'n gallu cefnogi dewis, buddsoddiad ac ansawdd yn y farchnad. Er enghraifft, gwnaethom gomisiynu ymchwil ar ddealltwriaeth pobl o dermau band eang, a chynnig canllawiau newydd i hyrwyddo iaith glir a chyson o ran sut mae darparwyr yn disgrifio gwahanol fathau o gysylltiad.

## Marchnadoedd digidol

**Bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i gwblhau rhwydweithiau'r dyfodol. Wrth i fwy o gartrefi a swyddfeydd gael eu cysylltu, rydym yn parhau â'n gwaith ehangach i hyrwyddo buddsoddiad a gwella gwasanaethau rhyngrwyd i bawb sy'n defnyddio rhwydweithiau sefydlog a symudol:**

- **Niwtraliaeth y rhyngrwyd:** Pobl ddylai reoli'r hyn maen nhw'n ei weld a'i wneud ar-lein – nid y darparwr band eang sy'n eu cysylltu â'r we. Ym mis Hydref 2022, fe wnaethom gynnig canllawiau newydd i gwmnïau band eang a symudol i weithredu'r deddfau 'niwtraliaeth y rhyngrwyd' hyn. Roeddem wedi ymgynghori ar fwy o hyblygrwydd i ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd reoli eu rhwydweithiau a datblygu cynnyrch arloesol ar gyfer defnyddwyr a phobl sy'n creu cynnwys, gan ddiogelu hawliau defnyddwyr i gael mynediad at y rhyngrwyd agored ar yr un pryd.
- **Astudiaeth o'r farchnad cwmwl:** Mae angen i Ofcom gadw i fyny â datblygiadau mewn marchnadoedd digidol, fel technolegau datblygol neu newidiadau mewn modelau busnes a chadwyni cyflenwi. Rydym wedi dechrau rhaglen waith i archwilio'r marchnadoedd hyn a chanfod unrhyw bryderon o ran cystadleuaeth, gan ddechrau ym mis Hydref 2022 gydag astudiaeth marchnad blwyddyn o hyd i wasanaethau seilwaith cwmwl. Y ddau brif ddarparwr yn y farchnad hon yw Amazon a Microsoft. Google yw eu cystadleuydd agosaf. Mae cyfrifiadura cwmwl wedi dod yn allweddol i lawer o fusnesau ar draws yr economi – gan gynnwys cwmnïau telegyfathrebiadau, darlledwyr a sefydliadau yn y sector cyhoeddus – ac mae wedi trawsnewid y ffordd maen nhw'n darparu'r gwasanaethau rydym i gyd yn dibynnu arnyn nhw bob dydd. Mae'n defnyddio canolfannau data ledled y byd i ddarparu mynediad o bell at wasanaethau fel meddalwedd, storio a rhwydweithio. Ym mis Ebrill 2023, roeddem yn cynnig cyfeirio'r farchnad at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer ymchwiliad pellach. Roeddem hefyd wedi nodi cynlluniau ar gyfer rhaglen waith ehangach i archwilio marchnadoedd digidol eraill – gan gynnwys apiau cyfathrebu personol ar-lein, fel WhatsApp, FaceTime a Zoom, a setiau teledu clyfar a seinyddion.

## Dyfodol gwasanaethau symudol

Disgwylir i'r galw am wasanaethau symudol barhau i dyfu'n gyflym wrth i fwy o ddefnydd gael ei wneud o wasanaethau sy'n llyncu data. Ym mis Rhagfyr, roeddem wedi nodi safbwyntiau ar sut gallai marchnadoedd symudol ddatblygu dros y deng mlynedd nesaf; sut gallai fod angen i rwydweithiau esblygu; a'r goblygiadau posibl i sbectrwm radio, yr adnodd cyfyngedig sydd ei angen ar ddyfeisiau a rhwydweithiau di-wifr i weithredu ledled y DU.

Mae angen i bobl wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch pa ddarparwr symudol i'w ddefnyddio, sydd yn ei dro yn annog cwmnïau i wella. I gefnogi hyn, rydym wedi dechrau datblygu gwell gwybodaeth am ansawdd rhwydweithiau. Rydym hefyd yn dadansoddi data ar lefel cwsmeriaid i fesur perfformiad y farchnad, gan gynnwys tueddiadau o ran prisiau.

Er mwyn annog buddsoddiad, roeddem wedi egluro ein dull gweithredu ar gyfer y farchnad symudol yn y dyfodol a dyrannu tonnau awyr. Mae hynny'n cynnwys ymrwymiad i nodi'n glir sut mae unrhyw newidiadau a wnawn i reoleiddio yn y dyfodol yn cael effaith ar yr angen am fuddsoddiad. Rydym yn disgwyl y gallai daliadau sbectrwm symudol presennol, ynghyd â thonnau awyr ychwanegol y bwriedir eu rhyddhau, ddiwallu'r galw yn y dyfodol tan 2030 a thu hwnt – gyda chymorth gwelliannau technoleg a mwy o safleoedd symudol.



## Cadw rhwydweithiau'n ddiogel

Ym mis Hydref, ysgwyddodd Ofcom ddyletswyddau newydd a gyflwynwyd o dan Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021 i sicrhau bod rhwydweithiau telegyfathrebiadau'r DU yn ddiogel.

Fe wnaethom gyhoeddi canllawiau ar sut byddwn yn cyflawni ein rôl newydd, a'r math o ddigwyddiadau y byddem yn disgwyl i ddarparwyr roi gwybod i ni amdanynt. Fe wnaethom hefyd ddiweddaru ein canllawiau yn 2017 ar ofynion diogelwch a chadernid i adlewyrchu'r rheolau newydd.

Rydym yn gweithio'n agosach gyda'r diwydiant i gefnogi diogelwch a chadernid. Ac rydym yn parhau i weithredu cynllun profion treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth (TBEST), i asesu pa mor dda mae gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn rheoli risgiau i'w diogelwch.

## Amrywio telegyfathrebiadau

Fe wnaethom barhau i helpu i weithredu strategaeth Llywodraeth y DU i gynyddu nifer y gweithgynhyrchwyr yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer gwasanaethau symudol 5G. Pwrpas yr amrywiaethu yw sicrhau bod y farchnad cyflenwi telegyfathrebiadau yn gystadleuol, yn arloesol, yn ddiogel ac yn gadarn.

Buom yn gweithio gyda gweithredwyr a gwerthwyr rhwydweithiau telegyfathrebu i gymryd rhan yn ein menter Labordai SONIC. Mae'r rhaglen hon, sy'n gydweithrediad rhwng Digital Catapult – awdurdod y DU ar dechnoleg ddigidol arloesol – ac Ofcom, sydd wedi bod ar waith ers 2021, yn profi pa mor dda y gall cynnyrch rhwydwaith amgen weithredu ac integreiddio.

Gwnaethom hefyd barhau i gymryd rhan ym Mwrdd Rhaglen Lab Telegyfathrebiadau'r DU (UKTL), a sefydlwyd i gefnogi amcanion y Llywodraeth. Ochr yn ochr â hynny, rydym wedi cymryd golwg fanylach ar ddiogelwch rhwydweithiau drwy ymuno â'r Gynghrair Rhwydwaith Mynediad Radio Agored (OpenRAN), cymuned fyd-eang o ddiwydiant, ymchwilwyr ac academyddion sy'n ceisio gwneud rhwydweithiau'n fwy deallus, agored a chydnaws.

## Diogelwch telagyfathrebiadau

Ers 1 Hydref, mae gan Ofcom bwerau newydd i fynd i mewn i eiddo darparwyr i wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch a gyflwynwyd gan y Ddeddf Diogelwch Telegyfathrebiadau. Mae'n ofynnol i ni adrodd sawl gwaith yr aethpwyd i mewn i adeiladau bob blwyddyn. Yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth, ni wnaethom arfer y pwerau mynediad newydd hyn.

# Cysylltu pawb

**Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod pobl a busnesau'n gallu cael gafael ar y gwasanaethau band eang, symudol, llinell dir a phost sydd eu hangen arnyn nhw, lle bynnag maen nhw'n byw ac yn gweithio.**

### Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Gwnaethom oruchwylio cynnydd gweithredwyr symudol o ran adeiladu Rhwydwaith Gwledig a Rennir i wella derbyniad mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd. Ac fe wnaethom deithio 42,000 o filltiroedd i brofi'r ddarpariaeth a sicrhau bod gweithredwyr yn darparu data cywir.
- Rydym yn cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer rheoleiddio'r post dros y pum mlynedd nesaf. Nod ein penderfyniadau oedd cefnogi'r gwasanaeth post cyffredinol, hyrwyddo cystadleuaeth yn y farchnad a gwella gwasanaethau i ddefnyddwyr post – gan gynnwys mwy o amddiffyniadau i gwsmeriaid parseli. Gwnaethom archwilio a yw elfennau o'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol telegyfathrebiadau a'r seilwaith telegyfathrebiadau yn diwallu anghenion pobl. Roedd hyn yn ein helpu i wneud penderfyniadau ar wasanaethau fel peiriannau ffacs a blychau ffôn.
- Gwnaethom fonitro sut gallai datblygiadau technolegol mewn gwasanaethau telegyfathrebiadau – fel diffodd gwasanaethau symudol 2G a 3G a'r rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus – effeithio ar ddefnyddwyr ffonau, a gweithio gyda darparwyr i wneud yn siŵr bod mesurau diogelu ar waith.

**"Mae'r pedwar rhwydwaith symudol bellach yn darparu signal 4G da dan do i 92-95% o adeiladau'r DU."**

### Pam mae hyn yn bwysig

- Mae cael signal symudol da yn hanfodol er mwyn i bobl gadw mewn cysylltiad, ac i fyw a gweithio wrth symud. Mae'r pedwar rhwydwaith symudol bellach yn darparu signal 4G da dan do i 92-95% o adeiladau'r DU. Ond mae'n anoddach cyrraedd rhai ardaloedd, felly roeddem wedi adrodd ar gynnydd gweithredwyr o ran cyflawni ymrwymiadau i wella derbyniad gwledig.
- Bydd ein rheoliadau post newydd yn caniatáu i gwmnïau llythyrau a pharseli fuddsoddi, arloesi a chystadlu ar yr un lefel. Dylai pobl sy'n anfon ac yn derbyn parseli gael eu trin yn decach gan gwmnïau danfon, o dan fesurau diogelu newydd a gyflwynwyd gennym ym mis Gorffennaf.
- Dylai gwasanaethau telegyfathrebiadau ddiwallu anghenion cwsmeriaid ar hyn o bryd ac wrth i ddatblygiadau gael eu cyflwyno yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl sy'n agored i niwed neu nad ydynt yn gallu cael gafael ar bob math o wasanaethau cyfathrebu.



## Cefnogi'r gwasanaeth post

Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw gwasanaeth post dibynadwy i bobl sy'n anfon ac yn derbyn llythyrau a pharseli. Pan wnaethom adolygu'r farchnad eleni, fe wnaethom gynnal rheolau sydd wedi'u dylunio i gefnogi'r Gwasanaeth Post Cyffredinol, yn ogystal â mesurau diogelu pwysig yn ymwneud â phrisiau. Er enghraifft, dim ond yn unol â CPI rhwng 2021/22 a 2022/23 y caniatawyd i brisiau llythyrau safonol Ail Ddosbarth godi.

O dan y Gwasanaeth Post Cyffredinol, rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon llythyrau chwe diwrnod yr wythnos - a pharseli bum niwrnod yr wythnos - i bob cyfeiriad yn y DU, am bris unffurf. Gwaith Ofcom yw sicrhau'r gwasanaeth hwnnw, sy'n golygu cydbwyso anghenion defnyddwyr post â'r rhyddid sy'n ofynnol gan y Post Brenhinol i gystadlu'n effeithiol yn y farchnad.

Ym mis Tachwedd, canfu ein hadroddiad blynyddol ar y farchnad fod y Post Brenhinol yn wynebu amrywiaeth o heriau. Mae'r rhain yn cynnwys gostyngiadau parhaus yn nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon, sy'n cael eu cyflymu gan bandemig Covid-19; anghydfodau gweithwyr sy'n arwain at weithredu diwydiannol; problemau sy'n lleihau ei gostau; ac ansicrwydd economaidd ehangach. Mae'r cwmni'n disgwyl parhau i wneud colledion tan 2024-25, ac mae wedi gofyn i'r Llywodraeth leihau ei gofyniad danfon llythyrau o chwech i bum diwrnod yr wythnos. Byddai hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth i ddiwygio rhwymedigaeth y Post Brenhinol i ddarparu'r Gwasanaeth Post Cyffredinol.



I gefnogi'r gwasanaeth yn wyneb y risgiau hyn, mae Ofcom wedi cymryd sawl cam eleni. Yn gyntaf, rydym wedi cryfhau ein gwaith o fonitro'r Post Brenhinol. Ym mis Chwefror, roeddem wedi gosod rheolau newydd sy'n mynnu bod y cwmni'n darparu rhagolygon ariannol pum mlynedd i ni, ac yn adrodd i ni bob blwyddyn ar sut mae'n ceisio bod yn fwy effeithlon. Rhaid i'r Post Brenhinol foderneiddio i gynnal y gwasanaeth cyffredinol, a bydd y rheolau newydd yn cynyddu ein gallu i ganfod risgiau iddo.

Ym mis Gorffennaf, gwnaethom gwblhau adolygiad eang o'r farchnad bost a rhoi rheolau ar waith a fydd yn berthnasol am y pum mlynedd nesaf, tan fis Mawrth 2027. Rydym yn parhau i roi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar y Post Brenhinol i osod prisiau ac arloesi. Ond er mwyn sicrhau bod prisiau'n fforddiadwy, roeddem wedi cadw'r capiau prisiau presennol ar lythyrau Ail Ddosbarth a pharseli ysgafnach.

Roedd ein penderfyniadau hefyd yn adlewyrchu pwysigrwydd enfawr parseli. Mae dros 10 miliwn yn cael eu danfon, ar gyfartaledd, bob dydd yn y DU. Ond canfuom fod tua dwy ran o dair o gwsmeriaid yn cael problemau gyda danfon. Rydym wedi cyflwyno canllawiau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni parseli dynhau ei brosesau delio â chwynion. Roeddem hefyd yn mynnu bod cwmnïau parseli yn llunio polisïau clir ac effeithiol ar gyfer trin cwsmeriaid anabl yn deg.

Hefyd eleni, gwnaethom gwblhau ymchwiliad i fethiant y Post Brenhinol yn ystod 2021-22 i gyrraedd rhai o'r targedau a osodwyd gennym ar gyfer pa mor gyflym y mae'n dosbarthu post. Fe wnaethom benderfynu peidio â chymryd camau gorfodi yn erbyn y cwmni y tro hwn, gan gydnabod effaith pandemig Covid-19.


Ac wrth i bobl gael trafferth yn gyffredinol gyda chostau aelwydydd, fe wnaethom ddechrau gweithio i asesu fforddiadwyedd gwasanaethau post, ac i adolygu'r rheolau prisio rydym yn eu gosod ar gyfer y farchnad ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl cloi ein hadolygiad yn ddiweddarach eleni.

## Gwella darpariaeth symudol

Eleni, gwnaethom adrodd ar gynnydd rhwydweithiau symudol o ran cyflawni eu hymrwymiadau o dan gytundeb y Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Mae EE, O2, Three a Vodafone wedi ymrwymo i wella derbyniad, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Bydd yn mynd â darpariaeth 4G gan o leiaf un gweithredwr i 95% o ardal ddaearyddol y DU erbyn 2025, i fyny o 92% o'r ddarpariaeth symudol (gan o leiaf un gweithredwr) heddiw. Canfu ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2022 eu bod wedi adeiladu 150 o safleoedd symudol newydd, i fodloni ymrwymiadau darpariaeth y Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Byddwn yn asesu a ydynt yn bodloni hynny yn ystod haf 2024.

Er mwyn gwirio darpariaeth symudol yn ehangach, fe wnaethom barhau i gynnal 'profion gyrru'. Gwnaethom gymryd 2 biliwn o fesuriadau o gryfder signal, gan deithio dros 42,000 o filltiroedd, i sicrhau bod gweithredwyr yn darparu data cywir. Ac i helpu eraill i ddatblygu offer a gwybodaeth, roeddem wedi rhyddhau'r mesuriadau hyn fel data agored. Eleni, fe wnaethom hefyd ddefnyddio data torfol yn y byd go iawn i ddechrau gwella sut rydym yn adrodd ar ansawdd derbyniad 4G a 5G ledled y DU.

Mae llawer o ffonau a dyfeisiau, gan gynnwys rhai yn y cartref, yn defnyddio mwy a mwy ar rwydwaith symudol y bumed genhedlaeth – 5G – sy'n cynnig cyfathrebu cyflym ac ymatebol iawn. Gall pobl nawr wirio derbyniad 5G gan ddefnyddio ein gwiriwr darpariaeth ar-lein, a ddiweddarwyd gennym i gynnwys y data hwn ym mis Mai. Roeddem hefyd wedi cytuno ar safonau newydd gyda gweithredwyr ynghylch sut mae'n rhaid iddynt ddangos darpariaeth ar eu mapiau eu hunain, er mwyn i ddefnyddwyr gael gwybodaeth ddibynadwy.






# 435k

**Yn gyffredinol, mae nifer yr eiddo sy'n methu cael band eang llinell sefydlog teilwng – gyda chyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad – wedi gostwng i tua 435,000, o 527,000 ym mis Medi y llynedd.**

Wrth ystyried band eang di-wifr sefydlog, gostyngodd eiddo sy'n gymwys ar gyfer rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol i 80,000 (i lawr o 123,000 y llynedd).

Mae hyn yn bennaf oherwydd bod gwasanaethau ffeibr llawn yn cael eu cyflwyno'n fasnachol, yn ogystal â nifer o fentrau sy'n cael arian cyhoeddus.



### Diffodd 2G a 3G

Mae'r newid wedi'i reoli oddi wrth yr hen wasanaethau symudol 2G/3G yn elfen allweddol yn yr achos busnes ar gyfer buddsoddiad rhwydwaith newydd drwy helpu i leihau costau drwy arbedion effeithlonrwydd sy'n deillio o weithredu llai o dechnolegau rhwydwaith ochr yn ochr.

Mae Ofcom wedi bod yn edrych ymlaen at sut gallai diffodd gwasanaethau symudol 2G a 3G effeithio ar y bobl a'r sefydliadau sy'n eu defnyddio. Rydym yn gweithio gyda gweithredwyr rhwydweithiau symudol i gefnogi'r broses o ddiffodd, ac i helpu i leihau'r tarfu y gallai cwsmeriaid ei wynebu.

Eleni, buom yn gweithio gyda gweithredwyr symudol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf a chasglu data ar eu cynlluniau i ddiffodd. Rydym hefyd yn gosod disgwyliadau o ran sut dylai cwmnïau fynd ati gyda'r broses ddiffodd. Rydym yn helpu i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg, ac y bydd cyn lleied â phosibl o darfu ar holl ddefnyddwyr gwasanaethau 2G a 3G. Byddwn yn parhau i fonitro'r broses ddiffodd ar ôl iddi ddechrau, gan gynnal cyfarfodydd chwarterol gyda gweithredwyr symudol. Nes bydd y diffodd wedi'i gwblhau erbyn 2033, byddwn yn cyhoeddi mesurau cynnydd a nifer y cwsmeriaid sy'n dal i ddefnyddio dyfeisiau 2G a 3G.

### Monitro'r gwasanaeth band eang cyffredinol

Gall pob cartref a busnes yn y DU ofyn am gysylltiad band eang teilwng a fforddiadwy, o dan rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol sy'n berthnasol i BT (a KCOM yn ardal Hull). Eleni, gwnaethom barhau i fonitro pa mor dda y mae'r cwmnïau hyn wedi gweithredu'r gofyniad.

Fe wnaethom gwrdd yn rheolaidd â BT ac adolygu data gan y ddau weithredwr. Mae hyn wedi ein galluogi i olrhain y nifer o eiddo sy'n gymwys i gael y gwasanaeth a heb fanteisio arno, yn ogystal â sut mae'r nifer sy'n ei ddefnyddio yn dod yn eu blaenau. O fis Ebrill 2023 ymlaen, roedd BT wedi adeiladu cysylltiadau rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol i dros 7,000 o adeiladau gyda 800 o adeiladau eraill ar y gweill (gyda dim ohonynt gyda KCOM hyd yma).

Yn gyffredinol, mae nifer yr eiddo sy'n methu cael band eang llinell sefydlog teilwng – gyda chyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad – wedi gostwng i tua 435,000, o 527,000 ym mis Medi y llynedd. Wrth ystyried band eang di-wifr sefydlog, gostyngodd eiddo sy'n gymwys ar gyfer rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol i 68,000 (i lawr o 80,000 y llynedd). O'r 68,000 o adeiladau hyn, nid oes gan 14,000 gysylltiad band eang teilwng ond maent i fod i ddod o dan gynllun cyflwyno sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus o fewn 12 mis. Mae'r gostyngiad yn nifer y safleoedd sy'n gymwys i rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol yn bennaf oherwydd bod gwasanaethau ffeibr llawn yn cael eu cyflwyno'n fasnachol, yn ogystal â nifer o fentrau sy'n cael arian cyhoeddus.



## Wyneb newidiol llinellau ffôn

**Eleni, gwnaethom benderfyniadau mawr ynghylch dau ddarn sylweddol o offer telegyfathrebiadau hanesyddol, gan adlewyrchu newidiadau yn y dirwedd gyfathrebu.**

Fe wnaethom gadarnhau rheolau wedi'u diweddaru ar flychau ffôn cyhoeddus, gan ddiogelu'r rheini sydd eu hangen fwyaf o hyd – er enghraifft, lle nad oes darpariaeth symudol lawn o bosibl. Roeddem hefyd yn caniatáu tynnu blychau ffôn nad oes eu hangen mwyach. Mae ein rheolau hefyd yn caniatáu cadw'r nodweddion enwog hyn o strydlun y DU ar gyfer gwasanaethau pwysig fel galwadau am ddim, wi-fi a mannau gwefru ar gyfer dyfeisiau.

Ar wahân, roeddem wedi cwblhau newidiadau i reolau sy'n golygu na fydd yn rhaid i BT (a KCOM yn Hull) ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr **peiriannau ffacs** mwyach. Sefydlwyd y rhan hon o'r gwasanaeth ffôn cyffredinol yn 2003, pan oedd peiriannau ffacs yn dal i fod yn gyffredin. Heddiw, mae dewisiadau eraill yn lle ffacsimili fel e-bost ac apiau negeseuon yn gyffredin. Ac wrth i rwydweithiau llinell dir symud i alwadau digidol, ni ellir gwarantu y bydd peiriannau ffacs yn gweithio yn yr un ffordd mwyach.

### Symud i alwadau ffôn digidol

Yn draddodiadol, mae galwadau ffôn llinell dir wedi cael eu darparu dros y rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN), hen seilwaith sy'n dod yn anoddach ac yn ddrutach i'w gynnal. Mae gwasanaeth pob cwsmer llinell dir yn cael ei symud i dechnoleg 'protocol llais dros y rhyngrwyd' (VoIP), sy'n defnyddio cysylltiad band eang modern i gysylltu galwadau ag ansawdd gwell. Mae'r rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus yn rhwydwaith telegyfathrebiadau preifat ac mae'r penderfyniad i'w gau wedi cael ei wneud gan y diwydiant telegyfathrebiadau.

Rhaid delio â hyn yn ofalus, felly rydym yn monitro'r broses. Rydym yn gweithio gydag Openreach a darparwyr llinell dir i wneud yn siŵr eu bod yn cynllunio'n effeithiol ac yn blaenoriaethu anghenion cwsmeriaid – yn enwedig y rheini a allai fod yn agored i niwed neu nad oes ganddynt fynediad at signal symudol da. Eleni, fe wnaethom ymchwilio i brofiad cwsmeriaid o'r broses symud, ar sail treialon yn Salisbury a Mildenhall, a chyhoeddi ein disgwyliadau ar gyfer cwmnïau er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl.

Rydym hefyd yn edrych ar sut mae cwmnïau llinell dir yn bodloni'r gofyniad i ddarparu mynediad di-dor i wasanaethau brys pan fydd toriad yn y pŵer. Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod gan ddefnyddwyr o leiaf un dull o gysylltu â'r gwasanaethau brys yn ystod toriad yn y cyflenwad trydan. Bydd ein gwaith monitro'n parhau nes bydd y gwaith mudo wedi'i gwblhau. Mae BT wedi dweud y bydd yn cau ei rwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus erbyn Rhagfyr 2025, ac y bydd darparwyr eraill yn dilyn amserlen weddol debyg.

**"Eleni, fe wnaethom ymchwilio i brofiad cwsmeriaid o'r broses symud, ar sail treialon yn Salisbury a Mildenhall, a chyhoeddi ein disgwyliadau ar gyfer cwmnïau er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl."**



# Tegwch i gwsmeriaid

**Dylai holl gwsmeriaid cyfathrebiadau'r DU gael eu diogelu rhag niwed, eu trin yn deg a gallu cael y fargen orau ar gyfer eu hanghenion**

### Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Wrth i gostau byw barhau i godi, fe wnaethom wthio mwy o ddarparwyr i gynnig tariffau cymdeithasol, ac annog y rhai sy'n gwneud hynny i'w hyrwyddo'n fwy effeithiol. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y bargeinion rhatach hyn wedi cynyddu'n sylweddol, ond gallai miliynau yn fwy o bobl gymwys elwa o hyd.
- Mae ein ffocws ar ddiogelu defnyddwyr yn golygu y dylai cwsmeriaid gael yr wybodaeth gywir, ar yr adeg gywir, am eu contractau – gan eu helpu i wneud dewisiadau gwell, ac yn aml arbed arian o ganlyniad i hynny.
- Fe wnaethom gryfhau ein rheolau er mwyn i ddarparwyr wneud mwy i atal sgamwyr rhag camddefnyddio rhifau ffôn. Rydym hefyd yn codi ymwybyddiaeth o alwadau niwsans drwy gyfryngau cymdeithasol a sianeli eraill.



### Pam mae hyn yn bwysig

- Mae sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau band eang a symudol fforddiadwy yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Ofcom. Daeth ein gwaith ar fforddiadwyedd eleni ar adeg pan oedd llawer o aelwydydd yn wynebu pwysau ariannol cynyddol. Arweiniodd ein hymchwil yn y maes hwn at weithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddarparwyr mawr bellach yn cynnig tariffau cymdeithasol i gwsmeriaid cymwys.
- Mae ein rhaglen Tegwch i Gwsmeriaid hirsefydlog yn ymwneud â sicrhau bod darparwyr yn trin pobl yn briodol ac yn gwneud hyn yn ganolog i ddiwylliant eu busnes. Dylai cwsmeriaid gael mynediad at wybodaeth glir ar yr adeg iawn i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus cyn, yn ystod ac ar ddiwedd eu contract telegyfathrebiadau neu deledu drwy dalu.
- Dylai pobl hefyd deimlo eu bod wedi'u grymuso i newid yn rhwydd rhwng darparwyr, gan ganiatáu iddynt gael gafael ar fargeinion a allai fod yn rhatach, yn fwy addas i'w hanghenion, neu'r ddau.
- Mae'r defnydd o alwadau a negeseuon testun sgam yn gyffredin, gyda'n hymchwil yn canfod eu bod yn effeithio ar y mwyafrif helaeth o bobl yn y DU. Gall sgamiau achosi niwed ariannol ac emosiynol sylweddol i ddioddefwyr, a hefyd gosod costau ar yr economi ehangach. Rydym yn gweithio i aflonyddu ar sgamiau, helpu defnyddwyr i'w hosgoi, a rhannu gwybodaeth ag eraill i helpu i fynd i'r afael â'r broblem.

**"Mae sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau band eang a symudol fforddiadwy yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Ofcom"**



# 8.1m

Rydym wedi bod yn monitro fforddiadwyedd yn ein sector yn ofalus, gan ddweud bod 8.1 miliwn o gartrefi ym mis Ionawr yn cael problemau gyda fforddio gwasanaethau cyfathrebu – bron ddwywaith cymaint ag ym mis Ebrill 2021. Rhaid i gwmnïau telegyfathrebiadau wneud mwy i gefnogi eu cwsmeriaid.

# Ein gwaith eleni

### Fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebiadau

Mae'r cynnydd mewn costau byw wedi effeithio ar filiynau o aelwydydd eleni, ac mae Ofcom wedi canolbwyntio ar fforddiadwyedd y gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio.

Gallai biliau cyfathrebu gyfrif am gyfran gymharol fach o gyllideb gyffredinol cartref nodweddiadol; ond i lawer o gwsmeriaid, mae pob ceiniog yn cyfrif. Ac er bod gan y DU rai o'r prisiau band eang a symudol isaf o hyd ymysg gwledydd tebyg, mae chwyddiant uchel wedi arwain at gynnydd o dros 10% mewn rhai biliau eleni, ac mewn rhai achosion cymaint â 17%, gan ychwanegu at y pwysau sy'n wynebu cwsmeriaid o brisiau uwch mewn meysydd fel bwyd, ynni a llog dyledion.

Rydym wedi bod yn monitro fforddiadwyedd yn ein sector yn ofalus, gan ddweud bod 8.1 miliwn o gartrefi ym mis Ionawr yn cael problemau gyda fforddio gwasanaethau cyfathrebu – bron ddwywaith cymaint ag ym mis Ebrill 2021. Rhaid i gwmnïau telegyfathrebiadau wneud mwy i gefnogi eu cwsmeriaid.

Canfu ein hymchwil fod miliynau o aelwydydd incwm isel yn colli allan ar ' dariffau cymdeithasol' band eang – cysylltiadau cyflym iawn arbennig â disgownt ar gyfer cartrefi sy'n cael budd-daliadau penodol. Mae'r bargeinion hyn ar gael am gyn lleied â £12 y mis, sy'n cynnig arbedion nodweddiadol o tua £200 y flwyddyn. Yn hollbwysig, nid yw'r pris yn codi ganol contract, sy'n golygu bod y gost yn cael ei rhewi i bob pwrpas. Ond nid yw rhai darparwyr wedi gwneud digon i hysbysebu'r cymorth hwn, neu maen nhw wedi gwrthod y cynnig yn gyfan gwbl.

Ers i ni dynnu sylw at y mater hwn yn 2020, mae nifer y darparwyr band eang sy'n cynnig tariffau cymdeithasol wedi cynyddu o ddau i fwy nag 20, ac mae tri darparwr symudol hefyd yn cynnig tariff cymdeithasol erbyn hyn. Rydym wedi bod yn galw ar y cwmnïau sy'n weddill nad ydynt yn cynnig tariff cymdeithasol – gan gynnwys TalkTalk (band eang) ac O2 (symudol) – i wneud hynny. Mae'r nifer sy'n defnyddio tariffau cymdeithasol band eang wedi cynyddu bedair gwaith ers mis Ionawr 2022, o 55,000 i 220,000 ym mis Chwefror. Ond dim ond 5% o aelwydydd cymwys sydd wedi cofrestru yw hynny o hyd. Mae hynny'n golygu bod 95% yn colli arbedion blynyddol o tua £200 y flwyddyn ar gyfartaledd.

Mae ymwybyddiaeth o'r bargeinion hyn yn parhau i fod yn isel, gyda mwy na hanner yr aelwydydd cymwys (53%) yn anymwybodol o'u bodolaeth yn ystod yr argyfwng costau byw. Rydym yn parhau i bwyso ar bob cwmni i hyrwyddo tariffau cymdeithasol yn ehangach a'u gwneud yn haws dod o hyd iddynt ar eu gwefannau, gan gynnwys gofyn iddynt adolygu'r wybodaeth i sicrhau ei bod yn gywir, yn glir ac yn ddealladwy i ddefnyddwyr.


Bydd Ofcom hefyd yn parhau i adrodd yn rheolaidd ar fforddiadwyedd yn ehangach. Ym mis Rhagfyr, canfu ein hadroddiad ar Batrymau Prisiau diweddaraf – sy'n ymdrin â band eang, llinell dir, symudol a theledu drwy dalu – fod bargeinion gwerth da ar gael o hyd i bobl sy'n siopa o gwmpas. Gwelsom hefyd y gallai'r rheini sy'n dynesu at ddiwedd eu contract, neu sydd eisoes allan o gontract, arbed arian drwy negodi bargen newydd gyda'u darparwr presennol, neu symud i un newydd.

### Telerau contract clir

**Rhaid i gwmnïau fod yn glir ynghylch y cynnydd mewn prisiau. O dan ein rheolau, mae'n rhaid i unrhyw gynnydd arfaethedig mewn contract gael ei nodi'n glir ac yn dryloyw pan fydd y cwsmer yn llofnodi. Er mwyn sicrhau bod cwmnïau'n glynu wrth hyn, gwnaethom lansio ym mis Rhagfyr raglen orfodi ar gyfer y diwydiant cyfan ar gydymffurfio â'n rheolau ar dryloywder prisiau.**

**Ers mis Mehefin, rydym hefyd wedi mynnu bod cwmnïau ffôn a band eang yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i gwsmeriaid a chrynodeb byr o brif delerau eu contract cyn cofrestru. Rhaid i hyn gynnwys gwybodaeth am y pris, hyd y contract a beth fydd yn digwydd os bydd cwsmer yn penderfynu terfynu'r contract yn gynnar. Ym mis Hydref, fe wnaethom agor ymchwiliad i weld a oedd BT, a'i is-gwmnïau EE a Plusnet, wedi torri'r rheolau newydd hyn.**

**Canfu ein hymchwil eleni nad yw un o bob tri chwsmer symudol a band eang yn gwybod a yw eu darparwr yn cael codi eu pris. Ymysg y rheini sy'n gwybod eu bod yn gallu gwneud hynny, mae tua hanner yn ansicr sut mae'n cael ei gyfrifo. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi adolygiad i archwilio a yw codi prisiau ar ganol contract, sy'n gysylltiedig â chwyddiant, yn rhoi digon o sicrwydd ac eglurder i gwsmeriaid ffôn a band eang ynghylch yr hyn y gallant ddisgwyl ei dalu. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein canfyddiadau yn ddiweddarach yn 2023.**



## Bydd Ofcom hefyd yn parhau i adrodd yn rheolaidd ar fforddiadwyedd yn ehangach.

Ym mis Rhagfyr, canfu ein hadroddiad ar Batrymau Prisiau diweddaraf – sy'n ymdrin â band eang, llinell dir, symudol a theledu drwy dalu – fod bargeinion gwerth da ar gael o hyd i bobl sy'n siopa o gwmpas. Gwelsom hefyd y gallai'r rheini sy'n dynesu at ddiwedd eu contract, neu sydd eisoes allan o gontract, arbed arian drwy negodi bargen newydd gyda'u darparwr presennol, neu symud i un newydd.

### Proses newid symlach

Rydym yn gwybod o'n hymchwil bod tua dau o bob pum cwsmer yn peidio â newid darparwr os yw'r broses yn golygu gormod o amser neu drafferth. Bydd ein proses newid 'un cam' yn golygu mai dim ond cysylltu â'u darparwr llinell dir neu fand eang newydd y bydd angen i gwsmeriaid ei wneud er mwyn i hyn ddigwydd.

Roedd y broses hon i fod i gael ei lansio ar 3 Ebrill 2023, ond mae wedi cael ei gohirio oherwydd nad oedd cwmnïau'n barod. Mewn ymateb i hyn, rydym wedi lansio rhaglen orfodi ar gyfer y diwydiant cyfan a byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i wneud yn siŵr bod y broses newid newydd yn cael ei chyflawni cyn gynted â phosibl. Ar ôl cwblhau hyn, byddwn yn monitro'r effaith ar barodrwydd cwsmeriaid i newid.



### Mynd i'r afael â galwadau niwsans a sgamiau

Mae sgamiau yn boen ar gymdeithas, gan achosi niwed ariannol ac emosiynol i filiynau o bobl, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae technoleg rad wedi golygu bod modd rhoi cynnig ar nifer sylweddol a chynyddol o sgamiau dros alwadau ffôn a negeseuon testun.

Mae hwn yn faes blaenoriaeth i Ofcom. Rydym wedi cryfhau ein rheolau ar atal camddefnyddio gwasanaethau cyfathrebu ac wedi gwthio cwmnïau telegyfathrebiadau i ddatblygu datrysiadau technegol i fynd i'r afael â'r broblem. Mae defnyddio rhifau ffôn ffug, neu 'spoofing' yn Saesneg, yn broblem sylweddol. O dan reolau newydd, mae'n rhaid i ddarparwyr ddilysu rhifau ffôn galwadau sy'n ymuno â'u rhwydweithiau, a rhwystro yn y ffynhonnell unrhyw alwadau sy'n dod o rifau sy'n cael eu ffugio.

Mae rhifau ffôn yn cael eu dyrannu gan Ofcom i gwmnïau telegyfathrebiadau, a fydd wedyn yn gallu eu trosglwyddo i fusnesau neu unigolion eraill. Rydym yn gosod cyfrifoldebau ar ddarparwyr sy'n defnyddio ac yn trosglwyddo rhifau. Ar ôl i ni nodi anghysondebau a bylchau o ran cydymffurfio â'r rheolau hyn, gwnaethom ddiweddaru'r camau rydym yn disgwyl i gwmnïau eu cymryd i helpu i atal niferoedd dilys rhag cael eu camddefnyddio.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, dylai pobl elwa o gael llai o alwadau gyda rhifau wedi'u ffugio'n anghyfreithlon. Dylai hyn, yn ei dro, wella ymddiriedaeth yn y system ffôn. Rydym yn cydnabod bod sgamwyr yn debygol o archwilio technegau mwy cymhleth a soffistigedig, felly byddwn yn parhau i fonitro'r effaith ar gwsmeriaid ac yn datblygu rhagor o ddulliau i fynd i'r afael â'r broblem.

Er mwyn helpu pobl i osgoi cael eu twyllo gan sgamiau, rydym yn parhau i ddarparu gwybodaeth a chyngor ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys eu cyfeirio at gyrff ac asiantaethau perthnasol eraill.

## Gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn effeithiol

Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Ofcom wedi rhoi ystod eang o fesurau ar waith i ddiogelu cwsmeriaid a sicrhau bod cwmnïau'n eu trin yn deg. Rydym bellach wedi canolbwyntio ar fonitro a deall effaith yr ymyriadau hyn, er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith iawn.

- **Cwsmeriaid agored i niwed:** Fel blaenoriaeth, rydym am sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael y cymorth, y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. O dan ein rheolau, mae'n rhaid i bob darparwr cyfathrebiadau gael polisïau a gweithdrefnau clir ac effeithiol ar gyfer adnabod cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus. Ar y cyfan, rydym wedi canfod bod darparwyr yn trin y cwsmeriaid hyn yn deg. Ac ers mis Mehefin, rhaid i gwmnïau ffôn a band eang gynnig gwasanaeth Cyfnewid Fideo Brys am ddim i ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain sy'n fyddar er mwyn ei gwneud hi'n haws iddynt gael help mewn argyfwng.

- **Ymrwymiadau tegwch:** Rydym yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau eu bod yn trin eu cwsmeriaid yn deg ac yn bodloni'r [Ymrwymiadau Tegwch i Gwsmeriaid] y mae'r rhan fwyaf wedi ymrwymo iddynt yn 2019. Er mwyn helpu i wneud hyn, rydym yn gwneud mwy o ddefnydd o ddata gwybodaeth defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys ymchwil a gwybodaeth gan ein tîm cyswllt defnyddwyr, yn ogystal â gwybodaeth gan gyrff yr ombwdsmon a grwpiau defnyddwyr.

- **Hysbysiadau contract:** Daeth rheolau newydd Ofcom i rym ym mis Chwefror 2020 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ffôn, band eang a theledu drwy dalu rybuddio cwsmeriaid pan fydd eu contract yn dod i ben, ac egluro beth y gallent ei arbed drwy fargen newydd. Canfu ein hymchwil eleni fod mwy o gwsmeriaid band eang a symudol yn manteisio ar hyn. O ganlyniad i dderbyn hysbysiad, cymerodd miliynau o gwsmeriaid gamau i ostwng y swm y maent yn ei dalu.

- **Cymharu ansawdd gwasanaeth:** Drwy gydol y flwyddyn, rydym yn cyhoeddi data am gwynion am ddarparwyr telegyfathrebiadau a theledu drwy dalu, ac am lefel gymharol eu gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae hyn yn helpu pobl i gymharu lefelau'r gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl gan gwmnïau unigol, cyn iddynt gofrestru.



> **O ganlyniad i dderbyn hysbysiad, cymerodd miliynau o gwsmeriaid gamau i ostwng y swm y maent yn ei dalu.**

# Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach

**Rydym yn rheoli sbectrwm radio'r DU er budd y DU gyfan. Ein gwaith ni yw sicrhau bod yr adnodd cenedlaethol gwerthfawr hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon, sy'n cynnwys cefnogi buddsoddi ac arloesi mewn gwasanaethau di-wifr.**

### Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Fe wnaethom nodi tonnau awyr – neu 'sbectrwm radio' – sy'n gallu cefnogi gwasanaethau arloesol sy'n tyfu gan ddefnyddio dyfeisiau symudol, dronau a lloerennau. Edrychodd ein harbenigwyr technegol ar sut y gellid rhyddhau sbectrwm i sefydliadau sydd eisiau cynnig y gwasanaethau hyn.
- Gwnaethom barhau i dynnu sylw at sut gall sbectrwm radio gefnogi rhaglenni newydd ar draws amrywiaeth o sectorau, a helpu'r diwydiant i gydweithio ar ddulliau gwell o ddefnyddio a rhannu sbectrwm.
- Buom yn gweithio gyda chyrff a chymheiriaid rhyngwladol i rannu gwybodaeth a sicrhau bod buddiannau'r DU yn cael eu hadlewyrchu mewn dadleuon a phenderfyniadau sbectrwm byd-eang.
- Roeddem wedi adolygu trwyddedau sbectrwm a sut maen nhw'n cael eu prisio a'u rheoli, gan helpu i wneud y broses yn haws i'r rheini sy'n dal trwyddedau.



### Pam mae hyn yn bwysig

- Sbectrwm radio yw'r seilwaith di-wifr sy'n cefnogi bywydau modern, busnesau a'r economi ddigidol. Mae'n adnodd cenedlaethol y mae llawer o alw amdano, sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer popeth o deledu a radio i reoli traffig awyr, gwasanaethau brys, gofal iechyd, logisteg a dwsinau o ddyfeisiau di-wifr yn y cartref arferol.
- Mae Ofcom yn rheoli'r tonnau awyr hyn fel eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithlon a heb achosi ymyriant. Rydym yn helpu i sicrhau bod y defnyddwyr sbectrwm niferus yn gallu parhau i wneud hynny'n ddiogel, ac er y budd mwyaf i bobl ledled y DU.
- Mae technoleg yn symud yn gyflym. Gallwn gefnogi gwasanaethau newydd ac arloesol drwy reoli sbectrwm yn y ffordd iawn.
- Gall prosesau trwyddedu symlach a mwy effeithlon fod o fudd nid yn unig i'r trwyddedai, ond hefyd i'r cwsmeriaid sy'n defnyddio eu cynnyrch a'u gwasanaethau.

# Ein gwaith eleni

## Gweithio gyda'r diwydiant ar sbectrwm di-wifr

Mae'r galw am donnau awyr yn dal i dyfu, sy'n gwneud rhannu sbectrwm yn ddull gweithredu pwysig. Drwy ganiatáu i wahanol ddefnyddwyr gynnig rhaglenni di-wifr gan ddefnyddio'r un amleddau, gellir defnyddio'r rhain yn fwy effeithlon. Rydym yn bwrw ymlaen â gwaith i awtomeiddio'r broses o ddyrannu trwyddedau sbectrwm mynediad a rennir yn gyflymach. Rydym hefyd wedi gweithio gyda chymheiriaid yn Ewrop i gysoni sbectrwm ar gyfer rhwydweithiau diwydiannol, gan helpu i wella arbedion maint i wneuthurwyr dyfeisiau ac offer rhwydwaith.

Eleni, rydym wedi parhau i dynnu sylw at rôl sbectrwm di-wifr o ran cyflawni trawsnewid digidol ar draws gwahanol sectorau o'r economi. Fe wnaethom fynychu a chyflwyno mewn cynadleddau i hyrwyddo argaeledd sbectrwm a deall sut mae'n esblygu. Fe wnaethom hefyd ddechrau gweithio gyda'r diwydiant ar 'flychau tywod' sbectrwm – gwelyau profi cydweithredol a fydd yn helpu i ddatblygu rhwydweithiau di-wifr mwy hyblyg ac effeithlon. Bydd y gwersi rydym yn eu dysgu o hyn yn sail i adolygiad o'r amodau technegol ar gyfer trwyddedau sbectrwm mynediad a rennir, sy'n cael eu defnyddio gan y diwydiant ar gyfer rhwydweithiau di-wifr preifat.

## Gemau'r Gymanwlad: Birmingham 2022

Eleni fe wnaethom gefnogi'r Llywodraeth a Phwyllgor Trefnu Gemau'r Gymanwlad i gynnal gemau llwyddiannus yn Birmingham.

Mae staff a darlledwyr o bob cwr o'r byd yn dod i ddigwyddiadau chwaraeon a diwylliannol mawr fel hyn, sy'n defnyddio amrywiaeth o offer di-wifr fel meicroffonau, camerâu, monitorau yn y glust a walkie-talkies.

Mae pob darn o gyfarpar yn defnyddio ei amledd ei hun ar y sbectrwm radio, ac mae angen rheoli'r rhain yn ofalus i wneud yn siŵr nad ydynt yn ymyrryd â'i gilydd. Mae ein timau sicrhau digwyddiadau arbennig a gwneud rhaglenni yn gweithio cyn ac yn ystod digwyddiadau i wneud yn siŵr bod yr offer yn gweithio'n iawn ac yn ddiogel.

Ar ôl datblygu porth a phroses ymgeisio, fe wnaethom gyhoeddi trwyddedau sbectrwm â blaenoriaeth ar gyfer y Gemau ym mis Mawrth 2022. Fe wnaethom gynnal arolygon amledd radio mewn ardaloedd hollbwysig, gan sicrhau bod y tonnau awyr yn gweithio'n iawn ac yn clirio unrhyw ddefnydd heb drwydded. Fe wnaethom gwblhau cynllun gweithredol ar y cyd ym mis Mai, gan nodi sut byddem yn profi ac yn tagio offer di-wifr ac yn datrys problemau ymyriant byw a defnydd heb drwydded drwy gydol y digwyddiad.

Roedd y gwaith anweledig hwn yn sicrhau y gallai gwylwyr a gwrandawyr yn y DU a thramor fwynhau darllediadau di-dor o Gemau'r Gymanwlad mwyaf erioed i'w cynnal.

## Meysydd electromagnetig (EMF) ac iechyd

Mae pob cymhwysiad o sbectrwm radio yn cynhyrchu meysydd electromagnetig (EMF). Ceir canllawiau sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol i wasanaethau weithredu mewn ffordd na fydd yn effeithio'n andwyol ar iechyd pobl.

Gwnaethom barhau i sicrhau bod defnyddwyr sbectrwm yn cydymffurfio â therfynau meysydd electromagnetig a ymgorfforwyd gennym mewn trwyddedau yn 2021, gan ystyried canllawiau Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen o fesuriadau yn agos at orsafoedd ffonau symudol, gyda 68 o arolygon yn cael eu cynnal rhwng mis Ebrill a mis Ionawr. Roeddem hefyd wedi darparu fersiwn diwygiedig o'n cyfrifiannell meysydd electromagnetig i helpu trwyddedeion i ddangos eu bod yn cydymffurfio mewn amleddau o dan 10 MHz.

### Tonnau milimedr

**Ym mis Mai, fe wnaethom gynnig sicrhau bod sbectrwm tonnau milimetr (mmWave) ar gael at ddibenion newydd. Gwnaethom gyhoeddi datganiad ac ymgynghoriad pellach ym mis Mawrth, yn cadarnhau cynlluniau i sicrhau bod sbectrwm mmWave ar gael ar draws y bandiau 26 GHz a 40 GHz ar gyfer technoleg symudol newydd, gan gynnwys gwasanaethau 5G.**

**Yn ogystal â darparu gwasanaethau gwell mewn ardaloedd prysur fel meysydd awyr, gall sbectrwm mmWave gefnogi gwasanaethau band eang di-wifr sefydlog gyda chyflymderau gigabit, gan gynnwys mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd. Gellir defnyddio'r sbectrwm i ddarparu rhwydweithiau preifat ar draws amrywiaeth eang o sectorau, gan alluogi pethau fel awtomatiaeth ffatrïoedd mewn gweithgynhyrchu, ffermio clyfar mewn amaethyddiaeth, a sicrhau rhwydweithiau ar ffurf campws ar safleoedd busnes.**

# Strategaeth sbectrwm gofod

**Bydd pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a theithwyr ar awyrennau a llongau yn cael band eang gwell, ar ôl i ni gyhoeddi mwy o donnau awyr ar gyfer gwasanaethau lloeren o fewn ein strategaeth gofod.**

Mae'r sector gofod yn tyfu'n gyflym, gyda nifer y lansiadau'n cynyddu bron i 60% rhwng 2017 a 2021. Mae cwmnïau fel OneWeb a SpaceX yn defnyddio nifer fawr o loerennau newydd – a elwir yn systemau lloerennau orbit nad ydynt yn ddaearsefydlog (NGSO). Yn y cyfamser, mae prifysgolion a busnesau newydd yn defnyddio lloerennau llai i brofi a threialu amrywiaeth o brosiectau newydd cyffrous.

Roedd strategaeth sbectrwm gofod Ofcom ym mis Tachwedd yn egluro sut byddwn yn cefnogi'r sector. Roedd yn cynnwys mwy o donnau awyr i weithredwyr lloerennau orbit nad ydynt yn ddaearsefydlog ddarparu ystod ehangach o wasanaethau band eang – fel helpu i gysylltu cartrefi a busnesau mewn ardaloedd gwledig anodd eu cyrraedd, yn ogystal ag ar drenau, yn yr awyr ac ar y môr.

Rydym yn ymestyn mynediad sbectrwm lloeren i gynnwys y band 14.25-14.5 GHz, gan ddyblu'r capasiti sydd ar gael ar gyfer trosglwyddo data i loerennau. Roedd ein strategaeth yn cynnwys mesurau diogelu ar gyfer lloerennau sy'n arsylwi ar y ddaear, sy'n casglu data hanfodol ar y tywydd a newid yn yr hinsawdd. Rydym hefyd yn cefnogi cwmnïau sy'n lansio lloerennau o'r DU ac yn cynllunio ar gyfer teithiau i'r lleuad ac i blaned Mawrth yn y dyfodol.



## Diwallu'r galw cynyddol am dronau

Roedd gwasanaethau masnachol newydd ac arloesol a oedd yn cael eu darparu gan dronau yn gallu mynd i'r awyr o fis Ionawr ymlaen. Gan weithio gyda'r Awdurdod Hedfan Sifil, Llywodraeth y DU a'r diwydiant, gwnaethom gwblhau'r drefn gyntaf ar gyfer awdurdodi amrywiaeth o offer drôn, gan gyflwyno trwydded newydd ar gyfer Gweithredwyr Systemau Awyrennau Di-griw. Mae hyn yn golygu bod cwmnïau'n gallu defnyddio rhwydweithiau symudol a lloerennau i gynnig mwy o wasanaethau o'u fflydoedd drôn, dros bellteroedd hirach.

Roedd ein trefn newydd yn dilyn amrywiaeth o dreialon go iawn. Roedd y Post Brenhinol yn edrych ar 'lwybrau drôn ar gyfer post' i gymunedau anghysbell yng nghefn gwlad yr Alban. Roedd treialon eraill yn cynnwys cyswllt trafnidiaeth rhwng ysbytai yn Southampton ac Ynys Wyth ar gyfer darparu cyflenwadau meddygol brys yn ystod pandemig y coronafeirws.

## Gwaith rhyngwladol a sbectrwm symudol

Rydym wedi parhau i weithio gyda sefydliadau a chymheiriaid ledled Ewrop ac yn fyd-eang i sicrhau bod buddiannau'r DU yn cael eu hadlewyrchu'n briodol mewn dadleuon a phenderfyniadau rhyngwladol ynghylch sbectrwm. Ym mis Mehefin, fe wnaethom wahodd barn pobl a nodi ein syniadau cychwynnol ar safbwyntiau'r DU ar gyfer Cynhadledd Radio'r Byd nesaf (WRC-23) ddiwedd 2023.

Ymysg yr ystyriaethau hyn mae diddordeb dwys sy'n cystadlu â'i gilydd mewn defnyddio'r band amledd 6GHz uchaf ar gyfer gwasanaethau symudol pŵer uwch, ac ar gyfer wi-fi â llai o bŵer. Mae'r band hwn yn cael ei ddefnyddio yn y DU ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau fel cysylltiadau sefydlog, dyfeisiau pellter byr, lloerennau archwilio'r ddaear a seryddiaeth radio. Roeddem wedi cyhoeddi safbwynt manwl ar ddyfodol y band cyn WRC-23, lle bydd yn cael ei ystyried ar gyfer defnydd symudol.

Ochr yn ochr â'n strategaeth symudol ym mis Rhagfyr, fe wnaethom gyhoeddi ein dull gweithredu ar gyfer marchnadoedd symudol y DU a sbectrwm yn ehangach yn y dyfodol. Fe wnaethom egluro sut byddwn yn ystyried yr angen am sbectrwm symudol ychwanegol yn y cyfnod hyd at 2035, gan ystyried gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd.

## Gwaith arall eleni

- Mae codi tâl am sbectrwm yn creu cymhellion hirdymor i gwmnïau ei ddefnyddio'n effeithlon. Roeddem yn cynnig ffioedd trwydded blynyddol diwygiedig ar gyfer blociau o sbectrwm mewn tri band (10 GHz, 28 GHz a 32 GHz). Dyfarnwyd y rhain drwy arwerthiant yn 2008 a bydd taliadau o 2023 ymlaen. Mae'r ffioedd yn seiliedig ar amcangyfrif o'r 'cost cyfle' – y gwerth y gallai trwyddedau ei gael yn nwylo'r defnyddiwr amgen â'r gwerth uchaf. Ein nod yw cwblhau'r ffioedd yn 2023.

- Ym mis Mai, fe wnaethom nodi cynigion i ddiweddaru trwyddedau sbectrwm i'w gwneud yn haws i dechnolegau mwy newydd fel 5G gael eu defnyddio ac i helpu i ddarparu'r genhedlaeth nesaf o gysylltedd a gwasanaethau. Yna, ym mis Medi, gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i ddiweddaru trwyddedau penodol i sicrhau bod newidiadau tebyg ar gael i holl weithredwyr rhwydweithiau symudol y DU yn y bandiau sbectrwm perthnasol. Bydd y newidiadau hyn yn cefnogi 5G a thechnolegau eraill sy'n darparu cysylltiadau cyflymach a mwy dibynadwy.

- Buom yn gweithio gyda'r diwydiant trydan, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Ofgem i ddeall gofynion cyfathrebu'r sector trydan yn y dyfodol, yn ogystal â nodi opsiynau sbectrwm posibl a allai eu cefnogi.

# Cefnogi a datblygu'r cyfryngau yn y DU

**Fel rheoleiddiwr y cyfryngau, rydym yn cefnogi sector darlledu bywiog y DU – gan gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – gan ei helpu i esblygu a diwallu anghenion newidiol gwylwyr a gwrandawyr.**

### Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Fe wnaethom gwblhau adolygiad o sut rydym yn rheoleiddio'r BBC, a sut mae'r BBC ei hun yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd, cystadleuwyr ac achwynwyr. Fe wnaethom egluro sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau ac asesu cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol yn ei Fframwaith Gweithredu a'i Drwydded Gweithredu. Yn dilyn ein hadolygiad o Foderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC a'n Datganiad ar hynny, rydym yn datblygu metrigau newydd ar gyfer asesu perfformiad y BBC ar ei wasanaethau ar-lein a byddwn yn monitro sut mae'r BBC yn ymateb i'r gofynion adrodd newydd.
- Rydym yn nodi meysydd lle mae angen i'r BBC wella, fel egluro newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau i gynulleidfaoedd a darlledwyr. Ac fe wnaethom gyhoeddi adolygiad o sut mae'r BBC yn gwasanaethu grwpiau economaidd-gymdeithasol is, sy'n llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau'r BBC ac sy'n llai bodlon â nhw.
- Buom yn gweithio gyda'r Llywodraeth cyn y ddeddfwriaeth arfaethedig i ddiwygio rheoleiddio darlledu ac fe wnaethom ddarparu adroddiadau ar gynaliadwyedd Channel 3 a Channel 5, fel rhan o broses adnewyddu'r drwydded.
- Mewn astudiaeth arloesol o ddewis mewn newyddion yn y DU, fe wnaethom nodi pryderon ynghylch effaith 'porthorion' ar-lein – fel Facebook, Apple News a Google News.
- Fe wnaethom gyflwyno fframwaith newydd ar gyfer casglu data ar amrywiaeth gweithluoedd darlledwyr, gan ein helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiad ar draws y diwydiant teledu a radio.

### Pam mae hyn yn bwysig

- Mae'r DU yn elwa o dirwedd darlledu a chyfryngau unigryw – cymysgedd pwerus o gwmnïau cyhoeddus a masnachol, mawr a bach, a sector cynhyrchu annibynnol bywiog. Ynghyd â'n cyfryngau cenedlaethol a rhanbarthol, mae'r diwydiant hwn yn ganolog i'n diwylliant, ein heconomi greadigol ac i'n llais byd-eang.
- Rydym am i gynulleidfaoedd elwa o ddewis o gynnwys teledu, radio ac ar-lein o ansawdd uchel – gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu gwneud ledled y DU ac sy'n adlewyrchu eu bywydau a'u diddordebau.
- Rydym hefyd yn gweithio i wella cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiad ar draws y diwydiant teledu a radio, er mwyn sicrhau bod ei weithlu a'i allbwn yn cynrychioli ehangder y gymdeithas.

**"Rydym am i gynulleidfaoedd elwa o ddewis o gynnwys teledu, radio ac ar-lein o ansawdd uchel"**



# Ein gwaith eleni

## Dal y BBC i gyfrif

Fel y darlledwr cenedlaethol, y BBC yw conglfaen system darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU. Gwaith Ofcom yw dal y gorfforaeth i gyfrif, goruchwylio ei rôl yn y farchnad ddarlledu ehangach a sicrhau ei bod yn darparu cynnwys a gwasanaethau o ansawdd uchel i'w chynulleidfa gyfan.

Eleni, fe wnaethom gwblhau adolygiad o sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, a sut mae'r BBC ei hun yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd, cystadleuwyr ac achwynwyr. Roeddem yn cydnabod bod y BBC yn wynebu hinsawdd economaidd a marchnad heriol – gan gynnwys cystadleuaeth ddwys gan chwaraewyr byd-eang sy'n cael eu hariannu'n dda, pwysau ar gyllid ffi'r drwydded, a newidiadau cyflym yn ymddygiad cynulleidfaoedd. Roedd ein hadroddiad Cyfryngau'r Genedl diweddaraf yn dangos bod y gostyngiad yn yr amser sy'n cael ei dreulio yn gwylio cynnwys teledu wedi'i ddarlledu wedi ailddechrau y llynedd, ac mae cyfran yr amser gwrando ar radio byw hefyd wedi gostwng.

Roeddem hefyd yn glir gyda'r BBC bod rhaid iddo barhau i ddarparu ar gyfer ei holl gynulleidfaoedd, gan ei fod yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy symud y ffocws i wasanaethau ar-lein. Rydym hefyd yn disgwyl i'r BBC sicrhau ei fod yn egluro newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau i wylwyr, gwrandawyr a darlledwyr eraill – mewn ffordd gyson ac agored.

Fe wnaethom nodi yn yr adolygiad y byddem yn:

- canolbwyntio ar sut mae'r BBC yn addasu proses gwynion BBC yn Gyntaf i sicrhau ei bod yn dryloyw ac yn gweithio'n dda i gynulleidfaoedd. Rydym wedi cyfarwyddo'r BBC i wella ei dryloywder mewn perthynas â'r penderfyniadau terfynol y mae'n eu gwneud mewn ymateb i gwynion am ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy, ac rydym yn cyhoeddi ei resymeg derfynol ym mhob un o'r achosion hyn;

- monitro'r broses o weithredu canfyddiadau Adolygiad Serota (a'r Cynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol), a sut mae'r BBC yn mynd ati i gynyddu hyder y cyhoedd yn ei agwedd at ddidueddrwydd dyladwy;

- parhau i adolygu effaith gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol y BBC ar y farchnad, i sicrhau nad yw'n cael gormod o effaith ar gystadleuaeth.

Yn dilyn ein hadolygiad, fe wnaethom gyhoeddi Trwydded Weithredu newydd ar gyfer y BBC, sy'n nodi ein disgwyliadau o berfformiad y gorfforaeth. Bydd y Drwydded newydd, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023, o fudd i gynulleidfaoedd drwy ddiogelu cynnwys pwysig, gan alluogi'r BBC i addasu ac arloesi o ran sut mae'n darparu cynnwys i wylwyr a gwrandawyr. Am y tro cyntaf, mae'r drwydded hefyd yn gosod gofynion eang ar wasanaethau ar-lein y BBC – BBC iPlayer, BBC Sounds a gwefan y BBC – ac mae'n mynnu bod y BBC yn adrodd yn gynhwysfawr ar ei gynlluniau a'i berfformiad, gan gynnwys natur unigryw ei wasanaethau. Bydd ein hadolygiad a'r dystiolaeth ehangach yn cyfrannu at adolygiad canol tymor y Llywodraeth o lywodraethu a rheoleiddio'r BBC, a fydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2024.

Ym mis Tachwedd, fe wnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC. Gwelsom fod y BBC yn parhau i gyflawni ei gylch gwaith yn gyffredinol a'i fod wedi gwneud cynnydd yn erbyn ei strategaeth a'i gynlluniau. Ond fe wnaethom nodi bod cynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau'r BBC, a'u bod yn gyson yn llai bodlon â'r BBC yn gyffredinol. Rydym wedi lansio adolygiad i edrych ar anghenion ac arferion cynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a sut mae'r BBC yn cyflawni ar eu cyfer. Bydd ein canfyddiadau'n sail i'n hasesiad blynyddol nesaf o berfformiad y BBC.

### Adolygu newidiadau i wasanaethau'r BBC

**Eleni, gwnaethom archwilio ac ymgynghori ar nifer o setiau o newidiadau a gynigir gan y BBC i'w wasanaethau. Er enghraifft, roeddem wedi adolygu cynlluniau i gynyddu ei gatalog o gynnwys hŷn ar iPlayer – fel cyfresi blaenorol o deitlau sy'n dychwelyd. Daethom i'r casgliad nad oedd y newidiadau hyn, a oedd yn addo mwy o ddewis a chynnig gwell i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded, yn sylweddol ac y gallai'r BBC fwrw ymlaen.**

**Ym mis Gorffennaf, cyflwynodd y BBC gynlluniau i foderneiddio ei ddarpariaeth newyddion, gan gynnwys dod â sianeli BBC News a BBC World News at ei gilydd, a chanolbwyntio mwy ar gynnwys newyddion a materion cyfoes aml-lwyfan. Wrth i'r BBC geisio gwneud y newidiadau hyn, rhaid iddo barhau i ddarparu amrywiaeth o newyddion a gwybodaeth ar gyfer holl gynulleidfaoedd y DU, ym mha bynnag fodd y maent yn dymuno cael gafael ar y cynnwys hwn. Rydym wedi cadw gofyniad i BBC News ddarparu newyddion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, y DU a rhyngwladol o ansawdd uchel a byddwn yn monitro'r gwasanaeth newydd yn ofalus wrth iddo gael ei weithredu. Gwnaethom adolygu asesiad y BBC o effaith bosibl ei gynlluniau ar ddarparwyr newyddion lleol ar-lein, a dod i'r casgliad, er nad oedd y newid yn 'sylweddol', y byddem yn monitro cynnydd ac yn adrodd ar hyn yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf ar gyfer y BBC.**

**Ym mis Hydref, fe wnaeth y BBC nodi cynlluniau i drawsnewid ei wasanaethau lleol yn Lloegr, gan gynnwys ei orsafoedd radio lleol. Rydym wedi craffu'n fanwl ar gynigion y BBC ar gyfer radio lleol ac wedi ysgrifennu at y BBC yn nodi'r ymrwymiadau y mae wedi'u gwneud a sut rydym yn bwriadu ei ddwyn i gyfrif. Byddwn yn monitro perfformiad y BBC yn y maes hwn yn ofalus. Rydym hefyd yn bwriadu comisiynu ymchwil newydd i ddeall yn well beth mae cynulleidfaoedd ei angen gan wasanaethau lleol, a beth sy'n bwysig iddynt mewn gwasanaethau lleol.**

## Deddfwriaeth a rheoleiddio'r cyfryngau

Yn dilyn ein hadroddiad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr yn 2021, fe wnaethom barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r diwydiant ar reolau newydd i sicrhau bod rheoleiddio'n cyd-fynd â newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd a marchnad ddeinamig iawn.

Nododd y Llywodraeth ei bwriad i ddeddfu mewn nifer o feysydd sy'n effeithio ar ein gwaith mewn Papur Gwyn ym mis Ebrill, a chyhoeddodd Fil Cyfryngau drafft ym mis Mawrth eleni. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth i helpu i sicrhau bod y system reoleiddio newydd yn gymesur, yn effeithiol ac yn gweithio er budd pob cynulleidfa. Rydym eisoes wedi ehangu ein gwaith yn edrych ar effeithiau technolegau newydd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg.

## Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad

Mae Ofcom yn ehangu ehangder y data rydym yn ei gasglu bob blwyddyn gan weithluoedd darlledwyr teledu a radio i'n helpu i hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad ar draws y diwydiant darlledu. Mae hyn yn dilyn adolygiad pum mlynedd o gynnydd yn 2021, lle roeddem wedi nodi rhagor o welliannau y gallai'r sector eu gwneud i adlewyrchu ei gynulleidfa amrywiol.

Ym mis Tachwedd, fe wnaethom gyhoeddi fframwaith a chanllawiau newydd ar gyfer sut rydym yn casglu ac yn defnyddio'r data amrywiaeth hwn gan ddarlledwyr. Bydd ein pecyn cymorth newydd yn sail i waith dros y flwyddyn nesaf, gan ein helpu i gasglu ac adrodd ar gynnydd y diwydiant yn ein hadroddiad blynyddol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad mewn Darlledu.

## Channel 3, Channel 4 a Channel 5

Ym mis Mehefin, fe wnaethom adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gynaliadwyedd Channel 3 a Channel 5 ar gyfer cyfnod y drwydded ddeng mlynedd nesaf. Mae'r trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus hyn yn cael eu dal gan is-gwmnïau ITV plc, STV Group Ltd a Paramount Global (perchennog Channel 5). Fe wnaethom ganfod y gallai'r rhwymedigaethau presennol fod yn fasnachol gynaliadwy, fel y gallai'r trwyddedeion barhau i'w cyflawni dros gyfnod nesaf y drwydded.

Mae deiliaid trwyddedau presennol Channel 3 a Channel 5 wedi gwneud cais i adnewyddu eu trwydded, ac rydym yn disgwyl cwblhau'r trwyddedau newydd erbyn diwedd 2023/24. Bydd trwydded bresennol Channel 4 hefyd yn dod i ben ddiwedd 2024. Yn dilyn cyhoeddiad diweddar y Llywodraeth ar barhau i fod yn berchen ar y cyhoedd a diwygiadau i Channel 4, rydym wedi dechrau'r broses o adnewyddu'r drwydded yn ystod 2023/24.

Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom roi ein hymateb blynyddol i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau Channel 4, gyda'n safbwynt ynghylch pa mor dda mae'r darlledwr yn cyflawni ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau. Gwelsom fod ei wasanaethau wedi perfformio'n dda gyda chynulleidfaoedd dros y flwyddyn ddiwethaf. Fe wnaethom nodi maes cynnwys ar-lein arfaethedig Channel 4 ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, a gofyn am strategaeth glir ar fuddsoddi mewn cynnig o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc yn eu harddegau.

## Dewis diogelu yn y newyddion

Mae cwmnïau technoleg tramor yn siapio'r straeon newyddion y mae pobl yn y DU yn eu gweld a'u darllen fwyfwy, gan arwain at risgiau o ran tryloywder a dewis mewn newyddion. Dyna oedd canfyddiad ein hadroddiad ym mis Tachwedd ar ddewis o ran newyddion, neu 'luosogrwydd yn y cyfryngau'.

Fe wnaethom nodi pryderon ynghylch effaith 'porthorion' newyddion ar-lein – yn enwedig cyfryngau cymdeithasol, fel Facebook, ond hefyd peiriannau chwilio ac apiau newyddion fel Apple News a Google News. Roedd ein hastudiaeth yn tynnu sylw at ba mor bell mae'r cwmnïau hyn – sy'n cael eu defnyddio gan ddau o bob tri oedolyn ar-lein ar gyfer newyddion – yn penderfynu faint o'r newyddion ar-lein mae pobl yn ei weld, a sut maen nhw'n ymateb iddo.


Awgrymodd ein dadansoddiad y gallai fod angen rheoliadau newydd i ddeall a mynd i'r afael ag effaith porthorion ar-lein ar luosogrwydd yn y cyfryngau. Gallai hyn gynnwys adnoddau newydd i fynnu bod cwmnïau technoleg yn fwy tryloyw ynghylch y dewisiadau maen nhw'n eu gwneud wrth benderfynu ar y newyddion rydym yn ei weld ar-lein, yn ogystal â rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i ddefnyddwyr eu hunain. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant a phartïon sydd â diddordeb dros y misoedd nesaf, ac wedyn rydym yn bwriadu datblygu argymhellion ffurfiol i Lywodraeth y DU eu hystyried.

# Gwasanaethu a diogelu cynulleidfaoedd

Rydym yn gosod ac yn gorfodi safonau ar deledu, radio a rhai gwasanaethau ar-alw. Drwy ddiogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol a chynnal didueddrwydd dyladwy, rydym yn cynnal ymddiriedaeth yn ein cyfryngau darlledu ac yn sicrhau safonau uchel i wylwyr a gwrandawyr.

### Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Gwnaethom barhau i gynnal safonau ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau teledu, radio ac ar-alw. Eleni, gwnaethom asesu 36,908 o gwynion (8,725 o achosion), cwblhau 78 o ymchwiliadau a chanfod 70 achos a oedd yn torri ein rheolau darlledu.
- Fe wnaethom gynnal ymchwil manwl i sicrhau bod ein rheolau'n adlewyrchu anghenion, safbwyntiau ac ymddygiad newidiol cynulleidfaoedd teledu a radio.
- Rydym yn gorfodi rheolau ac yn adolygu canllawiau sy'n sicrhau bod isdeitlau, arwyddo a disgrifiadau sain ar gael i bobl sy'n colli eu golwg a/neu eu clyw. Eleni, roeddem hefyd wedi adrodd ar ddigwyddiadau difrifol a achosodd gyfnod segur gydag isdeitlo ar Channel 4, a chyfnod segur cyffredinol ar y teledu a'r radio yng ngogledd-ddwyrain Lloegr.
- Fe wnaethom ddatblygu dull newydd arloesol ar gyfer canfod bylchau bach yn y sbectrwm radio y gellir eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau radio arbennig – o radio ysbytai i sinemâu yn-y-car a defodau crefyddol.



### Pam mae hyn yn bwysig

- Dylai cynulleidfaoedd gael eu diogelu rhag cynnwys niweidiol ar y teledu a'r radio. Dylent allu ymddiried yn yr hyn y maent yn ei weld a'i glywed, a theimlo eu bod yn gallu cwyno wrthym am rywbeth ar y teledu neu'r radio sy'n peri pryder iddynt. Rydym yn asesu pob cwyn a dderbyniwn.
- Mae gan ddarlledwyr hawl i drawsyrru gwybodaeth, barn a syniadau; ac mae gan wylwyr a gwrandawyr hawl i'w derbyn heb ymyrraeth ddiangen. Yn ein holl waith safonau, mae Ofcom yn rhoi ystyriaeth lawn i bwysigrwydd rhyddid mynegiant.
- Dylai gwasanaethau teledu ac ar-alw fod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys y rheini sydd ag anableddau neu nam ar y synhwyrau. Dylent hefyd fod yn ddibynadwy, gyda darlledwyr yn gwarchod rhag cyfnodau segur, fel bod pobl yn cael eu hysbysu a'u diddanu gan y rhaglenni maen nhw'n eu mwynhau.

**"Fe wnaethom gynnal ymchwil manwl i sicrhau bod ein rheolau'n adlewyrchu anghenion, safbwyntiau ac ymddygiad newidiol cynulleidfaoedd teledu a radio"**

Eleni, gwnaethom asesu

**36,908**

**o gwynion**



**78**

o ymchwiliadau wedi'u cwblhau

**70 o achosion wedi torri ein rheolau darlledu**

# Ein gwaith eleni

## Cynnal safonau cynnwys

Rydym wedi parhau i osod a gorfodi safonau cynnwys i ddiogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol ac yn dramgwyddus, gan gynnal hawliau darlledwyr a chynulleidfaoedd i ryddid mynegiant ar yr un pryd. Mae ein rheolau ar gyfer rhaglenni teledu a radio wedi'u nodi yn y Cod Darlledu, a ni hefyd yw'r rheoleiddiwr cynnwys ar gyfer gwasanaethau fideos ar-alw yn y DU.

Eleni, gwnaethom asesu 36,908 o gwynion (8,725 o achosion), cwblhau 78 o ymchwiliadau a chanfod 70 achos a oedd yn torri ein rheolau darlledu.[1]

Roedd ein gwaith gorfodi yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd o niwed difrifol. Fe wnaethom gyhoeddi hysbysiad drafft i ddiddymu trwydded Khalsa Television (KTV) ar ôl darlledu deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu arwain at anhrefn. Yn y pen draw, ildiodd KTV ei drwydded. Fe wnaethom hefyd roi dirwy o £15,000 i Loveworld Limited am ddarlledu datganiadau niweidiol posibl yn gofyn am roddion ar sail ffydd grefyddol. Roedd hyn yn cynnwys honiadau y byddent yn gwella iechyd, cyfoeth a llwyddiant y rhoddwr, heb roi amddiffyniad digonol i wylwyr. Fe wnaethom hefyd gwblhau 29 o ymchwiliadau gan ganfod bod gwasanaeth newyddion rhyngwladol Rwsia, sef RT, yn torri ein rheolau didueddrwydd dyladwy.[2]

## Rheoleiddio gwasanaethau teledu, radio a ffrydio

Fe wnaethom barhau i gyhoeddi, rheoli a chynnal trwyddedau ar gyfer yr holl wasanaethau teledu masnachol lleol a chenedlaethol, gwasanaethau radio digidol, masnachol a chymunedol a gwasanaethau radio analog gwasanaeth cyfyngedig. Mae'r gwaith pwysig hwn yn caniatáu i wylwyr a gwrandawyr gael gafael ar amrywiaeth o gynnwys ar draws gwahanol lwyfannau.

Mae Cod Darlledu Ofcom yn nodi'r rheolau y mae'n rhaid i bob trwyddedai teledu a radio eu dilyn. Buom hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i'w helpu i ddatblygu darpariaethau statudol drafft yn ei Bil Cyfryngau drafft i gyflwyno cod newydd ar gyfer gwasanaethau 'ar-alw' (neu ffrydio), a fydd yn gweithio mewn ffordd debyg i'r Cod Darlledu, ac rydym wedi parhau i weithio'n agos ar hyn gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil newydd i'n helpu i ddeall yn well beth yw disgwyliadau cynulleidfaoedd o ran cynnwys sydd ar gael ar wasanaethau ffrydio.

1 Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cwynion am Degwch a Phreifatrwydd neu gwynion yr ydym wedi'u cyfeirio at y BBC o dan BBC yn Gyntaf am nad oedden nhw wedi cwblhau proses gwynion y BBC.

2 Fel yr adroddwyd y llynedd, gwnaethom ddiddymu'r trwyddedau i RT ddarlledu ar 18 Mawrth 2022.

### DAB ar raddfa fach: chwyldro radio lleol

Mae chwyldro ar droed ym maes radio lleol, diolch i DAB ar raddfa fach — technoleg arloesol, a ddatblygwyd yn Ofcom, sy'n cynnig ffordd rad i orsafoedd masnachol, cymunedol ac arbenigol lleol ddarlledu ar radio digidol daearol i ardal fach.

At ei gilydd, mae ein rhaglen drwyddedu hyd yma wedi arwain at 23 'amlblecs' newydd – neu grwpiau o sianeli – ar yr awyr mewn lleoliadau ledled y DU, gyda chyfanswm o 177 o orsafoedd radio rhyngddynt. O'r rhain, mae 131 yn wasanaethau newydd, unigryw. Mae hwn yn gam enfawr ymlaen o ran darparu amrywiaeth ehangach o gynnwys lleol ac arbenigol i wrandawyr radio er mwyn diwallu eu hanghenion.

Roeddem hefyd wedi parhau i weithio eleni ar esblygiad tymor hir y ffordd mae cynnwys teledu a sain yn cael ei ddosbarthu drwy ddarlledu a dros y rhyngrwyd. Efallai y bydd hyn yn gofyn am newidiadau i'r fframwaith trwyddedu darlledu, a byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU wrth iddi fwrw ymlaen â'i dull o reoleiddio technoleg ddarlledu newydd.

## Sicrhau bod teledu ar gael i bawb

Mae angen i bobl sy'n fyddar, sy'n colli eu clyw, sy'n ddall neu sy'n rhannol ddall allu cael gafael ar raglenni teledu sydd ar gael i bawb a'u mwynhau. Dyna pam mae 'gwasanaethau mynediad' darlledu, fel isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion, yn cael eu cyflenwi gan ddarlledwyr.

Rydym wedi parhau i orfodi gofynion sylfaenol ar gyfer y gwasanaethau hanfodol hyn, ac rydym yn adrodd bob blwyddyn ar lefelau hygyrchedd ar wasanaethau darlledu ac ar-alw. Ar hyn o bryd rydym yn diweddaru ein canllawiau arfer gorau ar gyfer hygyrchedd a byddwn yn cynnwys canllawiau sy'n benodol i wasanaethau ar-alw, wedi'u llywio gan ymgynghoriad ac ymchwil newydd.

Gyda Llywodraeth y DU yn cynnig gofynion hygyrchedd ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw, fel Netflix a Disney, fe wnaethom lansio adolygiad o'n canllawiau ar gyfer hygyrchedd darlledu, gan gynnwys canllawiau penodol ar gyfer gwasanaethau ar-alw. Byddwn yn bwriadu ymgynghori ynghylch newidiadau i'r canllawiau hyn yn 2023.

Eleni, canfu ymchwiliad gan Ofcom fod Channel 4 wedi torri amodau ei drwydded darlledu yn dilyn cyfnod segur estynedig yn ei wasanaethau isdeitlo, arwyddo a disgrifiadau sain yn 2021. Ar ôl digwyddiad mewn canolfan ddarlledu sy'n cael ei rhedeg gan Red Bee Media, nid oedd cynulleidfaoedd Freesat sy'n dibynnu ar isdeitlau yn gallu cael gafael yn llawn ar raglenni Channel 4 am bron i ddau fis. Roedd y cyfnod segur yn golygu nad oedd rhaid i Channel 4 isdeitlo 90% o'i oriau rhaglenni ar Freesat; a gwelsom ei fod wedi torri amod trwydded arall drwy fethu cyfathrebu'n effeithiol â chynulleidfaoedd am y digwyddiad.

Roedd ein hadolygiad ehangach o'r digwyddiad Red Bee ym mis Mehefin yn tynnu sylw at yr angen brys i bob darlledwr wella ac archwilio eu cynlluniau adfer ar ôl anffawd. Rhaid i'r rhain gynnwys cynlluniau cyfathrebu clir os bydd ymyriadau i wasanaethau.

Canfu adolygiad ar wahân gan Ofcom eleni fod angen i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau darlledu adolygu eu cynlluniau wrth gefn ar frys, er mwyn osgoi'r math o fethiant trosglwyddo a ddigwyddodd pan aeth trosglwyddydd Bilsdale yn Swydd Efrog ar dân yn 2021. Roeddem wedi tynnu sylw at y ffaith y dylai eu hadolygiadau ystyried cynllunio ymlaen llaw ar gyfer gwasanaethau adfer, sut byddai offer argyfwng yn cael ei ddefnyddio, a mwy o eglurder ynghylch sut byddai cymorth a gwybodaeth yn cael eu darparu i ddefnyddwyr y byddai colli gwasanaethau teledu neu radio yn sylweddol yn effeithio arnynt. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd y cynlluniau newydd sy'n cael eu rhoi ar waith.



## Cefnogi gwasanaethau radio arbennig

Rydym wedi datblygu dull newydd arloesol o gynllunio sbectrwm, sy'n ein galluogi i ganfod bylchau bach mewn sbectrwm y gellir eu defnyddio ar gyfer darllediadau gwasanaeth radio 'cyfyngedig'.

Gwasanaethau radio yw'r rhain sy'n gwasanaethu ardaloedd bach, a ddefnyddir fel arfer am gyfnodau penodol neu mewn sefydliad neu leoliad penodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwasanaethau radio penodol ar gyfer defodau crefyddol fel Ramadan, gwasanaethau radio ysbyty; gwasanaethau radio prifysgol; traciau sain ar gyfer ffilmiau yn-y-car a sylwebaeth ar gyfer digwyddiadau fel sioeau awyr. Rydym wedi symleiddio ein dull trwyddedu ar gyfer y gwasanaethau hyn, gan roi cyfleoedd i fwy ohonynt gael eu trwyddedu.

## Deall gwylwyr a gwrandawyr

Mae Ofcom yn cynnal ymchwil manwl a rheolaidd i sicrhau bod ein rheolau'n adlewyrchu anghenion, safbwyntiau ac ymddygiad newidiol cynulleidfaoedd teledu a radio.

Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom adrodd ar sut mae cynulleidfaoedd yn ymateb i gyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu, fel gosod cynnyrch a nawdd. Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau i ddatblygu canllawiau newydd yn y maes hwn ar gyfer darlledwyr.

Rydym hefyd wedi cynnal astudiaeth o agweddau tuag at amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â deunydd rhywiol a threisgar, gan ganolbwyntio ar ddiogelu plant a safonau ar ddeunyddiau ymosodol. Ac rydym yn cynnal ymchwil i safonau a deunydd ymosodol sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol ar draws gwasanaethau teledu a ffrydio traddodiadol er mwyn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o ddisgwyliadau cynulleidfaoedd sy'n newid. Bydd y ddau ddarn o ymchwil yn cael eu cyhoeddi yn 2023.

# Sefydlu rheoleiddio diogelwch ar-lein

**Mae'r DU ar fin dod ymysg gwledydd cyntaf y byd i gyflwyno deddfau newydd gyda'r nod o wneud defnyddwyr ar-lein yn fwy diogel. Mae Ofcom yn gwneud paratoadau terfynol i fod yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein.**

### Yr hyn a wnaethom – yn gryno

- Roeddem wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth wrth i'r Bil Diogelwch Ar-lein gael ei basio drwy'r Senedd, gan gynnig cyngor technegol a gwneud rhagor o baratoadau i reoleiddio'r maes newydd pwysig hwn.
- Rydym yn nodi cynlluniau manwl ar gyfer rheoleiddio ar-lein, gan wahodd tystiolaeth a gweithio'n uniongyrchol gyda'r diwydiant, y byd academaidd, cymdeithas sifil a grwpiau arbenigol.
- Fel rhan o'n cylch gwaith yn goruchwylio llwyfannau rhannu fideos y DU, roeddem wedi defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth i gynhyrchu adroddiad arloesol ar yr hyn mae llwyfannau rhannu fideos yn ei wneud i ddiogelu eu defnyddwyr.
- Gwnaethom barhau i fuddsoddi yn ein technoleg, ein data a'n gwybodaeth am y sector, gan gynnwys amrywiaeth o raglenni ymchwil manwl i lywio ein ffordd o feddwl.
- Rydym wedi dyfnhau a ffurfio partneriaethau newydd gyda rheoleiddwyr digidol eraill gartref a thramor, gan ganiatáu i ni fynd i'r afael â materion diogelwch ar-lein ar y cyd drwy gyrff fel Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol y DU a'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang newydd.
- Fe wnaethom ymestyn ein rhaglen ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ynghylch diogelwch ar-lein, recriwtio cynghorwyr newydd, comisiynu sefydliadau lleol a chynnal digwyddiadau ledled y DU i helpu i wella sgiliau ar-lein pobl

**"Bydd gwersi ehangach yn helpu i siapio ein gwaith o reoleiddio diogelwch ar-lein ar ran miliynau o blant ac oedolion ledled y DU"**

### Pam mae hyn yn bwysig

- Pan fyddwn yn cael ein pwerau diogelwch ar-lein newydd, mae angen i Ofcom fod yn barod i ddechrau gwneud gwahaniaeth.
- Mae ein hymchwil fanwl yn dal i ddangos bod materion diogelwch ar-lein yn effeithio ar bobl ym mhob rhan o gymdeithas. Er enghraifft, mae tri defnyddiwr rhyngrwyd o bob pump yn profi ymddygiad neu gynnwys a allai fod yn niweidiol. Mae gan ddwy ran o dair o blant 10 oed eu proffil cyfryngau cymdeithasol eu hunain erbyn hyn. A dim ond tri o bob deg rhiant sy'n defnyddio'r swyddogaeth rheolaeth rhieni, sydd ar gael i'w ddefnyddio yn eang, er mwyn helpu i reoli mynediad eu plant i'r rhyngrwyd.
- Mae Ofcom eisoes yn helpu i wella diogelwch ar-lein pobl drwy set bresennol o gyfreithiau sy'n ymwneud â llwyfannau rhannu fideos wedi'u sefydlu yn y DU. Ar ôl cael eu rheoleiddio o dan y rheolau hyn, mae nifer o wasanaethau fel TikTok a Snapchat bellach wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys niweidiol.
- Disgwylir i oddeutu 2,500 o bobl o gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol elwa'n uniongyrchol o'n rhaglenni ymwybyddiaeth o'r cyfryngau peilot. Bydd gwersi ehangach yn helpu i siapio ein gwaith o reoleiddio diogelwch ar-lein ar ran miliynau o blant ac oedolion ledled y DU.



# Ein gwaith eleni

## Paratoi ar gyfer diogelwch ar-lein

Bydd y Bil Diogelwch Ar-lein sydd ar y gweill yn cyflwyno dyletswyddau newydd ar gyfer safleoedd ac apiau fel peiriannau chwilio, cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau negeseuon a gwasanaethau eraill y mae pobl yn eu defnyddio i rannu cynnwys ar-lein. Fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein, gwaith Ofcom fydd gorfodi cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hyn.

Wrth i'r Bil Diogelwch Ar-lein fynd drwy'r Senedd eleni, fe wnaethom roi tystiolaeth i lunwyr deddfau wrth iddynt ystyried y ddeddfwriaeth.

Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom gyflwyno 'map ar gyfer rheoleiddio' sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu ar gyfer rhoi'r Bil ar waith. Roedd y map hefyd yn rhoi syniadau cychwynnol i lwyfannau sy'n cael eu rheoleiddio ynghylch beth fyddai angen iddyn nhw ei wneud ac erbyn pryd, yn ogystal â beth fydd Ofcom yn ei wneud yn ystod y 100 diwrnod cyntaf ar ôl i'n pwerau gael eu rhoi. Fe wnaethom egluro sut y byddwn yn rhoi 'cam cyntaf' rheoleiddio ar waith, gan ymdrin â chynnwys anghyfreithlon fel cam-fanteisio'n rhywiol a cham-drin plant.

Hefyd eleni, gwnaethom gwblhau 'cais am dystiolaeth' cychwynnol ar gynnwys anghyfreithlon, mesurau lliniaru a gofynion tryloywder cyn ein hymgynghoriad ffurfiol cyntaf yn y maes hwn. Gofynnwyd am dystiolaeth o risgiau i blant a sut y gellir eu lleihau, wrth i ni baratoi i ddatblygu Codau Ymarfer.

## Buddsoddi mewn technoleg, data a gwybodaeth y sector

Mae paratoi i reoleiddio yn golygu sefydlu Ofcom fel arweinydd byd-eang ym maes ymchwil ac arbenigedd ar-lein. Eleni, fe wnaethom sefydlu rhaglen o ymchwil i wybodaeth am ymddygiad, gan ein helpu i ddeall sut gall dyluniad safleoedd ac apiau ddylanwadu ar ymddygiad eu defnyddwyr. Fe wnaethom ddechrau casglu tystiolaeth i lywio ein codau a'n canllawiau: cyhoeddi dwy alwad am dystiolaeth, un ym mis Gorffennaf 2022 ar gam-drin a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant, terfysgaeth a niwed anghyfreithlon arall, a'r ail ym mis Ionawr 2023 ar niwed ychwanegol i blant, fel cynnwys yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio a phornograffi. Fe wnaethom ryddhau amrywiaeth o astudiaethau manwl mewn meysydd penodol, gan gynnwys adroddiad ar systemau dosbarthu cynnwys awtomataidd, sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial i gymedroli cynnwys ar raddfa fwy nag y gellid ei gyflawni gan dimau dynol yn unig.

Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i ddatblygu ein harbenigedd mewn technolegau digidol, dadansoddi data a seiberddiogelwch, gan gyflogi pobl arbenigol fel Meta, Amazon, y byd academaidd a'r byd polisi. Fe wnaethom dyfu ein huned arloesi data a'n canolfan dechnoleg ym Manceinion. Ac ym mis Tachwedd, fe wnaethom gyhoeddi arweinydd newydd ar gyfer ein Grŵp Diogelwch Ar-lein, cyn weithredwr Google, Gill Whitehead.

### Llwyfannau rhannu fideos

**Cafodd Ofcom bwerau yn 2020 i oruchwylio llwyfannau rhannu fideos yn y DU. Rhaid i'r gwasanaethau hyn bellach fod â mesurau priodol ar waith i ddiogelu pob defnyddiwr rhag cynnwys anghyfreithlon a chymell trais neu gasineb; a phlant rhag deunydd niweidiol a allai amharu ar eu datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol.**

**Ni yw un o'r rheoleiddwyr cyntaf yn Ewrop i ddefnyddio'r pwerau hyn drwy gasglu gwybodaeth gan y cwmnïau dan sylw. Ym mis Hydref, fe wnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau mewn adroddiad arloesol, gan ddatgelu'n union beth mae llwyfannau rhannu fideos yn ei wneud i ddiogelu eu defnyddwyr.**

**Roedd ein hastudiaeth yn dangos rhywfaint o gynnydd, gyda gwasanaethau fel TikTok, Snapchat a Vimeo yn gwneud newidiadau i leihau'r risg o niwed. Ond gwelsom hefyd nad oedd gan lawer o lwyfannau'r adnoddau angenrheidiol, ac nad oeddent wedi paratoi ar gyfer rheoleiddio. Wrth nodi ein strategaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, fe wnaethom egluro sut byddwn yn ceisio gwelliannau gan lwyfannau sy'n dod o dan ein gwaith rheoleiddio.**

**Canfuom hefyd fod angen mesurau rheoli oedran cryfach ar rai safleoedd llai sy'n rhannu fideos i oedolion er mwyn atal plant rhag cael mynediad at bornograffi. Fe wnaethom roi gwybod i'r cwmnïau hyn ein bod yn disgwyl gweithredu ar frys i amddiffyn plant a lansio rhaglen orfodi ffurfiol ym mis Ionawr. Ar wahân, fe wnaethom agor ymchwiliad ffurfiol i Tapnet Ltd, sy'n gweithredu safle RevealMe ar gyfer oedolion yn y DU, am fethu â bodloni ein ceisiadau am wybodaeth. Arweiniodd hyn at ddirwyo Tapnet Ltd ar ôl i'r cwmni beidio ag ymateb i gais statudol am wybodaeth.**

**Mae ein gwaith o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos yn sicrhau canlyniadau ac yn caniatáu i Ofcom feithrin y ddealltwriaeth, y dystiolaeth a'r ymgysylltu â'r diwydiant a fydd yn angenrheidiol yn ein rôl newydd fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein. Er enghraifft, gwnaethom gynnal a chomisiynu ymchwil eang eleni ar sut mae pobl yn defnyddio llwyfannau rhannu fideos, o rieni a gofalwyr i ddefnyddwyr llwyfannau sy'n dangos cynnwys pornograffig.**

## Partneriaethau gartref a thramor

Mae rheoleiddio ar-lein yn her fyd-eang ac yn nod cyffredin i reoleiddwyr a llunwyr polisïau gartref a thramor. Mae Ofcom wedi bod yn datblygu ac yn dyfnhau partneriaethau yn y DU ac yn rhyngwladol.

Rydym wedi parhau i chwarae rhan flaenllaw yn y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, enghraifft o'r radd flaenaf o gydweithio rhwng rheoleiddwyr ar-lein y DU. Mae rhagor o fanylion am waith y Fforwm eleni wedi'u nodi isod.

Daethom yn aelod sylfaenol o'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang eleni, gan ymuno â rheoleiddwyr o Awstralia, Fiji a Gweriniaeth Iwerddon i annog a chydlynu ymdrechion byd-eang i wneud y byd ar-lein yn lle mwy diogel. Buom hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr i lansio Gweithgor Rhyngwladol ar sicrhau a dilysu oedran.



## Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Mae gennym eisoes ddyletswyddau i hyrwyddo dealltwriaeth pobl o'r cyfryngau, sydd hefyd yn helpu i lywio ein polisi. Eleni, wrth i ni baratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein, fe wnaethom barhau â'n rhaglen ar-lein ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Fe wnaethom adnewyddu ein Panel Cynghori Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, gan recriwtio cronfa amrywiol o arbenigwyr ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i fod yn gyfeillion beirniadol i ni, i herio ein syniadau ac i roi cyngor ar sut mae eu gwaith eu hunain yn esblygu. Rydym wedi comisiynu sefydliadau lleol ledled y DU i helpu i wella sgiliau ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein, a hynny ymysg grwpiau a chymunedau sydd fwyaf mewn perygl o niwed ar-lein. Ac fe wnaethom gynnal digwyddiadau ledled y wlad, gan rannu ein gwaith a gwrando ar bobl eraill.

Er mwyn helpu i lywio ein gwaith rheoleiddio, gwnaethom barhau â gwaith ymchwil pwysig yn y maes hwn. Er enghraifft, roedd ein traciwr ymwybyddiaeth yn y cyfryngau blynyddol yn tynnu sylw at y ffaith nad yw traean o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn ymwybodol o'r potensial o ddod ar draws gwybodaeth anghywir neu ragfarnllyd ar-lein; a bod gan ddwy ran o dair o blant 10 oed eu proffil cyfryngau cymdeithasol eu hunain erbyn hyn.

Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth ehangach o faterion ar-lein, fe wnaethom lansio podlediad, Life Online. Roedd un bennod yn cyfateb â lansio adroddiad ar y cyd gan Ofcom a Sefydliad Alan Turing ar gam-drin chwaraewyr pêl-droed ar Twitter, a digwyddiad uchel ei broffil ym Manceinion a oedd yn cynnwys uwch ffigurau o'r gêm.

Rydym hefyd wedi arwain trafodaethau bwrdd crwn gyda'r diwydiant a grwpiau cymdeithas sifil i drafod materion diogelwch ar-lein – o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain i TechUK, Carnegie a Linklaters.


# Achos o saethu yn Buffalo – astudiaeth achos o niwed ar-lein

**Ym mis Mai 2022, bu ymosodiad terfysgol yn Buffalo, Efrog Newydd, gan ladd deg o bobl ac anafu tri arall. Cafodd yr ymosodiad ei ffrydio'n fyw, a chafodd fersiynau o'r deunydd eu dosbarthu i filiynau o bobl ar lwyfannau ar-lein, gan gynnwys yn y DU.**

Fel rheoleiddiwr llwyfannau rhannu fideos, mae Ofcom wedi ceisio dysgu o'r digwyddiad trasig hwn. Ar ôl i ni ddod yn ymwybodol bod yr ymosodiad yn cael ei ffrydio'n fyw a'i ledaenu ar lwyfannau rhannu fideos yn y DU, fe wnaethom gwrdd ar frys â'r cwmnïau sy'n rhedeg y safleoedd a'r apiau hyn – fel TikTok, Twitch a BitChute – i ddeall beth ddigwyddodd, a pha mor effeithiol roedden nhw wedi ymateb.

Fe wnaethom gynnal dros 20 o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid arbenigol fel cwmnïau, ymchwilwyr, llywodraethau a rheoleiddwyr sydd ag arbenigedd a phrofiad o radicaleiddio ar-lein a lledaenu cynnwys terfysgol. Ym mis Hydref eleni, fe wnaethom nodi ein canfyddiadau.





Roedd ein hadroddiad ar ddigwyddiad Buffalo yn nodi bod manteision i lwyfannau sy'n cydweithio ar draws amrywiaeth o gyrff a mentrau ar draws y diwydiant; mae amrywiadau yn y dulliau mae llwyfannau gwahanol yn eu defnyddio i fynd i'r afael â therfysgaeth; ac mae cyfle i lwyfannau leihau'r risg o gynnwys terfysgol ar-lein drwy gyflwyno nodweddion sy'n cyfyngu ar fynediad at ffrydio byw mewn amgylchiadau penodol.

Byddwn yn ystyried y safbwyntiau hyn yn ein gwaith diogelwch ar-lein yn y dyfodol, ac rydym yn disgwyl cyhoeddi rhagor o ymchwil i'r maes hwn o niwed difrifol iawn i ddefnyddwyr ar-lein.

# Trawsnewid Ofcom ar gyfer y dyfodol

**Gyda newid eang ar draws ein sectorau sy'n cael eu rheoleiddio ac ehangu dyletswyddau Ofcom, roedd 2022/23 yn flwyddyn o newid a buddsoddiad sylweddol yn y sefydliad, i'n paratoi ar gyfer yr heriau sydd i ddod.**

### Yn 2022/23 roedd gennym dair blaenoriaeth sefydliadol

- Fe wnaethom ailwampio a symleiddio ein strwythurau a'n system rheoli perfformiad, gan gael gwared ar brosesau diangen i wella effeithlonrwydd, a buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad i sicrhau bod gan bob cydweithiwr yn Ofcom reolwr gyrfaoedd a pherfformiad medrus. Rydym wedi lleihau nifer y rheolwyr llinell 15% o 360 ym mis Mawrth 2022 i 307 ym mis Mawrth 2023, gan dyfu'r sefydliad ar yr un pryd.
- Buom yn gweithio gyda'n Bwrdd i egluro dewisiadau polisi a rheoleiddio Ofcom dros y tair blynedd nesaf, er mwyn darparu fframwaith cryfach ar gyfer cynllunio busnes, blaenoriaethu a rheoli risg yn y dyfodol.
- Fe wnaethom gwblhau ein paratoadau sefydliadol ar gyfer ein dyletswyddau newydd fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein, gan sefydlu strwythurau newydd a recriwtio dros 150 o gydweithwyr newydd, a chanolbwyntio ar dechnoleg a sgiliau data, yn ogystal â pholisi, ac ymddiriedaeth a diogelwch.

### Ar ben hynny, gwnaethom fuddsoddi mewn gwella effeithlonrwydd a lleihau costau

Gwnaethom gynnal rhaglen o welliannau i awtomeiddio gweithgareddau y gellir eu hailadrodd a defnyddio technoleg i symleiddio prosesau gweithredol (yn enwedig yn ein timau trwyddedu sbectrwm a darlledu). Rydym hefyd wedi gwella ein system Pobl a Chyllid ymhellach er mwyn sicrhau mwy o effeithlonrwydd yn ein prosesau Adnoddau Dynol a Chyllid.

Gwnaethom yrru defnydd mwy effeithlon o'n hystad, gan leihau ôl troed ein swyddfa yn Llundain, gan gydnabod y rôl gynyddol o weithio'n hyblyg ar ôl y pandemig. Gwnaethom barhau i anelu at ein nod o gyflogi 30% o gydweithwyr y tu allan i Lundain erbyn 2026. Ym mis Mawrth 2023, roedd 22.5% o gydweithwyr wedi'u lleoli y tu allan i Lundain, o'i gymharu ag 20% ym mis Mawrth 2022. Yn yr un cyfnod, rydym hefyd wedi cynyddu nifer y bobl yn ein swyddfa yng Nghaeredin (o 51 i 68) a swyddfa Manceinion (o 26 i 74).

### Fe wnaethom gyflawni nifer o fuddsoddiadau craidd yn ein pobl a'n gallu

Ar ôl ymgynghori â'n staff, fe wnaethom roi ein fframwaith Gweithio Cysylltiedig newydd ar waith i sefydlu arferion gweithio yn dilyn Covid. Rydym yn disgwyl y bydd angen i ni fod yn y swyddfa gyda'n gilydd yn amlach na pheidio, ond rydym wedi rhoi hyblygrwydd i reolwyr a thimau sefydlu'r trefniadau iawn yn eu hardal.

Fe wnaethom gyflawni ar ail flwyddyn ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Rydym wedi gosod targed ar gyfer cynrychiolaeth ethnig uwch o 16% o gydweithwyr ar lefel Pennaeth ac uwch erbyn 2026; mae hyn eisoes wedi cael ei ragori, gan gyrraedd 17% ym mis Mawrth. Roeddem yn falch o gael ein cydnabod yn 50 o gyflogwyr gorau The Times ar gyfer merched yn y DU am y drydedd flwyddyn yn olynol, a chawsom statws Efydd ym Mynegai Cydraddoldeb Stonewall. Rydym yn parhau i ddefnyddio ein meincnodau i nodi cyfleoedd ar gyfer rhagor o waith i wreiddio cynhwysiad yn y gweithle.

Fe wnaethom adeiladu galluoedd newydd sylweddol ym maes data, technoleg a dadansoddeg, gan gynyddu nifer y cydweithwyr yn y Grŵp Technoleg, Data ac Arloesi o 33 (Mawrth 2022) i 90 (Mawrth 2023). Fel rhan o hyn, rydym wedi ehangu ein Canolfan Arloesi Data, gan ddarparu mwy o arweiniad a chyngor canolog i gydweithwyr ar ddefnyddio data ar draws y sefydliad.



# Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF)

**Sefydlwyd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol yn 2020, ac mae'n cryfhau cydweithio rhwng Ofcom, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar faterion digidol.**

Rydym yn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd, ac yn gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar bobl a busnesau ar-lein.

## Yr hyn a wnaethom – yn gryno

Y llynedd oedd yr ail flwyddyn lawn o weithredu ar gyfer y Fforwm, ac roedd y ffocws ar gyflawni'r Fforwm, er mwyn i'r Senedd, y diwydiant a'r cyhoedd allu gweld allbynnau pendant o'r cydweithio. Gyda'n gilydd, fe wnaethom amlinellu rhaglen uchelgeisiol o waith i fynd i'r afael ag ystod eang o faterion digidol cymhleth. Cyhoeddwyd adroddiad ar gynnydd yn erbyn y cynllun hwn ym mis Ebrill 2023. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- gweithio i archwilio'r rhyng-gysylltiadau rhwng trefniadau rheoleiddio: cyhoeddodd Ofcom a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ddatganiad ar y cyd ym mis Gorffennaf ar sut mae diogelwch ar-lein yn rhyngweithio â chystadleuaeth yn y farchnad; a chyhoeddodd Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ddatganiad ar y cyd ym mis Tachwedd ar sut mae diogelwch defnyddwyr ar-lein yn rhyngweithio â'u preifatrwydd;
- sbarduno syniadau ar faterion rheoleiddio newydd fel algorithmau: cyhoeddodd aelodau'r Fforwm ar y cyd ddau bapur trafod ar archwilio algorithmig a manteision a niwed algorithmau; a
- meddwl am oblygiadau technolegau newydd, gyda blogiau a phapurau gwybodaeth yn cael eu cyhoeddi ar y metafyd (Mai), Web3 (Chwefror) a thechnolegau cwantwm (Ebrill).

## Pam mae hyn yn bwysig

Mae'r gwaith hwn wedi golygu bod gan bob rheoleiddiwr farn fwy cyfannol am y dirwedd ddigidol a gall fod yn fwy effeithiol yn eu cyfrifoldebau unigol, er budd pobl a busnesau.

## Ein gwaith eleni

Yn ystod 2022/23, mae'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol wedi dod â'i gyrff rheoleiddio sy'n aelodau at ei gilydd i fynd i'r afael â chyfres o faterion digidol cymhleth, sydd wedi golygu bod pob rheoleiddiwr yn gallu datblygu dull mwy cyfannol, cydlynol a gwybodus o reoleiddio digidol, a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r diwydiant a'r cyhoedd.

Roedd gwaith y fforwm yn meithrin dull gweithredu cydlynol ac arfer gorau; ac roedd ein gwaith galluogrwydd wedi helpu i gyfuno dulliau o sganio'r gorwel, recriwtio a datblygu sgiliau. Roedd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol wedi ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr ac elusennau i ddeall yn well sut gallai rheoleiddwyr fod yn gweithio mewn ffordd gyfannol i wasanaethu defnyddwyr.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol 10 cyhoeddiad ar y cyd a oedd yn cynnwys datganiadau, ymchwil a blogiau, gan ymgysylltu â 13 awdurdod rhyngwladol a chynnal nifer o ddigwyddiadau sganio'r gorwel a lwyddodd i ddenu cyfanswm o 450 o weithwyr.

Cyhoeddodd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol ddatganiadau ar y cyd ar y rhyng-gysylltiadau rhwng diogelwch ar-lein, cystadleuaeth a diogelu data wrth i ni geisio creu tirwedd reoleiddio gydlynol ar gyfer busnesau.

Roedd y fforwm hefyd yn dyfnhau dealltwriaeth ei aelodau o dechnolegau newydd - fel y metafyd, Gwe3 a thechnolegau cwantwm - drwy weithgareddau sganio'r gorwel, gan gynnwys symposiwmau, papurau gwybodaeth a blogiau. Ym mis Tachwedd, sicrhaodd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol gyllid drwy Gronfa Arloesi'r Llywodraeth i ymchwilio a threialu gwasanaeth cynghori aml-asiantaeth ar gyfer cwmnïau arloesol.

# Y prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd

**Mae Cofrestr Risgiau Strategol Ofcom yn cofnodi risgiau a allai lesteirio ein gwaith a'n nodau. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y gofrestr ei hadnewyddu er mwyn cynnwys ein dyletswyddau newydd a'n cylch gwaith sy'n ehangu.**

Mae polisi rheoli risg Ofcom yn ceisio:


- cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Ofcom drwy gyfrannu gwybodaeth at y broses o wneud penderfyniadau;
- egluro egwyddorion rheoli risg yn Ofcom;
- diogelu arian cyhoeddus ac asedau adrannol y mae Ofcom yn gyfrifol amdanynt;
- hyrwyddo diwylliant lle mae derbyn risg priodol yn cael ei annog; a
- gwreiddio rheoli risg ym mhrosesau busnes eraill Ofcom fel sail ar gyfer llywodraethu corfforaethol da.

Mae'r gofrestr risg wedi'i threfnu o amgylch wyth prif faes.


| Y prif risgiau | Blaenoriaeth | Camau lliniaru |
| --- | --- | --- |
| **Nid yw annibyniaeth Ofcom fel rheoleiddiwr yn cael ei weld yn annibynnol, yn ddiduedd nac yn gyson**<br><br>Risg o niweidio enw da Ofcom am fod yn annibynnol ac am wneud penderfyniadau doeth y mae ein diwydiannau a rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys y Senedd Brydeinig a defnyddwyr, yn ymddiried ynddynt. |  | ▪ Rydym wedi rhoi prosesau effeithiol ar waith ar gyfer llywodraethu a gwneud penderfyniadau, sy'n rhoi trosolwg cadarn o brosesau gwneud penderfyniadau Ofcom. Rydym yn adolygu'r rhain yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.<br><br>▪ Rydym yn sicrhau bod cydweithwyr yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd cynnal annibyniaeth Ofcom wrth ddelio â rhanddeiliaid, y Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig.<br><br>▪ Rydym yn cynnal ymarfer adborth rheolaidd gan randdeiliaid, a bob blwyddyn byddwn yn ymgynghori'n agored ar ein Cynllun Gwaith. |


**Allwedd i flaenoriaethau**

- Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel
- Cysylltu pawb
- Paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein
- Datblygu partneriaethau newydd
- Tegwch i gwsmeriaid
- Cefnogi a datblygu darlledu yn y DU
- Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol


| Y prif risgiau | Blaenoriaeth | Camau lliniaru |
|---|---|---|
| **Arwain Meddwl**<br><br>Risg nad yw Ofcom yn cael ei ystyried yn arweinydd barn dibynadwy ac uchel ei barch ac yn un sy'n llunio'r farchnad yn y sector cyfathrebiadau. |  | ▪ Mae Pwyllgor Ymchwil mewnol Ofcom yn parhau i oruchwylio ymchwil arloesol.<br>▪ Rydym wedi cynnal cynadleddau a thrafodaethau bwrdd crwn ar bynciau arloesol gan hyrwyddo cynrychiolwyr Ofcom i gymryd rhan yn y trafodaethau hyn.<br>▪ Mae gennym fframwaith Moeseg Data i leihau'r risg y bydd Ofcom yn amharu ar breifatrwydd yn sgil gweithgareddau casglu data.<br>▪ Drwy'r Fforwm, gall Ofcom a chyrff rheoleiddio eraill sy'n aelodau fynd i'r afael â materion digidol cymhleth ynghyd â dull gweithredu mwy cyfannol, cydlynol a gwybodus o ran rheoleiddio digidol.<br>▪ Rydym yn parhau i gryfhau a datblygu partneriaethau'r diwydiant, er enghraifft gyda'n gwaith yn hyrwyddo atebion technoleg drwy Labordai SONIC.<br>▪ Rydym yn adolygu ac yn adnewyddu ein panel academaidd o arbenigwyr pwnc ac arweinwyr meddwl yn eu priod feysydd yn rheolaidd. |
| **Diogelwch Ar-lein, Diogelwch Telegyfathrebiadau**<br><br>Risg nad yw Ofcom yn paratoi ar gyfer newidiadau go iawn a newidiadau posibl i'n cylch gwaith. |  | **Gofynion Diogelwch Telegyfathrebiadau**<br>▪ Dechreuodd y drefn ddiogelwch newydd ym mis Hydref 2022. Cyhoeddodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y Cod Ymarfer terfynol ar 1 Rhagfyr 2022; wedyn fe wnaethom gyhoeddi ein Canllawiau Gweithdrefnol a Chydnerthedd terfynol, sy'n nodi'r dull y byddwn yn ei ddefnyddio i reoleiddio'r drefn newydd hon.<br>▪ Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r NCSC i ddeall natur newidiol y bygythiad i ddiogelwch.<br>**Diogelwch Ar-lein**<br>▪ Mae ein rhaglen ar draws Ofcom i baratoi ar gyfer cyfrifoldebau diogelwch ar-lein newydd wedi hen ennill ei phlwyf ac wedi datblygu yn ein paratoadau ar gyfer ein dyletswyddau newydd.<br>▪ Rydym yn darparu cyngor parhaus i'r Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig i sicrhau bod y fframwaith statudol yn ymarferol ac yn effeithiol. |

**Allwedd i flaenoriaethau**


 Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel

 Cysylltu pawb



 Paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein

 Datblygu partneriaethau newydd


 Tegwch i gwsmeriaid


 Cefnogi a datblygu darlledu yn y DU


 Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol


| Y prif risgiau | Blaenoriaeth | Camau lliniaru |
|---|---|---|
| **Strategaeth, Ymchwil a Sganio'r Gorwel**<br><br>Risg nad yw Ofcom yn buddsoddi ddigon yn ein strategaeth, ein hymchwil a'n gwaith ar sganio'r gorwel er mwyn deall datblygiadau yn ein sectorau yn y dyfodol, yng nghyd-destun datblygiadau macro trawsbynciol (gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technoleg, cyfreithiol ac amgylcheddol). |  | ▪ Fe wnaethom gryfhau a ffurfioli ein proses sganio'r gorwel drwy gydol y flwyddyn, gan gyfrannu at ein Diwrnod Cynllunio a Strategaeth Bwrdd tair blynedd – roeddem wedi defnyddio hyn i ddatblygu cynllun strategol 3 blynedd mewnol Ofcom.<br><br>▪ Fe wnaethom fuddsoddi adnoddau yn ein rhaglenni sganio'r gorwel, gan gynnwys yr adroddiad 'Future Megatrends' a'r rhaglen Mewnwelediadau, a Darganfod Technoleg.<br><br>▪ Rydym yn parhau i ehangu ein llyfrgell ganolog o'r holl wybodaeth y gall pob tîm ei defnyddio ar sail eu hanghenion.<br><br>▪ Rydym wedi nodi a datblygu meysydd prosiect penodol: gan gynnwys cymylu telegyfathrebiadau a darlledu, technoleg diogelwch ac ymddiriedaeth ar-lein, goblygiadau'r Metafyd a Gwe 3.0. |
| **Dealltwriaeth Fasnachol**<br><br>Risg nad oes gan Ofcom ddealltwriaeth fasnachol ddigonol o'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio, blaenoriaethau diwydiant busnesau sy'n cael eu gyrru gan gymhellion masnachol a datblygiadau technolegol, ac anghenion a gofynion newidiol defnyddwyr. |  | ▪ Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r timau cynnyrch, technoleg a strategaeth rhanddeiliaid a chydag arbenigwyr pwnc eraill.<br><br>▪ Rydym wedi buddsoddi yn ein dealltwriaeth o fodelau busnes llwyfannau ar-lein drwy weithdai ac ymgysylltu â'r diwydiant drwy ein rhaglen waith strategol drawsbynciol ar gyfer marchnadoedd digidol.<br><br>▪ Rydym wedi cryfhau ein hymchwil i anghenion a gofynion defnyddwyr, yn enwedig ar-lein: ee, gwybodaeth am ymddygiad, panel ymchwil ar-lein, a Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.<br><br>▪ Rydym wedi ffocysu ein gwaith recriwtio i sicrhau ein bod yn denu cydweithwyr o safon uchel sydd â phrofiad masnachol a diwydiannol cryf yn eu maes perthnasol ar gyfer uwch swyddi allweddol. |

**Allwedd i flaenoriaethau**


 Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel

 Cysylltu pawb

 Paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein

 Datblygu partneriaethau newydd

 Tegwch i gwsmeriaid

 Cefnogi a datblygu darlledu yn y DU

 Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol

| Y prif risgiau | Blaenoriaeth | Camau lliniaru |
|---|---|---|
| **Penderfyniadau Rheoleiddio**<br><br>Risg nad yw Ofcom yn gwneud penderfyniadau rheoleiddio priodol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac y gellir eu hamddiffyn yn gyfreithiol, yn unol â'n dyletswyddau statudol, sy'n ystyried datblygiadau newidiol yn y farchnad. |  | **Ymyriadau yn y Farchnad Telegyfathrebiadau**<br><br>▪ Yn dilyn datganiad yr Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol yn 2021 (yn nodi'r fframwaith rheoleiddio i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhwydweithiau ffeibr llawn ledled y DU), rydym yn parhau i fonitro'r broses o weithredu hyn i sicrhau bod defnyddwyr yn elwa o farchnadoedd cystadleuol.<br><br>▪ Fe wnaethom gyhoeddi ein datganiad ar y dull gweithredu ar gyfer marchnadoedd symudol yn y dyfodol ym mis Rhagfyr 2022 a chynnal ymgysylltiad rheolaidd â'r farchnad.<br><br>**Derbyn Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol cynaliadwy gan y Post Brenhinol**<br><br>▪ Daeth ein hadolygiad o reoleiddio'r post (2022-2027) i ben, sy'n ceisio darparu sicrwydd rheoleiddiol i fuddsoddwyr, wrth roi'r cyfle mwyaf posibl i'r Post Brenhinol drawsnewid ei fusnes i gefnogi cynaliadwyedd.<br><br>▪ Rydym wedi cyflwyno gofynion sy'n ceisio gwneud y Post Brenhinol yn fwy atebol wrth adrodd ar ei safbwynt mwy tymor hir am gynaliadwyedd ac uchelgais effeithlonrwydd.<br><br>**Argaeledd Sbectrwm**<br><br>▪ Rydym nawr yn cyflawni ein strategaeth rheoli sbectrwm fel y nodir yn ein Map Sbectrwm, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022.<br><br>▪ Rydym yn cynnal adolygiadau sector rheolaidd i sicrhau bod Ofcom yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y farchnad a gofynion sbectrwm yn brydlon, gan nodi'r potensial ar gyfer effeithiau uniongyrchol ar ddefnyddwyr presennol os byddwn yn newid y defnydd.<br><br>**Cefnogi Darlledu yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y Sector Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus**<br><br>▪ Rydym yn parhau i roi cyngor i'r Llywodraeth ar sail ymchwil eang i'r gynulleidfa a chydweithio â rhanddeiliaid, gan sicrhau ein bod yn parhau ar draws datblygiadau a heriau masnachol a thechnolegol perthnasol. |

**Allwedd i flaenoriaethau**

- Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel
- Cysylltu pawb
- Paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein
- Datblygu partneriaethau newydd
- Tegwch i gwsmeriaid
- Cefnogi a datblygu darlledu yn y DU
- Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol

| Y prif risgiau | Blaenoriaeth | Camau lliniaru |
|---|---|---|
| **Pobl**<br><br>Risg nad oes gan Ofcom y strategaethau, yr arweinyddiaeth na'r diwylliant iawn i sicrhau bod gennym y bobl iawn sydd â'r sgiliau a'r amrywiaeth briodol o gefndiroedd ar yr adeg iawn i gyflawni'r Cynllun Gwaith. Risg nad yw ein harweinwyr a'n diwylliant yn creu amgylchedd gwaith cynhyrchiol, cynhwysol ac effeithiol, sy'n golygu bod y ddarpariaeth yn is na'r disgwyl neu'r potensial. | | ▪ Fe wnaethom ymgorffori system rheoli perfformiad a gyrfa newydd gan gynnwys strwythur rheoli symlach, buddsoddi mewn arweinyddiaeth a datblygu'r talentau a'r sgiliau presennol, ac rydym nawr yn symud i esblygu hyn ymhellach.<br><br>▪ Mae gennym Fframwaith Gweithio Cysylltiedig ar waith i sicrhau ein bod yn cefnogi gweithio cynhwysol a chydweithredol ac i helpu i gefnogi cydweithwyr i feithrin perthnasoedd gwaith cryf ac effeithiol.<br><br>▪ Rydym yn monitro ein perfformiad yn erbyn ein targedau Amrywiaeth a Chynhwysiad, ac rydym yn bwrw ymlaen â chynlluniau gweithredu ar gyfer pobl anabl a phobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol.<br><br>▪ Lansiwyd y Grŵp Diogelwch Ar-lein newydd ym mis Ebrill 2023 ac mae'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma wedi ein rhoi mewn sefyllfa gref i gynllunio talent a recriwtio'n amserol. |
| **Seiberddiogelwch a Diogelu Gwybodaeth**<br><br>Risg bod dull Ofcom o ymdrin â seiberddiogelwch yn aneffeithiol, gan arwain at ymosodiad seiber ar seilwaith hanfodol y busnes. | | ▪ Rydym wedi darparu hyfforddiant gorfodol ar seiberddiogelwch a diogelu gwybodaeth i bob cydweithiwr yn Ofcom.<br><br>▪ Rydym yn gweithio gyda'n sefydliadau partner i fonitro bygythiadau'n barhaus ac i roi mesurau diogelwch ar waith.<br><br>▪ Rydym yn adolygu prosesau caffael meddalwedd i gyfyngu ar y defnydd o gymwysiadau anawdurdodedig a allai fod mewn perygl. |

**Allwedd i flaenoriaethau**

- Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel
- Cysylltu pawb
- Paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein
- Datblygu partneriaethau newydd
- Tegwch i gwsmeriaid
- Cefnogi a datblygu darlledu yn y DU
- Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol

# Ymgysylltu â rhanddeiliaid

## Gwaith yn y Gwledydd a'n hymgysylltiad rhyngwladol

Wrth gyflawni ein dyletswyddau, rhaid i ni ystyried yr holl wahanol wledydd, rhanbarthau, diwylliannau, dwyseddau poblogaeth a thirweddau sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig.

Bydd ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin, Llundain, Warrington a Birmingham a'n swyddfa newydd ym Manceinion yn ein galluogi i ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraethau, cynrychiolwyr etholedig a rhanddeiliaid lleol, ac i sicrhau ein bod yn ystyried safbwyntiau, diddordebau ac anghenion pobl ledled y Deyrnas Unedig.

Yn ogystal, mae gennym Bwyllgorau Cynghori statudol ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac aelodau Bwrdd ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a benodir gan Lywodraethau Cymru a'r Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn y drefn honno, mewn ymgynghoriad ag Ysgrifennydd Gwladol y DU. Mae ein Bwrdd Cynnwys a'n Paneli Defnyddwyr hefyd yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli pob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd Ofcom adroddiad ar sut roedd y cyfryngau wedi adrodd ar Covid ar draws y gwledydd datganoledig.

Er bod llawer o'n gwaith yn berthnasol ar draws y Deyrnas Unedig, rydym wedi tynnu sylw at waith penodol a wnaed ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig dros y flwyddyn ddiwethaf, gan nodi bod angen gwneud rhagor o waith.




## Gogledd Iwerddon

- Fe wnaethom gwblhau'r broses o benodi dau aelod newydd o'r Pwyllgor Cynghori, sef Aodhan O'Donnell a Colm Murphy, ac Aelod newydd o Fwrdd Cynnwys Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, Maria McCann.
- Fe wnaethom barhau i chwarae rhan yng ngweithgor Rhwydwaith Gwledig a Rennir Gogledd Iwerddon a gweithgor Cynllun Gweithredu Symudol Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a'r tasglu chwalu rhwystrau, gan weithio gydag ystod o randdeiliaid i helpu i ddarparu darpariaeth 4G a 5G gwell ledled Gogledd Iwerddon.
- Fe wnaethom gydweithio â chyrff defnyddwyr ac adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn perthynas â Phrotocol Gogledd Iwerddon, a'r ardal symud parseli rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.
- Fe wnaethom ddarparu data a dadansoddiadau ar sectorau cyfryngau a chyfathrebiadau Gogledd Iwerddon drwy ein hadroddiadau blynyddol ar Gyfryngau'r Genedl a Chysylltu'r Gwledydd ar gyfer Gogledd Iwerddon.
- Fe wnaethom ddyfarnu trwyddedau ar gyfer amlblecsau DAB newydd ar raddfa fach yn ardaloedd Newry, Belfast a Lisburn.
- Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu ar Anabledd newydd ar gyfer Gogledd Iwerddon, sy'n adlewyrchu ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad ar gyfer y DU gyfan.
- Fe wnaethom ymgysylltu ag adrannau'r llywodraeth, asiantaethau a chyrff gorfodi'r gyfraith i godi ymwybyddiaeth o'r drefn reoleiddio diogelwch ar-lein sydd ar y gweill.

## Yr Alban

- Rydym wedi siarad â charfan gynyddol o randdeiliaid yn yr Alban i baratoi ar gyfer ein dyletswyddau diogelwch ar-lein, fel Canolfan Bayes, Canolfan Arloesi Prifysgol Caeredin ar gyfer Gwyddor Data a Deallusrwydd Artiffisial a Young Scot, yr elusen gwybodaeth a dinasyddiaeth ieuenctid genedlaethol ar gyfer yr Alban.
- Mae ein gwaith rhanddeiliaid hefyd wedi ein harwain at ddatblygu cysylltiadau â'r sector radio, ac roeddem wedi cynnal sesiwn bwrdd crwn yn cynnwys gorsafoedd sefydledig o Fort William a Campbeltown i wasanaethau DAB newydd ar raddfa fach yng Nghaeredin, yn ogystal â gwasanaethau masnachol mwy gan Bauer, DC Thomson a Nation Radio.
- Roeddem yn falch o allu penodi Cadeirydd newydd i MG ALBA, yn ogystal â dyfnhau ein perthynas ag STV (ar faterion fel aildrwyddedu Channel 3, BBC Scotland (wrth iddynt adnewyddu eu Cytundeb Partneriaeth ag MG ALBA mewn perthynas â gwasanaeth BBC Alba) a Screen Scotland.
- Yn unol â'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban, gan gynnal cysylltiadau rhwng uwch swyddogion gweithredol ac aelodau'r Bwrdd ac Ysgrifenyddion y Cabinet yn Llywodraeth yr Alban; a darparu cyngor technegol a rheoleiddiol mewn perthynas â rhaglen Reaching 100% a rhaglen Mewnlenwi 4G yr Alban ac ar faterion fel cadernid yn y sector telegyfathrebiadau.



## Cymru

- Gwnaethom barhau i ymgysylltu â'r diwydiannau creadigol ynghylch dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan roi tystiolaeth i Lywodraeth Cymru a phanel arbenigol Plaid Cymru ar greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru. Fe wnaethom hefyd roi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig i Ddarlledu yng Nghymru.
- Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid gwleidyddol a diwydiannol wedi bod yn amlwg yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ein gwaith a'u bod yn ymwneud yn llawn â'n hymgynghoriadau. Roedd ein digwyddiad 'Gwella darpariaeth symudol yng nghefn gwlad Cymru' yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn canolbwyntio ar gynnydd y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Roeddem wedi croesawu cydweithwyr o'r tîm Trwyddedu Darlledu i gynnal trafodaeth bwrdd crwn gyda rhanddeiliaid yn y sector radio a chydweithwyr Diogelwch Ar-lein a oedd yn amlinellu ein map i reoleiddio i bartïon â diddordeb, gan fynd gyda chydweithwyr ym maes Polisi Cyfryngau Cynnwys i gyfres o gyfarfodydd gyda'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru. Roedd hefyd yn bleser gennym groesawu'r Arglwydd Grade i Gymru ar ei ymweliad cyntaf fel Cadeirydd Ofcom.
- Yn unol â'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru, mae tîm Ofcom yng Nghymru wedi parhau i weithio'n agos gyda phob plaid i helpu i wella gwasanaethau cyfathrebu yng Nghymru.
- Fe wnaethom gyfarfod â Chomisiynydd newydd y Gymraeg ac edrychwn ymlaen at sefydlu perthynas waith adeiladol â hi. Rydym yn datblygu cynlluniau i weithredu dau ganfyddiad gan Gomisiynydd y Gymraeg.

## Lloegr

- Fe wnaethom barhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, Aelodau Seneddol lleol ac awdurdodau lleol, gan roi cyngor rheoleiddiol a thechnegol.
- Ym mis Hydref, fe wnaeth y BBC nodi cynlluniau i drawsnewid ei wasanaethau lleol yn Lloegr, gan gynnwys ei orsafoedd radio lleol. Buom yn trafod y cynlluniau hyn yn fanwl gyda'r BBC ac yn craffu ar ei gynigion. Rydym yn disgwyl i'r BBC adolygu effaith ei newidiadau i radio lleol yn Lloegr wrth iddynt gael eu rhoi ar waith, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd.
- Yn dilyn methiant isdeitlo ar Channel 4, a diffyg cyffredinol ar y teledu a'r radio yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, fe wnaethom adrodd ar y digwyddiadau difrifol hyn. Rydym yn gorfodi rheolau ac yn adolygu canllawiau sy'n sicrhau bod isdeitlau, arwyddo a disgrifiadau sain ar gael i bobl sy'n colli eu golwg a/neu eu clyw.
- Roeddem wedi parhau i ymgysylltu â materion amrywiaeth, gan ganolbwyntio ar y rheini sy'n agored i niwed, yn enwedig yn y newid i brotocol llais dros y rhyngrwyd, ac ar gymunedau gwledig.



# Ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol

**Mae ymgysylltu rhyngwladol yn helpu i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb yn y Deyrnas Unedig.**

Mae ein meysydd cyfrifoldeb yn fyd-eang ac yn rhyngddibynnol o ran natur, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid rhyngwladol i sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr yn y DU. Wrth i'n paratoadau ar gyfer rheoleiddio diogelwch ar-lein barhau, rydym yn buddsoddi mewn rhwydweithiau presennol a newydd fel Fforwm Economaidd y Byd a Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang. Rydym yn parhau â'n gwaith paratoi ar gyfer Cynhadledd Radio'r Byd 2023, lle rydym yn cynrychioli'r DU mewn trafodaethau ar ddefnyddio a chysoni'r sbectrwm radio. Rydym yn defnyddio ein hymgysylltiad rhyngwladol i ddod â gwybodaeth i lywio sut rydym yn dylunio ac yn gweithredu rheoleiddio yn y DU ac fel rhan o'n gweithgarwch sganio'r gorwel. Rydym hefyd yn rhannu ein harbenigedd â phartneriaid rhyngwladol ac yn ceisio dylanwadu ar ddatblygiadau rheoleiddiol yn y sectorau sy'n bwysig i ni.



Rydym yn rhyngweithio â rheoleiddwyr cyfatebol rhyngwladol, diwydiannau a'r byd academaidd yn rhyngwladol i gyfnewid safbwyntiau ar bynciau fel diogelwch ar-lein, cadernid rhwydweithiau a thechnoleg ddatblygol, ochr yn ochr â'n rhaglen waith ehangach sy'n adlewyrchu'r sectorau mae Ofcom yn gyfrifol am eu rheoleiddio. Er ein bod yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid yn yr UE, mae ein perthnasoedd yn ymestyn y tu hwnt i Ewrop, gan gynnwys yr Unol Daleithiau, Awstralia a Singapore, yn enwedig fel rhan o'n gwaith diogelwch ar-lein. Bydd datblygu ac ehangu rhwydweithiau a chysylltiadau rhyngwladol cryf yn y maes rheoleiddio newydd hwn yn hanfodol i lwyddiant ein gwaith rheoleiddio domestig.

Rydym yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau a gweithgorau ffurfiol ac anffurfiol ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, yn ogystal â fforymau aml-randdeiliaid fel Fforwm Llywodraethu'r Rhyngrwyd a Fforwm Economaidd y Byd. Mae'r cydweithrediad rheoleiddiol hwn yn helpu i sicrhau manteision fel creu cyd-ddealltwriaeth o'r adnoddau sydd ar gael i reoleiddwyr a, lle bo hynny'n bosibl, osgoi gwahaniaethau diangen rhwng trefniadau rheoleiddio tebyg yn y DU a thramor. Mae ein gwaith ymgysylltu hefyd yn darparu gwybodaeth a chymariaethau arferion gorau i lywio ein gwaith ein hunain mewn meysydd fel ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, niwtraliaeth y rhyngrwyd a rhannu sbectrwm.

Ar draws ein sectorau, rydym yn wynebu tueddiadau a heriau tebyg o ran y farchnad a rheoleiddio i lawer o'n cymheiriaid yn Ewrop, yn enwedig o ran rheoleiddio llwyfannau digidol. Mae ymgysylltu â phartneriaid yn Ewrop yn dal yn rhan bwysig o'n gwaith rhyngwladol, yn enwedig lle mae ein pwerau'n deillio'n wreiddiol o ddeddfwriaeth yr UE.

Rydym wedi cyd-sefydlu Gweithgor Rhyngwladol ar Gadarnhau Oedran gyda rheoleiddwyr Ewropeaidd eraill i helpu i sicrhau bod rheolau sy'n mynnu bod llwyfannau rhannu fideos yn cael eu rhoi ar waith yn gyson er mwyn diogelu pobl ifanc dan oed rhag cynnwys cyfyngedig ar y gwasanaethau hyn. Rydym yn cymryd rhan weithredol mewn deialogau rheoleiddio ar lefel Ewropeaidd, gan gynnwys drwy ein haelodaeth o'r Grŵp Rheoleiddwyr Annibynnol sy'n grŵp o 37 awdurdod rheoleiddio cyfathrebiadau Ewropeaidd, a Llwyfan Ewropeaidd yr Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA) sef rhwydwaith o 54 o reoleiddwyr cyfryngau Ewropeaidd.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein perthnasoedd y tu hwnt i Ewrop, lle rydym wedi cael nifer o drafodaethau adeiladol gyda rheoleiddwyr a llywodraethau o bob cwr o'r byd ar draws ein holl feysydd gwaith, gan gynnwys cydweithio rheoleiddiol (lle rydym wedi rhannu ein profiad o'r Fforwm), cyfrifiadura yn y cwmwl, rheoleiddio mynediad cyfanwerthol ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Yn y gofod ar-lein, roeddem yn rhan o lansio'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang ym mis Tachwedd 2022, sy'n ceisio datblygu normau a rennir a sbarduno arferion rheoleiddio gorau yn y maes rheoleiddio newydd hwn.

### Sefydliadau Rhynglywodraethol

Ofcom yw is-gadeirydd Grŵp Paratoi Cynhadledd y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau (CEPT), sy'n gyfrifol am ddatblygu safbwyntiau Ewropeaidd ar gyfer Cynhadledd Radio'r Byd nesaf yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU) a gynhelir ddiwedd 2023. Rydym hefyd yn cadeirio Pwyllgor Cyfathrebiadau Electronig Ewrop (ECC), y grŵp sbectrwm uchaf yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau, sy'n gweithio ar draws ystod eang o faterion sy'n ymwneud â defnyddio sbectrwm gan gynnwys band eang symudol a 5G, gwella cysylltedd defnyddwyr a busnesau gyda mwy o Wi-Fi, cyfathrebu lloeren a llywio, darlledu a thrafnidiaeth (gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd ac awyrennau). Mae gan Ofcom hefyd swyddi arwain mewn nifer o dimau prosiect a grwpiau astudio'r Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol a'r Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau. Yn olaf, mae Ofcom yn cynrychioli'r DU ar gorff llywodraethu'r Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol, Cyngor yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol.

Rydym yn cynorthwyo Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Post Cyffredinol (UPU), y corff Rhynglywodraethol sy'n rheoli taliadau am bost rhyngwladol rhwng Darparwyr Gwasanaeth Post Cyffredinol. Rydym yn parhau i gyfrannu at gyrff post Ewropeaidd a rhyngwladol, gan weithio'n agos gyda chyd-reoleiddwyr a gweinyddiaethau post rhyngwladol, gan gynnwys yn y Pwyllgor Rheoleiddio Gwasanaethau Post Ewropeaidd (CERP).

Mae Ofcom yn parhau i gymryd rhan yng ngwaith datblygu polisi'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), gan eistedd ar y Pwyllgor Seilwaith a Gwasanaethau Cyfathrebu (CSI) a chymryd rhan yng ngwaith y Rhwydwaith Rheoleiddwyr Economaidd (NER) a'r Pwyllgor Polisi Rheoleiddio (RPC).



# Egwyddorion rheoleiddio Ofcom

## Pryd rydym yn rheoleiddio

- **Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn gadarn ac yn effeithiol pan fydd angen.**
- **Bydd Ofcom yn ymyrryd lle mae dyletswydd statudol benodol i weithio tuag at nod na all marchnadoedd ei gyflawni ar eu pennau eu hunain.**

## Sut rydym yn rheoleiddio

- **Bydd Ofcom bob amser yn ceisio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol o gyflawni ei amcanion.**
- **Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ein hymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau.**
- **Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a fynegir yn glir ac a adolygir yn gyhoeddus, gydag amcanion datganedig.**

## Sut rydym yn cefnogi rheoleiddio

- **Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn anelu at barhau i fod ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol.**
- **Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn gosod rheoleiddio ar farchnad.**

### Rheoleiddio gwell

Rydym yn credu bod rheoleiddio gwell yn golygu sicrhau bod rheolau'n cael eu targedu'n briodol; peidio â rhoi gormod o faich ar fusnesau; na chreu rhwystrau diangen rhag arloesi, buddsoddi a datblygu dewis a chystadleuaeth yn y farchnad.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig, ond mae nifer y dogfennau a gyhoeddwn wedi aros yn weddol debyg. Mae Ffigur 1 isod yn rhoi trosolwg o'r ffordd y newidiodd y baich rheoleiddio ar randdeiliaid o ganlyniad i ddatganiadau a phenderfyniadau rheoleiddio Ofcom yn 2022/23.

#### Ffigur 1: Effaith ein datganiadau ar y baich rheoleiddio ar randdeiliaid: 2022/23

| O'r 45 Prif Ddatganiad a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn: | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Mwy o reoleiddio/ rheoleiddio newydd | 5 | 11% |
| Cymysg/dim newid/parhaus | 37 | 82% |
| Llai o reoleiddio | 1 | 2% |
| Wedi symleiddio/ cyd-reoleiddio | 2 | 4% |

Mae golwg gyffredinol ar y prif ddatganiadau a'r penderfyniadau allweddol rydym wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ar gael yn Atodiad 2.

### Ymgynghoriadau

Drwy ymgynghoriadau cyhoeddus, mae rhanddeiliaid yn gallu rhoi sylwadau ar ein cynigion, ac ymateb iddynt, cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau terfynol. Os bydd cyfnod ymgynghori yn rhy fyr, efallai na fydd gan y rheini sydd â barn bwysig i'w chyfleu ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghori, mae angen inni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth yma. Mae Ffigur 2 yn cynnwys dadansoddiad o hyd ein hymgynghoriadau fesul sector.

#### Ffigur 2: Dadansoddiad o hyd ymgynghoriadau: 2022/23

| | Cyfnod ymgynghori o leiaf 10 wythnos o hyd | Cyfnod ymgynghori o lai na 10 wythnos (gan gynnwys ymgynghoriadau categori 2 a chategori 3) |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 2 | 5 |
| Darlledu | 1 | 8 |
| Sbectrwm | 7 | 11 |
| Post | 0 | 1 |
| Y Pwyllgor Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd | 0 | 14 |
| Arall | 0 | 4 |
| **Cyfanswm** | **10** | **43** |
| **% Cyfanswm (22/23)** | **19%** | **81%** |
| % Cyfanswm (21/22) | 8% | 92% |

### Gwneud penderfyniadau'n brydlon

Rydym yn dadansoddi pa mor hir mae'n ei gymryd i ni gyhoeddi penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben (gweler Ffigur 2). Yn 2022/23, cafodd 100% o'n penderfyniadau eu cyhoeddi o fewn 12 wythnos ar ôl cau'r ymgynghoriad.

### Asesiadau effaith

Mae asesiadau effaith yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol inni gynnal asesiad effaith pan rydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth er mwyn cyflawni ein swyddogaethau neu mewn cysylltiad â chyflawni ein swyddogaethau, a lle teimlwn fod y cynnig yn bwysig. Mae asesiadau effaith yn sicrhau, ymysg pethau eraill, ac yng nghyswllt ein penderfyniadau:

- bod ystod eang o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys y dewis i beidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir;
- bod effeithiau posibl pob dewis yn cael eu dadansoddi'n ofalus; a
- bod y manteision yn fwy na'r costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ddewisir.

Ym mis Mawrth 2023, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau asesu effaith drafft Ofcom[3] a oedd yn ail-bwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan greiddiol o'r broses o lunio polisïau, gan ddweud ein bod yn disgwyl cynnal asesiadau effaith yn y rhan fwyaf o'n penderfyniadau polisi. Rydym yn cyhoeddi rhestr o'r asesiadau effaith sydd wedi cael eu cynnal gennym yn ystod y flwyddyn. Mae hon yn ymddangos yn Atodiad 2.

## Ffigur 3: Dadansoddiad o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd

| Nifer y dogfennau ymgynghori | Cyfanswm | Asesiad Effaith yn rhan o'r ddogfen a gyhoeddwyd |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 7 | 6 |
| Darlledu | 9 | 3 |
| Sbectrwm | 17 | 12 |
| Post | 1 | 1 |
| Y Pwyllgor Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd | 14 | 13 |
| Arall | 4 | 4 |
| **Cyfanswm** | **52** | **39** |

Dengys Ffigur 3 fod 75% o ymgynghoriadau yn 2022/23 (80% yn 2021/22) wedi cynnal asesiad effaith, yr oedd cyfeiriad penodol ato mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori. Dan rai amgylchiadau efallai na fydd cynnal asesiad effaith yn ofynnol, neu efallai na fydd yn briodol, neu efallai ei fod yn ymhlyg yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol.

3. Canllawiau asesu effaith Ofcom: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0027/255627/Impact-Assessment-Guidance-i-cymen-WELSH.pdf

# Adolygiad ariannol

Er bod Ofcom yn uniongyrchol atebol i'r Senedd, daw ein cyllid gan randdeiliaid yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio (edrychwch ar Ffigur 4 ar dudalen 64).

Dros y degawd diwethaf, mae ein ffioedd cyffredinol wedi bod yn wastad i raddau helaeth o ran arian, sy'n golygu bod cost ein gwaith rheoleiddio wedi gostwng yn sylweddol mewn termau real. Mae hybu ymwybyddiaeth o gostau a gwerth am arian yn ein holl weithgareddau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Rydym wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol, gan ymdopi â phwysau chwyddiant drwy arbedion, gan gynnwys lleihau ein hôl troed yn Llundain a gwneud buddsoddiadau effeithlonrwydd TGCh. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngallu Ofcom i gadw cyllidebau'n wastad ers 2015/16, ar sail tebyg am debyg (dim ond cynnydd chwyddiant untro a ddarparwyd yn 2020/21).

Mae ein cyfrifoldebau'n cynnwys casglu a throsglwyddo ffioedd trwyddedau a gesglir o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, rhifau ffôn daearyddol, taliadau ychwanegol gan drwyddedeion darlledu a chodi dirwyon a chosbau ar randdeiliaid (mae'r rhain i gyd wedi'u nodi yng nghyfrifon Adran 400 ac nid ydynt yn rhan o'n cyfrifon blynyddol).

O ganlyniad i hyn, rydym yn gyfrannwr net i Drysorlys EM. Casglodd Ofcom £1,163m o ffioedd a chosbau yn 2022/23, ac rydym wedi cadw £112.1m o'r arian hwnnw i ariannu ein gwaith rheoli sbectrwm a dyletswyddau perthnasol eraill. Trosglwyddwyd y balans i Drysorlys EF a'r Cronfeydd Cyfunol.

## Perfformiad ariannol

Yn 2022/23, roedd ein halldro arian parod o £176.4m 2.4% yn is na'n cap gwariant a chyllideb o £180.7m.

| | Cyllideb £m | Alldro £m | Amrywiant £m |
|---|---|---|---|
| 2022/23 | 180.7 | 176.4 | 4.3 |
| 2021/22 | 155.7 | 146.9 | 8.8 |
| Amrywiant | 25.0 | 29.5 | 4.5 |

Cynyddodd ein cyllideb £25.0m o 2021/22 i 2022/23, gan adlewyrchu cyllid ychwanegol ar gyfer dyletswyddau newydd, gan gynnwys Diogelwch Ar-lein (£22.6m), Diogelwch Telegyfathrebiadau (£1.9m) a Hysbysebu Cynhyrchion sy'n Uchel mewn Siwgr Braster a Halen (£0.7m). Roedd ein cyllideb a'n cap gwariant ar gyfer y dyletswyddau presennol yn aros yn gyson ar £131.9m.


Nid yw costau sy'n ymwneud â Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm yn dod o fewn cap gwariant a chyllideb Ofcom, ac o'r herwydd, maent yn cael eu hadrodd ar wahân i wahaniaethu oddi wrth weithgareddau craidd Ofcom. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael ar dudalen 61.

## Incwm gweithredu a gwariant

Roedd yr incwm ar gyfer 2022/23 yn £179.4m (2021/22: £149.7m). Gweler nodyn 3 y cyfrifon (tudalen 129) am ddadansoddiad o incwm yn ôl y sector perthnasol sy'n cael ei reoleiddio.

Mae 61% o gyfanswm ein sylfaen gostau yn ymwneud â chostau staff, ac mae rhan sylweddol (21%) o'r sylfaen gostau sy'n weddill yn sefydlog mewn perthynas â chostau eiddo a systemau.

### Gwariant 2022/23 yn ôl math o gost allweddol



Roedd costau staff wedi cynyddu £17.7m i £108.1m (2021/22: £90.0m), sy'n cael ei sbarduno gan gynnydd cyfwerth ag amser llawn, gweler nodyn 4 y cyfrifon (tudalen 130) ar gyfer symudiadau cyfwerth ag amser llawn.

Ac eithrio costau staff, cynyddodd gwariant yn 2022/23 o £11.4m i £67.2m (2021/22 £55.8m). Mae'r prif amrywiadau gweithredu ers y flwyddyn flaenorol yn deillio o'r canlynol:

- Roedd costau ymchwil cynulleidfaoedd, defnyddwyr a thechnolegol wedi cynyddu £3.5m oherwydd gwaith paratoi ar gyfer Diogelwch Ar-lein.
- Roedd costau adeiladau wedi cynyddu £1.9m gyda chynnydd yn ein cyfleustodau a gwariant untro yn addasu ein hystad i gefnogi ein gweithlu estynedig, yn unol â'n fframwaith gweithio cysylltiedig.
- Roedd costau Gwasanaethau a ddarperir yn allanol wedi cynyddu £1.8m oherwydd gwaith paratoi ar gyfer Diogelwch Ar-lein;
- Roedd costau teithio a chynhaliaeth wedi cynyddu £1.5m ar ôl codi cyfyngiadau Covid ac oherwydd gwaith paratoi ar gyfer Diogelwch Ar-lein;
- Roedd treuliau Gweinyddol a Swyddfa wedi cynyddu £1.4m yn bennaf oherwydd digwyddiadau rhanddeiliaid allanol a oedd yn ailddechrau, a oedd yn fach iawn yn 2021/22 oherwydd cyfyngiadau Covid;
- Roedd costau Gwybodaeth a Thechnoleg wedi cynyddu £1.3m o ganlyniad i gynnydd mewn costau meddalwedd a datblygu systemau i baratoi ar gyfer y drefn Diogelwch Ar-lein;
- Roedd costau staff dros dro a recriwtio wedi cynyddu £0.4m oherwydd defnyddio adnoddau contractwyr i baratoi ar gyfer y drefn Diogelwch Ar-lein.
- Gostyngodd Gwasanaethau Proffesiynol £0.7m, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, oherwydd adfer costau cyfreithiol yn 2022/23 a gwariant trawsnewid untro yn 2021/22.

## Gwarged/diffyg am y flwyddyn ariannol

### Gwarged neu ddiffyg cyllido

Bydd y refeniw gweithredol sydd ei angen ar Ofcom i gyflawni ein dyletswyddau a chyflawni ein rhaglen waith ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol yn cael ei gyfrifo ar sail datganiad egwyddorion codi ffioedd Ofcom. Mae'r dull gweithredu hwn yn pennu'r arian gwirioneddol y mae angen ei gasglu i dalu rhwymedigaethau ariannol yn ystod y flwyddyn. Bydd unrhyw arian dros ben a geir o ganlyniad i arbedion cyllidebol a sicrheir yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael ei ddychwelyd i'r rhanddeiliaid drwy leihau'r tariffau blynyddol a godir yn y ddwy flynedd ariannol olynol.

Mae Nodyn 2 y cyfrifon yn Adran C yn cysoni cyfanswm y gwariant gweithredu yn ôl y sector a reoleiddir, fel y cyflwynir yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr i alldro gweithredol gwirioneddol Ofcom.

Mae'r gwarged cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol yn ymwneud â'r balans incwm cronedig ac incwm gohiriedig fel y nodir yn Nodyn 2 i'r cyfrifon ac mae'n dod i gyfanswm o £2.9m (gwarged o £7.7m yn 2021/22).

### Gwarged neu ddiffyg cyfrifyddu

Mae angen gwarged cyfrifyddu ar gyfer y gwariant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, gan gynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau i adennill diffyg sy'n ofynnol mewn perthynas â'r ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.

Mae diffyg cyfrifyddu'n digwydd pan fydd dibrisiant, amorteiddiad a thrafodion anariannol eraill yn fwy na'r incwm a dderbynnir i dalu costau arian eitemau cyfalaf.

Y gwarged cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth, a gofnodwyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr Net ar gyfer y flwyddyn dan sylw, oedd £3.9m (2021/22: £3.3m o warged).

### Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm

Mae'r holl gostau sy'n ymwneud â'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm yn cael eu cofnodi ar wahân i gyfrifoldebau craidd Ofcom yn y datganiadau ariannol.

Ni ddaeth unrhyw wariant ar glirio sbectrwm yn ystod y flwyddyn ariannol hon (2021/22: £8.7m. Canfuwyd bod rhywfaint o waith ychwanegol yn angenrheidiol a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn Ch1 2023/24, heb gost ychwanegol i'r cynllun grant. Disgwylir y bydd gweddill y taliadau grant datgomisiynu mastiau dros dro yn dod i ben erbyn Ch4 2023/24.

Felly, ni wnaethom hawlio cymorth grant (2021/22: £10m) ac mae'r gwarged o £1.3m wedi cael ei ohirio er mwyn ei ddefnyddio yn 2023/24.

### Arian ychwanegol a gesglir ar ran trysorlys EF

Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Nid yw'r trafodiadau hyn wedi cael eu cynnwys yn y Datganiadau Ariannol. Adroddir ar y ffioedd, y taliadau a'r cosbau, ynghyd â rhagor o fanylion, yn y Datganiadau Ariannol hyn yn Nodyn 23 i'r cyfrifon, ac mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1 ar dudalen 157.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 casglodd Ofcom £1,163m (2021/22: £1,800.5m) ar ran Trysorlys EF. Mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghyfrifon Adran 400.

Roedd Ofcom wedi cadw £112.2m (2021/22: £84.5m) i ariannu rhai o'i gyfrifoldebau craidd, gan gynnwys Rheoli Sbectrwm a gwaith paratoi ar gyfer Diogelwch Ar-lein.

Trosglwyddwyd cyfanswm o £1,045.4m i gyfrifon y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ariannol.



# Yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23



Casglwyd

## £1,163m

(2021/22: £1,800.5m)

gan Ofcom ar ran Trysorlys EF

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn y Cyfrifon S400.

Cadwyd

## £112.2m

(2021/22: £84.5m)

i dalu am rai o gyfrifoldebau craidd Ofcom.

Gan gynnwys Rheoli Sbectrwm a gwaith paratoi ar gyfer ein dyletswyddau diogelwch ar-lein

Trosglwyddwyd

## £1,045.4m

i gyfrifon Llywodraeth y DU

## Pensiynau

Mae Ofcom yn darparu buddion pensiwn drwy lwfans pensiwn â'r cyfraniadau wedi’u diffinio sydd ar gael i bob cydweithiwr. Gellir defnyddio'r lwfans i gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid Ofcom â'r cyfraniadau wedi’u diffinio.

Roedd gan gydweithwyr a ymunodd ag Ofcom o hen reoleiddwyr pan gafodd ei sefydlu hawl i barhau i fod yn aelod o un o ddau gynllun pensiwn â’u buddion wedi’u diffinio. Mae’r ddau gynllun ar gau i newydd-ddyfodiaid, a daeth y drefn cronni buddion i ben ar 1 Mehefin 2011.

O’r adeg hon ymlaen, roedd yr holl aelodau cyfredol yn gallu cael mynediad at gynllun cyfraniadau wedi’u diffinio Ofcom. Mae nodiadau 1(k) ac 20 i’r cyfrifon yn darparu rhagor o fanylion.

Roedd y prisiadau actiwaraidd ar gyfer y naill gynllun a’r llall ar ddyddiad y prisiad ffurfiol diwethaf, sef 31 Mawrth 2021, a wneir pob tair blynedd, yn dangos diffyg o £0.6m mewn cyllid cyfun. Mae prisiad actiwaraidd Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom yn dangos gwarged o £0.4m. Mae holl rwymedigaethau prisiadau Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (hen gynllun ITC) wedi cael eu prynu i mewn, ac felly nid oes gwarged na diffyg.

Fodd bynnag, mae datganiadau ariannol 2022/23 yn dangos gwarged o £11.5m, yn rhannol oherwydd bod y rhwymedigaethau pensiwn o dan y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail bod y rhwymedigaethau’n cael eu disgowntio yn unol â’r arenillion ar fondiau o ansawdd uchel sydd, o dan amodau presennol y farchnad, yn wahanol iawn i'r dull sy'n cael ei ddefnyddio i bennu cyfraniadau Ofcom. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu’r symudiadau sylweddol mewn marchnadoedd ariannol ers dyddiad prisiadau’r actiwari ym mis Mawrth 2021.

Mae Ofcom yn gwneud taliadau ariannol at y Cynllun Buddion wedi’u Diffinio a’r Cynllun Pensiwn Staff (hen gynllun ITC) ar sail y prisiadau actiwaraidd. Mae taliadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredu, fel y'u cyfrifir o dan IAS 19, yn cael eu cynnwys yn alldro'r gwariant gweithredu a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffau a godir ar gyfranddeiliaid bob blwyddyn.

Oherwydd y gwaith lliniaru risg rhwng Ofcom, Ymddiriedolwyr ac Actiwarïaid y ddau gynllun pensiwn, mae oddeutu 80% o rwymedigaethau’r cynlluniau yn cael eu cefnogi bellach gan flwydd-daliadau. Fel rhan o’r gweithgareddau parhaus i reoli ac i liniaru risgiau’r cynlluniau, bydd rhagor o gynlluniau prynu buddion i mewn gyda chefnogaeth yswiriant ar gyfer aelodau sy’n bensiynwyr yn cael eu hystyried yn y dyfodol.




### Tariffau

Cyhoeddodd Ofcom Dablau Tariff 2022/23 ar 25 Mawrth 2022. Mae cyllideb graidd Ofcom yn aros ar yr un lefel â'r flwyddyn ariannol flaenorol, sef £131.9m. Roedd y cap gwariant cyffredinol wedi cynyddu £48.8m er mwyn cynnwys gwaith paratoi ar gyfer ein dyletswyddau rheoleiddio newydd hy Diogelwch Ar-lein a'r Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch).

Roedd y gweithgareddau hyn yn cael eu hariannu drwy gadw derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 (WTA) ac nid drwy dariff rhanddeiliaid. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Nhablau Tariff 2022/23 ar ein gwefan.

Fel y dangosir yn Ffigur 4 isod, ac eithrio'r costau sy'n gysylltiedig â'n cyfrifoldebau newydd, mae'r tariffau cyffredinol ar gyfer pob sector rheoleiddio yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd pum mlynedd, ac eithrio Rhwydweithiau a Gwasanaethau sydd wedi gweld cyllid yn symud o waith diogelwch i gyllid WTA, gan leihau'r ffioedd i randdeiliaid yn y sector hwnnw.

## Ffigur 4: Cyllid yn ôl sector dros 5 mlynedd




Mae'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a'r gofyniad cyllido ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y siart uchod yn cynrychioli addasiadau i'r flwyddyn flaenorol sydd wedi'u hymgorffori yn ein ffioedd.

Sbectrwm
Rhwydwaith a Gwasanaethau
Cyfanswm Darlledu
Diogelwch ar-lein
Post
Ddim yn benodol i sector
Llwyfan Rhannu Fideos
Deddf Diogelwch Telegyfathrebiadau

# Cyfrifoldeb corfforaethol

## Ymrwymiad Ofcom i gyfrifoldeb corfforaethol.

Rydym yn gryfach fel sefydliad pan fyddwn ni'n gysylltiedig â'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt, a phan fyddwn yn ceisio lleihau effaith amgylcheddol ein gweithrediadau.

### Er mwyn cyflawni hyn:

- Rydym wedi ymrwymo i helpu i leihau allyriadau carbon cyffredinol y DU a mabwysiadu ac annog arferion cynaliadwy lle bynnag y gallwn.
- Rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion i egluro ein gwaith a'r cyfleoedd sydd ar gael yn Ofcom, yn ogystal â chynnig rhaglenni cryf y mae galw mawr amdanynt i amrywiaeth eang o brentisiaid a graddedigion.
- Rydym yn gweithio i feithrin cysylltiadau agosach â chymunedau lleol yn Llundain, Manceinion, Caeredin, Caerdydd a Belfast ac rydym wedi cynyddu ein habsenoldeb gwirfoddoli â thâl i 5 diwrnod y flwyddyn ar gyfer pob cydweithiwr.

### Polisi Amgylcheddol

Mae gan Ofcom nod i leihau ei effaith ar yr amgylchedd. Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae i fynd i'r afael â bygythiadau i systemau naturiol a bioamrywiaeth ein planed. Felly, mae Ofcom wedi ymrwymo i asesu, deall a gwella ei berfformiad amgylcheddol, gan gynnwys drwy ddarparu cyflenwadau a gwasanaethau dan gontract.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi mabwysiadu polisi amgylcheddol newydd, sy'n dangos ein hymrwymiad i leihau ein heffaith ac ennill achrediad ISO14001:2015 (System Rheoli Amgylcheddol), gan ein helpu i fabwysiadu dull mwy systematig o wella ein perfformiad amgylcheddol.

### Ysgolion a sefydliadau

Rydym wedi parhau â'n gwaith allgymorth helaeth mewn ysgolion, gan gyrraedd myfyrwyr o dros 50 o ysgolion. Fe wnaethom ddarparu cymorth i ysgolion a sefydliadau drwy sesiynau profiad gwaith ar-lein gyda'r elusen EY Foundation a sesiynau allgymorth gyda sefydliad symudedd cymdeithasol arbenigol i'n helpu i adnabod, hyfforddi a chefnogi pobl ifanc i gymryd y cam cyntaf yn eu gyrfa, gan gynnwys gwneud cais am ein rhaglenni prentisiaeth.

Gan weithio gyda'r EY Foundation, fe wnaethom noddi 18 o fyfyrwyr i gymryd rhan yn y rhaglen profiad gwaith â thâl Smart Futures yn ein lleoliad ym Manceinion. Mae'r elusen annibynnol yma'n rhoi sgiliau, profiadau a chefnogaeth i bobl ifanc i'w helpu i gael y swyddi maen nhw wir eu heisiau, ac mae'n rhoi cyflogwyr mewn cysylltiad â phobl ifanc dalentog ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Fel rhan o'r rhaglen, roeddem wedi cyrraedd pobl ifanc (16 oed a hŷn) o gefndiroedd incwm isel ym Manceinion i'w helpu i feithrin amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn rhoi dechrau da i'w gyrfa yn ein diwydiant. Fe wnaeth yr holl bobl ifanc ennill cymhwyster achrededig.

Mae gennym raglen barhaus i gynyddu amrywiaeth o ran rhywedd ac ethnigrwydd yn ein rolau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM). Yn ogystal â chefnogi a chynnal digwyddiadau fel digwyddiad Menywod ym maes Seiberddiogelwch Ofcom ym mis Hydref 2022, mae Ofcom wedi noddi WeAreTechWomen a Digital Her, gan gefnogi ac annog mwy o fenywod i ddilyn gyrfaoedd ym maes digidol a thechnoleg. Rydym hefyd yn cefnogi rhaglen Llysgenhadon STEM sy'n helpu cyflogwyr i gysylltu â phobl ifanc, gan eu hysbrydoli i fod y genhedlaeth nesaf o weithwyr STEM proffesiynol.

## Graddedigion

Bob blwyddyn, mae rhaglen graddedigion Ofcom yn croesawu carfan o raddedigion i'w rhaglen dwy flynedd, gyda 29 yn ymuno â ni ym mis Medi 2022. Gan weithio gyda sefydliad recriwtio graddedigion arbenigol, rydym yn harneisio eu cyrhaeddiad ar draws cannoedd o brifysgolion ledled y DU ac roeddem yn gallu recriwtio graddedigion o safon uchel o gefndiroedd amrywiol iawn. Mae ein rhaglen i raddedigion yn cynnig dewis o lwybrau gan gynnwys polisi, technoleg, seiberddiogelwch, sbectrwm, economeg, gwyddor data a chyllid. Gall y graddedigion ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau technegol ac ymddygiadol yn eu dewis faes, gan adeiladu ar yr wybodaeth a'r sgiliau sydd ganddynt eisoes.

## Prentisiaethau ac interniaethau

### Prentisiaethau

Ym mis Ionawr 2022, fe wnaethom sefydlu partneriaeth strategol gyda Visionpath i ddatblygu rhaglen gyrfaoedd cynnar o'r dechrau i'r diwedd sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc sydd dan anfantais gymdeithasol. Fe wnaethom ailddychmygu sut mae denu a recriwtio prentisiaid i Ofcom, gan ganolbwyntio ar recriwtio o 38 ysgol/coleg lle buom yn ymgysylltu â 355 o fyfyrwyr, a llwybr datblygu i greu taith gynhwysol a chefnogol i ymgeiswyr sy'n darparu'r sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar dalentau amrywiol. Fe wnaethom gyflwyno Bwtcamps Sgiliau dau ddiwrnod yn Llundain a Manceinion i feithrin sgiliau yn y gweithle a helpu ein hymgeiswyr i adnabod a harneisio eu cryfderau. Roedd pob ymgeisydd yn cael mentor yn Ofcom am dri mis i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eu gyrfa, gyda sgiliau i gefnogi eu llwyddiant yn Ofcom neu mewn mannau eraill. Arweiniodd hyn at ganlyniadau cadarnhaol i bob ymgeisydd beth bynnag fo'u lleoliad. O'r rhaglen waith hon, fe wnaethom recriwtio 15 prentis polisi, technoleg ddigidol a gwasanaeth i gwsmeriaid a ymunodd â ni ym mis Medi 2022. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal y rhaglen eto ar gyfer carfan 2023 lle byddwn yn recriwtio 16 o brentisiaid eraill.

Yn ogystal â phrentisiaid sydd newydd adael yr ysgol, mae gennym 16 o gydweithwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer prentisiaethau i ennill sgiliau ychwanegol fel cymwysterau proffesiynol CIMA (cyfrifeg), CIPD (Proffesiwn Pobl neu Adnoddau Dynol) a BEng (peirianneg).

### Interniaethau

Yn ystod haf 2022, fe wnaethom gynnal rhaglen ar-lein tair wythnos Internship Experience UK ar gyfer dros 4,000 o bobl ifanc 16 i 24 oed. Fe wnaethom gymryd rhan yn y sector cyhoeddus a ffrydiau technoleg i helpu i roi cipolwg i fyfyrwyr ar y gwaith rydym yn ei wneud yn Ofcom.

Ffurfiodd ein tîm Cyfreithiol bartneriaeth â rhaglen 'Pathways to Law' Ymddiriedolaeth Sutton, er mwyn derbyn chwe myfyriwr ar brofiad gwaith â thâl ym mis Awst a mis Medi 2022. Nod y rhaglen barhaus yma yw ehangu mynediad at y proffesiwn cyfreithiol, meithrin dyheadau myfyrwyr a'u galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gyrfa yn y dyfodol. Mae'n agored i ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion nad ydynt yn codi ffioedd, gyda llawer o ddisgyblion y cyntaf yn y teulu i fynd i brifysgol.

Yn 2022, roeddem yn falch o gymryd rhan yn y rhaglen 10,000 Black Interns. Nod y cynllun yw cynnig 10,000 o interniaethau i bobl ifanc ddu, gan gynnwys dros 700 o gwmnïau. Fe wnaethom gynnig rhaglen profiad gwaith chwe wythnos i 13 o fyfyrwyr yn Ofcom a byddwn yn cynnal y rhaglen eto yn 2023 gyda 25 o leoedd eisoes yn cael eu cynnig. Yn ystod y rhaglen, mae interniaid yn cael eu cefnogi i wneud cais am swyddi parhaol, ac mae un o interniaid 2022/23 wedi ymuno â'n rhaglen i raddedigion ym maes economeg.

## Gwirfoddoli

Ym mis Ionawr 2023, fe wnaethom gynyddu ein habsenoldeb gwirfoddoli â thâl o 3 diwrnod i 5 diwrnod. Gall cydweithwyr ddefnyddio'r absenoldeb hwn mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd gan gynnwys gweithio fel ynadon, cefnogi pobl ifanc mewn lleoliadau academaidd, yn ogystal â gwirfoddoli cymunedol ee fel ymddiriedolwyr neu arweinwyr sgowtiaid.

## Caethwasiaeth fodern

Mae Ofcom wedi ymrwymo i wella ei bolisïau a'i arferion yn barhaus er mwyn helpu i fynd i'r afael â phroblem ddifrifol caethwasiaeth fodern. Nid ydym yn goddef caethwasiaeth na masnachu pobl yn ein busnes na'n cadwyni cyflenwi. Rydym yn asesu ein contractau i ganfod risgiau ac os byddwn yn dod o hyd i rai, byddwn yn gweithio gyda'n cyflenwyr i'w monitro a'u rheoli'n effeithiol. Rydym yn cyhoeddi datganiad blynyddol ar gaethwasiaeth fodern i ddangos sut rydym yn cyflawni'r ymrwymiadau hyn.

# Adroddiad cynaliadwyedd

## Mae Ofcom wedi cyflawni targedau Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth (Targed GGC: gostyngiad o 58%) ac mae wedi lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 60% o linell sylfaen 2017/18.

Yn 2022/23, cynyddodd ein hallyriadau CO2 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan adlewyrchu'r gwaith o godi holl gyfyngiadau Covid a'n gweithrediadau'n dychwelyd i lefel arferol. Fodd bynnag, rydym wedi parhau i leihau ein defnydd o ynni drwy newid i ynni adnewyddadwy ar draws ein hystad, ac rydym yn parhau i reoli teithiau busnes i'r lefelau isaf posibl drwy fuddsoddi mewn technoleg a'n fframwaith gweithio cysylltiedig hyblyg.

### Adrodd ar gynaliadwyedd yn y dyfodol

Ers 2007, mae Ofcom wedi parhau i leihau ôl troed carbon y gweithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd. Rydym bellach yn gweithio i sefydlu fframwaith achredu ffurfiol, gan gynnwys polisi amgylcheddol, a fydd yn gwella ein gwaith adrodd ar draws ein saith safle, ac rydym yn gwneud y gwaith cynaliadwyedd ar draws y sefydliad yn fwy amlwg.

Fel sefydliad cyhoeddus, rydym am arwain drwy esiampl. Ym mis Gorffennaf 2022, enillodd Ofcom achrediad ISO14001: 2015 ar gyfer System Rheoli Amgylcheddol, gan ein helpu i fabwysiadu dull mwy systematig i wella ein perfformiad amgylcheddol a chyfrifo ein hôl troed amgylcheddol a chwilio am gyfleoedd i wella.



Rydym yn parhau i wneud y canlynol:


- dilyn y Polisi Amgylcheddol[4] y cytunir arno, gan ddangos ein hymrwymiad i wella perfformiad amgylcheddol Ofcom;
- dilyn y cylch Cynllunio-Gwneud-Gwirio-Gweithredu, sydd wrth wraidd holl safonau system reoli ISO, i wella ein holl systemau, gweithdrefnau a phrosesau;
- nodi'r agweddau amgylcheddol[5] ar ein gweithgareddau y gallwn eu rheoli a dylanwadu arnynt, a'u heffeithiau posibl ar yr amgylchedd;
- penderfynu sut mae'r holl ddeddfwriaethau a gofynion perthnasol yn berthnasol i'r agweddau hyn. Drwy weithio o fewn y fframwaith hwn, roeddem wedi asesu'r pethau a oedd yn gweithio'n dda, gan fireinio'r rhai y mae angen i ni eu gwella;
- sefydlu amcanion mesuradwy a thargedau sy'n gyson ag amcanion ein polisi newydd;
- rydym wedi pennu camau cynllunio clir i gyflawni ein hamcanion[6] a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n holl rwymedigaethau; a,
- grymuso cydweithwyr i gyfrannu at gynnydd Ofcom ar yr effaith ar garbon a dal y sefydliad i gyfrif drwy'r rhaglen Hyrwyddwyr Gwyrdd.

4. https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/policies-and-guidelines/environmental-policy

5. Mae'r safon yn diffinio agweddau fel gweithgareddau'r sefydliad sy'n rhyngweithio â'r amgylchedd.

6. Mae rhai o'r camau cynllunio hyn yn cynnwys, er enghraifft: cynnal archwiliad gwastraff ar draws ein hystad er mwyn deall yn well y gwastraff rydym yn ei gynhyrchu, a'i fesur yn fwy cywir; sefydlu strategaeth lleihau gwastraff (gan gynnwys cael gwared ar blastig untro yn ein gweithrediadau); cynnal archwiliad bioamrywiaeth o'n safle yn Baldock gyda chynllun gwella bioamrywiaeth i ddilyn.

## Perfformiad o ran cynaliadwyedd dros bum mlynedd




## Crynodeb o'r perfformiad o ran cynaliadwyedd dros bum mlynedd

| | | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Olew, Nwy a Thanwydd | $tCO_2e$ | 327 | 185 | 108 | 115 | 140 |
| | Gwariant | £117,133 | £96,121 | £54,969 | £61,817 | £105,672 |
| Trydan | $tCO_2e$ | 528 | 308 | 189 | 172 | 220 |
| | Gwariant | £287,074 | £158,351 | £127,929 | £146,021 | £908,816[7] |
| Teithio ar gyfer busnes | $tCO_2e$ | 555 | 594 | 7 | 57 | 330 |
| | Gwariant | £742,876 | £837,982 | £5,458 | £139,275 | £660,125 |
| **Cyfanswm nwyon tŷ gwydr** | **$tCO_2e$** | **1,410** | **1,087** | **304** | **344** | **690** |
| | **Gwariant** | **£1,147,082** | **£1,092,454** | **£188,356** | **£347,112** | **£1,674,613** |

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

03 Gorffennaf 2023

7. Mae prisiau ynni wedi codi'n sylweddol yn ystod 2022/23. Ar ben hynny, yn un o'n safleoedd (Riverside House) o 2022/23 ymlaen, mae'r broses o ddosrannu taliadau ar gyfer defnyddio ynni wedi cael ei diweddaru. Nid yw hyn yn effeithio ar y defnydd o ynni yr adroddir arno.



ADRAN B

# ATEBOLRWYDD

# Datganiad Llywodraethu

### Trosolwg llywodraethu, gan yr Arglwydd Grade o Yarmouth, Cadeirydd

Ar ôl cwblhau ychydig dros flwyddyn fel Cadeirydd Ofcom, mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadroddiad llywodraethu corfforaethol ar gyfer 2022/23. Mae'r adroddiad hwn yn egluro sut mae Ofcom yn mynd ati i lywodraethu, gan gynnwys sut mae'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd yn gweithredu.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu dull cynllunio strategol newydd, tymor canolig drwy gymeradwyo Cynllun Tair Blynedd gyntaf Ofcom. Mae'r Cynllun Tair Blynedd yn sail i ddull gweithredu Ofcom ar gyfer materion gweithredol, gan gynnwys cyllidebu, ac mae'n sail i flaenoriaethau polisi a'r broses o greu pob Cynllun Gwaith blynyddol.

Mae'r Bwrdd yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod strwythur ac adnoddau Ofcom yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno cyfrifoldebau newydd ym maes diogelwch ar-lein. Cymeradwyodd Pwyllgor Pobl y Bwrdd greu'r Grŵp Diogelwch Ar-lein newydd i gael ei arwain gan Gyfarwyddwr cyntaf y Grŵp Diogelwch Ar-lein.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i ganolbwyntio ar gefnogi cystadleuaeth effeithiol ar yr un pryd â sicrhau tegwch i ddefnyddwyr. Rydym wedi adolygu'r fframwaith cystadleuol yn y farchnad telegyfathrebiadau ac wedi edrych ar gostau byw ar gyfer defnyddwyr. Rydym yn cynllunio ein hagendâu drwy gydol y flwyddyn i sicrhau ein bod yn rhoi digon o sylw i'r holl sectorau yn ein cylch gwaith, yn ogystal â'n cyfrifoldebau gweithredol a chorfforaethol.

Parhaodd y Bwrdd â'i draddodiad o ymweld â Chymru, Gogledd Iwerddon neu'r Alban bob blwyddyn ar gyfer digwyddiad i randdeiliaid a chyfarfod o'r Bwrdd. Eleni, aeth y Bwrdd i Gaeredin a manteisiodd ar y cyfle i ymweld â'r Ysgol Gwybodeg a Chanolfan Bayes ym Mhrifysgol Caeredin, yn ogystal â chwrdd â rhanddeiliaid o'r diwydiant o bob rhan o'r Alban mewn derbyniad anffurfiol.

Cynhaliodd y Bwrdd weithdai ar amrywiaeth o bynciau yn ystod y flwyddyn er mwyn deall natur newydd a newidiol y diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys diogelwch ar-lein, ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, lluosogrwydd yn y cyfryngau a dilysu oedran. Roedd ein diwrnod strategaeth Bwrdd blynyddol hefyd yn gyfle i ni edrych yn fanylach ar dueddiadau'r diwydiant a chlywed gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac arbenigwyr allanol yn y diwydiant.

Mynychodd aelodau'r Bwrdd saith cinio anffurfiol gyda chydweithwyr o bob rhan o Ofcom yn ystod y flwyddyn hon. Rydym yn croesawu'r cyfle mae hyn yn ei roi i ni i gryfhau ein dealltwriaeth o ddiwylliant Ofcom a phrofiadau ein timau wrth iddynt gyflawni ein rhaglen waith.

Mae llywodraethu'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel yn Ofcom a chynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau Llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Roedd yr adolygiad yn adeiladu ar sylfeini cadarn ond yn edrych tua'r dyfodol. Cafodd newidiadau eu cyflwyno i adlewyrchu'r ffaith bod y Grŵp Diogelwch Ar-lein newydd wedi cael ei sefydlu, i hwyluso sefydliad mwy ystwyth ac ymatebol, ac i gysoni prosesau llywodraethu'n agosach â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

Bob blwyddyn, mae ein Pwyllgor Pobl yn adolygu strwythur, maint a chyfansoddiad (gan gynnwys sgiliau, gwybodaeth, profiad ac amrywiaeth) ein Bwrdd, er mwyn iddo allu gwneud argymhellion i wella effeithiolrwydd y Bwrdd.

Mae'n bleser gennyf groesawu Will Harding a benodwyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel Aelod o Fwrdd Ofcom ym mis Hydref 2022. Mae gan Will brofiad helaeth ar draws amrywiaeth o sefydliadau a llwyfannau cyfryngau byd-eang, ac mae wedi arloesi yn y sector cyfryngau ers blynyddoedd lawer.

Ysgwyddodd nifer o Aelodau'r Bwrdd gyfrifoldebau newydd, a hoffwn ddiolch yn arbennig i Karen Baxter a Will Harding a ymunodd â'r Pwyllgor Risg ac Archwilio a Maggie Carver, a ymgymerodd â rôl Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys. Hoffwn hefyd ddiolch i Maggie Carver am arwain y Bwrdd drwy heriau'r pandemig a'r paratoadau cynnar ar gyfer Diogelwch Ar-lein fel Cadeirydd Dros Dro rhwng 1 Ionawr 2021 a 30 Ebrill 2022.

Ym mis Chwefror 2023, fe wnaethom ffarwelio â Graham Mather. Hoffem ddiolch o galon i Graham am ei gyfraniad sylweddol a gwerthfawr i Ofcom.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Fonesig Melanie Dawes, y Bwrdd, yr Uwch Reolwyr a'r holl staff am eu cefnogaeth wrth i mi setlo yn fy rôl fel Cadeirydd.

**Yr Arglwydd Grade, Cadeirydd**

**Mae'r Adroddiad Llywodraethu hwn yn crynhoi trefniadau llywodraethu Ofcom, gan gynnwys cyfansoddiad ein Bwrdd, sut mae ein fframwaith llywodraethu'n gweithredu'n ymarferol (gan gynnwys ein strwythur llywodraethu a rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd) a'r pethau allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn 2022/23.**

## Ein Trefn Lywodraethu

Fel corfforaeth statudol, mae prif ofynion cydymffurfio Ofcom o ran llywodraethu yn cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth berthnasol (sef Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau (2002), y Ddeddf Cyfathrebiadau (2003), y Ddeddf Gwasanaethau Post (2011), Deddf yr Economi Ddigidol (2010), Deddf yr Economi Ddigidol (2017) ac unrhyw ddeddfwriaethau atodol eraill sy'n berthnasol neu Orchmynion ynddynt) sy'n pennu materion fel dibenion y sefydliad a phenodi ein Haelodau.

Mae Aelodau Bwrdd Ofcom hefyd yn rhwym wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Mae ein dull llywodraethu corfforaethol cyffredinol yn seiliedig ar, ond nid yw'n rhwym wrth, God Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig 2018 ("Cod y Deyrnas Unedig") a'i ganllawiau cysylltiedig, yn amodol ar lle ystyrir bod rhai egwyddorion yn anghymesur neu'n llai perthnasol yn achos Ofcom a/neu lle mae gofynion eraill yn cael eu gosod ar Ofcom drwy statud.

## Sut mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 yn cyfrannu at ein dull gweithredu

Dyma enghreifftiau o sut mae rhai o egwyddorion Cod y Deyrnas Unedig wedi cyfrannu at ein dull gweithredu:

**Arweinyddiaeth a Phwrpas y Bwrdd**
Mae gan ein Bwrdd bwrpas, strategaeth a gwerthoedd clir, ac mae'n gallu bodloni ei hun bod y rhain a'i diwylliant yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae ein Bwrdd, y mae'r mwyafrif o'r aelodau yn Aelodau Anweithredol, yn cynnig syniadau a her wrthrychol annibynnol ar gyfer ein nodau strategol.

**Rhannu Cyfrifoldebau**
Mae Cadeirydd ein Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth strategol i'r Bwrdd. Ystyrir bod ein Haelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu i raddau helaeth arnynt wrth iddynt wneud penderfyniadau. Ond, os bydd amgylchiadau arbennig yn codi, cymerir camau priodol i sicrhau eu bod yn dal yn annibynnol.

**Cyfansoddiad, Olyniaeth a Gwerthuso**
Dilynir proses drylwyr a thryloyw wrth benodi aelodau i'r Bwrdd, ac mae ein Cadeirydd a'n Haelodau Anweithredol yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon[8]. Wrth i Aelodau newydd gael eu penodi i'r Bwrdd, byddwn yn gweithio gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) a'r Llywodraethau datganoledig i gynyddu amrywiaeth ein Bwrdd. Mae ein Pwyllgor Pobl yn ceisio sicrhau bod gennym gynlluniau olyniaeth effeithiol, a'n bod yn nodi ac yn rheoli ein llif o dalentau yn briodol.

**Archwilio Risg a Rheolaeth Fewnol**
Mae ein Pwyllgor Risg ac Archwilio yn goruchwylio'r strwythurau a'r prosesau sydd ar waith i reoli ein risgiau, ac yn sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith.

**Taliadau**
Mae ein Hadroddiad Taliadau yn egluro sut rydym yn sicrhau bod ein harferion a'n polisïau taliadau yn cefnogi ein nodau strategol, a bod ein taliadau i'n cydweithwyr yn hybu llwyddiant Ofcom.

8. Dechreuodd Ofcom noddi'r Adran Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg newydd ym mis Mawrth 2023.

## Ein Bwrdd: Gweithgareddau a Phwrpas

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol ac archwaeth risg y sefydliad, a dyma'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol ar faterion sydd o arwyddocâd i Ofcom o safbwynt strategol, rheoleiddiol neu enw da. Mae trefniadau llywodraethu effeithiol yn helpu i gyflawni diben a strategaeth Ofcom, yn enwedig mewn cyfnod heriol. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo, drwy ei fframwaith llywodraethu, i wneud penderfyniadau priodol ar y lefel gywir yn Ofcom gan sicrhau atebolrwydd, gwerth hirdymor a chyflawni ein pwrpas o hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol pwrpasol sy'n cynnwys datganiad o egwyddorion llywodraethu sy'n llywio gweithgareddau'r Bwrdd. Mae'r Fframwaith yn edrych ar gyfrifoldebau allweddol y Bwrdd a'r materion sydd wedi cael eu cadw i'r Bwrdd benderfynu arnynt, gan gynnwys y canlynol:

- cymeradwyo Cynllun Gwaith, amcanion tymor hir a fframwaith polisi strategol cyffredinol Ofcom;
- cymeradwyo cyllideb flynyddol, polisi ariannol cyffredinol a Fframwaith Awdurdodau Ariannol Ofcom;
- cymeradwyo cyfrifon ac adroddiad blynyddol Ofcom;
- rheoli risg, rheolaethau mewnol a chydymffurfiad; a
- chynnal adolygiad ffurfiol a rheolaidd o berfformiad y Bwrdd ei hun, a pherfformiad pwyllgorau'r Bwrdd ac Aelodau unigol.



## Penodiadau i'r Bwrdd

Mae Cadeirydd a'r mwyafrif o Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, am gyfnod o bedair blynedd. Mae Aelod yr Alban, Aelod Cymru ac Aelod Gogledd Iwerddon wedi cael eu penodi gan Weinidogion yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran yr Economi, ar ôl ymgynghori a'r Ysgrifennydd Gwladol. Caiff Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd eu penodi gan y Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, ac mae'n rhaid cael sêl bendith yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth benodi'r Prif Weithredwr. Rydym yn cydnabod nad yw cydbwysedd presennol y Bwrdd yn cynrychioli poblogaeth y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithio gyda'r Adran dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg a'r Llywodraethau datganoledig i sicrhau bod ein dulliau recriwtio yn y dyfodol yn cyd-fynd â'n hymrwymiad strategol i fod yn sefydliad amrywiol a chynhwysol. Bydd cael Bwrdd sy'n cynrychioli gwahanol safbwyntiau ein cymdeithas yn ein galluogi i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer holl ddefnyddwyr a dinasyddion y Deyrnas Unedig. Mae ymdrechion yn mynd rhagddynt i ategu ymhellach yr amrywiaeth bresennol o sgiliau sydd ar y Bwrdd i ystyried ein dyletswyddau rheoleiddio newydd.

# Rolau'r Bwrdd

## Y Cadeirydd

Cadeirydd y Bwrdd sy'n gyfrifol am gadeirio a rhoi arweiniad i'r Bwrdd. Mae'r cyfrifoldebau eraill yn cynnwys:

- arwain y Bwrdd i lunio strategaeth Ofcom ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau statudol;
- annog safonau uchel o ran priodoldeb;
- darparu asesiad o berfformiad Aelodau unigol o'r Bwrdd;
- sicrhau bod Ofcom yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, a bod cofnodion cyfarfodydd yn nodi penderfyniadau yn gywir; a
- chynrychioli barn Ofcom yn allanol.

## Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd

Mae'r mwyafrif o aelodau ein Bwrdd yn Aelodau Anweithredol, ac mae gan bob un ohonynt brofiad a sgiliau helaeth i'w cynnig i'r Bwrdd. Mae hyn yn sicrhau bod cydbwysedd da o sgiliau ar gael i Ofcom wrth i ni gyflawni ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau, ac wrth bennu polisi a chyfeiriad strategol Ofcom a'i fframwaith adnoddau.

## Y Prif Weithredwr

Mae'r cyfrifoldeb dros redeg Ofcom o ddydd i ddydd wedi cael ei drosglwyddo gan y Bwrdd i'r Prif Weithredwr a'r Weithrediaeth, sef yr Uwch Dîm Rheoli, sy'n cynnwys Prif Weithredwr Ofcom, Cyfarwyddwyr Grŵp, y Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid, y Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau a'r Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus. Mae'r Uwch Dîm Rheoli, drwy'r Bwrdd Rheoli Polisi, yn sicrhau bod y strategaethau, y polisïau a'r ymddygiad a bennir ar lefel Bwrdd yn cael eu cyfleu a'u rhoi ar waith yn effeithiol ar draws Ofcom.

Mae Ysgrifennydd Parhaol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom. Mae'r penodiad hwn yn cynnwys dyletswyddau i fod yn gyfrifol am reoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian a rheolaeth ariannol dda, a diogelu arian cyhoeddus. Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Ddogfen Fframwaith gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Rhaid iddi hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw, a rhaid iddi lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei chyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'i chyfrifoldebau fel Aelod Bwrdd. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei dyletswyddau.

# Aelodau'r Bwrdd



**Daliadaeth** 1 flwyddyn

**Aelodaeth**

P

## Arglwydd Grade o Yarmouth, CBE

**Cadeirydd ac Aelod Anweithredol o'r Bwrdd**
**Aelod o'r Pwyllgor Pobl**

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom fel Cadeirydd ar 1 Mai 2022

Mae Michael Grade wedi cael gyrfa hir ym maes darlledu, gan gynnwys gyda London Weekend Television, y BBC, ITV a Channel 4. Mae wedi bod yn gadeirydd ar Stiwdios Ffilm Shepperton/Pinewood, y BBC ac ITV. Mae'n gyd-sylfaenydd y cwmni GradeLinnit, sy'n cynhyrchu ar gyfer y theatr. Mae'n Gadeirydd ar Fwrdd Cynghori Grŵp Arora ar Ehangu Heathrow, ac mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd ar Ocado, First Leisure Corporation, Camelot, y Rheolydd Codi Arian Elusennol ac Amgueddfa Cyfryngau Bradford, yn ogystal â bod yn aelod o gyn-Gomisiwn Cwynion y Wasg ac yn un o ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Wyddoniaeth. Mae Michael Grade yn eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi fel Arglwydd nad yw'n perthyn i unrhyw grŵp seneddol.

---



**Daliadaeth** 1 flwyddyn

**Aelodaeth**

R

## Karen Baxter

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod Bwrdd ar ran Gogledd Iwerddon)**
**Aelod o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio**

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 28 Mawrth 2022

Mae gan Karen yrfa nodedig dros 30 mlynedd ym maes plismona, gan ymddeol fel Comander yn Heddlu Dinas Llundain yn 2020. Dechreuodd ei gwasanaeth fel swyddog yng Ngogledd Iwerddon, lle cafodd ddealltwriaeth gadarn o anghenion unigryw cymunedau yng Ngogledd Iwerddon. Mae rolau mwy diweddar Karen wedi cynnwys Comander a Chydlynydd Cenedlaethol ar gyfer Troseddu Economaidd, Arweinydd Gweithredol yr Heddlu, Rheolwr Gyfarwyddwr Strategaeth Gwybodaeth yn UK Finance. Ym mis Medi 2022, ymunodd Karen â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol fel Cyfarwyddwr Strategaeth, Polisi, Rhyngwladol a Gwybodaeth yn y Tîm Gorfodi. Yn y rôl hon, Karen sy'n arwain y swyddogaethau arbenigol sy'n cefnogi hyd a lled gweithgareddau gorfodi a goruchwylio marchnad yr FCA.

P Pwyllgor Pobl | C Bwrdd Cynnwys | E Pwyllgor Etholiadau | R Pwyllgor Risg ac Archwilio



**Daliadaeth** 4 blynedd

**Aelodaeth**

P E

## Maggie Carver, CBE

**Dirprwy Gadeirydd, Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys, Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Etholiadau, Aelod o'r Pwyllgor Pobl**

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom fel Dirprwy Gadeirydd ar 30 Medi 2018. Cadeirydd Dros Dro rhwng 1 Ionawr 2021 a 30 Ebrill 2022

Mae gan Maggie brofiad helaeth fel cyfarwyddwr anweithredol ar fyrddau 19 o gwmnïau cyhoeddus, preifat a nid-er-elw. Mae'r rhain yn cynnwys cadeirio'r darparwr newyddion a rhaglenni ITN, y gweithredwr aml-blecs SDN, Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain a'r RCA, yn ogystal â bod yn gyfarwyddwr ar fyrddau Channel 5 Television, RDF Media plc, Satellite Information Services, darlledwr y lluoedd arfog BFBS, British Waterways ac Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain. Gyrfa weithredol Maggie oedd bancio buddsoddiadau, cynhyrchu teledu, darlledu a manwerthu.



**Daliadaeth** 4 blynedd

**Aelodaeth**

P R

## Dr Angela Dean

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio ac Aelod o'r Pwyllgor Pobl**

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 30 Medi 2018

Ar hyn o bryd, mae Angela yn un o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Efrog ac yn Gadeirydd ei Bwrdd Prosiectau Cyfalaf. Mae'n Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel Penodiadau Cyhoeddus. Mae wedi bod yn gyfarwyddwr anweithredol ar nifer o sefydliadau nid-er-elw gan gynnwys Cadeirydd International House Trust, Dirprwy Gadeirydd King's College Llundain, ymddiriedolwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac aelod o'r Cyngor Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd. Roedd gyrfa weithredol Angela ym maes cyllid rhyngwladol, yn bennaf fel Rheolwr Gyfarwyddwr Morgan Stanley lle bu'n arwain tîm ymchwil technoleg byd-eang. Roedd yn aelod o Weithgor Cytundeb Byd-eang y Cenhedloedd Unedig ar gyfer materion yng nghyswllt cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ym maes buddsoddi.



**Daliadaeth** 5 mlynedd

**Aelodaeth**

P C

## Bob Downes

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod Bwrdd ar ran yr Alban), Aelod o'r Bwrdd Cynnwys ac Aelod o'r Pwyllgor Pobl**

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 1 Chwefror 2018; cafodd ei ailbenodi ar 1 Chwefror 2022

Bob yw cadeirydd presennol Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban. Mae hefyd yn cadeirio Corff Goruchwylio Annibynnol y Comisiwn ar gyfer Rheoleiddio Cyfathrebiadau, a fydd yn goruchwylio'r gwaith o weithredu a rheoleiddio gwell Model Llywodraeth Rheoleiddio yn Iwerddon gan Eir. Mae Bob yn gynghorydd i nifer o fusnesau technoleg bach, gan gynnwys Kube Networks. Roedd yn arfer bod yn uwch swyddog gweithredol gyda BT Group.

P Pwyllgor Pobl | C Bwrdd Cynnwys | E Pwyllgor Etholiadau | R Pwyllgor Risg ac Archwilio



**Daliadaeth** <1 flwyddyn

**Aelodaeth**

R

## Will Harding

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd, Aelod o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio**

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 3 Hydref 2022

Mae gan Will bron i 30 mlynedd o brofiad yn y diwydiant cyfryngau. Treuliodd bum mlynedd yn BBC Worldwide, yna helpodd i lansio ask.com yn y DU cyn dod yn Gyfarwyddwr Masnachol a Gweithrediadau busnes cyfryngau newydd Sky. Ymunodd â Gcap Media plc yn 2006 fel Cyfarwyddwr Strategaeth Grŵp ac yn ddiweddarach daeth yn Brif Swyddog Strategaeth ac yn Aelod o Fwrdd yn Global Media ac Entertainment Ltd, lle sefydlodd y Global Academy, sef ysgol y wladwriaeth ar gyfer pobl ifanc o bob cefndir sydd eisiau dechrau gyrfa yn y diwydiannau creadigol. Fe wnaeth roi'r gorau i'w ddyletswyddau ar Fwrdd Global ym mis Rhagfyr 2020. Mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol o Primedia, y prif grŵp cyfryngau a hysbysebion sy'n canolbwyntio ar Affrica, ac mae'n un o Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Addysg Baker Dearing.

---



**Daliadaeth** 4 blynedd

**Aelodaeth**

P R

## David Jones

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod Bwrdd ar ran Cymru), Aelod o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ac Aelod o'r Pwyllgor Pobl**

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 8 Ebrill 2019

Mae David yn arbenigwr ym maes technoleg a seiberddiogelwch ac mae ganddo brofiad helaeth ym maes rheoleiddio a llywodraethu yn y sector cyhoeddus. Treuliodd ddegawd fel Prif Swyddog Technoleg ar gyfer cwmni awyrennau a grŵp hamdden mawr yn Ewrop cyn sefydlu a datblygu busnes meddalwedd teithio llwyddiannus, a werthodd yn ddiweddarach. Yna treuliodd David ddegawd fel angel buddsoddi, ymgynghorydd a mentor i nifer o fusnesau technoleg. Mae'n darlithio'n rheolaidd ar seiberddiogelwch i sefydliadau ac ef oedd cyd-sefydlydd Enclave, sef busnes meddalwedd seiberddiogelwch. Mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol ar gyfer Ofwat. Ar wahân i seiberddiogelwch, ei feysydd arbenigol yw effaith strategol technoleg ar draws yr economi ehangach, gan gynnwys y sectorau cyhoeddus a phreifat.

---



**Daliadaeth** 7 mlynedd

**Aelodaeth**

P

## Ben Verwaayen

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl**

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2016, cafodd ei ailbenodi ar 1 Ionawr 2020

Ar hyn o bryd mae Ben yn Bartner Cyffredinol gyda chronfa fuddsoddi Keen Venture Partners, ac mae'n aelod o sawl Bwrdd, gan gynnwys Akami yn yr Unol Daleithiau a Renewi Ltd, cwmni blaenllaw yn yr economi gylchol yn y BeNeLux ac yn y DU. Mae'n gyn-Brif Weithredwr BT, KPN yn yr Iseldiroedd ac Alcatel Lucent. Mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd Endemol ac yn Aelod o Fwrdd AkzoNobel yn yr Iseldiroedd a Bharti Airtel, gweithredwr gwasanaethau symudol yn India.

---

P Pwyllgor Pobl | C Bwrdd Cynnwys | E Pwyllgor Etholiadau | R Pwyllgor Risg ac Archwilio

# Aelodau gweithredol o'r bwrdd



**Daliadaeth** 3 blynedd

## Y Fonesig Melanie Dawes

**Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr**

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Mawrth 2020

Cyn ymuno ag Ofcom, Melanie oedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae wedi ysgwyddo amrywiaeth o rolau uwch ar draws y Gwasanaeth Sifil, gan weithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Dechreuodd ar ei gyrfa fel economegydd, a threuliodd 15 mlynedd yn y Trysorlys, lle bu'n Gyfarwyddwr Materion Ewropeaidd rhwng 2002 a 2006. Roedd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Ysgrifenyddiaeth Materion Economaidd a Domestig yn Swyddfa'r Cabinet rhwng 2011 a 2015. Cyn hynny, bu'n gwasanaethu ar Fwrdd Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ac fel Comisiynydd. Mae Melanie wedi ysgwyddo amryw o rolau anweithredol, gan gynnwys gyda'r corff defnyddwyr Which?, ac mae'n un o ymddiriedolwyr y Patchwork Foundation sy'n helpu pobl ifanc sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i fod yn rhan o ddemocratiaeth.

---



**Daliadaeth** 3 blynedd

## Kevin Bakhurst

**Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Darlledu a'r Cyfryngau**

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Mawrth 2020

Ymunodd Kevin ag Ofcom ym mis Hydref 2016, ac mae'n Gyfarwyddwr Grŵp Darlledu a'r Cyfryngau, gan oruchwylio ein polisïau a'n rheoliadau ar faterion darlledu a chyfryngau. Rhwng 2018 a 2021, Kevin oedd yn arwain y gwaith o gynllunio tîm Diogelwch Ar-lein Ofcom yn strategol a recriwtio i'r tîm hwnnw. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd Kevin yn Rheolwr Gyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes, yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, ac wedyn yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro gyda darlledwr cenedlaethol Iwerddon, RTÉ. Ar ôl graddio o Brifysgol Caergrawnt, bu Kevin yn gweithio yn Price Waterhouse cyn ymuno â'r BBC fel ymchwilydd yn 1989. Aeth ymlaen i olygu'r rhaglen Ten O'Clock News, gan ddod yn Ddirprwy Bennaeth Ystafell Newyddion y BBC ac yn Rheolydd sianel BBC News a BBC News at One. Y tu allan i'r gwaith, roedd Kevin yn Ynad rhwng 2000 a 2006. Gadawodd Kevin Fwrdd Ofcom ar 19 Ebrill 2023.

---



**Daliadaeth** 3 blynedd

## Lindsey Fussell

**Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Rhwydweithiau a Chyfathrebu**

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Rhagfyr 2020

Ymunodd Lindsey Fussell ag Ofcom yn 2016, ac mae'n Gyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Rhwydweithiau a Chyfathrebiadau, gan arwain gwaith Ofcom yn y sectorau telegyfathrebu, post a rhwydwaith. Cyn ymuno ag Ofcom, bu Lindsey yn gweithio mewn amrywiaeth o uwch swyddi arweinyddiaeth yn y gwasanaeth sifil. Roedd yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus yn Nhrysorlys EF, lle bu'n arwain ar ddatganoli, addysg a diwylliant, amddiffyn a chyfiawnder troseddol, ac roedd yn gyfrifol am gyflawni agweddau pwysig ar Adolygiadau Gwariant 2013 a 2015. Mae Lindsey hefyd yn aelod lleyg o Gyngor llywodraethu Prifysgol Caerefrog.

---

# Aelodau a adawodd yn ystod y flwyddyn



**Daliadaeth** 8 mlynedd

**Aelodaeth**

P

## Graham Mather, CBE

**Aelod Anweithredol o'r Bwrdd, Aelod o'r Pwyllgor Pobl**

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 1 Mehefin 2014; cafodd ei ailbenodi ar 1 Mehefin 2018. Daeth y tymor i ben ar 28 Chwefror 2023.

Roedd Graham yn aelod o Banel Defnyddwyr Ofcom rhwng 2004 a 2008. Bu'n aelod o'r Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau a, rhwng 2000 a 2012, roedd yn aelod o'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth, y corff sy'n delio ag apeliadau gan reoleiddwyr y Deyrnas Unedig. Ar hyn o bryd, Graham yw Llywydd y Fforwm Polisi Ewropeaidd, y Fforwm Seilwaith a'r Fforwm Rheoleiddio. Cafodd ei benodi'n CBE am wasanaethau mewn perthynas â rheoleiddio economaidd, cystadleuaeth a datblygu seilwaith a bu'n aelod o Fwrdd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd rhwng 2016 a 2021.

P Pwyllgor Pobl


C Bwrdd Cynnwys

E Pwyllgor Etholiadau

R Pwyllgor Risg ac Archwilio

# Cipolwg ar lywodraethu

## Pwyllgorau'r Bwrdd




### Y Bwrdd Rheoli a Pholisi

Sefydlwyd y Bwrdd Rheoli a Pholisi (PMB) i weithredu fel y pwyllgor gweithredol ar gyfer rheoli'r sefydliad a chyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio. Fe'i cadeirir gan y Prif Weithredwr.

## Amrywiaeth Bwrdd Ofcom

**Rhywedd**

**55%** Yn Ddynion

**45%** Yn Fenywod


**Ethnigrwydd**

**100%** Ethnig Gwyn

**Anabledd**

**100%** Ddim yn Anabl

## Cyfnod yn y rôl




Dan 3 blynedd | 3-5 mlynedd | 5+ mlynedd

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod Blwyddyn Ariannol 2022/23

| | Bwrdd Ofcom |
|---|---|
| **Nifer o gyfarfodydd** | **10** |
| Michael Grade CBE | 9 (allan o 9) |
| Maggie Carver CBE | 10 |
| Karen Baxter | 10 |
| Dr Angela Dean | 10 |
| Bob Downes | 10 |
| Will Harding | 5 (allan o 5) |
| Graham Mather CBE | 9 (allan o 9) |
| Ben Verwaayen | 9 |
| David Jones | 10 |
| Y Fonesig Melanie Dawes DCB | 10 |
| Kevin Bakhurst | 10 |
| Lindsey Fussell | 10 |

Ymunodd Michael Grade â'r Bwrdd ar 1 Mai 2022. Ymunodd Will Harding ar 3 Hydref 2022. Daeth tymor Graham Mather i ben ar 28 Chwefror 2023.

### Gwybodaeth Reoli

Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael gwybodaeth reoli yn rheolaidd er mwyn gallu adolygu perfformiad a gallu Ofcom. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau perfformiad a chyllid rheolaidd, adolygu'r gwaith sydd wedi'i gyflawni o ran Cyllideb a Chynllun Ofcom, adolygu'r broses o gyflawni Strategaeth a Chynllun Gwaith Ofcom, y gofrestr risgiau strategol, statws canlyniadau'r adolygiad o effeithiolrwydd Pwyllgorau'r Bwrdd / y Bwrdd, a data corfforaethol arall.

### Gweinyddu'r Bwrdd

Ysgrifennydd y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am weinyddu'r Bwrdd, ac mae'n cadw ac yn diweddaru prif weithdrefnau a pholisïau y Bwrdd, cofnodion corfforaethol a chylch gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd a materion sy'n cael eu cadw ar gyfer y Bwrdd. Ysgrifennydd y Gorfforaeth sydd hefyd yn cynnal ac yn adolygu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom (gan gynnwys Dirprwyaethau Awdurdod a chylch gorchwyl Pwyllgor y Bwrdd) ac, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Fframwaith Awdurdodau Ariannol.

Roedd deg o gyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Roedd cyfarfodydd a drefnwyd yn cael eu cynnal bob mis, heblaw am fis Awst a mis Ionawr. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal Sesiwn Strategaeth ym mis Hydref bob blwyddyn, lle mae strategaethau tymor canolig-tymor hir yn cael eu hystyried, a thrafodaethau'n cael eu cynnal ar faterion strategol a pherthnasol. Mae papurau'r Bwrdd sy'n berthnasol i agenda holl gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, fel y bo'n briodol, tua wythnos cyn y cyfarfod drwy borth digidol diogel.

## Gweithgareddau ein bwrdd

Caiff gweithgareddau craidd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd eu cofnodi a'u cynllunio drwy ein rhaglen waith a'n blaen-agendâu. Mae agenda flynyddol y Bwrdd yn dilyn y meysydd blaenoriaeth strategol y cytunwyd arnynt yn ein Cynllun Gwaith blynyddol, ynghyd â'r meysydd ychwanegol sydd eu hangen i gyflawni prif gyfrifoldebau'r Bwrdd.

Mae'r siart ganlynol yn dangos sut mae'r Bwrdd wedi neilltuo ei agenda yn ystod y cyfnod adrodd.

| | |
|---|---|
| Llywodraethu corfforaethol | 14.6% |
| Rheoleiddio, cyllid, risg a chyfreithiol | 13.1% |
| Cysylltu pawb | 12.6% |
| Cefnogi a Datblygu'r Cyfryngau yn y Deyrnas Unedig | 14.6% |
| Sicrhau bod Diogelwch Ar-lein yn cael ei Reoleiddio | 14.6% |
| Tegwch i gwsmeriaid | 6% |
| Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel | 6.5% |
| Gwasanaethu a Diogelu Cynulleidfaoedd | 3% |
| Galluogi Gwasanaethau Di-wifr yn yr Economi Ehangach | 4.5% |
| Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol | 10.5% |

Mae enghreifftiau o eitemau a gweithgareddau'r agenda y mae'r Bwrdd wedi ymgymryd â nhw ym mhob un o'r meysydd hyn yn ystod y cyfnod adrodd wedi'u hamlinellu isod:

## Enghreifftiau o weithgareddau a wnaed gan y bwrdd

**Llywodraethu Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| ▪ Adolygu a diweddaru ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, gan gynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Bwrdd | Mawrth |
| ▪ Cymeradwyo cynllun busnes tair blynedd Ofcom | Mehefin, Rhagfyr |
| ▪ Adolygu'r ddarpariaeth yn erbyn y Cynllun Gwaith; a<br>▪ Chymeradwyo Cynllun Gwaith 2023/24 | Tachwedd<br>Mawrth |
| ▪ Gwerthuso effeithiolrwydd y Bwrdd, y Pwyllgorau, Aelodau ein Bwrdd a'r Cadeirydd; ac<br>▪ Adolygu cynnydd yn erbyn camau gweithredu'r gwerthusiad blaenorol | Mawrth<br>Gorffennaf |
| ▪ Cymeradwyo'r broses ar gyfer yr Adolygiad o Gyrff Cyhoeddus a'r ymateb cychwynnol iddo | Medi, Chwefror |
| ▪ Cymeradwyo/argymell penodiadau anweithredol i Fwrdd Ofcom, Paneli a Phwyllgorau Ofcom a'r Bwrdd Cynnwys. | Ebrill, Mehefin, Medi, Tachwedd, Chwefror |

**Rheoleiddio, Cyllid, Risg a Chyfreithiol**

| | |
|---|---|
| ▪ Adolygu Risgiau Strategol Ofcom | Mehefin, Rhagfyr, Mawrth |
| ▪ Adolygu a chymeradwyo:<br>– Datganiadau Agwedd at Risg Ofcom<br>– Rheoli Parhad Busnes; a<br>– Pholisi Cadernid Sefydliadol a Pholisi Rheoli Risg, gan gynnwys rhoi sicrwydd ar y system rheolaethau mewnol | <br>Mawrth<br>Medi<br>Rhagfyr |
| ▪ Cymeradwyo:<br>– Cyllideb 2023/24;<br>– Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol; a<br>– Fframwaith Awdurdodau Ariannol | <br>Mawrth<br>Mehefin<br>Rhagfyr |
| ▪ Adolygu adroddiad iechyd a diogelwch blynyddol Ofcom | Hydref |
| ▪ Adolygu sefyllfa ymgyfreitha Ofcom | Ebrill |
| ▪ Adolygu cwmpas ac effaith rheoleiddio ar sectorau'r diwydiant | Chwefror |

**Cysylltu Pawb**

| | |
|---|---|
| ▪ Adolygu adroddiad blynyddol Ein Gwlad Ar-lein ar y defnydd o'r rhyngrwyd a gwasanaeth darparwyr | Mai |
| ▪ Adolygu:<br>– Dull strategol Ofcom o reoleiddio gwasanaethau post dros y pum mlynedd nesaf; a<br>– Datblygiadau yn y farchnad bost | <br>Mehefin<br>Rhagfyr, Chwefror |
| ▪ Cymeradwyo dull strategol Ofcom i sicrhau cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd cyfathrebiadau digidol, gan gynnwys y Cwmwl a niwtraliaeth y rhyngrwyd | Mehefin |
| ▪ Adolygu strategaeth a blaenoriaethau rhyngwladol Ofcom ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol | Gorffennaf |
| ▪ Adolygu dull Ofcom o hyrwyddo ymwybyddiaeth yn y cyfryngau ar-lein | Medi |

**Cefnogi a datblygu'r Cyfryngau yn y Deyrnas Unedig**

| | |
|---|---|
| ▪ Adolygu:<br>– Dyfodol rheoleiddio'r BBC;<br>– Rhaglen waith ac adroddiad blynyddol y BBC; a<br>– Thrwydded Weithredu'r BBC | <br>Ebrill<br>Hydref<br>Mawrth |
| ▪ Adolygu perfformiad prif randdeiliaid darlledu a thelegyfathrebu yn y farchnad | Mai |
| ▪ Monitro cynnydd y Papur Gwyn Darlledu a'r Bil Cyfryngau | Mai |
| ▪ Adolygu'r paratoadau ar gyfer cyflwyno rheoliadau ar hysbysebu HFSS | Mai |
| ▪ Adolygu ymateb llwyfannau i ffyrdio'r saethu torfol yn Buffalo yn fyw | Gorffennaf |
| ▪ Adolygu'r rheolau ar hysbysebu ar y teledu | Mawrth |

## Enghreifftiau o weithgareddau a wnaed gan y bwrdd

| Sefydlu rheoleiddio diogelwch ar-lein | |
|---|---|
| ▪ Cymeradwyo :<br>– 'Map ar gyfer Rheoleiddio' a strategaeth Ofcom ar gyfer blynyddoedd cyntaf y drefn Diogelwch Ar-lein; a'r<br>– Dull gwerthuso | Mehefin<br><br>Rhagfyr |
| ▪ Adolygu parodrwydd sefydliadol a gweithredol ar gyfer y drefn Diogelwch Ar-lein | Hydref, Chwefror |
| ▪ Adolygu cynnydd ar ôl blwyddyn gyntaf y drefn Llwyfannau Rhannu Fideos a blaenoriaethau strategol diwygiedig ar gyfer yr ail flwyddyn | Medi |
| ▪ Adolygu'r dull gweithredu ar gyfer Cam 1 yr ymgynghoriad diogelwch ar-lein, gan gynnwys prosesau llywodraethu arfaethedig ac amserlenni ar gyfer cyhoeddi | Tachwedd |
| ▪ Monitro cynnydd gyda'r Bil Diogelwch Ar-lein, gan gynnwys yr amserlen, y diwygiadau arfaethedig ac unrhyw risgiau cysylltiedig | Rhagfyr |
| **Tegwch i gwsmeriaid** | |
| ▪ Ystyried a darparu mewnbwn i ddull gweithredu Ofcom ar gyfer diogelu defnyddwyr | Ebrill |
| ▪ Adolygu camau gweithredu'r Tîm Gorfodi | Mai, Rhagfyr |
| ▪ Adolygu effaith cynnydd mewn costau byw ar y sectorau a'r defnyddwyr sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom | Medi |
| ▪ Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/ Y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl | Medi |
| ▪ Adolygu gweithgarwch y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol a'r cynigion ar gyfer rhaglen waith y Fforwm ar gyfer 2023/24 | Mawrth |
| **Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel** | |
| ▪ Adolygu digwyddiadau darlledu ar safle trosglwyddydd Bilsdale ac yng Nghanolfan Red Bee Media | Ebrill |
| ▪ Adolygu datblygiadau mewn marchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog, gan gynnwys cynllunio senarios | Mai, Rhagfyr |
| ▪ Adolygu Cynnig Prisiau FTTP Openreach Equinox 2 a strategaeth Ofcom i hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau | Chwefror |
| **Gwasanaethu a diogelu cynulleidfaoedd** | |
| ▪ Cael adroddiadau rheolaidd ar weithgareddau'r Bwrdd Cynnwys; a<br>▪ Chymeradwyo rhaglen waith y Bwrdd Cynnwys | Ebrill, Gorffennaf, Chwefror<br>Chwefror |
| **Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach** | |
| ▪ Adolygu casgliadau i ymgynghoriadau ar ddull gweithredu Ofcom ar gyfer marchnadoedd symudol a'r galw am wasanaethau symudol yn y dyfodol | Tachwedd |
| ▪ Adolygu paratoadau'r DU ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd | Tachwedd |
| ▪ Adolygu cynigion ar gyfer galluogi defnyddio bandiau tonfedd milimetr ar gyfer 5G | Rhagfyr |
| **Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol** | |
| ▪ Adolygu Strategaeth Cyfathrebiadau Ofcom | Gorffennaf |
| ▪ Adolygu strategaeth gweithle Ofcom; a<br>▪ Chymeradwyo les newydd ar gyfer adeiladau yng Nghaeredin | Gorffennaf, Hydref<br>Hydref |
| ▪ Adolygu cynnydd Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad Ofcom | Gorffennaf |
| ▪ Adolygu canfyddiadau Arolwg Cydweithwyr Ofcom | Medi |
| ▪ Cymeradwyo blaenoriaethau rhaglen Un Ofcom ar gyfer 2023/24 | Chwefror |

## Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd

Mae Ofcom wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygiad parhaus ei Aelodau Bwrdd, ac rydym yn cydnabod yr angen i barhau i ddatblygu eu gwybodaeth er mwyn iddyn nhw allu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae pob Aelod Bwrdd sydd newydd gael ei benodi yn cael rhaglen gynefino gynhwysfawr a phwrpasol wrth ymuno ag Ofcom. Mae'r broses gynefino hefyd yn cynnwys dyletswyddau Aelodau a gweithdrefnau'r Bwrdd, prosesau rheoli mewnol, strategaethau a chynlluniau, mesurau a ddefnyddir i fonitro perfformiad a'r Polisi Rheoli Risg ynghyd â'r Archwiliad Mewnol ac Allanol.

Hefyd, mae'r Bwrdd yn cael cyflwyniadau a gweithdai rhyngweithiol ar wahanol agweddau ar Gynllun Gwaith Ofcom yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r rhain yn cael eu hwyluso gan gydweithwyr Ofcom gyda chynghorwyr proffesiynol a/neu randdeiliaid allanol.

## Adolygiad o Berfformiad ac Effeithiolrwydd y Bwrdd

Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad effeithiolrwydd i werthuso perfformiad y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd. Gan fod adolygiad wedi'i hwyluso'n allanol wedi cael ei gynnal ym mlwyddyn 2021/22 a bod newidiadau sylweddol i aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys penodi Michael Grade yn Gadeirydd, cafodd adolygiad 2022/23 ei hwyluso'n fewnol.

Ystyriodd y Bwrdd ganlyniadau'r adolygiad a'i argymhellion yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2023, a chytunodd ar brif feysydd blaenoriaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu Ofcom yn parhau i weithio'n dda.

Roedd annog trafodaeth agored, cyfraniadau cytbwys a her adeiladol; cysylltiadau â'r Bwrdd; ac ansawdd y gefnogaeth gan y sefydliad i gyd yn cael sgôr uchel. Roedd yr adolygiad yn tynnu sylw at welliant mewn nifer o'r meysydd ffocws a nodwyd yn adolygiad 2021/22, yn benodol mewn perthynas â deinameg y Bwrdd, monitro teimladau / diwylliant gweithwyr a goruchwylio risg.

Nododd y Bwrdd fod gwella ei ddealltwriaeth o ddiogelwch ar-lein, a'i arbenigedd ynddo, yn dal yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd, er gwaethaf y sesiynau briffio rheolaidd a defnyddiol gan y weithrediaeth yn y maes hwn sy'n adlewyrchu her y dasg ac nad oes unrhyw aelodau anweithredol sydd ag arbenigedd ym maes diogelwch ar-lein ar hyn o bryd.

Dyma feysydd allweddol eraill a nodwyd drwy'r adolygiad:

- Agendâu'r bwrdd a chefnogaeth i'r cyfarfodydd: amser ar yr agenda i ganolbwyntio ar drafod yr eitemau pwysicaf, gyda chymorth papurau a chyflwyniadau byrrach a mwy cryno.
- Cyfansoddiad y Bwrdd: fel y nodwyd yn 2021/22, byddai'r Bwrdd yn elwa o fwy o amrywiaeth i gryfhau lefel ei gefnogaeth a'i her. Gan nad yw'r Bwrdd yn penodi ei aelodau, gall geisio dylanwadu ar ei gyfansoddiad ond ni all ei reoli, na rheoli amseriad penodiadau.
- Eitemau sy'n benodol i'r gwledydd: treulio mwy o amser yn canolbwyntio ar eitemau sy'n benodol i'r Gwledydd; gan adlewyrchu cwmpas cylch gwaith Ofcom.
- Y Pwyllgor Pobl: mae'r Pwyllgor yn parhau i setlo i'w gylch gwaith diwygiedig ac mae angen digon o amser i'r Pwyllgor ddarparu mewnbwn ar yr adeg fwyaf priodol.

Mae'r Cadeirydd wedi cytuno ar gyfres o gamau gweithredu mewn ymateb i'r meysydd allweddol a bydd y Bwrdd yn adolygu diweddariadau statws yn gyson.

## Gwrthdaro rhwng buddiannau

Mae'n hanfodol bod Ofcom yn cadw ei enw da o ran didueddrwydd, gonestrwydd a safonau proffesiynol uchel yn ei holl waith. Mae Ofcom yn rhwym wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus ac, i gefnogi hyn, mae Ofcom wedi sefydlu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch buddiannau Aelodau.

Mae Ofcom yn mynd ati, mewn ffordd synhwyrol a phriodol, i reoli gwrthdaro posib rhwng buddiannau sydd gan Aelodau'r Bwrdd, neu a all godi o bryd i'w gilydd, i sicrhau nad yw gweithredoedd Aelodau yn bwrw amheuaeth dros ddidueddrwydd a gwrthrychedd Ofcom. Rhaid i Aelodau hefyd sicrhau bod eu hymddygiad yn cyd-fynd â 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus'.

Mae Ofcom yn cadw cofrestr o fuddiannau'r Aelodau a chaiff ei diweddaru'n flynyddol. Mae hyn yn sicrhau bod gan Ofcom gofnod cyfredol o fuddiannau Aelodau, a chyhoeddir gwybodaeth berthnasol ar wefan Ofcom. Rhwng datganiadau blynyddol, mae'n rhaid i Aelodau roi gwybod i Ysgrifennydd y Gorfforaeth pan fydd eu buddiannau'n newid er mwyn i'r Gofrestr gael ei newid yn unol â hynny a, phan fydd angen, codi unrhyw wrthdaro posib gyda'r Cadeirydd a/neu Fwrdd llawn Ofcom.

## Pwyllgorau'r Bwrdd a Byrddau Statudol

Wrth arfer dyletswyddau Ofcom dan y ddeddfwriaeth berthnasol, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai cyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd, yn unol ag awdurdodaeth a chylch gorchwyl wedi ei ddiffinio'n glir.

Mae gan Ofcom hefyd nifer o gyrff eraill sy'n cyflawni rôl lywodraethu neu gynghori i'r Bwrdd. Mae gweithgareddau a phrif swyddogaethau'r pwyllgorau a'r cyrff hyn yn cael eu disgrifio ar dudalennau 87-89.

## Y Pwyllgor Risg ac Archwilio

Newidiodd aelodaeth y Pwyllgor Risg ac Archwilio yn ystod y flwyddyn. Yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn, ymunodd Karen Baxter a Will Harding â'r Pwyllgor a daeth cyfnod Maggie Carver ar y Bwrdd i ben. Dyma holl Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd sy'n rhan o'r Pwyllgor: Angela Dean (Cadeirydd), Karen Baxter, David Jones a Will Harding. Gwahoddir Cadeirydd Bwrdd Ofcom, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Rheolydd Ariannol, y Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant a'r Pennaeth Llywodraethu i gyfarfodydd y Pwyllgor, yn yr un modd ag Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

Mae rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Risg ac Archwilio, ynghyd â gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd, wedi'u nodi yn Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio ar dudalennau 94-98.



## Y Pwyllgor Pobl

Mae'r Pwyllgor Pobl yn cynnwys Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Prif bwrpas y Pwyllgor Pobl yw darparu safbwynt cynnar, tymor hir a strategol ar feysydd sy'n ymwneud â Phobl a Gweithlu Ofcom ac, o bryd i'w gilydd, gwerthuso (drwy ymgynghori â'r Prif Weithredwr) a herio'r cynnydd a wnaed ar Strategaeth Pobl a Thrawsnewid Ofcom (pan ystyrir bod hynny'n briodol). Mae'r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd gan Reolwyr Ofcom bod mesurau a chynlluniau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli talentau, datblygu talentau a chynllunio ar gyfer olyniaeth, rheoli perfformiad, diwylliant a gwerthoedd, ac ymgysylltu â chydweithwyr, ynghyd â meysydd eraill yn ymwneud â phobl i ategu perfformiad, sgiliau ac arbenigedd Ofcom.

Mae'r Pwyllgor Pobl hefyd yn pennu'r egwyddorion cyffredinol a'r paramedrau perfformiad ynghyd â'r polisi taliadau ar draws Ofcom, ac mae'n ystyried ac yn cymeradwyo telerau ac amodau gwasanaeth unigolion, gan gynnwys trefniadau taliadau'r Prif Weithredwr, yr Uwch Dîm Rheoli a chydweithwyr "allweddol" eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio'r broses o benodi Aelodau Gweithredol y Bwrdd a Chyfarwyddwyr Grŵp eraill yr Uwch Dîm Rheoli, ac mae'n cymeradwyo'r cynlluniau olyniaeth ar gyfer Bwrdd Ofcom, yr Uwch Dîm Rheoli a chydweithwyr allweddol eraill. Cyfarfu'r Pwyllgor Pobl bedair gwaith yn ystod 2022/23.

## Y Pwyllgor Etholiadau

Mae Adran 333 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod darllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn cael eu cynnwys ar bob sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, pob gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol, a phob gwasanaeth radio analog cenedlaethol (hy masnachol ar draws y Deyrnas Unedig), a'u gwasanaethau cyd-ddarlledu digidol.

Os bydd unrhyw anghydfod heb ei ddatrys rhwng unrhyw un sy'n dal trwydded ac unrhyw blaid wleidyddol ynghylch hyd, amlder, dyraniad neu amseriad darllediadau, caiff yr anghydfod hwnnw ei gyflwyno i Ofcom i'w ddatrys. Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo'r gwaith o ddyfarnu ynghylch unrhyw anghydfod o'r fath i'r Pwyllgor Etholiadau. Mae gan y Pwyllgor Etholiadau awdurdod dirprwyedig hefyd i wneud penderfyniadau ar gwynion sy'n ymwneud â'r safonau a osodwyd gan Ofcom mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni a ddarlledir yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys hyd at bum aelod. Penodir Cadeirydd y Pwyllgor Etholiadau gan Fwrdd Ofcom. Y Cadeirydd dros dro presennol yw Maggie Carver, Dirprwy Gadeirydd Bwrdd Ofcom a Chadeirydd y Bwrdd Cynnwys. Dewisir gweddill yr aelodau o'r Bwrdd Cynnwys a/neu gydweithwyr Ofcom, yn ôl penderfyniad Cadeirydd y Pwyllgor, gyda chworwm o dri aelod (mae angen i ddau ohonynt fod yn Aelodau o'r Bwrdd Cynnwys).

## Y Bwrdd Cynnwys

Mae'r Bwrdd Cynnwys wedi ei sefydlu o dan Adran 12(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r Bwrdd Cynnwys yn cyflawni rôl gynghori i Fwrdd Ofcom ar agweddau sy'n ymwneud â chynnwys mewn penderfyniadau neu faterion sydd wedi eu cadw ar gyfer y Bwrdd.

Yn ystod 2022/23, parhaodd y Bwrdd Cynnwys â'i waith i ddeall, dadansoddi a hyrwyddo lleisiau a buddiannau'r gwylwyr, y gwrandawyr a dinasyddion. Roedd yn edrych ar faterion lle'r oedd buddiannau dinasyddion yn ymestyn y tu hwnt i fudd defnyddwyr, gan ganolbwyntio ar fudd y cyhoedd. Bu'r aelodau'n ystyried ac yn cyfrannu at ddatblygiad polisi Ofcom yn ei gyfarfodydd ffurfiol, weithiau mewn is-grwpiau neu'n unigol. Ar ben hynny, roedd yr Aelodau'n parhau i helpu Ofcom i osod a gorfodi ansawdd a safonau ar gyfer teledu a radio. Mae'r Bwrdd Cynnwys hefyd wedi cyflawni rôl gynghori mewn perthynas â diogelwch ar-lein.

Dyma Aelodau Anweithredol y Bwrdd: Maggie Carver (Cadeirydd), Dekan Apajee, Jonathan Baker, Rachel Coldicutt, Maggie Cunningham, Bob Downes, Peter Horrocks, Tobin Ireland, Maria McCann, Ruth McElroy, Stephen Nuttall, Monisha Shah a Kim Shillinglaw ac Aelodau Gweithredol: Kevin Bakhurst ac Ali Marsden.

Cyfarfu'r Bwrdd bum gwaith yn 2022/23.

## Pwyllgorau Cynghori'r Gwledydd

Mae Adran 20 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Cynghori ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw rhoi cyngor i Ofcom ar fuddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw yn y rhan o'r Deyrnas Unedig a wasanaethir gan y Pwyllgor, mewn perthynas â materion cyfathrebiadau a materion post. Yn ychwanegol at Aelodau penodedig y Pwyllgorau Cynghori, mae Aelod o Fwrdd Ofcom, Aelod o'r Bwrdd Cynnwys ac Aelod o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar gyfer y gwledydd yn gwylio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori fel sylwedyddion.

Mae rôl y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, ynghyd â rôl Aelodau'r Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar gyfer y Gwledydd yn hynod werthfawr o ran helpu Ofcom i ystyried materion penodol yng ngwledydd datganoledig y Deyrnas Unedig wrth lunio a gweithredu ein polisïau.

Cyfarfu pob un o'r Pwyllgorau Cynghori bedair gwaith yn 2022/23. Mae gwybodaeth am y meysydd allweddol ar gyfer pob un o'r Pwyllgorau Cynghori yn ystod y flwyddyn ar gael ar wefan Ofcom yn https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/how-ofcom-is-run/committees

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, dyma oedd Aelodau'r Pwyllgor Cynghori a'r sylwedyddion:

**Pwyllgor Cynghori Lloegr**

| | |
|---|---|
| Aelodau: | Paula Carter (Cadeirydd), Aaqil Ahmed, Caroline Gardner, Matthew Littleford, Alan Nunn a Mark Smith. |
| Sylwedyddion: | Angela Dean (Bwrdd Ofcom), Monisha Shah (Bwrdd Cynnwys) a Richard Spencer (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau). |

**Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon (mae recriwtio ar waith ar hyn o bryd ar gyfer Aelod ychwanegol)**

| | |
|---|---|
| Aelodau: | Carrie Matchett (Cadeirydd), John Ellison, Alan Meban, Aodhan O'Donnell, Colm Murphy, a Michael Wilson. |
| Sylwedyddion: | Karen Baxter (Bwrdd Ofcom), Maria McCann (Bwrdd Cynnwys) a Rick Hill (CCP). |

**Pwyllgor Cynghori'r Alban**

| | |
|---|---|
| Aelodau: | Elizabeth Partyka (Cadeirydd), Gerry Crawley, Ashe Hussein, Jessica McBeath, Stephen Speirs a Polly Tolley. |
| Sylwedyddion: | Bob Downes (Bwrdd Ofcom), Maggie Cunningham (Bwrdd Cynnwys) ac Amanda Britain (CCP). |

**Pwyllgor Cynghori Cymru**

| | |
|---|---|
| Aelodau: | Hywel Wiliam (Cadeirydd), Robert Andrews, Tom Crick, Aled Eirug ac Angharad Evans. |
| Sylwedyddion: | David Jones (Bwrdd Ofcom), Ruth McElroy (Bwrdd Cynnwys) a Dr Sian Phipps (CCP). |

### Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl

Mae Adran 16 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Panel Defnyddwyr. Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr, dinasyddion a microfusnesau mewn cyfathrebiadau. Mae'n rhoi cyngor cadarn ac annibynnol, ond sydd hefyd yn adeiladol ac yn ymarferol. Mae Ofcom yn rhannu gwybodaeth a syniadau â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn ystod y camau cynnar o ddatblygu polisi, er mwyn i ni allu rhoi cyngor i sicrhau bod llais defnyddwyr yn cael ei ystyried o'r cychwyn.

Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn rhoi cyngor i Ofcom ar faterion sy'n ymwneud â'r sectorau cyfathrebiadau sy'n berthnasol i bobl hŷn a phobl anabl.

Er mwyn manteisio ar y synergedd rhwng Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom, ac er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu posibl, sefydlwyd bod aelodau'n perthyn i'r naill gorff a'r llall yn ystod 2012. Ond, nid yw cylchoedd gwaith y cyrff wedi newid.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom, ac mae'n cynnwys hyd at 12 o arbenigwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, sydd â phrofiad mewn amryw o wahanol feysydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.communicationsconsumerpanel.org.uk. Dyma Aelodau presennol y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl: Rick Hill (Cadeirydd ac Aelod ar ran Gogledd Iwerddon), Kay Allen, Amanda Britain (Aelod ar ran yr Alban), Helen Froud, Clifford Harkness, Dr Sian Phipps (Aelod ar ran Cymru), Richard Spencer (Aelod ar ran Lloegr), Michael Wardlow a Rick Williams. Rydym wrthi'n penodi Aelodau ychwanegol ar gyfer y Panel a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl.

Cyfarfu'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn ffurfiol un-ar-ddeg gwaith yn 2022/23. Mae'r Panel a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl wedi parhau â'u gwaith i gryfhau lleisiau defnyddwyr, dinasyddion a microfusnesau mewn cyfathrebiadau. Gan ganolbwyntio ar eu blaenoriaethau strategol o ran argaeledd cyffredinol gwasanaethau cyfathrebu fel hawl i bawb; safonau gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid; a gwrando ar lais defnyddwyr, mae'r panel wedi darparu rhaglen eang o gyngor polisi arbenigol, mewnbwn ymchwil ac wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ledled y DU. Mae'r ymyriadau allweddol wedi cynnwys ymgysylltu eang ag Ofcom a chyrff defnyddwyr ynghylch fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu, gan weithio'n agos gydag Ofcom, yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r diwydiant ar y rhaglen newid i VOIP; cynghori Ofcom a'r diwydiant ar oblygiadau diffodd 3G; ac ymgysylltu â'r Post Brenhinol i sicrhau bod ei gynllun cyfnewid stampiau yn gynhwysol ac yn diwallu anghenion defnyddwyr.

### Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn 2004 i roi cyngor annibynnol i Ofcom ar faterion strategol sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm.


Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Ofcom yn: https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/committees/ofcom-spectrum-advisory-board

Aelodau'r Bwrdd yw Gavin Young (Cadeirydd), Greg Bensberg, Wassim Chourbaji, Yr Athro Mischa Dohler, Peter Hadinger, Alastair Macpherson, David Meyer, Niall Murphy, Robert Pepper, Peter Pitsch, Ros Singleton, Holly Creek (yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon) (Aelod ex officio) a Cristina Data (Aelod ex officio).

Cyfarfu'r Bwrdd hwn bedair gwaith yn 2022/23.

#### Amrywiaeth y boblogaeth anweithredol

Roedd amrywiaeth ein haelodau anweithredol ehangach yn y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl ar ddiwedd y cyfnod adrodd fel a ganlyn:



## Y Bwrdd Rheoli a Pholisi

Sefydlwyd y Bwrdd Rheoli a Pholisi i weithredu fel y pwyllgor gweithredol ar gyfer rheoli'r sefydliad a pherfformiad ei swyddogaethau rheoleiddio.

Y Prif Weithredwr sy'n cadeirio'r Bwrdd Rheoli Perfformiad.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Grŵp o Gyfarwyddwyr, y Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid, a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae Ysgrifennydd y Gorfforaeth yn bresennol ac mae uwch swyddogion gweithredol eraill yn mynychu drwy wahoddiad. Cyfarfu'r Bwrdd Rheoli a Pholisi ddeng gwaith yn 2022/23.

### Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, dyma oedd aelodau'r Bwrdd Rheoli Perfformiad:

| Enw | Rôl |
|---|---|
| Y Fonesig Melanie Dawes DCB | Prif Weithredwr |
| Luisa Affuso | Prif Economegydd, Cyfarwyddwr Grŵp Economeg |
| Kevin Bakhurst[9] | Cyfarwyddwr Grŵp, Darlledu a'r Cyfryngau |
| Martin Ballantyne | Cwnsler Cyffredinol, Cyfarwyddwr Grŵp Cyfreithiol |
| Lindsey Fussell | Cyfarwyddwr Grŵp, Rhwydweithiau a Chyfathrebu |
| Aneen Blackmore | Cyfarwyddwr Cyllid |
| Kerri-Ann O'Neill | Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid |
| Melissa Tatton CBE | Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwr Grŵp Corfforaethol |
| Sachin Jogia | Prif Swyddog Technoleg, Cyfarwyddwr Grŵp Technoleg, Data ac Arloesi |
| Yih-Choung Teh | Cyfarwyddwr y Grŵp Strategaeth ac Ymchwil |
| David Willis | Cyfarwyddwr Grŵp, Sbectrwm |


| **Cyn-aelodau'r Bwrdd Rheoli** | |
|---|---|
| Helen Hearn (hyd at fis Medi 2022) | Cyfarwyddwr Grŵp Dros Dro, Sbectrwm |

Dechreuodd Gill Whitehead gyfnod o gynefino ym mis Chwefror 2023 a dechreuodd yn ei swydd fel Cyfarwyddwr Grŵp Diogelwch Ar-lein ar 1 Ebrill 2023, gan ymuno â'r Bwrdd Rheoli Perfformiad a'r Uwch Dîm Rheoli.

## Yr Uwch Dîm Rheoli

Mae ein Huwch Dîm Rheoli yn cyflawni rôl arwain ehangach o ddydd i ddydd ar draws Ofcom ac mae'n cynnwys pob Cyfarwyddwr Grŵp, ein Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus, ein Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid a'n Cyfarwyddwr Cyfathrebu.

### Amrywiaeth y Bwrdd Rheoli a Pholisi




9. Gadawodd Kevin Bakhurst Ofcom ac fe adawodd y Bwrdd Rheoli Perfformiad a Bwrdd Cynnwys Ofcom ar 19 Ebrill 2023.

## Atebolrwydd

O dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad Cyfrifon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), ac ar sail gronnus. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Hefyd, anfonir Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofcom at yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n gosod copïau ohono gerbron dau Dŷ'r Senedd Brydeinig ac yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu'n gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cyfathrebiadau 2003. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r ffordd y mae Ofcom yn rheoli'r arian cyhoeddus rydym yn ei gael, a'n perthynas â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn y cyswllt hwn, yn cael eu disgrifio yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r Datganiad Cyfrifon ar sail busnes byw.

**Tryloywder**

Mae Ofcom yn parhau i adolygu ein cynllun cyhoeddiadau ac yn darparu ystod eang o wybodaeth sydd ar gael yn hwylus ar ein gwefan. Lle bo modd, mae Ofcom yn sicrhau bod y data rydym yn ei greu a'i gasglu yn cael ei rannu â'r cyhoedd, gan ddilyn egwyddorion data agored. Mae data agored Ofcom ar gael ar un porth cyhoeddus ar ein gwefan ac ar y porth data. gov.uk, ochr yn ochr â setiau data gan holl adrannau'r Llywodraeth ganolog a llawer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol.

Yn ystod 2022/23, roedd Ofcom wedi ymateb i 395 o geisiadau am wybodaeth (431 o geisiadau yn 2021/22) o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Pan oedd gennym wybodaeth berthnasol, roeddem wedi darparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, neu ran ohoni, mewn 84% o achosion. Cedwir gwybodaeth yn ôl dim ond os yw wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu gan ddeddfwriaeth.

Yn ystod 2022/23, roedd Ofcom hefyd wedi cael 62 o Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (31 o geisiadau yn 2021/22). Pan roedd gennym wybodaeth berthnasol, roeddem wedi darparu'r wybodaeth honno.

**Ymgysylltu**

Mae Ofcom yn ceisio ystyried safbwyntiau amrywiaeth eang o bartïon sydd â diddordeb wrth wneud penderfyniadau polisi. Yn ogystal ag ymgysylltu â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, rydym hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill (gan gynnwys drwy gymryd rhan yn Rhwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig), Sefydliadau Ewropeaidd a chyrff byd-eang. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau a wneir mewn fforymau rhyngwladol yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig.

Mae ymgynghori hefyd yn rhan bwysig o broses Ofcom o wneud penderfyniadau. Mae'n rhoi cyfle i'r rheini y gallai mater penodol effeithio arnynt, neu sy'n pryderu am fater penodol, gyflwyno eu safbwyntiau i ni cyn y byddwn yn penderfynu sut byddwn yn gweithredu.

O ganlyniad, bydd Ofcom yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ein holl brif flaenoriaethau strategol cyn gwneud penderfyniadau. Mae manylion am ddull ymgynghori Ofcom, a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod 2022/23, ar gael yn adran Egwyddor Rheoleiddio Ofcom ar dudalennau 56-58 yn yr Adroddiad Perfformiad.

**Trefniadau diogelwch ffisegol a phersonol**

Mae lefel y bygythiad a nodir ar hyn o bryd gan y Cyd-Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth a MI5 ar gyfer terfysgaeth ym Mhrydain Fawr ac yng Ngogledd Iwerddon yn sylweddol (mae ymosodiad yn debygol). Mae datganiad archwaeth risg Bwrdd Ofcom ar gyfer Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Corfforol wedi'i bennu'n "Minimal". Mae asesiadau bygythiadau i safonau ISO27001 yn digwydd drwy'r amser gan ddefnyddio ymgynghoriaeth allanol ac archwilio mewnol. Mae hyn yn cynnal dull cyson a sefydlog o reoli diogelwch ffisegol.

**Cynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr/adfer ar ôl argyfwng/parhad busnes**

Roedd y pandemig yn caniatáu i Ofcom brofi ei Gynlluniau Parhad Busnes mewn sefyllfa fyw ac roedd y cynlluniau'n rhai cadarn. Mabwysiadwyd dull gweithio o bell, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth a pharhaodd Ofcom i weithredu'n effeithiol. Yn ystod blwyddyn 2022/23, gwnaethom barhau â'n rhaglen o brofion BCP a chreu Rhestr Wirio Digwyddiadau Mawr ar gyfer pob Cyfarwyddwr Grŵp i wella ein cadernid ymhellach.

**Diogelwch Gwybodaeth**

Mae rheoli risg diogelwch gwybodaeth/seiberddiogelwch yn broses barhaus sy'n cyd-fynd ag archwaeth risg Bwrdd Ofcom o "Gwrth Risg/Minimal". Mae diogelu systemau gwybodaeth Ofcom yn erbyn risgiau mewnol ac allanol yn dal yn flaenoriaeth. Mae ymdrechion gan bartïon allanol i dorri amddiffynfeydd diogelwch Ofcom yn parhau, ond llwyddwyd i ddelio â'r rhain, o ganlyniad i'r rheolaethau diogelwch sydd ar waith. Gallai'r cyfrifoldebau newydd ar gyfer diogelwch ar-lein, llwyfannau rhannu fideos ac mewn perthynas â diogelwch rhwydwaith, ddenu diddordeb gan wladwriaethau a hactifwyr yn y gwledydd a fyddai'n hoffi creu newid cymdeithasol, gwleidyddol neu ideolegol, ac rydym yn parhau i wella'r gwaith monitro i ganfod ymosodiadau neu wendidau posibl. Mae'r profion wedi cynnwys defnyddio ymosodiadau potsian ffug i wella ymwybyddiaeth defnyddwyr a phrofiad treiddiad technegol yn erbyn y seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a ffisegol. Gallai cenedl-wladwriaeth ymosod ar ein systemau, ac felly rydym wedi cynyddu ein ffocws ar brofi a gwella ein gallu i adfer petai ymosodiad o'r fath yn digwydd. Rydym wedi cadw ein hardystiad i'r safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth (ISO27001).

Gwnaethom ymchwilio i 48 o achosion o dorri diogelwch data yn ystod y flwyddyn, roedd un yn atebol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth er na chymerodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gamau pellach. Ym mis Mai 2023, roedd gwasanaeth trosglwyddo ffeiliau trydydd parti a ddefnyddiwyd gan Ofcom, sef MOVEit, wedi dioddef ymosodiad seiber ar raddfa eang. Roedd rhywfaint o ddata Ofcom, gan gynnwys rhywfaint o ddata personol, ar eu gweinydd ar yr adeg yr ymosodwyd arno, a arweiniodd at fynediad diawdurdod at ddata rhanddeiliaid allanol a data cydweithwyr. Ni chafodd systemau mewnol Ofcom eu peryglu yn ystod yr ymosodiad. Rhoddwyd gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am yr ymosodiad.

**Polisi chwythu'r chwiban a llinell gymorth**

Mae ein polisi chwythu'r chwiban yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben ac yn cyd-fynd â'r canllawiau arferion gorau. Mae gennym Swyddogion Chwythu'r Chwiban dynodedig ond rydym hefyd yn defnyddio llinell gymorth chwythu'r chwiban, sy'n cael ei chynnal a'i gweinyddu'n allanol, sy'n caniatáu i gydweithwyr ddatgelu'n ddienw.

**Datgelu er lles y cyhoedd**

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwyr am ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn wybodaeth sydd er lles y cyhoedd. Mae Ofcom yn 'berson rhagnodedig' fel y'i diffinnir o dan Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014. Felly, gall unigolion sy'n gweithio y tu allan i Ofcom, ond yn y sector cyfathrebiadau, gysylltu ag Ofcom os oes ganddynt bryderon bod rhywbeth o'i le yn eu sefydliad eu hunain. Yn ystod 2022/23, cafodd Ofcom 38 o ddatgeliadau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.



# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon Llywodraeth y DU 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Ofcom i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, cyfrifon adnoddau sy'n manylu ar yr adnoddau a gafwyd, a ddelwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan y sefydliad yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion y sefydliad a'i incwm a'i wariant, Datganiad Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, fel y prif Swyddog Cyfrifyddu, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- arsylwi ar y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi'u dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon gyda'i gilydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Rwyf fi'n ysgwyddo cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, a'r casgliadau y mae angen eu gwneud er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Ysgrifennydd gwladol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdanynt, dros gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Ofcom, yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Cymeraf gyfrifoldeb personol dros yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol a chadarnhaf eu bod yn gyfan, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, fel y mae unrhyw farnau a ddefnyddir i benderfynu ar y farn hon.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Ofcom yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

**"Rwy'n hyderus y bydd Ofcom yn parhau i weithredu fel sefydliad hyfyw a llwyddiannus sy'n cael ei lywodraethu'n dda."**



**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

03 Gorffennaf 2023

# Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio

Mae’r Pwyllgor wedi parhau i ganolbwyntio yn 2022/23 ar ein hadroddiadau risg, yn enwedig ar risgiau strategol y sefydliad. Rydym wedi cadarnhau bod ein targedau risg yn cael eu sgorio’n briodol, a’u bod yn cyd-fynd â’n harchwaeth risg, ac rydym wedi gwerthuso’r mesurau lliniaru a’r camau gweithredu cysylltiedig. Mae hyn yn sicrhau bod Ofcom yn dal yn gadarn gyda rheolaethau cymesur ac effeithiol. Hefyd, byddwn yn canolbwyntio mwy eleni ar berfformiad Ofcom yn erbyn ei gyllideb ac ar ddrafftio cyllideb.

### Presenoldeb Aelodau yn ystod 2022/23

Cyfarfu’r Pwyllgor bum gwaith yn 2022/23. Dyma Aelodau’r Pwyllgor yn ystod 2022/23 a’u presenoldeb:

| **Nifer o gyfarfodydd** | **5** |
|---|---|
| Angela Dean (y Cadeirydd) | 5 |
| Karen Baxter<br>(o fis Rhagfyr 2022 ymlaen ) | 2 |
| Maggie Carver<br>(tan fis Tachwedd 2022) | 3 |
| Will Harding | 2 |
| David Jones | 5 |

Roedd yr holl Aelodau’n bresennol ar gyfer y cyfarfodydd a gynhaliwyd pan oeddent yn Aelod o’r Pwyllgor.

### Trosolwg

Ar ran y Bwrdd, mae’n bleser gennyf roi crynodeb o waith a chwmpas y Pwyllgor Risg ac Archwilio ar gyfer y cyfnod ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Mae’r Pwyllgor yn gyfrifol, ar ran Bwrdd Ofcom, am oruchwylio pa mor briodol ac effeithiol yw prosesau rheoli risg, llywodraethu risg, rheolaethau a systemau mewnol, a datganiadau ariannol Ofcom. Mae’r Pwyllgor hefyd yn cynnal y berthynas â’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), sef archwilwyr allanol Ofcom, gan gynnwys adolygu ei ffioedd a hyd a lled ei archwiliad o ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae hyn yn cynnwys ei asesiad o risgiau camddatganiadau o bwys ac afreoleidd-dra o bwys, ei annibyniaeth, ei adnoddau ac effeithiolrwydd y broses archwilio. Mae’r Pwyllgor hefyd yn gweithio gyda darparwr archwilio mewnol Ofcom, KPMG, i sefydlu Cynllun Blynyddol i archwilio elfennau penodol o Ofcom, ac wedyn yn monitro cynnydd a chanlyniadau’r adolygiadau hynny.

Mae pedwar Aelod Anweithredol y Pwyllgor yn annibynnol ac ystyrir bod ganddynt y sgiliau a’r profiad perthnasol ar lefel uwch. Mae gan fwy nag un Aelod o’r Pwyllgor brofiad ariannol diweddar a pherthnasol, ac mae gan y Pwyllgor cyfan allu sy’n berthnasol i’r sector cyfathrebiadau y mae Ofcom yn gweithredu ynddo. Yn ogystal â’m profiad fel dadansoddwr ariannol, roeddwn yn Gadeirydd Pwyllgor Risg ac Archwilio Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, ac rwyf yn aelod o Bwyllgorau Archwilio Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Efrog a’r Amgueddfa Bost.

Mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiynau preifat bob blwyddyn gyda’r Cyfarwyddwr Cyllid a’r Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, yn ogystal â’r darparwr archwilio mewnol KPMG a’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Fel rhan o fy rôl i fel Cadeirydd y Pwyllgor, bûm yn cwrdd â’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a’r darparwr archwilio mewnol yn rheolaidd yn ystod y cyfnod adrodd, heb fod Rheolwyr Ofcom yn bresennol. Gall y darparwr archwilio mewnol a’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gysylltu â mi yn uniongyrchol os ydyn nhw'n dymuno codi unrhyw beth maen nhw’n teimlo na fyddai’n briodol ei godi’n uniongyrchol gyda Rheolwyr Ofcom.

## Gweithgareddau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o dan gylch gorchwyl ffurfiol, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol a'i amlinellu yn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor er mwyn:

- adolygu a chynghori'r Bwrdd ar archwaeth risg Ofcom i sicrhau bod gan Ofcom brosesau priodol ar waith i nodi'r prif risgiau strategol ac unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg Strategol;
- monitro prosesau adrodd ariannol, gan gynnwys y broses adrodd ariannol a chyfrifyddu ar gyfer datganiadau ariannol Ofcom;
- sicrhau effeithiolrwydd fframwaith rheolaeth fewnol Ofcom a'i systemau a'i bolisïau rheoli risg, ac ystyried goblygiadau newidiadau i ddeddfwriaeth neu reoliadau;
- adolygu a monitro'r trefniadau chwythu'r chwiban, cynlluniau parhad busnes a threfniadau adfer ar ôl trychineb, trefniadau atal llwgrwobrwyo a thwyll, ac unrhyw wrthdaro sylweddol rhwng buddiannau ar draws Ofcom;
- goruchwylio'r broses o benodi'r Archwilwyr Mewnol, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer tendro, ffioedd Archwilio Mewnol, effeithiolrwydd, gallu a pherfformiad Archwiliadau Mewnol; ac
- adolygu annibyniaeth yr Archwilwyr Allanol, a chytuno ar natur a chwmpas yr archwiliad allanol o ddatganiadau ariannol Ofcom.

Mae gwaith y Pwyllgor yn dilyn rhaglen waith flynyddol y cytunwyd arni, gyda'r Pwyllgor yn neilltuo ei amser yn 2022/23 fel hyn:

- adrodd ariannol a materion cysylltiedig;
- adroddiad blynyddol a chyfrifon;
- llywodraethu, gan gynnwys diweddariadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor a'r Fframwaith Awdurdodau Ariannol;
- rheoli risg;
- archwilio mewnol;
- archwilio allanol;
- seiberddiogelwch a diogelwch personol, ffisegol a TGCh; a
- phethau eraill (ee ymgyfreitha, llwgrwobrwyo a thwyll ac ati).

## Sut mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig yn cyfrannu at ein dull gweithredu

Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i gyflawni ei gyfrifoldebau yn dryloyw ac yn onest. Yn ogystal ag Aelodau penodedig y Pwyllgor, mae gan y canlynol wahoddiadau parhaol i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor:

- Ofcom: Y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Rheolydd Ariannol, Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: cynrychiolwyr Tîm Archwilio Allanol Ofcom
- Deloitte: cynrychiolwyr Archwilydd Mewnol Ofcom

**Datganiadau Ariannol a Pholisïau Cyfrifyddu**

Ar y cyd â Rheolwyr Ofcom, y darparwr archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, adolygodd y Pwyllgor y Datganiadau Ariannol a'r dogfennau cysylltiedig i weld a oedd y rhain yn cynnwys camddatganiad o bwys, ac a oeddent wedi cael eu paratoi yn unol â'r fframwaith perthnasol ar gyfer adrodd ariannol. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi herio penderfyniadau Rheolwyr Ofcom, a'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon a oedd yn sail i'r penderfyniadau hynny.

Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor fân newidiadau i bolisïau cyfrifyddu a chynhaliwyd trafodaeth fanwl gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ynghylch dull Ofcom o gydnabod refeniw ac adroddiadau cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Pwyllgor yn ystyried polisïau cyfrifyddu ariannol Ofcom a'r ffordd mae gwahanol asedau yn cael eu trin yn y cyfrifon a'r rhagdybiaethau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd gyda'r canlyniadau, gan gynnwys yr asesiad a gynhaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

**Y Fframwaith Risg a Rheolaeth, a Rheoli Risg**

Mae rheoli risg yn rhan bwysig o fframwaith rheolaeth fewnol Ofcom, ac mae'n cynnwys risgiau strategol a risgiau gweithredol mewn Polisi Rheoli Risg, sy'n cael ei adolygu a'i gymeradwyo'n flynyddol gan y Pwyllgor a'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu. Roedd y fframwaith rheoli risg a rheolaeth fewnol ar waith ar gyfer y flwyddyn adrodd ac roedd yn cynnwys parhad busnes, rheolaethau ariannol a mecanweithiau i sicrhau cydymffurfiad â chyfreithiau a rheoliadau. I sicrhau bod ein Fframwaith Rheolaethu a Rheoli Risg yn effeithiol ac yn gydnaws â'n gofynion, mae adolygiad o'n Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei gynnal yn rheolaidd.

Yn ystod 2022/23, roedd y Pwyllgor yn parhau i oruchwylio'r Gofrestr Risg Strategol a heriodd newidiadau i sgoriau risg pan oedd yn credu bod hynny'n briodol. Ym mis Mawrth 2023, ystyriodd y Pwyllgor Ddatganiadau Agwedd at Risg wedi'u diweddaru a heriodd y Weithrediaeth i fod yn arbennig o glir ynghylch yr archwaeth risg mewn meysydd fel seiberddiogelwch. Yn dilyn hynny, cymeradwyodd y Pwyllgor y Datganiadau Agwedd at Risg wedi'u diweddaru i'w cyflwyno i Fwrdd Ofcom. Mae Cofrestr Risgiau Strategol Ofcom yn cael ei hadolygu bob tri mis gan Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom, y Pwyllgor Risg ac Archwilio a Bwrdd Ofcom. Yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Ofcom, rhoddir diweddariad ar lafar am y materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn ymchwilio'n ddwfn i risg strategol benodol yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd.

**Archwiliadau Manwl o'r Risg Strategol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn 2022/23**

- Sganio'r Gorwel: Risgiau Cyfreithiol yn y Dyfodol
- Diogelwch Rhwydwaith – Trefn Diogelwch Telegyfathrebiadau
- Sbectrwm

**Rheolaethau Mewnol**

Caiff y cyfrifoldeb dros weithredu a monitro'r system rheolaeth fewnol ei dirprwyo gan Fwrdd Ofcom i unigolion a phwyllgorau penodol. Bu'r Pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol Ofcom, ac yn annog gwelliannau i'r systemau hynny er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol, pan fo'n briodol. Mae disgrifiad o system rheolaeth fewnol y sefydliad wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ar dudalen 71.

Yn 2022/23, cyfarfu'r Pwyllgor â'r tîm Cyllid i brofi'r rhagdybiaethau a'r rheolaethau sydd wrth wraidd y broses o gynllunio'r gyllideb er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd gyfarfod ar wahân â'r tîm Cyllid i edrych ymlaen at y cynllunio ariannol ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Roedd y Pwyllgor wedi cryfhau ei Gylch Gorchwyl ynghylch ei gyfrifoldeb i fonitro cynnydd yn erbyn y gyllideb y cytunwyd arni, ac i adolygu'r gyllideb ddrafft cyn ei chyflwyno i'r Bwrdd. Mae hyn yn rhoi sicrwydd ynghylch ymrwymiad Ofcom i gynnig gwerth am arian.

Ar ben hynny, daw sicrwydd drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dimau arbenigol ar draws Ofcom, gan gynnwys y Pwyllgor Gwarchodaeth, y Grŵp Llywio Diogelu Data, y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd a'r Grŵp Parhad Busnes. Bydd Fframwaith Polisi newydd yn cael ei gyflwyno yn 2023/24 a fydd yn rhoi rhagor o sicrwydd i'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi bod yn monitro rhaglen ar draws Ofcom i gryfhau prosesau rheoli a chadw data.

**Seiberddiogelwch a Diogelwch Rhwydweithiau, Diogelwch Ffisegol, Diogelwch Gwybodaeth a Diogelwch Personol**

Parhaodd y Pwyllgor i fonitro parodrwydd Ofcom yn erbyn bygythiadau seiber a bygythiadau eraill i'w rwydweithiau diogel. Yn benodol, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod archwaeth risg Ofcom, mewn perthynas â seiberddiogelwch, yn glir ac wedi'i osod yn briodol.

Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion yn 2021/22 i helpu i gryfhau prosesau a system ddiogelwch Ofcom. Gan adeiladu ar hyn, yn ystod 2022/23 cafwyd diweddariadau rheolaidd ym mhob cyfarfod ar seiberddiogelwch, diogelwch rhwydweithiau, diogelwch ffisegol, diogelwch gwybodaeth a diogelwch personol i sicrhau bod y gwaith yn parhau i gyd-fynd â gofynion y safon Diogelwch Gwybodaeth ISO27001.

## Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol a Phwyslais Adolygiadau yn 2022/23

Roedd yr adolygiadau a gynhaliwyd fel rhan o'r Archwiliadau Mewnol yn cynnwys rhaglen waith yn seiliedig ar risg ar draws ystod o elfennau rheoli allweddol – roedd y rheolwyr wedi trafod y rhaglen, ac roedd wedi cael sêl bendith y Pwyllgor ar sail hanner blwyddyn. Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol gan y darparwr archwilio mewnol ar gynnydd ei archwiliadau a'i adroddiadau archwiliad mewnol terfynol, gan gynnwys ymateb Rheolwyr Ofcom i'r canfyddiadau (lle bo'n briodol) a'r cynnydd a wnaed i roi sylw i unrhyw faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliadau.

**Meysydd Archwilio Mewnol y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod 2022/23**

- Rheoli cwynion darlledu
- Rheoli contractau trydydd parti
- Cyflogres
- Llwyfannau rhannu fideos
- Recriwtio
- Rheoli Parhad Busnes
- Sbectrwm a Thechnoleg: Diogelwch y System

**Meysydd eraill i'w hadolygu**

Mae Polisïau Ofcom ar Chwythu'r Chwiban, Atal Llwgrwobrwyo a Thwyll yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr bob blwyddyn.

Yn ystod 2022/23, cymeradwyodd y Pwyllgor bolisi diwygiedig a oedd yn cyfuno polisïau Atal Llwgrwobrwyo, Twyll a Llygredd Ofcom mewn un polisi Chwythu'r Chwiban sy'n rhoi sylw i'r holl faterion sy'n angenrheidiol o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. Mae'r polisi hwn wedi cael ei gyfleu i'r holl gydweithwyr i'w hatgoffa y gallant godi materion yn ddienw gyda darparwr llinell gymorth chwythu'r chwiban Ofcom. Ni chafodd unrhyw achosion o chwythu'r chwiban eu cyfeirio neu eu hadrodd ers yr adolygiad blynyddol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2021.

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau hefyd ar Fframwaith Awdurdodau Ariannol Ofcom (cyn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd ar newidiadau i'r Fframwaith), polisïau cyfrifyddu Ofcom, a chydymffurfiad â'r ddeddf diogelu data.

**Adrodd i'r Bwrdd**

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio, rwyf yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd ar y prif faterion a drafodir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

Roedd ehangu cylch gwaith Ofcom, sy'n ymwneud yn bennaf â phwerau a gafwyd drwy'r Bil Diogelwch Ar-lein, yn parhau i fod yn faes allweddol drwy gydol y flwyddyn. Gofynnodd y Bwrdd am sicrwydd ynghylch yr effeithiau posibl ar gyllidebau a chasglu refeniw, gan nodi bod ansicrwydd o hyd ynghylch y ddeddfwriaeth, a sicrhau bod y risgiau'n cael eu sgorio'n briodol yn y Gofrestr Risgiau Strategol.

Mae'r Bwrdd wedi croesawu'r ffaith y bydd adolygiad llawn o gofrestr risg Ofcom yn cael ei gynnal yn ystod blwyddyn 2023/24. Mae'r gofrestr risg strategol bresennol wedi ein gwasanaethu'n dda dros y tair blynedd diwethaf ac mae wedi annog trafodaethau o ansawdd uchel. Ond, mae adolygiad yn amserol, yn enwedig yng ngoleuni cynllun tair blynedd newydd Ofcom.

Fel rhan o adolygiad ehangach o drefniadau llywodraethu, mae'r Pwyllgor wedi adolygu a diweddaru ei gylch gorchwyl. Roedd y newidiadau'n ffurfioli'r hyn a ddigwyddodd yn ymarferol ac roeddent yn cysoni rôl y Pwyllgor yn agosach â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Cyrff Llywodraeth Ganolog. Cafodd y newidiadau eu cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023.

**Perfformiad ac Effeithiolrwydd y Pwyllgor**

Cynhaliwyd adolygiad wedi ei hwyluso'n fewnol o berfformiad ac effeithiolrwydd y Pwyllgor fel rhan o Adolygiad Gwerthuso'r Bwrdd. Roedd y canlyniad yn gadarnhaol, heb sgôr cyfartalog o dan 'da'. Nodwyd bod annog trafodaeth agored a her adeiladol mewn cyfarfodydd yn feysydd lle'r oedd y Pwyllgor yn arbennig o effeithiol. Nodwyd bod gwneud yr adroddiadau ariannol yn fwy strategol a thryloyw, a gwneud cysylltiad rhwng ymchwiliad trylwyr i feysydd risg allweddol â'r Gofrestr Risg Strategol, yn feysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol.



**Angela Dean**
Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio

# Ein gweithwyr

Mae Ofcom yn tyfu, wrth i ni ysgwyddo dyletswyddau a rheoliadau newydd, ac o ganlyniad, rydym yn trawsnewid ein galluoedd ar gyfer y dyfodol.

Mae llawer o swyddi yn unigryw i Ofcom yn y DU ac mae ymuno â ni yn gyfle cyffrous i ddatblygu sgiliau a llwybrau gyrfa newydd. Mae ein rhaglen newid fewnol, Un Ofcom, yn ein helpu i gydlynu hyn yn effeithiol ac i fanteisio i'r eithaf ar ein twf.

Rydym yn gwneud cynnydd o ran meithrin arbenigedd mewnol mewn marchnadoedd digidol, technolegau datblygol a rhai ar-lein a dadansoddi data, yn ogystal â thechnegau datblygedig fel dylunio algorithmig, dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial. Rydym hefyd eisiau sicrhau bod ein pobl yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd a bod ganddynt gymysgedd cryf o brofiad masnachol a diwydiannol i sicrhau rheoleiddio effeithiol. Fel rhan o'n strategaeth ehangach i ddod yn sefydliad mwy amrywiol, rydym yn recriwtio pobl o bob cwr o'r Deyrnas Unedig.

Fe wnaethom barhau i dyfu ein canolfan newydd ym Manceinion, ac rydym yn ehangu ein hôl troed yng Nghaeredin, wrth i ni baratoi ar gyfer ein gwaith ar ddiogelwch ar-lein.

Wrth i ni ddatblygu, rydym hefyd yn moderneiddio ein polisïau, ein prosesau a'n systemau Pobl a Chyllid. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i bobl wneud eu gwaith yn fwy effeithlon, ond mae hefyd yn darparu data sefydliadol gwell sy'n sail i'n strategaethau ac yn cefnogi ein gwaith i fod yn fwy ystwyth.

Rydym bellach wedi cwblhau blwyddyn lawn o'n dull rheoli perfformiad newydd (a lansiwyd ym mis Mawrth 2022), sy'n darparu strwythur rheoli symlach sy'n seiliedig ar nodau wedi'u diffinio'n unigol, yn canolbwyntio ar y dyfodol ac yn seiliedig ar drafodaethau sy'n cael eu harwain gan gydweithwyr ar berfformiad, datblygu a nodau gyrfa. Rydym wedi darparu pecyn cynhwysfawr ar arweinyddiaeth ar gyfer ein holl sgyrsiau perfformiad, ar gyfer cydweithwyr a Rheolwyr Gyrfa a Pherfformiad. Bydd hyn yn cryfhau gallu arweinyddiaeth o safon ac yn ein helpu i ddenu, tyfu a chadw'r talentau sydd eu hangen arnom i gyflawni ein cyfrifoldebau.

## Amrywiaeth, cynhwysiad a llesiant

Mae ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant pum mlynedd yn cefnogi Ofcom i gyflawni ei genhadaeth – Sicrhau bod Cyfathrebiadau'n Gweithio i Bawb. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu a byddwn yn meithrin diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu bod yn nhw eu hunain yn y gwaith.

Mae'r strategaeth yn amlinellu ein cynlluniau i greu:

- gweithlu amrywiol
- diwylliant cynhwysol
- prosesau, systemau a pholisïau teg
- cydweithwyr sy'n cymryd cyfrifoldeb personol dros amrywiaeth a chynhwysiad
- arweinwyr sy'n dangos esiampl
- cysylltiadau cryfach â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar ein pum gwerth, sef rhagoriaeth, cydweithio, ystwythder, grymuso a pharch.

Eleni, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol. Rydym wedi trawsnewid ein dull recriwtio i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i amrywio ein sefydliad wrth i ni dyfu. Rydym wedi ffurfio partneriaeth â chwmni recriwtio allanol sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein canlyniadau recriwtio amrywiaeth ac mae'n ein cefnogi i ystyried amrywiaeth drwy gydol y broses o recriwtio rheolwyr. O ganlyniad, rydym wedi cyrraedd a rhagori ar ein targed ethnigrwydd ymysg uwch weithwyr ar gyfer 2026 dair blynedd yn gynt na'r disgwyl ac rydym nawr wrthi'n diwygio'r targed.

Yn ogystal â hyn, rydym wedi canolbwyntio mwy ar gyflogi pobl sydd ar ddechrau eu gyrfa ac mae gennym bartneriaethau newydd i estyn allan at gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli ar gyfer ein cyfleoedd profiad gwaith, ein hinterniaethau a'n prentisiaethau a'r cyfleoedd sydd gennym i raddedigion.

Rydym yn ceisio meithrin diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu bod yn nhw eu hunain yn y gwaith. Nid yw hyn yn golygu ein bod yn cytuno â'n gilydd drwy'r amser. Mae'n golygu ein bod yn gwrando ar ein gilydd, yn herio ein gilydd, ac yn trin ein gilydd â phroffesiynoldeb, parch a charedigrwydd. Rydym yn mesur cynhwysiad drwy adrodd yn rheolaidd ar draws ein mynegeion amrywiaeth a chynhwysiad. Roedd cynnydd yn ein mynegai cynhwysiad mewnol eleni, sy'n cael ei fesur gan gwmni allanol. Mae'r canlyniadau yn cael eu rhannu ag uwch arweinwyr i siapio diwylliant a gweithle Ofcom.

Mae ein polisïau a'n harferion gwaith yn cael eu hadolygu'n barhaus, a thrwy gydweithio â'n rhwydweithiau amrywiaeth cydweithwyr, rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gwerthoedd cynhwysiad ac amrywiaeth.

## Cymorth ar gyfer llesiant

Gwnaethom ddiweddaru ein rhaglen llesiant boblogaidd sef, Thrive@Ofcom, i ganolbwyntio ar bwysigrwydd cymryd mesurau ataliol a rhagweithiol sy'n cefnogi llesiant yn y gwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i ni ysgwyddo dyletswyddau ychwanegol i reoleiddio diogelwch ar-lein. Roeddem wedi gosod negeseuon atgoffa rheolaidd am systemau cymorth fel y Gwasanaeth Cymorth i Weithwyr, sydd ar gael 24 awr y dydd; gwasanaeth meddygon teulu ar-lein, sydd ar gael 365 diwrnod y flwyddyn; gwasanaeth meddygol preifat sy'n darparu mynediad at gwnselwyr a therapyddion hyfforddedig; ac ap Headspace, sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth ofalgar a myfyrio, ac mae ar gael i bawb.

Roeddem wedi cryfhau pa mor gynhwysol yw ein darpariaeth llesiant ar gyfer cydweithwyr o gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli. Roeddem wedi cynyddu nifer y swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig ar gyfer iechyd meddwl sydd ar gael i 95 o swyddogion, yn ogystal â 19 o weithwyr cam-drin domestig hyfforddedig a 9 o gynghorwyr cam-drin domestig, ac rydym wedi parhau i ddarparu gwybodaeth ac awgrymiadau ar sut i reoli iechyd corfforol a llesiant meddyliol.

## Monitro ac adrodd

Rydym yn monitro ein polisïau, ein harferion a'n prosesau drwy ddadansoddi data ac adroddiadau mewnol, arolygon blynyddol ac arolygon pyls i gydweithwyr. Rydym yn defnyddio meincnodau allanol ar amrywiaeth a chynhwysiad, rydym yn cynnal archwiliad rheolaidd ar gyflog cyfartal ac rydym yn cyhoeddi adroddiad ar y bwlch cyflog bob blwyddyn.

Yn 2022, cawsom ein cydnabod ymysg y 50 Cyflogwr Gorau ar gyfer Menywod gan The Times a chawsom wobr efydd ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithle Stonewall, ac rydym yn parhau i feincnodi'n uchel. Rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd (Lefel 2), ac mae gennym achrediad Hyder mewn Gofal (Lefel 2).

## Tabl A: Targedau amrywiaeth

| | Y sefyllfa ar ddechrau blwyddyn 1 (Mawrth 20221) | Y sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn 2 (Mawrth 2023) | Uchelgais terfynol (Mawrth 2026) |
|---|---|---|---|
| Cynrychiolaeth rhywedd ar lefel uwch | 45% benywaidd | 45% benywaidd | Cytbwys |
| Cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig ar lefel uwch | 13% | 17% | 16% (wedi rhagori ar y targed) |
| Cynrychiolaeth pobl anabl ar draws Ofcom | 13% | 13% | 15% |

Sylfaen: Yr holl gydweithwyr ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Wrth rhywedd rydym yn golygu rhyw gyfreithiol. Lefelau uwch - Pennaeth ac uwch reolwyr ac arbenigwyr (SMS)

## Ymgynghori â chydweithwyr a'u cynnwys

Mae cydweithwyr Ofcom yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod gan y sefydliad safbwyntiau amrywiol yn ei waith a'i ffordd o weithredu yn y gweithle. Mae ein dulliau ffurfiol ac anffurfiol arferol o hysbysu ac ymgynghori â chydweithwyr yn cynnwys:

- fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm gwybodaeth ac ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr etholedig o blith cydweithwyr ar draws Ofcom, sy'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r uwch reolwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Ymgynghori ar y Cyd (sy'n cynnwys aelodau o undeb Prospect)
- arolygon cydweithwyr, gan wahodd cydweithwyr i rannu eu safbwyntiau'n ddienw ar amrywiaeth eang o bynciau ac sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'n strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn rhoi sylfaen i waith a datblygiad ein sefydliad
- ein rhwydweithiau amrywiaeth cydweithwyr, ac mae gennym wyth ohonynt sy'n ymwneud â nifer o faterion a chymunedau
- fforymau agored gyda'r Prif Weithredwr a'r uwch dîm rheoli
- mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob un o swyddfeydd Ofcom
- cyfarfodydd grŵp rheolaidd, i siarad â chydweithwyr, ac i glywed ganddynt.

Mae Ofcom yn cydnabod Prospect Union fel ei unig undeb llafur.

## Polisïau a phrosesau cyflogaeth

Yn Ofcom, rydym yn credu y dylai arweinwyr a chydweithwyr weithio gyda'i gilydd i greu amgylchedd gwaith cynhwysol a grymusol. I gefnogi hyn, mae gennym bolisïau addas i'r diben sy'n gwneud Ofcom yn gyflogwr deniadol. Mae ein prosesau a'n polisïau pobl yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion y gyfraith cyflogaeth, ac yn adlewyrchu arferion gorau a'n gwerthoedd.

Gwnaethom lansio fframwaith gweithio cysylltiedig newydd yn nodi ein dull gweithredu lleol ar gyfer gweithio gyda'n gilydd yn ein swyddfeydd ac ar gyfer gweithio o bell. Ar ben hynny, rydym eleni wedi cyflwyno polisi seibiant gyrfa newydd.

Yn olaf, gwnaethom gyflwyno polisi cymorth cam-drin domestig, gyda rhaglen cynghreirio i gefnogi unrhyw gydweithiwr sy'n wynebu cam-drin domestig gartref.

## Ymgysylltu a throsiant

Rydym yn cadw golwg ar lefelau ymgysylltu â gweithwyr yn Ofcom drwy fynegai ymgysylltu mewn arolwg blynyddol annibynnol o gydweithwyr. Ym mis Mehefin 2022, roedd hyn yn 72% (yr un fath â'r flwyddyn flaenorol). Mae gennym lefelau uchel o falchder yn Ofcom ac mae'r sgôr hon wedi bod yn gyson dros 80% ar gyfer y flwyddyn hon a'r blynyddoedd blaenorol. Rydym yn cysylltu hyn ag adolygiad manwl bob mis o'n data trosiant lle rydym yn adrodd ar lefel y trosiant ac yn edrych ar y rhesymau rydym yn eu cael drwy ddata gadael. Ar gyfer 2022/23, mae ein trosiant ar draws Ofcom yn 12.4% sy'n cyd-fynd â blynyddoedd blaenorol ac mae o fewn ein lefel goddefgarwch sefydlog.

## Absenoldeb

Ein nod yw trin pobl sy'n sâl yn deg a gyda thosturi gan roi cefnogaeth iddynt, lle bo modd, i'w galluogi i wella a mynychu'r gwaith yn rheolaidd. Yn 2022/23, roedd gweithwyr Ofcom yn colli 4.3 diwrnod gwaith y flwyddyn (2021/22 = 4.6 diwrnod) o'i gymharu â chyfartaledd y sector cyhoeddus o 7.9 diwrnod y flwyddyn ar ddiwedd mis Mawrth 2022.

## Trefniadau oddi ar y gyflogres

Yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a'r canllawiau ar gyfer y System Gwariant Cyhoeddus gan Drysorlys EF, rydym wedi datgelu pob ymrwymiad oddi ar y gyflogres ym mlwyddyn ariannol 2022/23 i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

# Adroddiad taliadau

**Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi i gydymffurfio cymaint ag y bo modd ac i'r graddau sy'n briodol ag Atodlen 8 o Reoliadau'r Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, er nad oes yn rhaid i Ofcom gydymffurfio â'r rheoliadau.**

Mae dull gweithredu'r Bwrdd yn seiliedig ar egwyddorion penodol a nodir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig, ac mae'n diwallu gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, dim ond lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol.

## Cyfansoddiad y Pwyllgor Pobl

Mae'r Pwyllgor Pobl yn is-bwyllgor Bwrdd Ofcom. Mae'n cynnwys yr aelodau canlynol:

- Ben Verwaayen, Cadeirydd
- Maggie Carver
- Angela Dean
- Bob Downes
- Michael Grade
- David Jones

Byddai'r Pwyllgor hefyd fel arfer yn disgwyl i'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth fynychu cyfarfodydd. Pan fo angen a phan fo'n briodol, bydd y Pwyllgor Pobl hefyd yn cael cyngor a/neu wasanaethau gan gydweithwyr yn Ofcom neu gan sefydliadau allanol arbenigol. Ni fydd yr un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

## Polisi Taliadau

Wrth bennu polisi taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Pobl y dylai Ofcom, gan ystyried ei fod yn gorff cyhoeddus, gynnig fframwaith gwobrau sefydlog a fydd yn denu ac yn cadw'r bobl o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei flaenoriaethau strategol ac i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol. Nid yw Ofcom yn darparu cynllun cymhelliant tymor hir ar gyfer ei weithwyr o gwbl, nac yn talu bonws ymuno.

### Elfennau taliadau

Mae prif elfennau tâl Cyfarwyddwyr Grŵp a'r Prif Weithredwr yn cyd-fynd â'n dull o ymdrin â thâl pob cydweithiwr, sy'n cynnwys cyflog sylfaenol, cynllun pensiwn a'r cyfraniadau wedi'u diffinio ar gyfer pob cydweithiwr ac amrywiaeth o fuddion hyblyg sy'n cynnwys yswiriant bywyd, yswiriant incwm grŵp, yswiriant meddygol preifat ac archwiliad iechyd blynyddol fel elfennau safonol.

### 1. Cyflog sylfaenol

### 2. Buddion safonol a hyblyg

- Yswiriant meddygol preifat
- Yswiriant bywyd
- Amddiffyn incwm grŵp
- Archwiliad iechyd blynyddol
- Lwfans i brynu buddion ychwanegol (hyblyg)

### 3. Cynllun Bonws Blynyddol

### 4. Pensiwn

- Cynllun pensiwn a'r cyfraniadau wedi'u diffinio ar gyfer pob cydweithiwr
- Lwfans pensiwn fel % o'r cyflog

## Cyflog sylfaenol

Pennir cyflog sylfaenol pob gweithiwr drwy ystyried cyfrifoldebau, sgiliau a phrofiad pob cydweithiwr, ynghyd â dadansoddiad meincnodi o dueddiadau'r farchnad berthnasol. Caiff pob cyflog sylfaenol ei ystyried yn flynyddol, a daw unrhyw newid i rym ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn. Rydym yn cynnal archwiliad cyflog cyfartal blynyddol o ran rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd.



## Buddion Hyblyg

Mae Ofcom yn cynnig lwfans buddion hyblyg i gydweithwyr ar sail eu graddfa. At ddibenion y tablau taliadau, dim ond gwerth yswiriant meddygol preifat sydd wedi'i gynnwys. Nid yw cyfanswm gwerth yr amddiffyniad incwm grŵp, yr yswiriant bywyd na'r archwiliadau iechyd blynyddol yn cael eu datgelu o dan fuddion mewn nwyddau gan nad yw Cyllid a Thollau EM yn trin y rhain fel enillion trethadwy.

## Cynllun Bonws Blynyddol

Mae gennym gynllun bonws blynyddol ar waith ar gyfer pob cydweithiwr sy'n gwobrwyo cydweithwyr os bydd Ofcom yn cyflawni ei flaenoriaethau sefydliadol a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Pobl yn cymeradwyo'r gyllideb, y blaenoriaethau a'r dyfarniadau. Mae'r bonws blynyddol yn cael ei dalu ym mis Gorffennaf ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae ffigur y bonws yn cael ei gronni'n flynyddol.

Bydd cydweithwyr cymwys yn cael dyfarniad fel swm penodol fesul gradd ar sail pro rata. Ni fydd cydweithwyr yn gymwys os ydynt yn mynd drwy broses gwella perfformiad, neu gosb ddisgyblu weithredol.

## Pensiwn

Mae Ofcom yn cynnig pensiwn cyfranddeiliaid (cyfraniad wedi ei ddiffinio) i bawb. Mae holl gydweithwyr Ofcom yn cael lwfans pensiwn, sy'n cael ei bennu fel % o'r cyflog sylfaenol. Gellir buddsoddi hyn mewn un o ddau gynllun pensiwn – y Brif Ymddiriedolaeth a'r Cynllun Pensiwn Grŵp (sy'n caniatáu i unrhyw ddidyniadau gael eu gwneud drwy ildio cyflog) neu eu cymryd fel cyflog ychwanegol. Ni chafodd yr un Aelod Anweithredol cyfredol fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

## Datgeliad cyflog teg (wedi'i archwilio)

Mae Ofcom yn credu mewn Cyflog Teg. Rydym yn cadw golwg ar hyn drwy fonitro cymhareb cyflog teg, sy'n cymharu'r unigolyn â'r cyflog uchaf yn y sefydliad a thâl canolrif gweddill y sefydliad. Mae'r data'n cael ei gyfrifo a'i gyflwyno yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.

Er mwyn gallu cymharu, defnyddir y ffigur taliadau fel y mae ar 31 Mawrth bob blwyddyn ac mae'n cynnwys cyflog sylfaenol, lwfans buddion blynyddol a buddion trethadwy o fath arall.


| | 2022/23 | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf (£000) | 345-350 | 330-335 | 330-335 | 330-335 |
| Tâl canolrif (£) | 60,422 | 56,665 | 58,439 | 59,031 |
| Cymhareb tâl | 5.78 | 5.88 | 5.69 | 5.64 |

Nid ydy'r tâl canolrif yn cynnwys yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf ac mae'n seiliedig ar dâl blynyddol cyfwerth ag amser llawn fel y mae ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Y Prif Weithredwr oedd yr unigolyn a oedd yn cael y cyflog uchaf ar 31 Mawrth 2023. Ar y dyddiad hwn, roedd y tâl yn amrywio o £20,461 i £349,191 (ystod 2021/22: £18,272 i £332,920).

Roedd y newid mewn tâl ar gyfer yr unigolyn a oedd yn cael y tâl uchaf yn y flwyddyn flaenorol yn 4.9% ac roedd y newid canolrifol mewn tâl ar gyfer yr holl weithwyr o'r flwyddyn flaenorol yn 6.6%.

| Blwyddyn | Cymhareb cyflog y 25ain canradd | Cymhareb cyflog canolrifol | Cymhareb cyflog y 75ain canradd |
|---|---|---|---|
| 2022/23 | 8.09 | 5.75 | 4.07 |



# Tablau taliadau

Mae manylion y taliadau a dderbyniodd aelodau'r Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Cyfarwyddwyr Grŵp wedi eu harchwilio gan y Rheolwr a'r Archwilydd cyffredinol ac maent wedi eu nodi yn y tablau a'r nodiadau a ganlyn.

Mae'r tablau'n adlewyrchu'r taliadau am y rhan o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n aelodau parhaol o'r Bwrdd neu'r Bwrdd Cynnwys yn unig, neu'n Gyfarwyddwyr Grŵp.

Roedd yr unigolion hynny sydd â '+' wrth eu henw yn eu rolau am ran yn unig o flwyddyn ariannol 2022/23 neu 2021/2022.

Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/Pwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 74 i 78) dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y tablau taliadau.

Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys unrhyw dâl ychwanegol y tu hwnt i'w ffioedd. Mae Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom hefyd yn cael offer TG os oes angen.

## Tabl 1: Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom

| | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Ffioedd 2022/23 | Ffioedd 2021/22 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Karen Baxter + | 1 | 42,519 | 616 |
| Maggie Carver + | 1, 2 | 74,167 | 120,000 |
| Angela Dean | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Bob Downes | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Michael Grade + | 1, 2 | 130,625 (142,500) | - |
| Will Harding+ | 1, 2 | 21,260 (42,519) | - |
| David Jones | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Graham Mather+ | 1, 2 | 38,976 | 42,519 |
| Tim Suter + | 1, 2 | - | 7,087 |
| Ben Verwaayen | 1 | 42,519 | 42,519 |
| **Cyfanswm** | | **477,623** | **340,298** |

**Nodyn canllaw 1:**

Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gyfnod llawn eu penodiad.

Mae'r ffioedd a ddangosir yn Nhabl 1 yn cynrychioli'r swm a dalwyd yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu. Mae'r ffi i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd) wedi aros yn £42,519 y flwyddyn ers 1 Ebrill 2008.

**Nodyn canllaw 2:**

Parhaodd Maggie Carver fel Cadeirydd Dros Dro tan 30 Ebrill 2022 a chafodd ffioedd o £120,000 y flwyddyn ar sail 3 diwrnod yr wythnos hyd at y pwynt hwn. Yna, aeth yn ôl i'w swydd fel Dirprwy Gadeirydd am ffioedd blwyddyn lawn o £70,000.

Ymunodd Michael Grade fel y Cadeirydd ar 1 Mai 2022 ac mae'n cael ffioedd o £142,500 y flwyddyn ar sail 3 diwrnod yr wythnos hyd at y pwynt hwn.

Ymunodd Will Harding fel Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Hydref 2022.

Camodd Tim Suter a Graham Mather i lawr o Fwrdd Ofcom ym mis Mai 2021 a mis Chwefror 2023 yn y drefn honno.

## Tabl 2: Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom

| Enw | Cyfeirnod y Nodyn Canllaw | Ffioedd gwirioneddol 2022/23 | Ffioedd 2021/22 |
|---|---|---|---|
| Dekan Apajee | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Jonathan Baker | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Rachel Coldicutt | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Maggie Cunningham | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Aled Eirug + | 3 | - | 11,200 |
| Robin Foster + | 3 | - | 12,600 |
| Angelina Fusco + | 3 | - | 2,800 |
| Anna-Sophie Harling + | 3 | - | 5,600 |
| Peter Horrocks | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Tobin Ireland | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Maria McCann + | 3 | 6,109 (16,800) | - |
| Ruth McElroy + | 3 | 16,800 | 1,400 |
| Sophie Morgan + | 3 | - | 9,800 |
| Stephen Nuttall | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Monisha Shah | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Kim Shillinglaw | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Janey Walker + | 3 | - | 2,013 |
| **Cyfanswm** | | **174,109** | **196,613** |

**Nodyn Canllaw 3:**
Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys.

Y ffi sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Cynnwys yw £16,800 y flwyddyn.

Mae'r gwerthoedd a ddangosir yn cynrychioli'r swm blwyddyn lawn a dalwyd neu, os yw'n briodol, rhan o'r flwyddyn (+), pan ymunodd yr Aelod Anweithredol â'r Bwrdd Cynnwys neu adael.

## Tabl 3: Taliadau Aelodau Gweithredol Bwrdd Ofcom

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Misoedd y cyfnod adrodd | Cyfanswm y cyflog a dalwyd £ | Hawl/lwfans Pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws perfformiad blynyddol[10] £ | 2022/23 Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ | 2021/22 Cyfanswm y taliadau £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Melanie Dawes | 4 | 12 | 322,088 | 64,418 | 15,000 | 3,091 | 8,500 | 413,097 | 395,727 |
| Kevin Bakhurst | 4 | 12 | 253,888 | 38,083 | 15,000 | 3,091 | 6,500 | 316,562 | 303,272 |
| Lindsey Fussell | 4 | 12 | 253,888 | 38,083 | 15,000 | 3,091 | 6,500 | 316,562 | 303,272 |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | **1,046,221** | **1,002,271** |

10. Bonws perfformiad a ddyfarnwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, a dalwyd ym mis Gorffennaf 2022.

## Tabl 4: Taliadau Aelodau Gweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Misoedd y cyfnod adrodd pan oedd yr aelod wedi ei gyflogi | Cyfanswm y cyflog a dalwyd (cyfwerth â blwyddyn lawn mewn cromfachau lle gweithiwyd am ran o'r flwyddyn) £ | Hawl/lwfans Pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws perfformiad blynyddol £ | 2022/23 Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ | 2021/22 Cyfanswm y taliadau £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Alison Marsden | 4 | 12 | 153,375 | 23,006 | 15,000 | 3,091 | 4,000 | 198,472 | 179,773 |

## Tabl 5: Taliadau Cyfarwyddwyr Grŵp Ofcom

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Misoedd y cyfnod adrodd | Cyfanswm y cyflog a dalwyd (cyfwerth â blwyddyn lawn mewn cromfachau lle gweithiwyd am ran o'r flwyddyn) £ | Hawl/lwfans Pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws perfformiad blynyddol £ | 2022/23 Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ | 2021/22 Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Luisa Affuso | 4 | 12 | 237,987 | 35,698 | 15,000 | 3,091 | 6,500 | 298,276 | 285,389 |
| Martin Ballantyne | 4 | 12 | 230,063 | 34,509 | 15,000 | 3,091 | 6,500 | 289,163 | 276,477 |
| Sachin Jogia | 4 | 12 | 270,962 | 40,644 | 15,000 | 3,091 | 2,708[11] | 332,405 | 159,602 |
| Melissa Tatton | 4 | 12 | 230,063 | 34,509 | 15,000 | 2,473 | 6,500 | 288,545 | 275,932 |
| Yih-Choung Teh | 4 | 12 | 230,063 | 34,509 | 15,000 | 3,091 | 6,500 | 289,163 | 276,477 |
| Gillian Whitehead + | 4,5 | 2 | 42,506 (285,000) | 6,376 | 2,292 | 240 | - | 51,414 | - |
| David Willis + | 4,5 | 7 | 137,083 (235,000) | 20,562 | 8,750 | 1,207 | - | 167,602 | - |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | **1,716,568** | **1,273,877** |

11. Ymunodd Sachin Jogia ym mis Hydref 2021 a chafodd y bonws am y flwyddyn ei roi ar sail pro rata yn unol â hynny.

**Nodyn Canllaw 4:**
Dangosir cyfanswm y taliadau blynyddol ar gyfer swyddogion gweithredol Ofcom sydd, neu a oedd, yn Gyfarwyddwyr Grŵp yn ystod cyfnod adrodd 2022/23. Y ffigur hwn yw'r hawl am dâl am y cyfnod adrodd felly bydd yn llai na'r cyfwerth ag amser llawn os na chafodd blwyddyn lawn ei gweithio fel Cyfarwyddwr Grŵp.

Mae cyfanswm y tâl blynyddol yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad blynyddol, lwfans buddion hyblyg, canran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn a buddion trethadwy o fath arall sy'n adlewyrchu'r gost i Ofcom o ddarparu yswiriant meddygol preifat ar gyfer pob gweithredwr.

**Nodyn Canllaw 5:**
Ymunodd David Willis fel Cyfarwyddwr Grŵp Sbectrwm ym mis Medi 2022. Symudodd o Ganada a chafodd dreuliau adleoli o £38,000 yn unol â'n polisi.

Ymunodd Gillian Whitehead ag Ofcom ym mis Tachwedd 2021 i arwain y Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddwyr Digidol. Safodd i lawr fel Prif Weithredwr y Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddwyr Digidol ar 20 Chwefror 2023 a dechreuodd gyfnod o gynefino gydag Ofcom cyn dechrau ar ei rôl newydd fel Cyfarwyddwr Grŵp Diogelwch Ar-lein Ofcom ym mis Ebrill 2023.

## Tabl 6: Cyfarwyddwyr Grŵp Dros Dro a gadawyr yn ystod y cyfnod adrodd:

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Misoedd y cyfnod adrodd | Cyfanswm y cyflog a dalwyd £ | Hawl/lwfans Pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws perfformiad blynyddol £ | 2022/23 Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ | 2021/22 Cyfanswm y taliadau £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Helen Hearn + | 6 | 5 | 63,250 (150,000) | 9,488 | 6,250 | 1,217 | 6,500 | 86,705 | 47,605 |
| Phillip Marnick + | 6 | 0 | | | | | | | 236,817 |
| Jonathan Oxley + | 6 | 0 | | | | | | | 27,827 |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | **86,704** | **312,249** |

**Nodyn Canllaw 6:**
Ymunodd Helen Hearn â'r Uwch Dîm Rheoli fel Cyfarwyddwr Grŵp Sbectrwm Dros Dro yn dilyn ymadawiad Phillip Marnick ym mis Ionawr 2022. Dychwelodd Helen i'w swydd barhaol ym mis Medi 2022 ar ôl penodi David Willis.

Gadawodd Jonathan Oxley Ofcom ym mis Ebrill 2021 ar ôl cyfnod o absenoldeb garddio dan gontract.

## Tabl 7: Cyfanswm y costau Taliadau Blynyddol ar gyfer holl Swyddogion Gweithredol Ofcom yn ystod y cyfnod adrodd:

| Cyfanswm y cyflog gwirioneddol a dalwyd £ | Hawl/lwfans Pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws perfformiad blynyddol £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2022/2023 £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2021/2022 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2,425,216 | 379,885 | 152,292 | 29,865 | 60,708 | 3,047,966 | 2,768,170 |

Mae'r tabl uchod yn cynnwys cyfanswm rhifyddeg o'r tablau 3-6 uchod
Mae'r bonws a delir i Gyfarwyddwyr Grŵp a'r Prif Weithredwr yn cynrychioli 2.5% o gyfanswm y bonws a dalwyd yn 2022/23 i bob cydweithiwr.

## Contract cyflogaeth

Mae gan y Prif Weithredwr gyfnod rhybudd o 12 mis. Nid oes gan yr un Aelod Gweithredol arall o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gontract cyflogaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd o fwy na naw mis.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi eu penodi am dymor penodol gydag ymrwymiad amser i Ofcom o hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am y Cadeirydd sy'n neilltuo hyd at dri diwrnod yr wythnos a'r Dirprwy Gadeirydd sy'n neilltuo hyd at ddeuddydd a hanner yr wythnos).

## Iawndal terfynu'n gynnar

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom neu Gyfarwyddwr Grŵp, y Pwyllgor Pobl sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract cyflogaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract cyflogaeth yr Aelod Gweithredol neu'r Cyfarwyddwyr Grŵp perthnasol. Ar gyfer pob cydweithiwr, mae gennym bolisi ar waith lle nad oes unrhyw daliadau ex-gratia mewn perthynas â therfynu cynnar yn fwy na £95,000. Mae pob contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwêl Ofcom yn dda.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.



## Ymgymryd â swyddogaeth cyfarwyddwr allanol

Cyfeirir at fanylion ein dull gweithredu o ran gwrthdaro rhwng buddiannau, gan gynnwys buddiannau allanol ar gyfer Aelodau Anweithredol a Chydweithwyr, yn adran Lywodraethu'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.

Ar ran Ofcom,

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

03 Gorffennaf 2023

**Ben Verwaayen**
Cadeirydd y Pwyllgor Pobl

03 Gorffennaf 2023

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd Brydeinig, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon

## Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y dogfennau canlynol ar gyfer y Swyddfa Gyfathrebiadau

- Datganiadau am y Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023;
- Datganiad Incwm a Gwariant, Datganiad Llifoedd Arian Parod a Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adroddiadau ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y Deyrnas Unedig.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2023, a'i gwarged ar ôl treth am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd Brydeinig, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig), cyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd er mwyn archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Moesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2019. Rwyf yn annibynnol ar y Swyddfa Gyfathrebiadau yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes byw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y Swyddfa Gyfathrebiadau wedi defnyddio'r sail busnes byw cyfrifyddu yn briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol nac ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Swyddfa Gyfathrebiadau i barhau fel busnes byw am gyfnod o 12 mis o leiaf ar ôl awdurdodi'r datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae adrannau perthnasol y dystysgrif hon yn disgrifio fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ynglŷn â busnes byw.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sy'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na'm tystysgrif archwilydd. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, ar wahân i'r hyn a nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod yn gamddatganiad o bwys fel arall.

Os byddaf yn dod o hyd i anghysondebau o bwys o'r fath neu gamddatganiadau o bwys amlwg, mae'n rhaid i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan mewn ffordd o bwys, mae'n rhaid i mi roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaethpwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gydnaws â'r datganiadau ariannol, ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r Swyddfa Gyfathrebiadau a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad ar Berfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt i chi os, yn fy marn i:

- nad yw Ofcom wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol, ac nad yw ffurflenni sy'n ddigonol at ddibenion yr archwilio wedi'u derbyn gan unrhyw drydydd partïon;
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd, yn ein barn ni, yn angenrheidiol at ddibenion fy archwiliad;
- oes ansicrwydd sylweddol ynghylch digwyddiadau neu amodau a allai daflu amheuaeth ar allu Ofcom i barhau fel busnes byw am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol; ac
- os nad yw'r Datganiad Ariannol yn adlewyrchu cydymffurfiad â chyfarwyddyd Trysorlys EF. Nid oes gofyn i mi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cwmpasu pob risg a rheolaeth, na mynegi barn ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol na'i weithdrefnau risg a rheoli.

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath ar waith yn ôl yr angen i alluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- sicrhau bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac yn cael eu paratoi yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 ac â chyfarwyddiadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Taliadau, yn cael ei baratoi yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 ac â chyfarwyddiadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y Deyrnas Unedig) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac ystyrir eu bod yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

**I ba raddau yr ystyrid bod yr archwiliad yn gallu dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll**

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys yng nghyswllt diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau mae fy ngweithdrefnau'n gallu dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

**Canfod ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll**

Wrth ganfod ac asesu risgiau o gamddatganiad o bwys yng nghyswllt diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, ystyriais y canlynol:

- natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol, gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu'r Swyddfa Gyfathrebiadau.
- ymholiadau i reolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Swyddfa Gyfathrebiadau, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Swyddfa Gyfathrebiadau ar:
  - » canfod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - » canfod ac ymateb i risgiau twyll; a
  - » rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'n ymwneud â chydymffurfedd y Swyddfa Gyfathrebiadau â Deddf Y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002;
- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Swyddfa Gyfathrebiadau a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, os:
  - » oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - » oeddent yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, a amheuir neu dwyll honedig;
- bu trafodaethau gyda'r tîm ymgysylltu a'r arbenigwyr mewnol perthnasol, gan gynnwys arbenigwyr pensiwn ynghylch sut a ble gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw arwyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion posibl i dwyllo yn y Swyddfa Gyfathrebiadau, a gwelais fod y posibilrwydd mwyaf o dwyll yn yr elfennau canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn yn amcangyfrifon y rheolwyr. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU), mae'n ofynnol i mi hefyd ddilyn gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg bod rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Swyddfa Gyfathrebiadau a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau yn gweithredu ynddynt. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddf Gwasanaethau Post 2011, Deddf yr Economi Ddigidol 2010 a Deddf yr Economi Ddigidol 2017, y gyfraith cyflogaeth, y ddeddfwriaeth treth, a'r ddeddfwriaeth pensiwn.

**Ymateb yr archwiliad i risg a nodwyd**

Ymateb  i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a'r gwaith profi dogfennau ategol i asesu cydymffurfedd â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifiwyd uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- Holais y rheolwyr, y Pwyllgor Risg ac Archwilio a chwnsleriaid cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, y Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profais briodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos rhagfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes trafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes; ac
- roeddwn wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol, ac roeddwn yn effro i unrhyw arwydd o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol yn: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**

Rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd Brydeinig, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
**07 Gorffennaf 2023**

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road

Victoria

Llundain

SW1W 9SP



ADRAN C

# DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r adran hon yn amlinellu ein datganiadau ariannol a'n nodiadau i'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

# Datganiad incwm a gwariant

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodiadau | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | 179,445 | 149,675 |
| Incwm clirio sbectrwm | 3 | - | 8,752 |
| **Cyfanswm incwm** | | **179,445** | **158,427** |
| | | | |
| Costau staff | 4 | (108,055) | (89,993) |
| Gwariant gweithredu arall | 6 | (67,165) | (55,796) |
| Gwariant clirio sbectrwm | 4,6 | - | (8,752) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **(175,220)** | **(154,541)** |
| | | | |
| **Gwarged gweithredol** | | **4,225** | **3,886** |
| Incwm cyllid | 14 | 66 | – |
| Costau cyllid | 17,18 | (876) | (873) |
| Incwm llog pensiwn | 20 | 510 | 254 |
| **Gwarged cyn treth am y flwyddyn** | | **3,925** | **3,267** |
| Trethiant | 7 | - | – |
| **Gwarged ar ôl treth am y flwyddyn** | | **3,925** | **3,267** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 117-151 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o incwm net cynhwysfawr

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodiadau | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwarged ar ôl treth am y flwyddyn** | | **3,925** | **3,267** |
| **Incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall** | | | |
| Ailfesur pensiynau | 20 | (9,284) | 3,712 |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr** | | **(5,359)** | **6,979** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 117-151 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad am y sefyllfa ariannol

| Ar 31 Mawrth 2023 | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | 15,186 | 12,186 |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 9 | 35,663 | 39,623 |
| Asedau anniriaethol | 10 | 154 | 35 |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol | 12 | 2,023 | 542 |
| Symiau derbyniadwy les: asedau anghyfredol | 14 | 1,620 | - |
| Asedau buddion ymddeol | 20 | 11,458 | 19,688 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **66,104** | **72,074** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol | 11 | 12,621 | 20,672 |
| Symiau derbyniadwy les: asedau cyfredol | 14 | 220 | - |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 13 | 13,396 | 20,920 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **26,237** | **41,592** |
| **Cyfanswm asedau** | | **92,341** | **113,666** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol | 15 | 27,895 | 36,514 |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau cyfredol | 17 | 4,892 | 4,766 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau: rhwymedigaethau cyfredol | 18 | 12 | 12 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **32,799** | **41,292** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol | 16 | 237 | 5,547 |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau anghyfredol | 17 | 34,163 | 36,009 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau: rhwymedigaethau anghyfredol | 18 | 106 | 143 |
| Rhwymedigaethau buddion ymddeol | 20 | 804 | 1,084 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **35,310** | **42,783** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **68,109** | **84,075** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **24,232** | **29,591** |
| **Ecwiti** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | | 24,232 | 29,591 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **24,232** | **29,591** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 117-151 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn. Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 03 Gorffennaf 2023.

**Yr Arglwydd Michael Grade CBE**
Cadeirydd

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

# Datganiad am newidiadau mewn ecwiti

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodiadau | Cronfa wrth gefn £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2021** | | **22,612** |
| | | |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2021/22** | | |
| Ailfesur pensiynau | 20 | 3,712 |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 3,267 |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer 2021/22** | | **6,979** |
| | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | **29,591** |
| | | |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2022/23** | | |
| Ailfesur pensiynau | 20 | (9,284) |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 3,925 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer 2022/23** | | **(5,359)** |
| | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **24,232** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 117-151 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad am y llifoedd arian parod

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodiadau | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged gweithredol | | 4,225 | 3,886 |
| | | | |
| **Addasiadau ar gyfer trafodiadau anariannol** | | | |
| Dibrisiant | 8 | 2,266 | 2,128 |
| Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio | 9 | 5,098 | 4,993 |
| Amorteiddio | 10 | 22 | 135 |
| Colled ar waredu asedau anghyfredol | 6 | 104 | 1 |
| Lleihad/(Cynnydd) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 11, 12 | 6,570 | (518) |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 15,16 | (13,929) | 7,086 |
| Lleihad mewn rhwymedigaethau lesoedd | 17 | - | (1,118) |
| Lleihad mewn darpariaethau | 18 | (12) | (11) |
| Lleihad mewn pensiwn ymddeol | 20 | (824) | (915) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **3,520** | **15,667** |
| | | | |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | (5,281) | (3,678) |
| Prynu asedau hawl i ddefnyddio | 9 | (111) | (58) |
| Prynu asedau anniriaethol | 10 | (141) | (4) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(5,533)** | **(3,740)** |
| | | | |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Symiau derbyniadwy lesoedd a dderbynnir | 14 | 104 | - |
| Taliadau rhwymedigaethau lesoedd | 17 | (5,615) | (5,192) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **(5,511)** | **(5,192)** |
| | | | |
| **(Lleihad)/Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **(7,524)** | **6,735** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | | **20,920** | **14,185** |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn | | (7,524) | 6,735 |
| **Cronfeydd net terfynol** | 13 | **13,396** | **20,920** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 117-151 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

## 1. Y sail dros gyflwyno a'r prif bolisïau cyfrifyddu

Mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yn gorfforaeth statudol sydd wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n darparu amrediad eang o wasanaethau rheoleiddio. Mae datganiadau ariannol Ofcom ar gyfer 31 Mawrth 2023 wedi cael eu paratoi'n unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) i gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006. Mae hyn yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y cyfarwyddyd cyfrifon.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes byw o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio ar gyfer ailbrisio rhai asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol sy'n cael eu mesur yn ôl symiau wedi eu hailbrisio neu werth teg, os oes o gwbl, o dan gyfarwyddyd cyfrifon yr Adran Busnes a Masnach a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu datgan mewn punnoedd sterling, i'r fil agosaf, sef yr arian y mae Ofcom yn ei ddefnyddio.

### a) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Mae rhai safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae'r safonau a'r datganiadau isod yn berthnasol i'r cyfnod cyfrifyddu cyfredol. Ar gyfer Ofcom, y dyddiad trosglwyddo oedd dechrau'r flwyddyn ariannol ar 1 Ebrill 2022. Nid yw'r diwygiadau hyn yn effeithio ar ein ffigurau ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

- Gwelliannau Blynyddol i'r Cylch Safonau IFRS 2018-2020 (Mae mân ddiwygiadau i IFRS 1 Mabwysiadu Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol am y Tro Cyntaf ac IFRS 9 Offerynnau Ariannol yn berthnasol i gyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2022 neu ar ôl hynny).
- Diwygiadau i IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar (Enillion cyn y Defnydd Arfaethedig, sy'n berthnasol i gyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2022 neu ar ôl hynny). Mae hyn yn gofyn bod symiau a dderbynnir o werthu eitemau a gynhyrchwyd tra bo'r endid yn paratoi'r ased ar gyfer ei ddefnydd arfaethedig yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant, ac nid fel addasiad i gost yr ased.

Mae safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau eraill i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom ac mae'r rhain yn berthnasol i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol.

- IFRS 17 Contractau Yswiriant sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2023 neu ar ôl hynny.

### b) Cydnabod incwm

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg y taliadau sydd wedi'u derbyn neu sydd i'w derbyn yn ystod gweithgareddau arferol Ofcom. Dangosir incwm yn net o dreth ar werth, enillion, ad-daliadau a gostyngiadau. Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd y swm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy, a'i bod yn debygol y daw buddion economaidd i'r endid yn y dyfodol.

Mae goblygiadau mabwysiadu IFRS 15 yn uniongyrchol wedi cael eu hasesu. Fodd bynnag, o ystyried natur gweithgareddau Ofcom a bod IFRS 15 yn ymwneud â sefydliadau masnachol, nid oedd yn cael ei ystyried yn gwbl briodol. Yn unol â hynny, mae'r Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 8(10) wedi cael ei defnyddio i addasu IFRS 15 i gyd-destun y Sector Cyhoeddus, er mwyn datblygu polisi cyfrifyddu sy'n darparu gwybodaeth berthnasol a dibynadwy. Wrth wneud hynny, mae'r diffiniad o gontract wedi cael ei ehangu i gynnwys deddfwriaeth a rheoliadau.

Mae IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid yn cynnwys model pum cam ar gyfer cydnabod incwm sy'n deillio o gontractau gyda chwsmeriaid. Yr egwyddor graidd oedd cydnabod incwm er mwyn iddo ddangos trosglwyddo'r nwyddau neu'r gwasanaethau sydd wedi cael eu haddo i gwsmeriaid mewn swm sy'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth y mae'r endid yn disgwyl cael hawl iddi yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Roedd Ofcom wedi ystyried y broses pum cam ac wedi penderfynu peidio â newid y ffordd mae incwm yn cael ei gydnabod:

- Mae gweithgareddau rheoleiddio Ofcom yn cael eu cyflawni ar lefel sector ac felly nid ydynt yn benodol i gwsmeriaid unigol. Mae statud yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm o bob un o'r sectorau mae'n eu rheoleiddio er mwyn talu am y costau mae Ofcom yn eu hwynebu wrth reoleiddio'r sector hwnnw, ynghyd â chyfran briodol o 'gostau cyffredin' Ofcom ar gyfer pob un o'r sectorau hynny. Felly, mae deddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwyedd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofcom i adennill ei gostau gan randdeiliaid.

- Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn ymwneud â'r gwaith sylfaenol a wneir gan Ofcom fel rheoleiddiwr y sector Cyfathrebiadau, ac fel y nodir yn y Cynllun Blynyddol a gyhoeddir. Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn cael eu bodloni pan fydd Ofcom wedi cyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddio.

- Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Ofcom gydbwyso ei gostau gyda'i incwm. Er mwyn sicrhau bod incwm yn adlewyrchu costau i'r sector priodol, mae costau'n cael eu dyrannu i sectorau/rhanddeiliaid yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

- Mae Ofcom yn diweddaru'r amcangyfrif o'r incwm i gynrychioli'n ffyddlon yr amgylchiadau sy'n bodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r newidiadau mewn amgylchiadau yn ystod y flwyddyn ariannol; ac mae'n cyhoeddi'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn y tablau tariff.

- Felly, mae incwm yn cael ei gyfrifo a'i gydnabod yn y flwyddyn y mae'r goblygiadau perfformiad (costau) yn berthnasol iddi, ar sail adennill costau fel y nodir yng nghyllideb Ofcom, ac mae'n cael ei addasu ar gyfer adennill gormod neu ddim digon yn y flwyddyn flaenorol. Cyfrifir y rhain yn y drefn honno fel incwm cronedig mewn asedau ac incwm gohiriedig mewn rhwymedigaethau, gan nad oes llawer o ansicrwydd, os o gwbl, ynghylch adennill incwm cronedig ac ad-dalu incwm gohiriedig sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol.

- Mae incwm hefyd yn cael ei gydnabod ar gyfer y costau hynny lle nad oes modd codi ffioedd na thaliadau ar randdeiliaid, yn bennaf am gost rheoli sbectrwm drwy gadw ffioedd trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA) yn unol ag adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'r Datganiad o Egwyddorion Cyllido.

- Mae polisi cydnabod incwm Ofcom yn briodol ac yn cyd-fynd â gofynion IFRS 15 fel y'i haddaswyd drwy IAS 8(10) a dehongliad Trysorlys EF ar gyfer y Sector Cyhoeddus.

Mae ffynonellau incwm Ofcom yn gymorth grant, derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-Wifr (WTA) sydd wedi'u cadw, incwm rhanddeiliaid ac incwm arall.

**Cymorth Grant Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon**
Darperir cymorth grant gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ariannu rhaglen clirio'r band 700MHz. Mae'r rhaglen hon yn goruchwylio'r gwaith o glirio'r band UHF 700MHz (gan gynnwys lleihau unrhyw ymyriant posibl). Caiff y gwaith clirio ei wneud gan drydydd partïon sy'n cael eu talu drwy grantiau cyfalaf sydd wedi cael eu hystyried a'u cymeradwyo mewn egwyddor gan Fwrdd Rheoli'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm, cyn cael eu cymeradwyo'n derfynol gan Drysorlys EF.

Mae'r rheini sy'n cael grantiau ar gyfer y rhaglen yn gofyn am gyllid gan Ofcom ar ôl i amodau'r grant gael eu bodloni. O ran y grantiau a ddyfarnwyd, dim ond am y costau gwirioneddol sydd wedi codi y bydd Ofcom yn talu, a bydd yn cydnabod y costau wrth gytuno i dalu'r arian y gofynnwyd amdano i'r derbynnydd.

**Cadw Derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-Wifr (WTA)**
Telir ffioedd i Ofcom mewn perthynas â'n swyddogaeth rheoli sbectrwm. Yn dilyn gweithredu Deddf yr Economi Ddigidol 2017, caiff Ofcom gadw'r cyfryw symiau i ariannu ei swyddogaethau rheoli sbectrwm cyffredinol, ac i dalu'r costau o gyflawni ei swyddogaethau eraill na all godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer fel arall. Fel y cytunwyd â Thrysorlys Ei Fawrhydi a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, bydd derbyniadau WTA hefyd yn cael eu defnyddio i gyllido gwaith paratoi ar gyfer y ddyletswydd newydd ynghylch Diogelwch Ar-lein. Mae'r swm misol a gedwir yn dibynnu ar y gwariant a gynlluniwyd ar gyfer y swyddogaethau hyn. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar sail gronnus, a bydd y swm a gedwir ar gyfer y mis canlynol yn cael ei addasu os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill.

## Incwm rhanddeiliaid

**Ffioedd gweinyddu gwasanaethau post, rhwydweithiau a gwasanaethau**
Caiff y ffioedd hyn eu codi ar randdeiliaid yn y rhwydweithiau a'r gwasanaethau ynghyd â'r gwasanaethau post sy'n gweithredu o dan gyfundrefn heb drwydded, ond sy'n dod o dan bwerau rheoleiddio Ofcom. Mae'r costau hyn yn gyfuniad o wariant a gynlluniwyd ar gyfer ein gwaith rheoleiddio, fel y nodir yn y Cynllun Gwaith, ac addasiadau i'r flwyddyn flaenorol. Rhoddir cyfrif am yr incwm hwn ar sail gronnus. Ar ôl penderfynu'n derfynol ar y costau ar

ddiwedd y flwyddyn, bydd incwm sy'n fwy na'r arian sydd wedi'i wario yn cael ei drin fel incwm gohiriedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n daladwy. Yn groes i hynny, os bydd yr arian parod sydd wedi'i wario yn fwy na'r incwm a gafwyd, bydd yn cael ei drin fel incwm cronedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghostau'r flwyddyn ariannol ganlynol.

**Cadwyn flociau**
Ym mis Hydref 2018, dyfarnwyd grant i ni gan Innovate UK, rhan o UK Research and Innovation, corff cyhoeddus anadrannol a ariennir gan Lywodraeth y DU. Dyfarnwyd y grant o dan Gronfa Arloesi'r Rheoleiddiwr, a sefydlwyd ar gyfer rheoleiddwyr yn y DU i helpu i sbarduno arloesedd yn y sector cyhoeddus. Roedd ein prosiect yn seiliedig ar ddefnyddio technoleg cadwyn flociau i wella'r rheolaeth ar rifau ffôn y DU, a rheoli hunaniaeth ddigidol. Mae swm y dyfarniad yn amodol ar arian cyfatebol (Ofcom 25%, grant 75%) a chafodd ei ymestyn ym mis Awst 2019. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar sail gronnus a chaiff ei addasu yn y flwyddyn ariannol ganlynol os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill. Cafodd y prosiect hwn ei gwblhau yn 2019/20 a'i gwblhau'n derfynol yn 2022/23, ar ôl gwneud y gwaith archwilio gofynnol.

**Ffioedd trwyddedau darlledu**
Mae incwm o ffioedd trwyddedau darlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebir i ddeiliaid trwyddedau darlledu ar gyfer ein gwaith rheoleiddio arfaethedig, gan gynnwys unrhyw addasiadau i'r flwyddyn flaenorol. Rhoddir cyfrif am yr incwm hwn ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n fwy na'r arian parod sydd wedi'i wario yn y sector darlledu ei drin fel incwm gohiriedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n daladwy. Os bydd yr arian parod sydd wedi'i wario yn fwy na'r incwm a gafwyd, bydd yn cael ei drin fel incwm cronedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghostau'r flwyddyn ariannol ganlynol.

**Ffioedd ymgeisio**
Am resymau ymarferol, rydym yn codi ffioedd penodedig ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio ar wahân sydd o dan reolaeth rhanddeiliaid unigol (er enghraifft, cais am drwydded ddarlledu), neu lle nad yw'r trosiant perthnasol yn sail briodol dros godi ffi (er enghraifft, radio cymunedol). Ni ellir ad-dalu'r ffioedd hyn, ac felly fe'u cofnodir fel refeniw pan ddaw cais y rhanddeiliad i law. Fodd bynnag, os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, caiff hynny ei wrthbwyso yn erbyn cyfanswm costau'r sector yn y flwyddyn ganlynol. Er enghraifft, os yw cyfanswm y gwariant ar gyfer ceisiadau radio yn fwy na'r refeniw o'r ceisiadau, bydd y costau sydd heb gael eu hadennill yn cael eu cynnwys yng nghyfanswm y costau rheoleiddio radio sydd i'w hadennill gan dalwyr ffi'r drwydded radio.

**Systemau gwybodaeth a rhwydweithiau (NIS)**
Mae incwm gan randdeiliaid NIS yn cynrychioli'r symiau sy'n ddyledus gan weithredwyr dynodedig gwasanaethau hanfodol ar gyfer ein gwaith rheoleiddio. Rhoddir cyfrif am yr incwm hwn ar sail gronnus. Yn unol â rheoliadau NIS, mae'r incwm hwn yn cael ei adennill mewn ôl-daliadau; felly bydd yr arian parod sydd wedi'i wario yn cael ei drin fel incwm cronedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**Incwm arall**
Rhoddir cyfrif am incwm anstatudol ar sail gronnus, a chaiff ei gyfateb i'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

Mae deddfwriaeth yn mynnu bod Ofcom yn cynhyrchu datganiad o incwm a dderbynnir, incwm sy'n ddyledus, incwm sy'n debygol o gael ei dalu neu ei adennill, a'r costau mewn perthynas â'i swyddogaethau rheoleiddio. Dangosir hyn yn Nodyn 2 y datganiadau ariannol, sy'n darparu tryloywder ar incwm gohiriedig a chronedig Ofcom fesul sector.

## c) MG Alba

Yn unol ag Adran 210 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 o Ddeddf Darlledu 1990, mae'r symiau mae Gweinidogion yr Alban yn eu talu i Ofcom yn cael eu talu wedyn gan Ofcom i'r Gronfa Darlledu Gaeleg a reolir gan MG Alba. O ganlyniad, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn natganiadau ariannol Ofcom.

## d) Derbyniadau a gasglwyd gan Ofcom o fewn cwmpas Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

O dan Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau. Cesglir yr incwm o bum prif ffynhonnell:

- Ffioedd trwydded WTA
- Ffioedd sbectrwm Adran Llywodraeth
- Cosbau Ariannol
- Taliadau Ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau ar gyfer teledu a radio; a
- Rhifau daearyddol

Cafodd yr incwm a gasglwyd (ac eithrio'r incwm a gadwyd o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017) ei drosglwyddo i Gronfa Gyfunol y DU yn Nhrysorlys EM, yr Adran Cyllid a Phersonél – Gogledd Iwerddon (DFPNI) ac i Drysorlysoedd Ynys Manaw, Beilïaeth Jersey, a Beilïaeth Guernsey o dan Offeryn Statudol

1991, Rhifau 998, 1710 ac 1709 y naill a'r llall, yn uniongyrchol neu drwy'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Mae Ofcom yn paratoi set o ddatganiadau ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron y Senedd Brydeinig.

Felly ni wneir unrhyw dderbyniadau, taliadau nac eitemau sy'n gysylltiedig â'r Datganiad am y Sefyllfa Ariannol yn Natganiadau Ariannol Ofcom o ran trafodiadau sy'n gysylltiedig ag Adran 400, oni bai fod y taliadau a'r ffioedd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

## e) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli'r asedau presennol.

Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500 a chaiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi ar sail cost neu gost dybiedig, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol. Er enghraifft,

mae caledwedd cyfrifiadurol sefydlog fel gweinyddion, muriau cadarn a switshis rhwydwaith a ddefnyddir mewn swyddfeydd yn cael eu cyfalafu. Ar y llaw arall, mae cyfarpar TG symudol ag oes fer ac sy'n isel mewn gwerth yn cael ei gofnodi fel gwariant, oherwydd nad oes gan Ofcom reolaeth dros yr amgylchedd ffisegol na'r ffordd mae'n cael ei ddefnyddio.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn dod i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yn swm cario ymlaen yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff swm cario ymlaen y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio fel a ganlyn, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth ar y llyfrau dros eu hamcan oes ddefnyddiol:

| Gwelliannau Prydles | Cyfnod y les |
|---|---|
| Gosodiadau a Ffitiadau | 7 mlynedd |
| Cyfarpar Swyddfa a Maes | 4 i 7 mlynedd |
| Caledwedd Cyfrifiadurol | 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau Modur | 5 mlynedd |

Caiff dibrisiant ei ddyrannu i'r Datganiad Incwm a Gwariant, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cynrychioli'r costau a wynebwyd wrth ddatblygu asedau diriaethol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u dibrisio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a waredir yn cael eu cydnabod yn '(Enillion)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol' yn yr adran 'Gwariant gweithredu arall' yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

## f) Rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau lesoedd

Ar gyfer unrhyw gontract newydd, mae Ofcom yn ystyried a yw contract yn les, neu'n cynnwys les. Diffinnir les fel contract, neu ran o gontract, sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased (yr ased sylfaenol) am gyfnod yn gyfnewid am dâl cydnabyddiaeth. I gymhwyso'r diffiniad hwn, mae Ofcom yn asesu a yw'r contract yn bodloni tri gwerthusiad allweddol, sef:

- a yw'r contract yn cynnwys ased dynodedig, sydd naill ai wedi'i nodi'n benodol yn y contract neu'n ymhlyg drwy gael ei nodi ar yr adeg y bydd yr ased ar gael i Ofcom.
- a oes gan Ofcom yr hawl i gael yr holl fanteision economaidd o ddefnyddio'r ased dynodedig drwy gydol y cyfnod defnyddio, wrth ystyried ei hawliau o fewn cwmpas diffiniedig y contract.
- a oes gan Ofcom yr hawl i fynnu sut mae'r ased dynodedig yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod defnyddio. Mae Ofcom yn asesu a oes ganddo'r hawl i fynnu 'sut ac at ba ddiben' y mae'r ased yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod defnyddio.

Ar ddyddiad cychwyn y les, mae Ofcom yn cydnabod y rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a'r rhwymedigaeth lesoedd, heb gynnwys TAW, yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur yn ôl cost, sy'n cynnwys y mesuriad cychwynnol o'r rhwymedigaeth lesoedd, amcangyfrif o unrhyw gostau i ddatgymalu a thynnu'r ased ar ddiwedd y les, ac unrhyw daliadau les a wnaed cyn dyddiad cychwyn y les (net o unrhyw gymelliadau a dderbyniwyd) hyd at ddiwedd y les neu'r cyfnod ymestyn, pa un bynnag yw'r hwyraf, neu hyd at derfynu'r les os oes rhai.

Mae Ofcom yn dibrisio'r asedau hawl i ddefnyddio ar sail llinell syth ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth ar y llyfrau o'r mis y mae ased yn cael ei roi ar waith, hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol ased hawl i ddefnyddio neu ddiwedd cyfnod y les – pa un bynnag yw'r cynharaf. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Mae Ofcom hefyd yn asesu'r ased hawl i ddefnyddio am amhariad pan fydd dangosyddion o'r fath yn bodoli.

Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500, a chofnodir asedau hawl i ddefnyddio ar sail cyfanswm costau contract y les, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol.

Ar ôl gwneud y mesuriadau cychwynnol, caiff swm cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio ei addasu yn ôl yr un swm â'r addasiad i werth cario ymlaen y rhwymedigaeth lesoedd. Nid oes enillion na cholledion yn syth, ond bydd y llifoedd arian parod diwygiedig yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant dros weddill cyfnod y les. Mae eithriadau i'r egwyddor hon: pan fydd gostyngiad yng ngwerth cario ymlaen y rhwymedigaeth lesoedd yn fwy na gwerth cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio perthnasol ar adeg yr ailfesur – os felly caiff yr ased ei ostwng i ddim, a bydd y swm dros ben yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant – ac mewn sawl achos lle mae addasiad i les yn lleihau cwmpas les bresennol. Bydd ailbrisiadau o asedau hawl i ddefnyddio, os oes rhai, yn cael eu cydnabod yn y gronfa ailbrisio.

Mae Ofcom yn mesur y rhwymedigaeth lesoedd ar werth presennol y taliadau les sydd heb eu talu ar y dyddiad cychwyn, wedi'i disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd yn y les os yw'r gyfradd honno ar gael yn hwylus, neu yn unol â chyfradd Trysorlys EF o 3.51% ar gyfer blwyddyn galendr 2023 (0.95% ar gyfer blwyddyn galendr 2022).

Mae taliadau lesoedd sy'n cael eu cynnwys wrth fesur y rhwymedigaeth lesoedd yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys rhai sefydlog yn y bôn) ac, os oes rhai, y taliadau amrywiol ar sail mynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol, a thaliadau sy'n codi o opsiynau sy'n eithaf sicr o gael eu harfer.

Yn dilyn y mesur cychwynnol, bydd y rhwymedigaeth yn cael ei lleihau ar gyfer taliadau a wneir a'i chynyddu ar gyfer llog. Caiff ei hailfesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sefydlog yn y bôn. Pan gaiff y rhwymedigaeth lesoedd ei hailfesur, adlewyrchir yr addasiad cyfatebol yn yr ased hawl i ddefnyddio, neu'r Datganiad Incwm a Gwariant os yw'r ased hawl i ddefnyddio eisoes wedi'i leihau i sero.

Mae Ofcom wedi dewis rhoi cyfrif am lesoedd tymor byr ac am lesoedd asedau isel eu gwerth gan ddefnyddio'r dulliau ymarferol. Yn hytrach na chydnabod rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth lesoedd, mae'r taliadau mewn perthynas â'r rhain yn cael eu cydnabod fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Mae atebolrwydd am lesoedd nad ydynt wedi dechrau eto, y mae Ofcom wedi ymrwymo iddynt, yn cael ei gofnodi ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol dim ond o ddyddiad cytundeb les wedi'i lofnodi.

**Cost uniongyrchol gychwynnol**
Mae hyn yn golygu'r costau cynyddrannol o gael les na fyddent wedi codi oni bai am y les. Gall gynnwys costau fel ffioedd canfyddwr, comisiynau i asiantau ar gyfer sefydlu'r les, a ffioedd ymlaen llaw. Mae Ofcom wedi wynebu costau o'r fath o ganlyniad i lofnodi lesoedd newydd yn ystod y flwyddyn, ac mae'r rhain wedi cael eu hychwanegu at yr asedau hawl i ddefnyddio yn y datganiadau ariannol.

**Defnyddio ôl-ddoethineb**
Gall yr endid ddefnyddio ôl-ddoethineb wrth bennu cyfnod y les os bydd y contract yn cynnwys opsiynau i ymestyn y les neu i ddod â hi i ben. Dim ond pan fydd yr endid yn dilyn dull ôl-weithredol wedi ei addasu y bydd modd gwneud hynny. Un o fanteision allweddol dull ôl-weithredol wedi ei addasu yw y gall yr endid i drosglwyddo ei lesoedd gweithredol gan ddefnyddio gwybodaeth ar y dyddiad y mae'n dechrau ei ddefnyddio.

**Is-lesoedd**
Mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i leswyr canolradd ddosbarthu is-lesoedd fel les cyllid neu les weithredol fel a ganlyn:

- Os yw'r brif les yn les tymor byr, mae'r is-les yn cael ei dosbarthu fel les weithredol;
- Fel arall, mae'r is-les yn cael ei dosbarthu gan gyfeirio at yr ased hawl i ddefnyddio sy'n deillio o'r brif les, yn hytrach na chan gyfeirio at yr ased sylfaenol.

Mae Ofcom wedi dosbarthu ei is-lesoedd fel les cyllid ac felly:

- Mae'n datgydnabod yr ased hawl i ddefnyddio sy'n ymwneud â'r brif les y mae'n ei throsglwyddo i ddaliwr yr is-les, ac mae'n cydnabod y buddsoddiad net yn yr is-les
- Mae'n cydnabod unrhyw wahaniaeth rhwng yr ased hawl i ddefnyddio a'r buddsoddiad net yn yr is-les yn y Datganiad Incwm a Gwariant fel (Enillion)/Colled wrth waredu asedau anghyfredol
- Mae'n cadw'r rhwymedigaeth lesoedd sy'n ymwneud â'r brif les yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, sy'n cynrychioli taliadau'r les sy'n ddyledus i'r prif lesydd.

Yn ystod yr is-les, mae Ofcom, sef y lesydd canolradd, yn cydnabod y gwariant llog ar y brif les (rhwymedigaeth les) ac incwm cyllid ar yr is-les yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

## g) Asedau anniriaethol

Ar ôl cydnabod ased anniriaethol i gychwyn, caiff ei gario ar ei gost, llai unrhyw amorteiddiad cronedig ac unrhyw golledion amhariad sydd wedi cronni yn unol ag IAS 38 Asedau Anniriaethol. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd, ffioedd trwyddedau cysylltiedig, a'r dechnoleg gwybodaeth sy'n ymwneud â datblygu ein systemau craidd. Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol.

Caiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod dim ond os caiff ased ei greu y gellir ei ddynodi. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff costau datblygu eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y wynebwyd y gwariant.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn dod i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yn swm cario ymlaen yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff swm cario ymlaen y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Caiff amorteiddiad ar asedau anniriaethol a gyfalafwyd ei gofnodi ar y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased o 3 i 5 mlynedd. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae systemau sy'n cael eu datblygu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu meddalwedd a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u hamorteiddio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a waredir yn cael eu cydnabod yn '(Enillion)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol' yn yr adran 'Gwariant gweithredu arall' yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

## h) Amhariad ar eiddo, peiriannau a chyfarpar, asedau anniriaethol ac asedau hawl i ddefnyddio

Ar bob dyddiad adrodd, caiff gwerth cario ymlaen asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod amhariad wedi digwydd i werth cario ymlaen yr asedau, yn unol ag IAS 36 Amhariad ar Asedau.

Caiff swm cario ymlaen ased ei briodoli'n syth, fel colled amhariad, i'w swm adenilladwy os yw swm cario ymlaen yr ased yn fwy na'r amcangyfrif o'r swm adenilladwy.

Wrth fabwysiadu IFRS 16, cafodd yr holl lesoedd beichus ac amhariadau ar draws eiddo sydd eisoes yn cael ei lesio eu hailfesur er mwyn ystyried effaith newid y safonau cyfrifyddu ar gyfer lesoedd ar y broses o fesur amhariadau. Ni wnaed newidiadau yn y rhagdybiaethau sylfaenol yn ystod yr ailfesuriad hwn.

Caiff amhariadau sylweddol eu datgelu ar wahân yn y nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant a'r Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Caiff asedau sydd wedi bod yn destun amhariad eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r amhariad.

## i) Offerynnau Ariannol

**Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill**

Symiau masnach derbyniadwy yw'r arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Nid oes llog ar symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill, ac maen nhw'n cael eu cydnabod i gychwyn ar sail eu gwerth teg llai

unrhyw ddiddymu ar gyfer amhariad. Mae enillion a cholledion ar fesur dilynol yn cael eu cydnabod fel gwerth teg yn llwyr yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

Nid yw'r ansicrwydd ariannol byd-eang sy'n deillio o'r pandemig wedi cael fawr o effaith ar y gallu i adennill dyledion yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, ac felly nid oes unrhyw gynnydd sylweddol yn y risg i gredyd. Yn ystod y flwyddyn, lle mae rhanddeiliaid wedi cael anawsterau ariannol, mae Ofcom wedi darparu cyfleoedd ar gyfer cynlluniau talu ac wedi gohirio amseriad y taliadau.

Mae rhagdaliadau'n daliadau sydd wedi cael eu gwneud, ond nad yw'r buddion ohonynt wedi cael eu defnyddio.

Incwm cronedig - gweler Nodyn 1(b) Cydnabod Incwm

**Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod**
Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, arian ar gadw mewn banciau a symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol. Caiff incwm llog sydd i'w dderbyn ar arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

**Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill**
Ystyr symiau masnach taladwy yw dyletswyddau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr fel rhan o drefniadau busnes arferol. Caiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Ni cheir llog ar symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill, ac maent yn cael eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl eu gwerth teg.

Mae symiau taladwy eraill yn cynrychioli arian sy'n ddyledus i drydydd partïon ar y dyddiad adrodd.

Incwm gohiriedig - gweler Nodyn 1(b) Cydnabod Incwm.

**Risgiau ariannol ac amhariad ar offerynnau ariannol**
Mae IAS 32 Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad yn gofyn bod yr endid yn datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau a wynebir ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau. Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg wrth gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi arian dros ben. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid yw mabwysiadu IFRS 9 Offerynnau Ariannol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ganlyniadau Ofcom. Nid oes gan symiau masnach derbyniadwy nac asedau contract Ofcom unrhyw elfen gyllido sylweddol, ac nid ydynt yn agored chwaith i risgiau credyd, oherwydd os na fydd digon o ffioedd rhanddeiliaid wedi cael eu hadennill mewn blwyddyn, byddant yn cael eu hadennill drwy dariffau'r blynyddoedd dilynol. Mae Ofcom wedi asesu'r lwfans colledion ar gydnabyddiaeth gychwynnol yn unol â swm sy'n cyfateb i'r colledion credyd a ddisgwylir dros eu hoes, ac roedd y canlyniad yn amherthnasol. Felly, er mwyn sicrhau bod hyn yn aros yr un fath drwy gydol oes y swm derbyniadwy, mae Ofcom yn parhau i werthuso cadernid ei reolaeth credyd fisol a'r amhariad ar asedau ariannol, os o gwbl, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

## j) Buddion gweithwyr

**Pensiynau**
Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio, a chynllun nad yw'n cael ei ariannu.

**Cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio**
Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae Ofcom yn talu cyfraniadau i endid ar wahân ac nid oes ganddo rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau ychwanegol.

Mae'r rhwymedigaethau o dan gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio Ofcom yn cael eu cydnabod o fewn costau staff fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant fel y'u hwynebwyd. Gall staff newydd ymuno â'r cynllun pensiwn cyfranddeiliaid, sy'n gynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

**Cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio**
Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r buddion wedi'u diffinio, lle mae'r buddion y bydd gan aelodau hawl iddynt yn cael eu pennu ymlaen llaw gan fformiwla. Mae rhwymedigaeth net Ofcom yng nghyswllt cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio yn cael ei chyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif faint o fudd ar gyfer y dyfodol y mae gweithwyr wedi'i ennill tra oeddent yn aelodau

o'r cynllun. Mae'r budd hwnnw'n cael ei ddisgowntio i bennu ei werth presennol ac mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei ddidynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion (yield) ar y dyddiad adrodd ar y bondiau ansawdd uchel sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau rhwymedigaethau Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd.

Pan fydd y cyfrifo yn dwyn budd i Ofcom, mae'r ased cydnabyddedig yn cael ei gyfyngu i werth presennol unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol. Mae colledion ac enillion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn llawn o dan incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall yn y Datganiad o Incwm/(Gwariant) Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y byddant yn codi. Mae costau ac incwm llog, a chostau gweinyddu'r cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn y cyfnod cyfredol.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio sy'n gysylltiedig â staff a symudodd i Ofcom o reoleiddiwr blaenorol. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cau i aelodau newydd, ac ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cynllun maen nhw wedi cael eu cau ar gyfer croniadau i'r dyfodol er 1 Mehefin 2011.

Mae Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom yn darparu buddion sy'n gyfwerth fwy neu lai â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (hen gynllun ITC). Mae hwn yn gynllun ar gyfer sawl cyflogwr, a'r cyflogwyr sy'n cyfrannu yw Ofcom, S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA). Caiff asedau'r ddau gynllun eu dal mewn ymddiriedolaethau a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol o dan IAS 19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl rhagdybiaethau IAS 19, na ellir cydnabod y gwarged ar y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd "ar gael" iddo yn sgil y gwarged.

**Cynlluniau heb eu cyllido**
Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i ddau gyn-Gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, un cyn-Gadeirydd yr Awdurdod Radio a dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau. Rhoddir cyfrif am y buddion hyn nad ydynt yn cael eu hariannu o dan IAS 19 Buddion Gweithwyr drwy ddarpariaeth yn y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom sydd yr un fath â gwerth actiwaraidd y rhwymedigaethau hyn.

**Rhwymedigaeth yng nghyswllt gwyliau gweithwyr**
Dan IAS 19 Buddion Gweithwyr, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel gwariant cyn gynted ag y bydd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr yn codi. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan weithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor hawl i gael cyfnod sabothol â thâl o hyd at bum wythnos ac wedyn cronni un wythnos ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth hyd at uchafswm o ddeg wythnos.

Caiff croniad, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflogau, ei gynnwys fel rhan o groniadau. O 1 Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

## k) Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a darpariaethau cyfreithiol eu cydnabod:

Pan fydd y pecyn diswyddo ar gyfer rhai gweithwyr a symudodd i Ofcom ar hen delerau ac amodau cyflogaeth y Gwasanaeth Sifil yn cael ei ddarparu o'r dyddiad ymddeol yn gynnar tan yr oedran ymddeol. Bydd y gweithiwr yn cael taliad iawndal blynyddol sy'n hafal i'r pensiwn a gedwir, sy'n cael ei dalu drwy randaliadau misol mewn ôl-daliadau fel pensiwn. Mae'n dechrau cronni ar y diwrnod ar ôl y dyddiad ymddeol, ac yn parhau i gronni nes bydd y pensiwn sydd wedi'i gadw yn cael ei dalu, a bydd yn dod i ben bryd hynny.

Mae gan Ofcom rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol ac ar gyfer amcangyfrif o iawndal a chostau cyfreithiol trydydd parti mewn perthynas â heriau yn erbyn penderfyniadau rheoleiddio Ofcom pan fernir ei bod yn debygol y bydd yn rhaid talu'r rhain; mae'n debygol y bydd angen rhoi adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; ac mae'r amcangyfrif o'r swm yn un dibynadwy. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Pan geir amryw o rwymedigaethau tebyg, penderfynir a yw'n debygol y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried y dosbarth rhwymedigaethau yn ei gyfanrwydd. Caiff darpariaeth ei chydnabod hyd yn oed os yw'n bur annhebygol y caiff all-lif yng nghyswllt unrhyw un eitem ei chynnwys yn yr un dosbarth rhwymedigaethau.

## l) Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodiadau a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n bunnoedd yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn.

## m) Y dreth gyfredol

Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu. O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant a wynebir ganddo fel rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Mae modd asesu Treth Gorfforaeth ar y llog sy'n cael ei dderbyn, ac o ran incwm rhent.

## n) Dadansoddiad fesul segment

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgareddau mewn segment daearyddol na segment busnes, gan y cynhelir holl weithgareddau Ofcom yn y DU ac yn y sector rheoleiddio. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

## o) Meysydd y rhoddir barn arnynt a phrif ffynonellau ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, datgeliadau o ran rhwymedigaethau ac asedau wrth gefn, a'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau go iawn fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am safbwyntiau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisïau cyfrifyddu neu'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif feysydd isod.

Dyma'r meysydd y rhoddir barn arnynt sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Darpariaethau cyfreithiol – polisi cyfrifyddu (k)
- Cydnabod incwm ac asesu incwm heb ei filio – polisi cyfrifyddu (b)

Dyma'r meysydd lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i swm cario ymlaen asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiynau a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu (j)
- Barn ynghylch a yw contract yn cynnwys les (f)



## 2. Dadansoddiad o’r Sectorau

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, ynghyd â'r costau a briodolir iddynt. Mae’r dadansoddiad hwn yn cael ei baratoi yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011 ac nid yng nghyswllt IFRS 8 Segmentau Gweithredu, yn unol â pholisi cyfrifyddu 1 (n).

| | Rheoli Sbectrwm | Clirio Sbectrwm | Ffeilio Lloerennau | Gwybodaetham yrhwydwaitha gwasanaethau | Rhwydweithiau a gwasanaethau | Darlledu | Diogelwch Ar-lein | Rheoleiddio post | Gweithgareddau rheoleiddio eraill | Cyfanswm 2022/23 | Cyfanswm 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| **Incwm** | | | | | | | | | | | |
| Ffioedd trwyddedu, rheoleiddio a gweinyddu | - | - | 176 | - | 45,374 | 20,618 | - | 5,165 | - | 71,333 | 78,887 |
| Ffioedd ymgeisio | - | - | - | - | 215 | 184 | - | - | - | 399 | 573 |
| Cymorth Grant (GIA) | - | 1,356 | - | - | - | - | - | - | - | 1,356 | 10,050 |
| Derbyniadau WTA sydd wedi’u cadw | 53,643 | - | - | - | - | - | 42,944 | - | 12,280 | 108,867 | 76,534 |
| Incwm Cronedig / (Gohiriedig) | 627 | (1,356) | 645 | 268 | (5,096) | 1,531 | 2,508 | (469) | (1,589) | (2,931) | (7,735) |
| **Incwm gweithredu** | **54,270** | **-** | **821** | **268** | **40,493** | **22,333** | **45,452** | **4,696** | **10,691** | **179,024** | **158,309** |
| Incwm arall | 230 | - | 1 | - | 30 | 16 | 34 | 4 | 8 | 323 | 118 |
| Llog sydd i'w dderbyn | 29 | - | - | - | 22 | 13 | 25 | 3 | 6 | 98 | - |
| **Incwm ar ffurf arian parod** | **54,529** | **-** | **822** | **268** | **40,545** | **22,362** | **45,511** | **4,703** | **10,705** | **179,445** | **158,427** |
| Addasiadau i’r gwariant gweithredu | (259) | - | (1) | - | (52) | (29) | (59) | (7) | (14) | (421) | (118) |
| Costau eraill | (54,270) | - | (821) | (268) | (40,493) | (22,333) | (45,452) | (4,696) | (10,691) | (179,024) | (158,309) |
| **Gwariant gweithredu - arian parod** | **(54,529)** | **-** | **(822)** | **(268)** | **(40,545)** | **(22,362)** | **(45,511)** | **(4,703)** | **(10,705)** | **(179,445)** | **(158,427)** |
| Setliad Cyfreithiol | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **(54,529)** | **-** | **(822)** | **(268)** | **(40,545)** | **(22,362)** | **(45,511)** | **(4,703)** | **(10,705)** | **(179,445)** | **(158,427)** |
| **Gwarged ar sail costau arian parod** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau cymharol fesul sector | | | | | | | | | | | |
| **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023** | **(54,529)** | **-** | **(822)** | **(268)** | **(40,545)** | **(22,362)** | **(45,511)** | **(4,703)** | **(10,705)** | **(179,445)** | **-** |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 | (55,688) | (8,752) | (761) | (116) | (37,839) | (23,752) | (15,987) | (5,494) | (10,038) | (158,427) | - |

Mae gweithgareddau rheoleiddio eraill yn cynnwys:

- gwariant yng nghyswllt dyletswyddau ar gyfer ymholiadau cystadleuaeth, gweithgarwch prawf budd cyhoeddus, galwadau niwsans, diogelu defnyddwyr, gwaith paratoi ar gyfer y ddyletswydd diogelwch ar-lein a chostau ein dyletswyddau diogelwch telegyfathrebiadau; defnyddir derbyniadau mewn perthynas â'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i gyllido'r categorïau cost hyn;
- incwm dyfarnwyr;
- gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyriant parthed sbectrwm; ac
- incwm rhent o is-osod gofod dros ben mewn adeiladau.

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn nodyn 1(b) y cyfrifon hyn, mae cymorth grant a derbyniadau mewn perthynas â'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn cael eu dyrannu a'u cyfateb i gostau yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Caiff y tabl ar dudalen 126 ei baratoi ar sail arian wedi'i addasu (adjusted cash basis), sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiant nac amorteiddiad.

Mae ffioedd trwyddedu a gweinyddol Ofcom yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau arian parod. Pan geir mwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid. Fel arall, pan geir mwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, caiff y diffyg ei gasglu oddi wrth y rhanddeiliaid perthnasol, yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

Mae darlledu yn cynnwys y tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau i reoleiddio'r BBC.

Nid oedd unrhyw Incwm na Gwariant yn y gwaith Clirio Sbectrwm yn 2022/23 gan y bydd cam olaf ein gwaith yn ailddechrau yn 2023/24.

Mae Incwm a Gwariant ar gyfer Diogelwch Ar-lein wedi cynyddu wrth i Ofcom fwrw ymlaen â'r gwaith paratoi yn y sector hwn.



## Cysoni'r gwariant gweithredu â'r alldro costau gweithredu terfynol

| | Nodiadau | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredu – Datganiad Incwm a Gwariant** | | **175,220** | **154,541** |
| Addasiadau o ran rhwymedigaethau ac asedau pensiwn | | 749 | 844 |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisiant ac amorteiddiad | 8,10 | 3,134 | 1,419 |
| Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio | 9 | (5,098) | (4,993) |
| Taliadau lesoedd | 17 | 5,615 | 5,192 |
| Addasiadau eraill | | (175) | 1,424 |
| **Gwariant gweithredu – arian parod** | | **179,445** | **158,427** |
| Clirio sbectrwm | 4,6 | - | (8,752) |
| Tanysgrifiad yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU) | | (2,638) | (2,617) |
| Incwm Anweithredol | 3 | (418) | (118) |
| **Alldro costau gweithredu cyllid** | | **176,389** | **146,940** |

Mae addasiadau eraill yn adlewyrchu symudiadau mewn materion nad ydynt yn ymwneud ag arian parod yn ystod y flwyddyn.

Fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011, mae'r tabl isod yn dangos yr arian parod a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol a'r swm sy'n ddyledus ar gyfer y sectorau Rhwydweithiau a gwasanaethau, Darlledu a'r Post.

| | Arian parod a dderbyniwyd yn 2022/23 £'000 | Swm sy'n ddyledus £'000 |
|---|---|---|
| **Sector** | | |
| Rhwydweithiau a gwasanaethau | 32,555 | 47 |
| Darlledu | 22,947 | 104 |
| Post | 6,493 | 7 |
| **Cyfanswm** | **61,995** | **158** |

## 3. Incwm

| | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2022/23 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2021/22 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Grant yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon** | | | | | | |
| Clirio sbectrwm | - | - | - | – | 8,752 | 8,752 |
| **Cyfanswm cymorth grant** | **-** | **-** | **-** | **–** | **8,752** | **8,752** |
| **Derbyniadau WTA sydd wedi'u Cadw** | | | | | | |
| Rheoli Sbectrwm | 54,273 | - | 54,273 | 55,645 | - | 55,645 |
| Ôl-gystadleuaeth | 444 | - | 444 | 1,092 | – | 1,092 |
| Galwadau niwsans | 52 | - | 52 | 147 | – | 147 |
| Amddiffyn defnyddwyr | 3 | - | 3 | 8 | – | 8 |
| Llwyfan rhannu fideos | 5,095 | - | 5,095 | 5,696 | – | 5,696 |
| Prawf budd y cyhoedd | - | - | - | 100 | – | 100 |
| Diogelwch ar-lein | 45,452 | - | 45,452 | 15,975 | – | 15,975 |
| Dyletswyddau diogelwch telegyfathrebiadau | 4,773 | - | 4,773 | 2,808 | – | 2,808 |
| Systemau gwybodaeth a rhwydweithiau | 95 | - | 95 | 38 | – | 38 |
| HFSS | 207 | - | 207 | 140 | – | 140 |
| Y bil cyfryngau | 24 | - | 24 | – | – | – |
| Ffeilio lloerennau | 821 | - | 821 | 761 | - | 761 |
| **Cyfanswm derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw** | **111,239** | **-** | **111,239** | **82,410** | **–** | **82,410** |
| **Incwm rhanddeiliaid** | | | | | | |
| Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau | 40,493 | - | 40,493 | 37,809 | – | 37,809 |
| Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu | 21,974 | - | 21,974 | 23,733 | – | 23,733 |
| Rheoleiddio post | 4,696 | - | 4,696 | 5,490 | – | 5,490 |
| Incwm VOD | 359 | - | 359 | - | - | - |
| Systemau gwybodaeth a rhwydweithiau | 268 | - | 268 | 116 | – | 116 |
| Incwm is-les | 14 | - | 14 | – | - | - |
| Incwm arall | 402 | - | 402 | 117 | – | 117 |
| **Cyfanswm incwm rhanddeiliaid** | **68,206** | **-** | **68,206** | **67,265** | **–** | **67,265** |
| **Cyfanswm incwm** | **179,445** | **-** | **179,445** | **149,675** | **8,752** | **158,427** |

Mae rheoli sbectrwm yn cynnwys y tanysgrifiad blynyddol i'r Undeb Telegyfathrebu Rhyngwladol (ITU) sy'n cael ei dalu ar ran Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu yn cynnwys y tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau dros reoleiddio'r BBC.

Mae incwm Clirio Sbectrwm wedi'i gyflwyno ar wahân i incwm craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

## 4. Costau Staff

| | Ofcom | Clirio sbectrwm | Cyfanswm 2022/23 | Ofcom | Clirio sbectrwm | Cyfanswm 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Dyma'r costau staff, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd:** | | | | | | |
| Cyflogau a buddion | 88,405 | - | 88,405 | 73,439 | 212 | 73,651 |
| Costau Yswiriant Gwladol | 10,197 | - | 10,197 | 8,657 | 25 | 8,682 |
| Costau pensiwn | 9,017 | - | 9,017 | 7,857 | 17 | 7,874 |
| Costau ailstrwythuro | 436 | - | 436 | 40 | 60 | 100 |
| **Cyfanswm costau staff** | **108,055** | **-** | **108,055** | **89,993** | **314** | **90,307** |

Mae'r costau Clirio Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau staff craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

Yn ystod y flwyddyn cafodd 18 (2021/22: 24) o weithwyr secondiad i sefydliadau eraill. Felly, mae'r credyd hwn wedi'i gynnwys ar y llinell costau staff yn y tabl uchod.

Mae'r costau ailstrwythuro yn 2022/23 yn ymwneud â gweithgareddau ailstrwythuro a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer 10 o weithwyr (2021/22: 3) ac mae'n cynnwys costau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn sy'n ymwneud â 2 weithiwr (2021/22: Dim).

Mae gwybodaeth fanylach yng nghyswllt taliadau a hawliau pensiwn uwch swyddogion gweithredol a chyfarwyddwyr grŵp ar gael yn yr adroddiad taliadau ar dudalennau 100-107 .

## 5. Nifer y Gweithwyr

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) | 1,256 | 1,102 |

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan Ofcom 1,353 o weithwyr (cyfwerth ag amser llawn) (2021/22: 1,159), sy'n fwy na'r llynedd – yn bennaf oherwydd y gwaith paratoi ar gyfer ein dyletswydd newydd yn ymwneud â Diogelwch Ar-lein.

Nid yw nifer y gweithwyr yn cynnwys Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori na gweithwyr sydd wedi cael secondiad i Ofcom.

## 6. Gwariant gweithredu arall

| | Ofcom | Clirio sbectrwm | Cyfanswm 2022/23 | Ofcom | Clirio sbectrwm | Cyfanswm 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Talu archwilwyr – ffioedd archwilio statudol | 130 | - | 130 | 127 | – | 127 |
| Talu archwilwyr – Adran 400 | 17 | - | 17 | 16 | – | 16 |
| Ffioedd proffesiynol | 5,980 | - | 5,980 | 6,627 | 191 | 6,818 |
| Gwasanaethau a ddarperir yn allanol | 12,168 | - | 12,168 | 10,423 | – | 10,423 |
| Ymchwil i'r gynulleidfa a'r defnyddwyr | 7,822 | - | 7,822 | 5,183 | – | 5,183 |
| Ymchwil dechnolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm | 1,184 | - | 1,184 | 281 | – | 281 |
| Cynllun clirio sbectrwm | - | - | - | – | 8,243 | 8,243 |
| Staff dros dro a recriwtio | 5,787 | - | 5,787 | 5,405 | – | 5,405 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,868 | - | 1,868 | 327 | – | 327 |
| Costau eiddo | 7,496 | - | 7,496 | 5,635 | – | 5,635 |
| Costau gweinyddol a chostau swyddfa | 8,760 | - | 8,760 | 7,365 | – | 7,365 |
| Costau technoleg a gwybodaeth | 8,227 | - | 8,227 | 6,972 | 4 | 6,976 |
| Cerbydau | 190 | - | 190 | 179 | – | 179 |
| Drwgddyledion a dyledion amheus | 46 | - | 46 | (1) | – | (1) |
| Amorteiddiad | 22 | - | 22 | 135 | – | 135 |
| Dibrisiant | 2,266 | - | 2,266 | 2,128 | – | 2,128 |
| Dibrisiant asedau Ies Hawl i Ddefnyddio | 5,098 | - | 5,098 | 4,993 | – | 4,993 |
| Colled ar waredu asedau anghyfredol | 104 | - | 104 | 1 | – | 1 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu arall** | **67,165** | **-** | **67,165** | **55,796** | **8,438** | **64,234** |

Mae'r costau Clirio Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i wariant gweithredu arall Ofcom, sy'n gostau craidd, er mwyn bod yn dryloyw a rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

Gellir priodoli colled o £104k wrth waredu asedau anghyfredol yn uniongyrchol i is-les rhannol y 4ydd llawr yn swyddfa Llundain.

Mae cyfanswm y gwariant a gafwyd yn uniongyrchol o ganlyniad i weithredu mesurau Covid-19 i'w weld isod. Mae'r gwariant hwn wedi cael ei gyflwyno fel rhan o gyfanswm y gwariant gweithredu arall ar gyfer y flwyddyn.

| | Ofcom | Clirio sbectrwm | Cyfanswm 2022/23 | Ofcom | Clirio sbectrwm | Cyfanswm 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Covid-19 | - | – | - | 281 | - | 281 |

## 7. Trethiant

| | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| **Cysoni'r tâl treth** | | |
| Gwarged cyn treth | 3,925 | 3,267 |
| Treth ar elw ar gyfradd safonol Treth Gorfforaeth y DU, sef 19% (2021/22: 19%) | 746 | 621 |
| **Effaith treth:** | | |
| Incwm na thelir treth arno | (34,070) | (30,093) |
| Costau na thelir treth arnynt | 33,349 | 29,480 |
| Lleihad yn y colledion treth a ddygwyd ymlaen | (25) | (8) |
| **Costau treth** | **-** | **-** |

Ar y dyddiad adrodd, roedd gan Ofcom golledion treth nas defnyddiwyd i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol o £11,155k (2021/22: £11,285k). Nid oes unrhyw asedau treth gohiriedig cydnabyddedig yng nghyswllt y colledion hyn, gan nad yw'n debygol y bydd digon o incwm trethadwy'n codi y gellir defnyddio'r colledion yn ei erbyn.

# 8. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Gwelliannau les | Gosodiadau a ffitiadau | Offer swyddfa a maes | Caledwedd cyfrifiadurol | Cerbydau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | **8,329** | **1,890** | **13,510** | **1,686** | **736** | **409** | **26,560** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | – | 114 | 29 | 546 | – | 2,989 | 3,678 |
| Gwarediadau | (5) | (13) | (2,972) | (25) | – | – | (3,015) |
| Trosglwyddiadau | – | – | 323 | 94 | – | (417) | – |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **8,324** | **1,991** | **10,890** | **2,301** | **736** | **2,981** | **27,223** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 1,305 | 235 | 1,559 | 22 | - | 2,160 | 5,281 |
| Gwarediadau | (19) | - | (88) | (19) | - | - | (126) |
| Trosglwyddiadau | 386 | 12 | 2,411 | 1,344 | - | (4,153) | - |
| **Costau ar 31 Mawrth 2023** | **9,996** | **2,238** | **14,772** | **3,648** | **736** | **988** | **32,378** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | **2,173** | **778** | **10,988** | **1,385** | **599** | **–** | **15,923** |
| Swm am y flwyddyn | 716 | 266 | 761 | 306 | 79 | – | 2,128 |
| Gwarediadau | (5) | (11) | (2,973) | (25) | – | – | (3,014) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **2,884** | **1,033** | **8,776** | **1,666** | **678** | **-** | **15,037** |
| Swm am y flwyddyn | 677 | 271 | 906 | 356 | 56 | - | 2,266 |
| Gwarediadau | (4) | - | (88) | (19) | - | - | (111) |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2023** | **3,557** | **1,304** | **9,594** | **2,003** | **734** | **-** | **17,192** |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2023** | **6,439** | **934** | **5,178** | **1,645** | **2** | **988** | **15,186** |
| Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2022 | 5,440 | 958 | 2,114 | 635 | 58 | 2,981 | 12,186 |

Mae cyfarpar a brynwyd ar gyfer y rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cynnwys yng nghofrestri asedau Ofcom o dan Offer Maes.

# 9. Asedau hawl i ddefnyddio

Mae Ofcom yn lesio asedau, gan gynnwys adeiladau, cerbydau a chyfarpar swyddfa. Cyflwynir isod wybodaeth am lesoedd y mae Ofcom yn lesddeiliad arnynt.

| | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | **52,116** | **241** | **233** | **52,590** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 1,020 | 516 | 7 | 1,543 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **53,136** | **757** | **240** | **54,133** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 3,105 | - | - | 3,105 |
| Gwarediadau | (3,165) | (159) | (115) | (3,439) |
| **Costau ar 31 Mawrth 2023** | **53,076** | **598** | **125** | **53,799** |
| | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | **9,224** | **179** | **114** | **9,517** |
| Swm am y flwyddyn | 4,861 | 87 | 45 | 4,993 |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2022** | **14,085** | **266** | **159** | **14,510** |
| Swm am y flwyddyn | 4,950 | 123 | 25 | 5,098 |
| Gostyngiad | (1,198) | (159) | (115) | (1,472) |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2023** | **17,837** | **230** | **69** | **18,136** |
| | | | | |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2023** | **35,239** | **368** | **56** | **35,663** |
| Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2022 | 39,051 | 491 | 81 | 39,623 |

Ymrwymodd Ofcom i les ar gyfer swyddfa newydd yng Nghaeredin yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

# 10. Asedau anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Systemau sy'n cael eu datblygu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | **5,417** | **17,943** | **–** | **23,360** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | - | - | 4 | 4 |
| Gwarediadau | (305) | (268) | - | (573) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **5,112** | **17,675** | **4** | **22,791** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | - | 55 | 86 | 141 |
| Gwarediadau | (734) | (5,375) | - | (6,109) |
| **Costau ar 31 Mawrth 2023** | **4,378** | **12,355** | **90** | **16,823** |
| | | | | |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | **5,306** | **17,888** | **–** | **23,194** |
| Swm am y flwyddyn | 111 | 24 | - | 135 |
| Gwarediadau | (305) | (268) | - | (573) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **5,112** | **17,644** | **-** | **22,756** |
| Swm am y flwyddyn | - | 22 | - | 22 |
| Gwarediadau | (734) | (5,375) | - | (6,109) |
| **Amorteiddiad cronedig ar 31 Mawrth 2023** | **4,378** | **12,291** | **-** | **16,669** |
| | | | | |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2023** | **-** | **64** | **90** | **154** |
| Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2022 | - | 31 | 4 | 35 |

## 11. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2023 | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 232 | 2,992 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 70 | 640 |
| Rhagdaliadau | 7,474 | 5,930 |
| Benthyciadau a blaendaliadau staff | 36 | 48 |
| Incwm Cronedig – Arall | 9 | - |
| Incwm Cronedig – Rhanddeiliad | 980 | 4,865 |
| Incwm Cronedig – Cymorth grant | - | 134 |
| Incwm Cronedig – Derbyniadau WTA | 3,820 | 6,063 |
| **Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol** | **12,621** | **20,672** |

Roedd y gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy yn deillio o oedi cyn cyflwyno ffioedd rhanddeiliaid ar ôl symud o SAP i Workday yn chwarter olaf 2021/22.

Cafodd yr holl anfonebau eu codi a chafodd y rhan fwyaf eu setlo'n brydlon yn 2022/23.

Roedd y cynnydd mewn Rhagdaliadau yn ganlyniad i chwyddiant yng nghostau'r eiddo (ee trydan, taliadau gwasanaeth) ac roedd cynnydd mewn costau Gwasanaethau Gwybodaeth oherwydd cyfuniad o gynnydd mewn chwyddiant a thwf yn y grŵp Diogelwch Ar-lein.

Mae'r gostyngiad mewn Incwm Cronedig – Rhanddeiliad yn deillio o'r ffaith bod y gwir wariant ar gyfer y flwyddyn yn cyd-fynd yn well â'r costau a gyllidebwyd yn 2022/23.

## 12. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2023 | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm Cronedig – Rhanddeiliad | 2,023 | 542 |
| **Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol** | **2,023** | **542** |

Y sector teledu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (2022/23 £1,575k; 2021/22 £263k) sy'n bennaf gyfrifol am y cynnydd, a hynny oherwydd bod costau'r sector yn fwy na'r rhagolygon. Bydd y swm hwn yn cael ei adennill o'r sector yn 2024/25.

## 13. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 13,396 | 20,920 |
| **Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | **13,396** | **20,920** |

Mae'r holl weithgareddau a'r balansau arian parod sy'n gysylltiedig â Chosbau a Ffioedd Trwyddedu ar wahân i gyfrifon Ofcom, ac yn cael eu datgelu yng nghyfrifon Adran 400.

## 14. Symiau derbyniadwy les

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad aeddfedrwydd o symiau derbyniadwy taliadau lesoedd ar sail llifoedd arian parod gros heb eu disgowntio a llifoedd arian parod net wedi'u disgowntio:

### Dadansoddiad aeddfedrwydd – llifoedd arian parod contractiol: heb eu disgowntio

| | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Y flwyddyn gyntaf | 284 | - |
| Yr ail flwyddyn | 290 | - |
| Y drydedd flwyddyn | 296 | - |
| Y bedwaredd flwyddyn | 301 | - |
| Y bumed flwyddyn | 308 | - |
| Mwy na phum mlynedd | 634 | - |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy lesoedd: heb eu disgowntio** | **2,113** | **-** |
| Incwm cyllid ar gyfer is-lesoedd | (273) | - |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy lesoedd: wedi eu disgowntio** | **1,840** | **-** |

### Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol

| | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy lesoedd: asedau cyfredol | 220 | - |
| Symiau derbyniadwy lesoedd: asedau anghyfredol | 1,620 | - |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy lesoedd: wedi eu disgowntio** | **1,840** | **-** |

## Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant

| | **Ar 31 Mawrth 2023** £'000 | **Ar 31 Mawrth 2022** £'000 |
|---|---|---|
| Llog ar symiau derbyniadwy lesoedd (wedi ei gynnwys o dan incwm cyllid) | (66) | - |
| Incwm o asedau hawl i ddefnyddio is-lesoedd (wedi'u cynnwys o dan incwm) | (14) | - |

## Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Llifoedd Arian Parod

| | **Ar 31 Mawrth 2023** £'000 | **Ar 31 Mawrth 2022** £'000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y mewnlif arian ar gyfer is-lesoedd | 104 | - |

Ymrwymodd Ofcom i drefniant is-les newydd ar gyfer rhan o'r 4ydd llawr yn swyddfa Llundain yn y flwyddyn ariannol hon. Mae lesoedd yn cael eu disgowntio ar sail un gyfradd nominal ar gyfer lesoedd, sef 3.51 y cant ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2023.

Mae contract y les yn trosglwyddo'r holl risgiau a'r manteision o ddefnyddio'r gofod o Ofcom i'r is-denant. Mae hyn yn golygu mai dim ond yr is-denant gaiff ddefnyddio'r ased hawl i ddefnyddio o dan gontract, a rhaid iddynt ddychwelyd yr eiddo i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd yr is-les. Yn ogystal â'r rhent a dalwyd gan yr is-denant, bydd costau cynnal a chadw a chostau rhedeg cysylltiedig eraill hefyd yn cael eu had-dalu iddynt. Nid oes unrhyw effaith ar delerau ac amodau'r les wreiddiol rhwng Ofcom a'r landlord a bydd Ofcom yn parhau i gyflawni ei rwymedigaethau i'r landlord.

## 15. Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy | 1,163 | 5,894 |
| Nawdd cymdeithasol a threth arall | 7 | - |
| Symiau taladwy eraill | 239 | 1,103 |
| Treth ar Werth sy'n daladwy | 152 | 128 |
| Croniadau | 9,683 | 8,854 |
| Incwm Gohiriedig – Arall | - | 852 |
| Incwm Gohiriedig – Rhanddeiliad | 11,567 | 13,508 |
| Incwm Gohiriedig – Cymorth grant | 1,360 | 1,292 |
| Incwm Gohiriedig – Derbyniadau WTA | 3,724 | 4,883 |
| **Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol** | **27,895** | **36,514** |

Mae'r symudiad mewn symiau masnach taladwy yn deillio o amseriad y set derfynol o daliadau cyflenwyr a wnaed ddechrau mis Ebrill 2022 ar gyfer 2021/22.

Mae'r gostyngiad mewn Incwm Gohiriedig – Rhanddeiliad yn deillio o'r ffaith bod y gwir wariant ar gyfer y flwyddyn yn cyd-fynd yn well â'r costau a gyllidebwyd yn 2022/23. Bydd y swm hwn yn cael ei ddychwelyd i'r sector yn 2024/25.

## 16. Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm Gohiriedig – Rhanddeiliad | 237 | 5,547 |
| **Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol** | **237** | **5,547** |

Mae'r gostyngiad mewn Incwm Gohiriedig – Rhanddeiliad yn deillio o'r ffaith bod y gwir wariant ar gyfer y flwyddyn yn cyd-fynd yn well â'r costau a gyllidebwyd yn 2022/23, yn enwedig yn y Sector Rhwydweithiau a Gwasanaethau.

## 17. Rhwymedigaethau lesoedd

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad aeddfedrwydd o'r rhwymedigaethau lesoedd ar sail llifoedd arian parod gros heb eu disgowntio:

| | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Arall £'000 | Ar 31 Mawrth 2023 Cyfanswm £'000 | Ar 31 Mawrth 2022 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad Aeddfedrwydd – llifoedd arian parod contractiol: heb eu disgowntio** | | | | | |
| Llai na blwyddyn | 5,565 | 119 | 24 | 5,708 | 5,564 |
| Rhwng un a phum mlynedd | 22,129 | 212 | 30 | 22,371 | 21,073 |
| Mwy na phum mlynedd | 14,737 | - | - | 14,737 | 18,050 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd: heb eu disgowntio** | **42,431** | **331** | **54** | **42,816** | **44,687** |

Nid yw Ofcom yn wynebu risg sylweddol o ran hylifedd yng nghyswllt ein rhwymedigaethau lesoedd.

| | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau a gydnabyddir yn y datganiad am y sefyllfa ariannol** | | |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau cyfredol | 4,892 | 4,766 |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau anghyfredol | 34,163 | 36,009 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd: wedi eu disgowntio** | **39,055** | **40,775** |

Mae lesoedd yn cael eu disgowntio ar sail un gyfradd nominal ar gyfer lesoedd, sef 3.51 y cant ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2023 (2022:0.95 y cant, 2021: 0.91 y cant, 2020: 1.27 y cant). Mae lesoedd sy'n newid i IFRS 16 cyn Ionawr 2020 ac yn ystod blwyddyn galendr 2019 yn cael eu disgowntio ar gyfradd ddisgownt y flwyddyn flaenorol, sef 1.99 y cant, yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Fawrhydi.

Yn ystod blwyddyn 2022/23, llofnododd Ofcom gontract les ar gyfer swyddfa newydd yng Nghaeredin. Dechreuodd y les ar 13 Mawrth 2023, a disgwylir iddi redeg tan 12 Mawrth 2033 gyda chyfnod di-rent cychwynnol o 7 mis, sy'n ychwanegu £3,050k at yr asedau hawl i ddefnyddio a £2,939k at y rhwymedigaeth lesoedd.

Yn gyffredinol, mae pob les yn gosod cyfyngiad – oni bai fod gan Ofcom hawl gontractiol i isosod yr ased i barti arall, dim ond Ofcom all ddefnyddio'r ased hawl i ddefnyddio. Ni ellir canslo lesoedd, neu ni ellir eu canslo heb dalu ffi terfynu sylweddol. Mae rhai lesoedd yn cynnwys opsiwn i brynu'r ased sylfaenol sy'n cael ei lesio ar ddiwedd y les, neu i ymestyn y les am gyfnod arall. Mae Ofcom wedi'i wahardd rhag gwerthu nac ymrwymo'r asedau sylfaenol sy'n cael eu lesio fel gwarant. O ran lesoedd adeiladau, rhaid i Ofcom gadw'r eiddo hwnnw mewn cyflwr da a dychwelyd yr eiddo yn ei gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y les. Ar ben hynny, rhaid i Ofcom yswirio asedau hawl i ddefnyddio a thalu ffioedd cynnal a chadw ar asedau o'r fath, yn unol â chontract y les.

| | Ar 31 Mawrth 2023 £'000 | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant** | | |
| Llog ar rwymedigaethau lesoedd (wedi ei gynnwys o dan gostau cyllid) | 901 | 868 |
| Gwariant sy'n ymwneud â lesoedd tymor byr (wedi'i gynnwys o dan wariant gweithredu arall) | 14 | 3 |
| Gwariant sy'n ymwneud â lesoedd asedau isel eu gwerth (wedi'i gynnwys o dan wariant gweithredu arall) | 27 | 23 |
| **Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Llifoedd Arian Parod** | | |
| Cyfanswm y llif arian parod allan ar gyfer lesoedd | (5,615) | (5,192) |

## 18. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ymddeol yn gynnar £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2021** | **161** | **–** | **161** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd (wedi'u cynnwys o dan gostau cyllid) | 5 | – | 5 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (11) | – | (11) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **155** | **–** | **155** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd (wedi'u cynnwys o dan gostau cyllid)) | (25) | - | (25) |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (12) | | (12) |
| **Cyfanswm y darpariaethau ar 31 Mawrth 2023** | **118** | **-** | **118** |

| | Ymddeol yn gynnar £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o pryd y disgwylir y llifoedd arian parod** | | | |
| **Cyfredol** | | | |
| Llai na blwyddyn | 12 | - | 12 |
| **Cyfanswm cyfredol** | **12** | **-** | **12** |
| **Anghyfredol** | | | |
| Rhwng un a phum mlynedd | 45 | - | 45 |
| Mwy na phum mlynedd | 61 | - | 61 |
| **Cyfanswm anghyfredol** | **106** | **-** | **106** |
| **Cyfanswm y darpariaethau ar 31 Mawrth 2023** | **118** | **-** | **118** |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymddeol yn gynnar, sef £118k (2021/22: £155k) ar gyfer Taliadau Iawndal Blynyddol, sy'n rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil.

Cyfrifir y darpariaethau yn unol â gofynion IAS 37. Bydd disgownt o 1.70 y cant ar y darpariaethau ymddeol yn gynnar (2021/22: -1.30 y cant) y flwyddyn yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Fawrhydi; bydd pob darpariaeth arall sydd â therfyn amser o 1 i 5 mlynedd yn destun disgownt yn ôl y gyfradd ddisgownt tymor byr o 3.27 y cant (2021/22: 0.47 y cant), a bydd gan ddarpariaethau sydd â therfyn amser o 5 i 10 mlynedd gyfradd tymor canolig o 3.20 y cant (2021/22: 0.70 y cant).

Mae modd apelio yn erbyn penderfyniadau rheoleiddio Ofcom. Gallai apeliadau yn erbyn penderfyniadau Ofcom arwain at rwymedigaethau ar gyfer costau cyfreithiol. Bydd Ofcom yn gwneud darpariaeth yn y datganiadau ariannol am gostau i'r graddau eu bod yn debygol ac yn fesuradwy.

## 19. MG Alba

Yn unol ag Adran 210 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 o Ddeddf Darlledu 1990, talodd Gweinidogion yr Alban £13,380k (2021/22: £13,530k) i Ofcom. Nid yw'r symiau wedi'u hadlewyrchu yn natganiadau ariannol Ofcom, gan fod Ofcom wedyn yn eu talu i'r Gronfa Darlledu Gaeleg o dan reolaeth Seirbheis nam Meadhanan Gàidhlig (MG Alba). Mae MG Alba yn paratoi adroddiadau a datganiadau ariannol ar wahân ar gyfer hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd Ofcom yn anfon y rhain at Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac at Weinidogion yr Alban i'w cyflwyno gerbron Senedd yr Alban.

## 20. Rhwymedigaethau buddion ymddeol

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau heb eu hariannu.

### a) Cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio – cynllun pensiwn cyfranddeiliaid

Prif ffordd Ofcom o ddarparu buddion pensiwn i'w gydweithwyr yw drwy gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Cyfrannodd y cyflogwr £8,251k yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 (2021/22: £7,104k). Mae'r Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio hefyd yn cynnwys adran cyfraniadau wedi'u diffinio. Ond, mae wedi cau bellach ac nid oes dim mwy o gyfraniadau'n cael eu gwneud i'r trefniant hwn.

### b) Cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio

Mae gan Ofcom ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio, er i'r ddau gau i groniadau yn y dyfodol ar 1 Mehefin 2011:

- Sefydlwyd Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Cyfraniad y cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi eu Diffinio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 oedd £4k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2021/22: £3k). Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £960k eu trosglwyddo o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i Gynllun Pensiwn Ofcom (â'r Buddion wedi'u Diffinio) yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 (2021/22: £360,000); a

- Chynllun Pensiwn Staff Ofcom (hen gynllun ITC), y mae Ofcom yn rhan ohono ar y cyd â thri sefydliad arall, sef S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Staff Ofcom (hen gynllun ITC) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 oedd £11k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2021/22: £10k). Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £1,580k eu trosglwyddo o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i Gynllun Pensiwn Staff Ofcom (hen gynllun ITC) yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 (2021/22: £180k).

Rheolir y ddau Gynllun hyn gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n annibynnol ar Ofcom.

Pennir cyfraniadau arian parod Ofcom i'r ddau gynllun hyn yn unol â Deddf Pensiynau 2004. O dan y ddeddf rhaid bod yn llawer mwy darbodus wrth fesur y rhwymedigaethau nag o dan IFRS. Cafodd prisiadau ariannu o dan Ddeddf Pensiynau 2004, gyda dyddiad dod i rym o 31 Mawrth 2021, eu cwblhau ar gyfer y ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio ac, yn wahanol i IFRS, roeddent yn dangos diffyg cyfun o £0.6m.

Cytunwyd ar amserlenni cyfraniadau gydag Ymddiriedolwr y ddau gynllun o ganlyniad i'r prisiadau hyn. Dan yr amserlenni presennol, mae disgwyl i Ofcom gyfrannu £540k at y ddau gynllun â'r buddion wedi eu diffinio dros y 12 mis nesaf ar gyfer talu costau'r Cynlluniau. Ar ben hynny, cytunodd Ofcom i dalu £1.4m erbyn 31 Gorffennaf 2022 i dalu am gyfraniadau lleihau diffyg ar gyfer Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (hen gynllun ITC) a £0.6m erbyn mis Hydref 2022 mewn perthynas â chostau gweithredu'r weithred ailbrisio ar gyfer Cynllun Pensiwn Buddion Wedi'u Diffinio Ofcom. Talwyd y cyfraniadau hyn gan yr Ymddiriedolaeth Bwydo ar 21 Gorffennaf a 12 Hydref 2022 yn y drefn honno. Mae Ofcom hefyd yn ad-dalu'r Cynlluniau ar gyfer ardollau sy'n gysylltiedig â phensiwn.

Mae gan Ofcom gyfrif Ymddiriedolaeth Bwydo sydd wedi'i ymgorffori yn Asedau'r Cynllun Pensiwn. Dim ond i un o'r ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo, ac ni cheir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom ydy'r mecanwaith mae Ofcom yn ei ddefnyddio i roi arian o'r neilltu er mwyn gwneud cyfraniadau yn y dyfodol ac i dalu am gostau rhedeg ein dau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom a Chynllun Pensiwn Staff Ofcom (hen gynllun ITC).

Mae arian sy'n cael ei drosglwyddo i Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn ariannol pan gaiff y trosglwyddiad ei wneud, ond wedyn mae modd defnyddio'r arian hwn mewn cyfnodau sydd i ddod. Fydd dim ond modd defnyddio'r arian sy'n cael ei gadw yn y Cyfrif Bwydo er mwyn talu am y cynlluniau pensiwn yn unol â'r atodlen gyfraniadau ar gyfer pob Cynllun neu drwy daliad ad hoc a fydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom mewn perthynas â phrosiect penodol (fel ymarfer i leihau risg) yn ogystal ag i dalu am gostau rhedeg y cynlluniau.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, cyfrannodd Ofcom £1,500k at yr Ymddiriedolaeth Bwydo (2021/22: £1,600k), Balans yr Ymddiriedolaeth Bwydo ar 31 Mawrth 2023 oedd £7,762k (2021/22: £8,797k).

Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am fodloni rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu ar ran cyn-Gadeiryddion y Comisiwn Teledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio, ynghyd â chyn-Gyfarwyddwyr Cyffredinol Telegyfathrebiadau. Ni chaiff y ddarpariaeth pensiynau ei hariannu, ac mae'r buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a chael eu gwarantu gan Ofcom. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Ceisiwyd cyngor actiwari er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel realistig.

**Cydraddoli pensiynau sylfaenol wedi eu gwarantu**

Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys yn achos Lloyds Bank ar 26 Hydref 2018, a ddyfarnodd ei bod yn rhaid i gynlluniau addasu buddion er mwyn cydraddoli Pensiynau Sylfaenol Wedi'u Gwarantu (GMPs) rhwng dynion a menywod, fe wnaeth Ofcom lwfans ar gyfer effaith bosibl hyn ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn wedi cael ei ganiatáu ar gyfer cost gwasanaeth yn y gorffennol yn y Datganiad o Incwm a Gwariant. Roedd lwfans o £284k wedi cael ei wneud mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Staff Ofcom (Hen Gynllun ITC), ac roedd lwfans o £14k wedi cael ei wneud mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Buddion wedi'u Diffinio Ofcom.

Mae Ymddiriedolwyr y Cynlluniau'n dal i wneud cynnydd i gydraddoli Pensiynau Sylfaenol wedi eu Gwarantu. Ni fyddwn yn gwybod faint fydd hyn yn ei gostio i gyd nes byddant wedi cael eu cydraddoli'n llawn (ac mae'n siŵr na fydd hynny'n digwydd am flynyddoedd lawer).

**Cydraddoli Gwerthoedd Hanesyddol pensiynau sylfaenol wedi eu gwarantu**

Ar 20 Tachwedd 2020, gwnaeth yr Uchel Lys ei ddyfarniad diweddaraf ar gydraddoli Pensiynau Sylfaenol Wedi eu Gwarantu mewn perthynas â thaliadau gwerth trosglwyddo. Daeth i'r casgliad y bydd yn rhaid i drosglwyddiadau hanesyddol ers 17 Mai 1990, a oedd yn cynnwys Pensiynau Sylfaenol Wedi eu Gwarantu a gronnwyd ar ôl y dyddiad hwn, gael eu cydraddoli. Nid oes dadansoddiad wedi ei wneud i sefydlu'r atebolrwydd posibl am y Cynlluniau o ganlyniad i'r dyfarniad diweddaraf gan mai cymharol gyfyngedig fu'r gweithgarwch gwerth trosglwyddo yn y gorffennol, ac felly ni ddisgwylir i'r atebolrwydd ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw werth trosglwyddo hanesyddol fod yn sylweddol.

**Gweithred Ddiwygio 2018**

Darparwyd ar gyfer cost gwasanaeth blaenorol ychwanegol o £377,000 yn y Cynllun Buddion wedi eu Diffinio ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2019. Roedd hyn o ganlyniad i Weithred Diwygio a gafodd ei gweithredu mewn perthynas â Chynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar 28 Gorffennaf 2018. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn i reolau, roedd yn rhaid ailgyfrifo buddion rhai aelodau sy'n bensiynwyr, a oedd wedi arwain at gynnydd yn eu buddion. O ganlyniad i gyfrifiadau diwygiedig fel rhan o'r ymarfer hwn, fe wnaeth cyfanswm yr addasiad godi ym Mlwyddyn Ariannol 2022 a chafodd £500k ei gydnabod ar y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022. Ar ôl cwblhau ymarfer yr Ymddiriedolwyr, mae taliadau ôl-ddyledion a chodiadau i bensiynau a dalwyd rhwng 1 Mehefin 2022 a 31 Mawrth 2023 wedi cael eu cynnwys fel taliadau buddion yn natganiad IAS 19 blwyddyn ariannol 2023. Effaith yr ymarfer wedi'i hailgyfrifo ar 31 Mawrth 2023 oedd £400k. Mae'r gostyngiad o £100k o'i gymharu â'r lwfans o £500k a wnaed ar y dyddiad cyfrifyddu blaenorol wedi cael ei gydnabod o dan Incwm Cynhwysfawr Arall.

**Newidiadau posibl i'r Mynegai Prisiau Manwerthu**

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA) wedi dweud ei fod yn bwriadu newid y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), erbyn 2030 fan hwyraf, er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r CPIH (y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchnogion-feddianwyr). Cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater yn ystod 2020, a oedd yn edrych ar yr amseru a'r fethodoleg i'w defnyddio mewn unrhyw newid. Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn eu rhyddhau ar 25 Tachwedd 2020. Daeth i'r casgliad y bydd RPI yn cael ei ddiwygio i gyd-fynd â'r CPIH gyda'r trawsnewid yn digwydd yn ystod 2030, ac na fyddai iawndal yn cael ei dalu i ddeiliaid giltiau mynegrifol. Mewn ymateb i'r cyhoeddiad hwn, cafodd tarddiad rhagdybiaethau RPI a CPI eu hadolygu ar 31 Mawrth 2021. Bydd Ofcom yn parhau i ystyried canlyniad yr ymgynghoriad i bennu'r rhagdybiaethau chwyddiant a ddefnyddir i bennu'r DBO at ddibenion cyfrifyddu ar 31 Mawrth 2023.

Mae Ofcom wedi penderfynu bod cromlin chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), sy'n seiliedig ar y farchnad, yn dal yn sail resymol ar gyfer amcangyfrif cynnydd tymor hir mewn pensiynau sy'n gysylltiedig ag RPI ar 31 Mawrth 2023, gan gynnwys y newidiadau yn RPI i CPIH, ac mae tarddiad rhagdybiaethau chwyddiant RPI ar 31 Mawrth 2023 wedi aros yn gyson â blynyddoedd blaenorol. I darddu'r dybiaeth CPI, mae Ofcom wedi penderfynu ei bod yn briodol cynnal y dull a fabwysiadwyd ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, gan arwain at wahaniaeth rhwng RPI a CPI o 0.75% ar 31 Mawrth 2023, gan ystyried nodweddion a phroffiliau aelodaeth y cynlluniau DB.

## Crynodeb o rwymedigaethau pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio Ofcom

Dyma'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir 31 Mawrth 2023 | Rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu 31 Mawrth 2023 | Cyfanswm y buddion ymddeol 31 Mawrth 2023 | Pensiynau ar buddion wedi'u diffinio a ariennir 31 Mawrth 2023 | Rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu 31 Mawrth 2022 | Cyfanswm y buddion ymddeol 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Statws ariannu, diwedd y flwyddyn | | | | | | |
| – Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau gohiriedig | (45,814) | - | (45,814) | (64,977) | – | (64,977) |
| – Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau sy'n bensiynwyr | (158,150) | (804) | (158,954) | (188,273) | (1,084) | (189,357) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau buddion** | **(203,964)** | **(804)** | **(204,768)** | **(253,250)** | **(1,084)** | **(254,334)** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 215,422 | - | 215,422 | 272,938 | – | 272,938 |
| **Statws ariannu** | **11,458** | **(804)** | **10,654** | **19,688** | **(1,084)** | **18,604** |

Mae'n ofynnol o dan IAS 19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl rhagdybiaethau IAS 19, na ellir cydnabod y gwarged ar Ddatganiad Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd ar gael i Ofcom yn sgil hynny. Mae'r holl warged yn y trefniadau ariannu yn gallu cael ei gydnabod oherwydd mae modd i Ofcom ei adennill.

## Newidiadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023

| | Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio | Asedau | Pensiwn a ariennir | Pensiynau nad ydynt yn cael eu hariannu | Cyfanswm pensiynau |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2022** | **(253,250)** | **272,938** | **19,688** | **(1,084)** | **18,604** |
| **Costau gweinyddu** | **-** | **(766)** | **(766)** | **-** | **(766)** |
| **Incwm/(cost) llog** | **(6,939)** | **7,478** | **539** | **(29)** | **510** |
| **Cyfraniadau cyflogwr** | **-** | **1,515** | **1,515** | **-** | **1,515** |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 13,474 | (13,474) | - | - | - |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | - | - | - | 75 | 75 |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **13,474** | **(13,474)** | **-** | **75** | **75** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd | **42,751** | **(52,269)** | **(9,518)** | **234** | **(9,284)** |
| **Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2023** | **(203, 964)** | **215,422** | **11,458** | **(804)** | **10,654** |

## Newidiadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022

| | Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio | Asedau | Pensiwn a ariennir | Pensiynau nad ydynt yn cael eu hariannu | Cyfanswm pensiynau |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2021** | **(271,817)** | **286,693** | **14,876** | **(1,153)** | **13,723** |
| **Costau gweinyddu** | **–** | **(769)** | **(769)** | **–** | **(769)** |
| **Incwm/(cost) llog** | **(4,935)** | **5,212** | **277** | **(23)** | **254** |
| **Cyfraniadau cyflogwr** | **–** | **1,613** | **1,613** | **–** | **1,613** |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 12,079 | (12,079) | – | – | – |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | – | – | – | 71 | 71 |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **12,079** | **(12,079)** | **–** | **71** | **71** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd | **11,423** | **(7,732)** | **3,691** | **21** | **3,712** |
| **Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2022** | **(253,250)** | **272,938** | **19,688** | **(1,084)** | **18,604** |

## Dyma'r symiau sy'n cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant:

| | Pensiwn a ariennir | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu | Cyfanswm pensiynau |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **31 Mawrth 2023** | | | |
| Incwm/(cost) llog | 539 | (29) | 510 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **539** | **(29)** | **510** |
| Costau gweinyddu | (766) | - | (766) |
| **Incwm/(cost) net a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **(227)** | **(29)** | **(256)** |

## Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel (Gwariant)/Incwm Cynhwysfawr Arall:

| | Pensiwn a ariennir | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu | Cyfanswm pensiynau |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **31 Mawrth 2023** | | | |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 65,949 | 234 | 66,183 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | (888) | - | (888) |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | (22,310) | - | (22,310) |
| **Cyfanswm enillon/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **42,751** | **234** | **42,985** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | (52,269) | - | (52,269) |
| **Enillion/(colledion) net** | **(9,518)** | **234** | **(9,284)** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

## Dyma'r symiau sy'n cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant:

| | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **31 Mawrth 2022** | | | |
| Incwm/(cost) llog | 277 | (23) | 254 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **277** | **(23)** | **254** |
| Costau gweinyddu | (769) | - | (769) |
| **Incwm/(cost) net a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **(492)** | **(23)** | **(515)** |

## Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel (Gwariant)/Incwm Cynhwysfawr Arall:

| | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **31 Mawrth 2022** | | | |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 21,337 | 21 | 21,358 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | 201 | - | 201 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | (10,115) | - | (10,115) |
| **Cyfanswm enillon/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **11,423** | **21** | **11,444** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | (7,732) | - | (7,732) |
| **Enillion/(colledion) net** | **3,691** | **21** | **3,712** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

## Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun Dyfynbrisiau Lefel 1:

| | 31 Mawrth 2023 Cyfanswm £'000 | 31 Mawrth 2022 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| Ecwitïau byd-eang (ddim yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd) | 3,007 | 6,429 |
| Ecwitïau byd-eang (yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd) | 3,021 | 6,225 |
| Giltiau Mynegrifol | 1,151 | |
| Cronfa dwf wedi'i harallgyfeirio | 4,887 | 7,640 |
| Portffolio buddsoddiadau a ysgogir gan rwymedigaethau | 19,296 | 29,092 |
| Blwydd-daliadau | 175,739 | 214,333 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 8,321 | 9,219 |
| **Cyfanswm** | **215,422** | **272,938** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith i leihau lefel y risg buddsoddi. Yn benodol, mae gan y ddau brif gynllun â'r buddion wedi'u diffinio bolisïau blwydd-dal sy'n dileu'r risg fwy neu lai yng nghyswllt y rhan fwyaf o'r aelodau, ac mae gan Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom strategaeth ar waith a fydd yn cynyddu'r hyn a ddyrennir i asedau risg is sy'n fwy cydnaws â'r rhwymedigaethau, megis giltiau a bondiau, pan ellir fforddio gwneud hynny.

## Y prif ragdybiaethau economaidd ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | 31 Mawrth 2023 (%) Cynllun DB | 31 Mawrth 2023 (%) Cynllun ITC | 31 Mawrth 2022 (%) Cynllun DB | 31 Mawrth 2022 (%) Cynllun ITC |
|---|---|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt | 4.80 | 4.85 | 2.85 | 2.80 |
| Chwyddiant Prisiau Adwerthu | 3.25 | 3.30 | 3.65 | 3.85 |
| – Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (RPI uchafswm 5%) | 2.90 | 2.95 | 3.50 | 3.65 |
| – Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (CPI uchafswm 3%) | 1.95 | 1.95 | 2.30 | 2.40 |

## Mae gan gynllun pensiwn Ofcom ddau gynllun ar wahân, a dyma'r prif ragdybiaethau demograffig ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | Cynllun DB | | Cynllun ITC | |
|---|---|---|---|---|
| **Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed sy'n** | 40 oed ar hyn o bryd | 60 oed ar hyn o bryd | 40 oed ar hyn o bryd | 60 oed ar hyn o bryd |
| – Gwryw | 29 | 28 | 30 | 28 |
| – Benyw | 32 | 31 | 32 | 31 |

## Sensitifrwydd i newidiadau yn y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd


| | Effaith ar | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllun DB | | | Cynllun ITC | | |
| | **Rhwymedigaethau o ran y buddion wedi'u diffinio** | **Asedau** | **Gwarged statws ariannu** | **Rhwymedigaethau o ran y buddion wedi'u diffinio** | **Asedau** | **Gwarged statws ariannu** |
| **Newid mewn rhagdybiaethau** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyfradd ddisgownt** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | gostwng £3,668 | gostwng £5,126 | gostwng £1,458 | gostwng £6,916 | gostwng £6,916 | Dim newid |
| Yn gostwng 0.50% | codi £4,102 | codi £5,773 | codi £1,671 | codi £7,555 | codi £7,555 | Dim newid |
| **Chwyddiant Prisiau Adwerthu** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | codi £3,582 | codi £5,538 | codi £1,956 | codi £5,917 | codi £5,917 | Dim newid |
| Yn gostwng 0.50% | gostwng £3,171 | gostwng £4,921 | gostwng £1,750 | gostwng £5,346 | gostwng £5,346 | Dim newid |
| **Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed** | | | | | | |
| Yn codi - 1 blwyddyn | codi £1,705 | codi £1,028 | gostwng £677 | codi £7,515 | codi £7,515 | Dim newid |
| Yn gostwng - 1 blwyddyn | gostwng £1,713 | gostwng £1,032 | codi £681 | gostwng £7,398 | gostwng £7,398 | Dim newid |

### Proffil rhwymedigaethau cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio


Mae'r siartiau'n dangos y buddion disgwyliedig sy'n daladwy gan y Cynlluniau perthnasol ar 31 Mawrth 2021.

Cyfrifir y taliadau buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ar sail nifer o ragdybiaethau gan gynnwys chwyddiant yn y dyfodol, oedrannau ymddeol, yr opsiynau a ddewisir yng nghyswllt y buddion a disgwyliad oes, ac felly maent yn siŵr o fod yn ansicr.

Gall y gwir daliadau o ran y buddion mewn blwyddyn benodol fod yn uwch neu'n is, er enghraifft, os bydd aelodau'n ymddeol yn gynt neu'n hwyrach na'r hyn a ragdybiwyd, neu'n cymryd mwy neu lai o gyfandaliad arian parod wrth ymddeol.




Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 15 mlynedd




Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 10 mlynedd

## 21. Offerynnau ariannol

Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Mae IAS 32 Offerynnau Ariannol yn egluro sut dylid cyflwyno offerynnau ariannol, ac mae'n mynnu ei bod yn rhaid datgelu'r rôl maen nhw wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg wrth gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi arian dros ben. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth teg a gwerth cario ymlaen y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol ar y dyddiad adrodd.

Fel y caniateir gan IAS 32, mae symiau derbyniadwy a thaladwy sy'n aeddfedu neu sy'n dod yn daladwy cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad adrodd wedi cael eu hepgor o'r asesiad hwn.

## 22. Partïon cysylltiedig

Nid yw Ofcom yn ystyried bod ei swyddogaeth reoleiddio a thrwyddedu'n creu perthynas parti cysylltiedig rhyngddo ef ei hun a deiliaid trwyddedau, fel y caiff ei ddiffinio gan IAS 24, Datgeliadau Partïon Cysylltiedig.

Nid yw Aelodau'r Bwrdd wedi datgan bod ganddynt fuddiannau a fyddai'n dylanwadu ar eu swyddogaethau fel Aelod o Ofcom. Ni chafwyd trafodiadau rhwng Ofcom a'i Aelodau heblaw am daliadau a gafodd eu datgelu ar wahân yn yr adroddiad taliadau.

Ystyrir mai Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (DBT) ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yw'r partïon cysylltiedig sy'n rheoli Ofcom dan delerau Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Hefyd, bydd Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) yn cael ei ystyried yn barti cysylltiedig wrth symud ymlaen.

Darperir manylion yr holl refeniw cymorth grant gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Nodyn 2, 3, 11 ac 15 y datganiadau ariannol hyn.

Gweithredir cynllun pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio a dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio. Mae gan un o'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio (y ddau wedi cau i groniadau yn y dyfodol) barti cysylltiedig, sef S4C. Dylid cyfeirio at Nodyn 20 am ddatgeliad pellach.

Ni wnaeth Ofcom unrhyw hawliadau am gymorth grant ar gyfer clirio sbectrwm yn ystod y flwyddyn ariannol hon oherwydd oedi yng nghyfnod terfynol y rhaglen, yn benodol datgomisiynu'r mast dros dro yn Emley Moor. Ar 31 Mawrth 2023, y balans a ddelir mewn perthynas â chymorth grant a dalwyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yw £1,356k ar gyfer clirio sbectrwm (2021/22: £1,298k). Bydd y balans gohiriedig hwn yn gwrthbwyso rhywfaint o'n costau a gyllidebwyd ar gyfer 2023/24.

Ni chafwyd dim trafodiadau partïon cysylltiedig eraill yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 23. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2023, roedd ymrwymiadau cyfalaf o £626k yn ymwneud â gwella lesddaliadau ar gyfer swyddfeydd Llundain a Chaeredin (2021/22: £515k ar gyfer uwchraddio ystafell y gweinydd yn swyddfa Llundain).

## 24. Derbyniadau a drosglwyddwyd i'r/o'r gronfa gyfunol

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, anfonodd Ofcom £56,299k (2021/22: 2,619k) o Daliadau Ychwanegol yn ymwneud â Deddf Darlledu 1990, Rhifau Daearyddol a Dirwyon i'r Gronfa Gyfunol.

Yn unol ag Adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, cadwodd Ofcom £112,147k (2021/22: 84,481k) o dderbyniadau WTA i dalu am ei wariant perthnasol sy'n cynnwys Rheoli Sbectrwm.

Cafodd ffioedd trwyddedau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 o £989,113k (2021/22: £331,273k) eu hanfon i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'w trosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol.

## 25. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd, bydd digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hystyried hyd at ddyddiad awdurdodi'r cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## 26. Busnes byw

Bydd rhwymedigaethau Ofcom yn y dyfodol yn cael eu hariannu drwy dariffau sector blynyddol gan randdeiliaid sy'n cael eu rheoleiddio a drwy gadw derbyniadau sy'n ymwneud â'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr a gesglir drwy'r cyfrifon Adran 400 ac a gedwir gan Ofcom i dalu am weithgareddau sy'n ymwneud â sbectrwm ynghyd â gweithgareddau eraill nad ydynt yn cael eu hariannu drwy dariffau, fel y nodir yn Adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae Trysorlys Ei Fawrhydi a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cytuno ar gap gwariant Ofcom, ac mae'r symiau sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn 2023/24 eisoes wedi cael eu cymeradwyo. Felly ystyriwyd ei bod hi'n briodol mabwysiadu dull busnes byw er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol hyn.




ADRAN D

# ATODIADAU

# A1. Cyfrifon Adran 400

O dan Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau gan gynnwys ffioedd trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA).

Nid yw'r derbyniadau hyn yn rhan o'r refeniw sy'n cael ei gofnodi gan Ofcom ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y refeniw yn Natganiadau Ariannol Ofcom.

Roedd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cyflwyno gwelliannau deddfwriaethol sy'n caniatáu i Ofcom gadw symiau a geir mewn perthynas â'n swyddogaethau o dan WTA i dalu am ein swyddogaethau cyffredinol i reoli sbectrwm, ac i dalu am gostau gwaith ein swyddogaethau eraill na chawn godi ffioedd na thaliadau ar eu cyfer.

Mae gweddill y refeniw a gesglir yn cael ei drosglwyddo i Gronfa gyfunol y DU yn Nhrysorlys EF, yr Adran Gyllid a Phersonel – Gogledd Iwerddon (DFPNI), Trysorlysoedd Ynys Manaw, Beilïaeth Jersey, a Beilïaeth Guernsey yn uniongyrchol neu drwy'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Yn ystod 2022/23 roedd Ofcom wedi cael £1,163m (2021/22: £1,800.5m). Mae'r gostyngiad sylweddol mewn derbyniadau yn ganlyniad i'r arwerthiant sbectrwm a gynhaliwyd yn 2021/22 (£1,379.4m), ac ni chynhaliwyd unrhyw arwerthiant tebyg yn 2022/23. O blith y derbyniadau hyn, cafodd £112.2m (2021/22: £84.5m) ei gadw i gyllido gwariant perthnasol Ofcom sy'n cynnwys Rheoli Sbectrwm a'n dyletswyddau Diogelwch Ar-lein Llwyfannau Rhannu Fideo newydd.

Ni wnaeth Ofcom dalu unrhyw beth (2021/22: £1,710.7m) sy'n ymwneud â derbyniadau arwerthiant sbectrwm, ffioedd trwyddedau WTA, ffioedd sbectrwm gan adrannau'r Llywodraeth a'r llog a gafwyd ar falansau arian i'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n cael eu talu i gronfeydd cyfunol. Cafodd balans o £15.2m a dderbyniwyd ym mis Mawrth 2023 ei drosglwyddo i'r Trysorlys ym mis Ebrill 2023.

Ar ben hynny, roedd Ofcom wedi trosglwyddo £56.3m (2021/22: £2.7m) yn uniongyrchol i'r Cronfeydd Cyfunol a oedd yn ymwneud â derbyniadau a oedd yn deillio o daliadau ychwanegol, cosbau ariannol a thaliadau am rifau ffôn daearyddol.



# A2. Datganiadau rheoleiddio

Rhestr o'r datganiadau a gyhoeddwyd yn 2022/23, gan gynnwys yr effaith reoleiddio ar randdeiliaid.

## Darlledu

| | |
|---|---|
| B | Datganiad: Adnewyddu trwyddedau amlblecs radio cenedlaethol |
| B | Datganiad: Gwasanaethau Cyfyngedig – cynigion i gynyddu'r sbectrwm sydd ar gael a symleiddio ein dull trwyddedu |
| B | Datganiad: Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC |
| B | Datganiad: Jack3 Chill – Cais i newid Fformat |
| B | Datganiad: Diweddaru adnoddau casglu data meintiol |
| B | Datganiad: Adolygiad o'r cynnydd arfaethedig yn y cynnwys archif ar BBC iPlayer |
| B | Datganiad: Canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw ar rwymedigaethau sy'n ymwneud â gwaith Ewropeaidd |
| B | Datganiad: Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC |

## Sbectrwm

| | |
|---|---|
| A | Datganiad: Hysbysiad o gynnig i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Eithriad) (Diwygio) 2023 |
| A | Datganiad: Telesat LEO Inc – cais am drwydded gorsaf ddaearol (rhwydwaith) heb fod yn ddaearsefydlog |
| B | Datganiad: Yr wybodaeth ddiweddaraf am ein cynigion rhannu ar gyfer y band 6 GHz uchaf |
| B | Datganiad: Telesat LEO Inc – cais am drwydded gorsaf ddaearol (rhwydwaith) heb fod yn ddaearsefydlog |
| B | Datganiad: Gwneud cais am borth NGSO Starlink |
| B | Datganiad: Mangata Edge Ltd – cais am drwydded rhwydwaith gorsaf ddaearol heb fod yn ddaearsefydlog |
| B | Datganiad: Hysbysiad o gynigion i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau) (Diwygio) 2022 |
| B | Casgliadau: Diwallu'r galw am ddata symudol yn y dyfodol |
| B | Datganiad: Strategaeth sbectrwm gofod |
| B | Datganiad: Mwy o sbectrwm ar gyfer cysylltedd lloeren – ymestyn mynediad ym mand Ku (14.25-14.5 GHz) |
| B | Datganiad: Cysoni telerau'r drwydded yn y band 3.4-3.8 GHz |
| B | Datganiad: Penderfyniad i ddiwygio amodau esemptiad trwydded ar gyfer defnyddio Dyfeisiau Pellter Agos penodol |
| B | Datganiad: Trwydded mynediad at sbectrwm 28 Ghz Arqiva |
| B | Datganiad: Hysbysiad o gynnig i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Eithriad) (Diwygio) 2023 |
| C | Datganiad: Ffioedd trwyddedau blynyddol arfaethedig ar gyfer y sbectrwm 10 Ghz, 28 GHz a 32 GHz |

**Allwedd i'r datganiadau rheoleiddio**

| | |
|---|---|
| A | Mwy o reoleiddio/ rheoleiddio newydd |
| B | Cymysg/dim newid/ parhaus |
| C | Wedi symleiddio/ cyd-reoleiddio |
| D | Llai o reoleiddio |

## Post

| | |
|---|---|
| B | Datganiad: Adolygu rheoliadau'r gwasanaeth post |

## Telegyfathrebiadau

| | |
|---|---|
| A | Datganiad: Polisi cyffredinol ar sicrhau cydymffurfiad â dyletswyddau diogelwch |
| A | Datganiad: Hysbysiadau Templed sy'n deillio o Seilwaith Telegyfathrebiadau |
| A | Datganiad: Diweddaru'r Codau Ymarfer Gwirfoddol ar Gyflymderau Band Eang i gwsmeriaid Busnes a Phreswyl |
| B | Casgliadau: Dull gweithredu Ofcom ar gyfer marchnadoedd symudol yn y dyfodol |
| B | Datganiad: Canllaw trin cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn deg – newidiadau i'r canllaw i helpu i sicrhau bod cwsmeriaid sydd mewn dyled neu'n ei chael hi'n anodd talu yn cael eu trin yn deg (29 Medi 2022) |
| D | Datganiad: Dileu gwasanaethau ffacs o'r rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol ar BT a KCOM |

**Allwedd i'r datganiadau rheoleiddio**

| | | | |
|---|---|---|---|
| A | Mwy o reoleiddio / rheoleiddio newydd | B | Cymysg/dim newid/ parhaus |
| C | Wedi symleiddio/ cyd-reoleiddio | D | Llai o reoleiddio |

## Datganiadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2022/23 lle'r oedd yr ymgynghoriad cynharach yn cynnwys asesiad o effaith

| |
|---|
| Datganiad: Adolygu rheoliadau'r gwasanaeth post |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i WHP Estates Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Connect InfraCo Limited |
| Cynnig i addasu'r telerau i gymhwyso'r Cod i Fibrus Networks Ltd |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i GCI Network Solutions Limited |
| Datganiad: Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i BAI Communications Infrastructure Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i E-volve Solutions Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Last Mile Telecom Limited |
| Gwasanaethau Cyfyngedig – cynigion i gynyddu'r sbectrwm sydd ar gael a symleiddio ein dull trwyddedu |
| Yr wybodaeth ddiweddaraf am ein cynigion rhannu ar gyfer y band 6 GHz uchaf |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Transmitair Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Fibrus Networks GB Ltd |
| Dileu gwasanaethau ffacs o'r rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol ar BT a KCOM |
| Sbectrwm ar gyfer Awyrennau Di-griw |
| Dull Ofcom o orfodi – diwygio'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol |
| Mwy o sbectrwm ar gyfer cysylltedd lloeren – ymestyn mynediad ym mand Ku (14.25-14.5 GHz) |
| Cysoni telerau'r drwydded yn y band 3.4-3.8 GHz |
| Penderfyniad i ddiwygio amodau esemptiad trwydded ar gyfer defnyddio Dyfeisiau Pellter Agos penodol |
| Ymateb Ofcom i geisiadau Vodafone a Telefónica i ddiweddaru amodau technegol eu trwyddedau symudol er mwyn gallu defnyddio technolegau mwy newydd gan gynnwys 5G |
| Diweddaru'r Codau Ymarfer Gwirfoddol ar Gyflymderau Band Eang i gwsmeriaid Busnes a Phreswyl |
| Cynnig i gymhwyso pwerau Cod i Meliora Networks Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Kustom Konsulting Limited |
| Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC |
| Trwydded mynediad at sbectrwm 28 Ghz Arqiva |
| Ffioedd trwyddedau blynyddol arfaethedig ar gyfer y sbectrwm 10 Ghz, 28 GHz a 32 GHz |
| Hysbysiad o gynnig i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Eithriad) (Diwygio) 2023 |
| Cynllun gwaith Ofcom 2023/24 |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Giggle Fibre Limited |

## Ymgynghoriadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2022/23 a oedd yn cynnwys asesiad o effaith a lle nad oedd datganiad terfynol wedi cael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2023

| |
|---|
| Adolygu rheoliadau'r gwasanaeth post – newidiadau i ofynion adrodd rheoleiddiol y Post Brenhinol |
| Sbectrwm ar gyfer Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon – Cyflwyno gwasanaethau digidol newydd |
| Cais y BBC i newid ei Drwydded Weithredu |
| Newidiadau i godau technegol teledu digidol a radio digidol |
| Newidiadau arfaethedig i Ganllawiau NIS Ofcom sy'n canolbwyntio ar y Trothwyon Adrodd ar Ddigwyddiadau ar gyfer yr is-sector seilwaith digidol |
| talkSPORT – Cynigion i leihau darpariaeth AM |
| Cynnig Arfaethedig FTTP Openreach i ddechrau ar 1 Ebrill 2023 |
| Rheoleiddio hysbysebion bwyd a diod sy'n llai iach |
| Gwella gwybodaeth am fand eang i gwsmeriaid |
| Archwilio'r posibilrwydd yn y dyfodol o ddefnyddio'r sbectrwm 2100 MHz (1900-1920 Mhz) sydd heb ei baru |
| Cynnig i addasu'r telerau i gymhwyso'r Cod i KCOM Group Limited |

# A3. Rhaglen ymchwiliadau

Mae rhaglen ymchwiliadau Ofcom yn ymwneud â chwynion am ymddygiad gwrth-gystadleuol, torri rheolau rheoleiddio penodol ac anghydfodau ynghylch rheoleiddio. Mae'r tabl canlynol yn dangos gweithgareddau Ofcom yn cynnal asesiadau cychwynnol ac ymchwiliadau yn ystod 2022/23. Mae'n adlewyrchu'r darlun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023.

Mae'r data yn y tabl isod yn ymwneud ag asesiad cychwynnol.

Mae rhagor o fanylion am achosion yr ymchwiliwyd iddynt o dan y rhaglen ymchwiliadau wedi'u nodi ym Mwletin Competition and Enforcement Ofcom.

| | Cyfanswm sydd wedi cael sylw | Cyfanswm sydd wedi'u derbyn i'w hymchwilio | Cyfanswm heb eu derbyn | Gweithgarwch parhaus (ar 31/3/2023) |
|---|---|---|---|---|
| Anghydfodau | 6 | 5 | 1 | 6 |
| Cyfraith Cystadleuaeth | 8 | 6 | 2 | 7 |
| Ymchwiliadau eraill | 64 | 42 | 22 | 52 |
| **Cyfanswm** | **78** | **53** | **25** | **65** |

Mae'r tabl canlynol yn ymwneud ag achosion a agorwyd yn ffurfiol:

| | Cyfanswm sydd wedi cael sylw | Cyfanswm a agorwyd | Cyfanswm sy'n parhau | Cyfanswm wedi'u dirwyn i ben | Gweithgarwch parhaus (ar 31/3/2023) |
|---|---|---|---|---|---|
| Anghydfodau | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Cyfraith Cystadleuaeth | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Ymchwiliadau eraill | 6 | 4 | 2 | 4 | 2 |
| **Rhaglenni gorfodi** | **4** | **3** | **3** | **1** | **3** |

# A4. Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion gan wrandawyr a gwylwyr, a'u datrys, am raglenni radio a theledu sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau sydd wedi'u trwyddedu gennym ni, ac S4C. Mae gennym ddyletswydd hefyd o dan Siarter a Chytundeb y BBC i osod gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion a gyfeirir atom am raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC. Rydym hefyd yn gorfodi safonau cynnwys ar wasanaethau fideo ar-alw yn y DU.[12]

Mae pob cwyn yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ein helpu i ddeall a yw darlledwr yn cydymffurfio neu beidio â rheolau'r Cod Darlledu, neu godau eraill Ofcom.

Yn ogystal â lansio ymchwiliadau ar ôl asesu cwynion, gallwn wneud hynny ar ein liwt ein hunain hefyd. Rydym yn delio ag ymchwiliadau yn sgil cwynion ac ymchwiliadau a roddwyd ar waith gennym ni ein hunain o dan yr un gweithdrefnau.

Mae cwynion unigol y mae Ofcom yn eu cael yn cael eu haseinio i achosion. Agorir achos pan fydd Ofcom yn asesu mater neu raglen benodol, a gall gynnwys un gŵyn neu ragor. Cafwyd cyfanswm o 36,908 o gwynion, a arweiniodd at asesu 8,725 o achosion yn y cyfnod dan sylw.

### Safonau cynnwys

Mae cwynion am safonau cynnwys yn cael sylw o dan Weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio. Mae cwynion am safonau cynnwys y BBC yn cael eu trin o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC.

### Asesiad cychwynnol o gwynion

Ar sail asesiad cychwynnol o'r gŵyn ac, yn y rhan fwyaf o achosion, ar ôl ystyried y cynnwys teledu neu radio perthnasol, bydd Ofcom yn ystyried a yw amodau'r Cod Darlledu (neu godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri. Os na, bydd Ofcom yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach a bydd yn cyhoeddi'r penderfyniad hwn yn ei Fwletin Broadcast and On Demand.

Aseswyd 8,725 o achosion (36,908 o gwynion) yn y ffordd hon yn ystod y cyfnod adrodd.

## Cwynion ac achosion a aseswyd yn ôl blwyddyn

| Math | 2022/23 | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwynion | **36,908** | 99,562 | 142,660 | 34,545 | 55,801 |
| Achosion | **8,725** | 11,932 | 11,778 | 7,829 | 6,206 |

Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 10 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

### Ymchwiliadau

Os bydd achos yn codi materion a allai fod yn sylweddol, byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r mater i benderfynu a yw amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri. Gall ymchwiliad gynnwys un neu ragor o achosion cysylltiedig yn cynnwys yr un darlledwr.

O'r 8,725 o achosion, roeddem wedi cyfeirio 44 achos ar gyfer ymchwiliad o dan ein rheolau yn y cyfnod adrodd.

12. O dan y fframwaith statudol, gelwir y rhain yn "wasanaethau rhaglenni ar-alw".

Yn y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd 82 ymchwiliad gennym.[13] O'r 82 ymchwiliad a gwblhawyd gennym, cafodd 56 eu lansio cyn 2022/23. Cafodd yr 26 arall eu lansio a'u cwblhau yn 2022/23.

## Canlyniadau cwynion, achosion ac ymchwiliadau yn ôl mater allweddol y Cod Darlledu[14]

| Math | Cwynion | Achosion | Ymchwiliadau | Torri amodau |
|---|---|---|---|---|
| Trosedd | 27,707 | 5,184 | 25 | 20 |
| Niwed | 4,687 | 1,076 | 10 | 7 |
| Didueddrwydd Dyladwy | 2,578 | 1,086 | 35 | 33 |
| Amddiffyn pobl ifanc dan oed | 1,392 | 784 | 24 | 19 |
| Arall[15] | 1,341 | 1,086 | 12 | 10 |
| **Cyfanswm** | **37,705** | **9,216** | **106** | **89** |

Canfu Ofcom:

- bod 70 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi arwain at gofnodi bod amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri;
- bod 2 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi cael eu datrys[16];
- nad oedd 8 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi torri amodau'r codau neu na pharhawyd â hwy; a
- nad oedd 2 achos yr ymchwiliwyd iddynt yn torri amodau ac fe wnaethom gyhoeddi canllawiau i'r darlledwr.

Anelwn at gwblhau'r achosion hynny y penderfynwn ymchwilio iddynt cyn pen 50 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, cwblhaodd Ofcom ymchwiliadau cyn pen 93.5 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Roedd hyn oherwydd cymhlethdod gweithdrefnol a chyfreithiol llawer o'r achosion roeddem wedi ymchwilio iddynt.

### Tegwch a Phreifatrwydd

Mae cwynion Tegwch a Phreifatrwydd yn ymwneud â thriniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni neu am darfu'n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglenni (neu yng nghyswllt cael y deunyddiau sydd ynddynt). Bydd y cwynion hyn yn cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir, neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni, neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Mae cwynion am degwch a phreifatrwydd yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu yn eu cylch. Bydd cwynion am degwch a phreifatrwydd ar raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC yn cael eu trin o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC.

Yn 2022/23, fe wnaethom ystyried 205 o gwynion Tegwch a Phreifatrwydd.

### Penderfyniadau i Ystyried

Mae Ofcom yn ceisio asesu a phenderfynu a yw am ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ai peidio cyn pen 25 diwrnod gwaith o gael y gŵyn, ac unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan y sawl sy'n cwyno. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, asesodd a phenderfynodd Ofcom cyn pen 17.5 diwrnod gwaith ar gyfartaledd a ddylid ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd.

13. Gall ymchwiliad gael ei gwblhau dros fwy nag un flwyddyn ariannol, gan ddibynnu ar ffactorau fel pryd cafodd ei lansio a chymhlethdod yr ymchwiliad.
14. Mae cyfanswm y cwynion a'r achosion ar gyfer bob blwyddyn ychydig yn uwch yn y tabl hwn na'r ffigurau yn Ffigur 1 oherwydd bod gorgyffwrdd yn y ffordd y caiff achosion eu categoreiddio yn ein system rheoli achosion.
15. Mae mathau eraill o achosion yn cynnwys cyfeiriadau masnachol, apeliadau elusennau a munudau hysbysebu.
16. Gellir defnyddio canlyniad 'datryswyd' mewn achosion, er enghraifft, pan fydd darlledwr wedi cymryd camau priodol ar unwaith i unioni achos o dorri amodau'r Cod. Mewn achosion o'r fath, gall Ofcom ystyried ei bod yn briodol peidio â chofnodi torri'r amodau, a phenderfynu mai'r canlyniad priodol yw penderfynu bod yr achos wedi'i 'ddatrys'. Mae canfyddiad 'datryswyd' yn cael ei gadw ar gofnod ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei ystyried os bydd rhagor o bryderon ynghylch darlledwr penodol o ran cydymffurfio.

## Dyfarniadau

Os caiff cwyn Tegwch a Phreifatrwydd ei hystyried gan Ofcom, byddwn yn ymchwilio i'r mater i benderfynu a gafodd y Cod Darlledu ei dorri. Bydd dyfarniad terfynol yn cael ei wneud ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a deunydd perthnasol.

Dyfarnwyd ar gyfanswm o 46 o gwynion yn y cyfnod dan sylw. O'r rhain:

- roedd 6 o gwynion wedi'u cadarnhau;
- roedd 1 gŵyn wedi'i chadarnhau yn rhannol;
- roedd 17 o gwynion heb eu cadarnhau; ac
- ni fwriwyd ymlaen â 22 o gwynion.[17]

Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, o fewn 90 diwrnod gwaith i ystyried y gŵyn. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, cwblhaodd Ofcom y gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, cyn pen 130.7 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Mae ein tîm wedi asesu llawer iawn o achosion Tegwch a Phreifatrwydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae llawer o'r rhain wedi cynnwys rhai materion gweithdrefnol a chyfreithiol cymhleth iawn. Yn anffodus, mae hyn wedi golygu ein bod wedi cymryd mwy o amser nag arfer i gwblhau ein hymchwiliadau.

## Sancsiynau

Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod darlledwr wedi torri amodau'r Cod Darlledu neu un o godau eraill Ofcom, ac yn credu bod yr achos hwnnw'n ddifrifol, yn fwriadol, wedi'i ailadrodd a/neu'n ddi-hid, gall ystyried a yw am roi sancsiwn statudol i'r darlledwr.

Mae gan Ofcom amrywiaeth o sancsiynau ar gael, gan gynnwys: cyhoeddi cyfarwyddyd i beidio ag ailddarlledu rhaglen neu hysbyseb; cyhoeddi cyfarwyddyd i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom; rhoi cosb ariannol[18]; cwtogi trwydded neu ei hatal (ar gyfer rhai categorïau trwyddedau); a diddymu trwydded (nid yw hyn yn berthnasol i'r BBC, S4C na Channel 4).

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, penderfynodd Ofcom roi'r sancsiynau statudol canlynol:

- Up and Coming TV Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Samaa TV – cosb ariannol o £40,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom;
- 965 TV Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Studio 66 – cosb ariannol o £15,000; a
- Loveworld TV Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Loveworld – cosb ariannol o £15,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom.

Yn ogystal â'r sancsiynau uchod, ar 26 Mai 2022, ildiodd Khalsa Television Limited ei drwydded ar ôl cael hysbysiad Ofcom i ddiddymu ei drwydded ddarlledu, yr oedd Ofcom wedi'i gohirio ar ôl i'w sianel KTV ddarlledu deunydd a oedd yn debygol o gymell trais.[19]

## Safonau ac ymchwiliadau cynnwys y BBC

Mae cwynion am raglenni'r BBC yn cael eu hystyried o dan fframwaith cwynion 'BBC yn Gyntaf'. Mae hyn yn golygu os oes gan rywun gŵyn am rywbeth maen nhw wedi'i weld neu ei glywed ar raglen deledu, radio neu ar-alw gan y BBC, mae'n rhaid iddyn nhw fel rheol gwyno wrth y BBC yn gyntaf. Mae modd i'r sawl sy'n cwyno gyfeirio eu cwyn at Ofcom os byddant yn anfodlon ar ymateb y BBC neu os na fydd y BBC yn ymateb yn ddigon prydlon. Mae modd cyfeirio cwyn hefyd os ydy'r sawl sy'n cwyno'n credu y gallai fod yn briodol i Ofcom roi sancsiwn yn erbyn y BBC.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cael ac asesu 1,834 o gwynion sy'n ymwneud ag amrywiaeth o faterion safonau ar gyfer cynnwys y BBC. O'r rhain

- Cafodd 1,720 eu cyfeirio at y dull 'BBC yn gyntaf' ac
- aeth 114 drwy broses Safonau'r BBC.

Roedd 1,310 o achosion i gyd, gyda 1,204 ohonynt yn rhai 'BBC yn Gyntaf' a 106 wedi dilyn ein proses Safonau ar gyfer y BBC. O'r 106 o achosion hyn, fe wnaethom lansio 1 ymchwiliad ynghylch sylw'r BBC i'r cyfnod cyn Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon.[20]

17. Ni fwriwyd ymlaen â nifer o achosion eleni oherwydd bod yr achosion hynny wedi dod yn destun achos cyfreithiol ac felly ni ellid bwrw ymlaen â hwy.
18. Caiff yr holl gosbau ariannol a roddir gan Ofcom eu dal mewn cyfrif gyda Gwasanaethau Bancio'r Llywodraeth (GBS) er budd y Trysorlys. Caiff cronfeydd eu trosglwyddo i gyfrif GBS Trysorlys EF i'w defnyddio'n uniongyrchol gan y Trysorlys, neu eu dosbarthu i Gronfeydd Cyfunol perthnasol. Nid yw Ofcom yn defnyddio nac yn cael buddion ariannol o unrhyw gosbau ariannol a geir.

19. Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Penderfyniad ac Ildio Trwydded – Khalsa Television Limited, 21 Mehefin 2022.
20. Penderfyniad y Pwyllgor Etholiadau ar gŵyn didueddrwydd dyladwy gan Blaid Werdd Gogledd Iwerddon ynghylch darllediad y BBC yn y cyfnod cyn Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon 2022 28 Ebrill 2022.

Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaethom ganfod bod y BBC wedi torri'r rheolau didueddrwydd dyladwy am y tro cyntaf ers i'n dyletswyddau ddod i rym yn 2017.[21] Fe wnaethom benderfynu bod yn BBC wedi peidio â chadarnhau didueddrwydd dyladwy mewn cyfweliad â Ruth Davidson, arweinydd y Ceidwadwyr yn yr Alban ar y pryd, mewn rhifyn o World at One ar BBC Radio 4.[22]

Ym mis Tachwedd 2022, fe wnaethom gwblhau ymchwiliad i sylw'r BBC i ymosodiad gwrth-Semitaidd ar fyfyrwyr Iddewig yn Llundain a gafodd sylw mewn erthygl newyddion ar-lein gan y BBC ac adroddiad newyddion a ddarlledwyd ar BBC One London.[23] Nid oedd adroddiad BBC One London News yn torri'r Cod Darlledu, ond, yn ein barn ni, roedd y BBC wedi gwneud camfarn olygyddol ddifrifol ar ôl y darllediad drwy beidio ag adrodd ar yr awyr ar unrhyw adeg bod amheuaeth ynghylch honiad a wnaeth yn y darllediad newyddion, ar ôl i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg.[23] Rydym yn darparu rhagor o wybodaeth am ein hymchwiliad i'r erthygl ar-lein yn yr adran "Deunydd ar-lein y BBC" isod.

**Deunydd ar-lein y BBC**

O dan Siarter a Chytundeb y BBC, a osodir gan y Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig, mae'r BBC yn gyfrifol am safonau golygyddol ei ddeunydd ar-lein. Mae gan Ofcom gyfrifoldeb i ystyried a rhoi barn ynghylch a wnaeth y BBC lynu at y canllawiau golygyddol perthnasol yn y deunydd ar-lein.[24] Mae deunydd ar-lein yn golygu cynnwys ar wefannau ac apiau'r BBC, fel erthyglau, delweddau a fideos, ac maent wedi'u diffinio yn Nhrefniadau Ar-lein y BBC Ofcom. Nid yw'r diffiniad yn ymestyn i gynnwys cyfryngau cymdeithasol y BBC ac nid yw'n cynnwys y rhaglenni ar BBC iPlayer sy'n gorfod cydymffurfio â rheolau Cod Darlledu Ofcom.

Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 roeddem wedi asesu a chau cyfanswm o 297 cwyn am ddeunydd ar-lein y BBC.

Roedd 197 o gwynion eraill am ddeunydd ar-lein y BBC wedi cael eu cyfeirio at y BBC o dan y dull 'BBC yn Gyntaf', neu y tu allan i'n cylch gwaith. Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 10.5 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom gwblhau tri ymchwiliad yn ymwneud â deunydd ar-lein y BBC:

- Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaethom gyhoeddi Barn nad oedd y BBC wedi cadw at Adran 3: Cywirdeb ac Adran 8: Adrodd ar Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Canllawiau Golygyddol y BBC mewn perthynas ag erthygl a oedd yn adrodd ar achosion troseddol ar wefan BBC News "Man jailed after blaming speeding ticket on fictional Frenchman".[25]
- Ym mis Tachwedd 2022, fe wnaethom gwblhau ymchwiliad ar erthygl ar-lein gan y BBC am ymosodiad gwrth-semitaidd ar fyfyrwyr Iddewig yn Llundain ("Oxford Street: Images issued after men filmed spitting at Jews on bus").[26] Fe wnaethom gyhoeddi Barn bod y BBC wedi methu â dilyn ei ganllawiau golygyddol i adrodd ar newyddion gyda chywirdeb a didueddrwydd dyladwy.
- Ym mis Ebrill 2023, fe wnaethom gyhoeddi Barn ynghylch a yw'r BBC wedi dilyn ei Ganllawiau Golygyddol ei hun yng nghynnwys erthygl ar-lein o'r enw "We're being pressured into sex by some trans women". Roeddem yn cytuno â'r BBC nad oedd yn torri ei reolau ynghylch didueddrwydd dyladwy na niwed a thramgwydd a'i fod wedi methu â chadw at Adran 3: Cywirdeb Canllawiau Golygyddol y BBC.[27]

## Gwasanaethau rhaglenni ar-alw

Rydym hefyd yn ystyried cwynion am safonau cynnwys ar wasanaethau rhaglenni ar-alw hysbysedig[28] o dan Weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri'r rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw. Yn 2022/23, fe wnaethom asesu 464 o gwynion (399 o achosion) am wasanaethau rhaglenni ar-alw.

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd y Llywodraeth y Bil Cyfryngau drafft[29] sy'n cynnwys manylion y fframwaith newydd arfaethedig ar gyfer rheoleiddio fideo ar-alw. Os caiff ei basio, bydd y ddeddfwriaeth newydd yn rhoi pwerau i Ofcom ddrafftio a gorfodi Cod Fideo ar Alw newydd sy'n debyg i'r Cod Darlledu a fydd yn berthnasol i ddarparwyr mwy. Bydd gan Ofcom hefyd ddyletswydd barhaus i asesu mesurau diogelu cynulleidfaoedd ar wasanaethau fideo ar-alw.

21. Mae ymchwiliad gan Ofcom yn un ffordd o orfodi safonau didueddrwydd dyladwy ar wasanaethau'r BBC o dan y system BBC yn Gyntaf. O bryd i'w gilydd, bydd Uned Cwynion Gweithredol y BBC yn cynnal neu'n cadarnhau'n rhannol achosion lle mae wedi canfod nad oedd y safon briodol o ddidueddrwydd dyladwy wedi cael ei defnyddio.
22. Bwletin Broadcast and On Demand Ofcom 455, World at One, BBC Radio 4, 25 Gorffennaf 2022.
23. Bwletin Broadcast and On Demand Ofcom 461, BBC News Online a BBC London News, 7 Tachwedd 2022.
24. Rydym yn ymdrin â chwynion am ddeunyddiau ar-lein y BBC o dan Weithdrefnau Ofcom ar gyfer trin cwynion sy'n ymwneud â chynnwys ar-lein y BBC.
25. Bwletin Ofcom ar gyfer cwynion am ddeunyddiau ar-lein y BBC, Rhifyn 32, 11 Gorffennaf 2022.
26. Bwletin Broadcast and On Demand Ofcom 461, BBC News Online a BBC London News, 7 Tachwedd 2022.
27. Bwletin Ofcom ar gyfer cwynion am ddeunyddiau ar-lein y BBC, Rhifyn 38, 3 Ebrill 2023.
28. Ac eithrio gwasanaethau rhaglenni ar-alw gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir gan y BBC, sy'n ddarostyngedig i'r Cod Darlledu, mae'n rhaid i wasanaethau rhaglenni ar-alw sy'n cael eu hysbysu i Ofcom gydymffurfio â set o Reolau Statudol sydd ar wahân i'r Cod Darlledu.
29. Bil Cyfryngau Drafft, Mawrth 2023.

# A5. Gorfodi a pheirianneg sbectrwm

**Dangosydd perfformiad allweddol**

## Prif Weithgareddau

| Gweithgarwch Rhaglen Waith/Digwyddiad | Ebrill 22 – Mawrth 23 | Ebrill 21 – Mawrth 22 |
|---|---|---|
| Cwynion a gafwyd am ymyriant | 1,674 | 1,694 |
| Gwirio cydymffurfiad â thrwyddedau systemau radio | 1,953 | 988 |
| Nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd | 1 | 0 |
| Erlyniadau am weithgarwch troseddol yng nghyswllt sbectrwm | 0 | 1 |

## Targedau Ansawdd Gwasanaeth ar gyfer Cwynion a gafwyd am Ymyriant

| | | | Targed wedi'i gyflawni | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Perfformiad Allweddol** | **Blaenoriaeth Achos** | **Targed** | **Ebrill 22 – Mawrth 23** | **Ebrill 21 – Mawrth 22** |
| **Amser cyn yr ymweliad cyntaf:** Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd ein peiriannwr yn cyrraedd ar y safle i ganfod y broblem (ar gyfer yr achosion hynny pan fydd angen ymweliad maes). | 1 | 8 awr | 100% | 100% |
| | 2 | 18 awr | 100% | 100% |
| | 3 | 2 ddiwrnod gwaith | 100% | 100% |
| | 4 | 5 diwrnod gwaith | 100% | 100% |
| | 5 | 15 diwrnod gwaith | 100% | 100% |
| | 6 | Dim targed | | |
| **Datrysiad:** Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd y cwsmer yn cael gwybod bod yr achos wedi'i ddatrys. | 1 | 2 ddiwrnod calendr | 100% | 100% |
| | 2 | 3 diwrnod calendr | 100% | 100% |
| | 3 | 6 diwrnod calendr | 100% | 98% |
| | 4 | 20 diwrnod calendr | 94% | 94% |
| | 5 | 40 diwrnod calendr | 99% | 99% |
| | 6 | 60 diwrnod calendr | 100% | 99% |

# A6. Trwyddedu sbectrwm

## Categori A

| Trwyddedau lle nad oes gofyn aseinio amledd, clirio safle na chydlynu rhyngwladol | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 22 |
|---|---|---|---|---|
| Radio Busnes Ysgafn - Syml, y DU (dim gorsaf ganolog) | 1,685 | 1,879 | 14,801 | 15,886 |
| Radio Busnes – safle syml | 1,124 | 1,019 | 8,813 | 8,501 |
| Cyflenwyr Radio Busnes – ysgafn | 117 | 126 | 1,213 | 1,395 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz) | 47 | 24 | 346 | 358 |
| Ailadroddwr GNSS | 30 | 4 | 400 | 370 |
| Heddlu a Thân | 1 | 4 | 122 | 124 |
| **Is-gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **3,004** | **3,056** | **25,695** | **26,634** |
| Medrydd Lefel Radar | 0 | 0 | 124 | 124 |
| Amatur a Morol | 27,982 | 31,606 | 295,099 | 284,233 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori A** | **30,986** | **34,662** | **320,918** | **310,991** |
| Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer Categori A (100% mewn 7 niwrnod) | 99% | 100% | | – |
| DPA ar gyfer Categori A (Amatur a Morol) (100% mewn 10 diwrnod) | 98.7% | 100% | | – |

## Categori B

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, ond nad oes angen clirio safle na chydlynu rhyngwladol | | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 22 |
|---|---|---|---|---|---|
| System Adnabod Awtomatig | | 58 | 33 | 463 | 412 |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio fesul Ardal | | 44 | 116 | 426 | 446 |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio'n Dechnegol | | 1662 | 1,632 | 21876 | 22,405 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) Ardal wedi'i Diffinio | | 5 | 0 | 9 | 4 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) | | 6 | 8 | 379 | 390 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Marina) | | 17 | 10 | 375 | 392 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Ysgol Hyfforddi) | | 61 | 74 | 622 | 565 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) | | 12 | 7 | 312 | 317 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) Ardal wedi'i Diffinio | | 2 | 1 | 13 | 12 |
| System Lleoli Byd-eang Wahaniaethol (DGPS) | | 0 | 0 | 5 | 4 |
| Radar Profi'r Tir | | 35 | 15 | 231 | 236 |
| Radar a Chymhorthion Llywio Morol | | 26 | 6 | 141 | 119 |
| Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos) | | 3 | 3 | 64 | 76 |
| Telemetreg Sganio | | 1 | 3 | 28 | 29 |
| Cysylltiadau hunangydlynol | | 16 | 16 | 146 | 148 |
| Rhannu Mynediad (Pŵer Isel) | | 143 | 287 | 1,126 | 1,080 |
| Rhannu Mynediad (Pŵer Canolig) | | 272 | 404 | 539 | 372 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori B** | | **2,363** | **2,615** | **26,755** | **27,007** |
| DPA ar gyfer Categori B | 90% mewn 21 diwrnod | 82% | 85% | – | – |
| | 100% mewn 42 diwrnod | 96% | 94% | – | – |

## Categori C

| Trwyddedau lle mae gofyn am aseinio amledd, clirio safle a/neu gydlynu rhyngwladol | | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiadau Sefydlog | | 2,124 | 1,897 | 18,199 | 19,002 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Barhaol) | | 14 | 9 | 144 | 147 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Gludadwy | | 47 | 29 | 103 | 109 |
| Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaearol) | | 8 | 4 | 63 | 56 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol heb fod yn sefydlog) | | 2 | 12 | 15 | 16 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol heb fod yn sefydlog) | | 10 | 5 | 10 | 6 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori C** | | **2,205** | **1,956** | **18,534** | **19,336** |
| Cyfartaledd DPA ar gyfer Categori C | 90% mewn 42 diwrnod | 87% | 96% | | |
| | 100% mewn 60 diwrnod | 98% | 100% | | |

## Trwyddedau awyrenegol

| Trwyddedau ar gyfer gwasanaethau awyrenegol | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 22 |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau Awyrenegol | 1,738 | 2,074 | 14,211 | 19,214 |
| **Cyfanswm ar gyfer Awyrenegol** | **1,738** | **2,074** | **14,211** | **19,214** |
| DPA ar gyfer Awyrenegol (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | | |

## Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE)

| Rhoi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, a'u hawdurdodi | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 22 |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau PMSE | 35,258 | 28,958 | 7383 | 6,851 |
| **Cyfanswm ar gyfer PMSE** | **35,258** | **28,958** | **7383** | **6,851** |
| DPA ar gyfer PMSE (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | | |

## Trwyddedau profi a datblygu

| Rhoi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, a'u hawdurdodi | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 22 |
|---|---|---|---|---|
| Trwydded Ymchwil ac Arloesi | 405 | 518 | 543 | 1,127 |
| Trwydded Treialu ac Arddangos | 236 | 380 | 271 | 684 |
| **Cyfanswm ar gyfer Profi a Datblygu** | **641** | **898** | **814** | **1,811** |
| DPA ar gyfer Profi a Datblygu (100% mewn 60 diwrnod) | 100% | 100% | | |

## Trwyddedau band eang di-wifr a symudol

| Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthiant o'r sbectrwm neu drwy ddyfarnu'r sbectrwm | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 22 |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad i Sbectrwm: 412 - 414 MHz | | | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 700 MHz | | 3 [30] | 3 | 3 |
| Mynediad i Sbectrwm: 800 MHz, 2.6 GHz | | | 6 | 6 |
| Rhwydweithiau Di-wifr Cyhoeddus: 900, 1800 MHz | | | 4 | 4 |
| Mynediad i Sbectrwm: 1452 - 1492 MHz | | | 2 | 2 |
| Mynediad i Sbectrwm: 1785 MHz, Gogledd Iwerddon | | | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 2100 MHz | | | 1 | 4 |
| Mynediad i Sbectrwm: 2.3 GHz | | | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 3.4-3.6, 3.5, 3.6, 3.6-3.8 GHz | - 1 | 7 [31] | 12 | 13 |
| Mynediad i Sbectrwm: 3.9 GHz | + 1 [32] | | 1 | - |
| Mynediad i Sbectrwm: 10, 28, 32, 40 GHz | - 1 [33] | | 17 | 18 |
| Mynediad i Sbectrwm ar y Môr | | 1 | 12 | 12 |
| Mynediad Lleol i Sbectrwm | 10 | 16 | 36 | 26 |
| Mynediad i Sbectrwm: Twnnel y Sianel[34] | | | 2 | 2 |
| **Cyfanswm ar gyfer Band Eang Di-wifr a Symudol** | **9** | **27** | **102** | **93** |

30. Dyfarniad 700 MHz / 3.6-3.8 GHz, (27/04/21)
31. Dyfarniad 700 MHz / 3.6-3.8 GHz, (27/04/21) a thrwyddedau pontio yn ystod y cyfnod clirio (Vodafone & Telefónica)
32. Gwahanu sbectrwm 3.6 GHz a 3.9 GHz band eang y DU yn drwyddedau newydd
33. Ildiodd Arqiva drwydded 28 Ghz rhanbarth Llundain
34. Trwydded ar wahân ar gyfer y twnnel i gyfeiriad Ffrainc o'r DU a'r twnnel i gyfeiriad y DU o Ffrainc

## Trwyddedau Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel

| Ceisiadau am drwyddedau a wnaed drwy Reoleiddwyr lleol | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 22 |
|---|---|---|---|---|
| Rhwydwaith Di-wifr Cyhoeddus: 800, 900, 1800, 2100, 2600 MHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | | | 33 | 33 |
| Mynediad Di-wifr / Sbectrwm: 3.4, 3.6, 10, 28 GHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | -1 | | 7 | 8 |
| **Y cyfanswm ar gyfer Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel** | **-1** | **0** | **40** | **41** |

## Trwyddedau sbectrwm y difidend digidol

| Trwyddedau DOR GI a roddwyd drwy brosesau dyfarnu sbectrwm | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 22 |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad Sbectrwm 541 – 550 MHz (Caerdydd) | | | 1 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 758 – 766 MHz (Manceinion) | | | 1 | 1 |
| **Cyfanswm trwyddedau'r Difidend Digidol** | **0** | **0** | **2** | **2** |

## Cyfanswm y trwyddedau

| | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 22 – Mawrth 23 | Trwyddedau a gyhoeddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 23 | Cyfanswm cyhoeddi ar 31 Mawrth 22 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y trwyddedau - pob categori** | **73,199** | **71,190** | **388,757** | **385,344** |

# A7. Cynaliadwyedd

**Cwmpas 1** – Mae hyn yn berthnasol i ddefnyddio nwy ac olew yn uniongyrchol, a defnyddio tanwydd yng ngheir fflyd Ofcom. Mae'r data am y defnydd o nwy ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfeydd Ofcom yn Llundain, Belfast, Birmingham, Haydock (a wnaeth gau yn 2018) a Livingston (a wnaeth gau yn 2017). Caiff costau nwy ar gyfer swyddfeydd Caeredin, Warrington a Chaerdydd eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny. Mae'r defnydd o nwy yn dibynnu ar y tywydd. Bydd Ofcom yn talu am danwydd diesel ar gyfer ei geir fflyd drwy ddefnyddio cardiau tanwydd, a chaiff y defnydd ei gofnodi a'i fonitro bob mis. Mae defnydd o danwydd yn ein ceir fflyd yn dibynnu i raddau helaeth ar y galw am ein gwasanaethau gorfodi.

**Cwmpas 2** – Mae hyn yn berthnasol i gyflenwadau trydan i swyddfeydd Ofcom. Mae'r data trydan ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfeydd Ofcom yn Llundain, Baldock, Belfast, Birmingham, Caerdydd, Caeredin, Haydock (a wnaeth gau yn 2018), Warrintgon, Manceinion a rhai safleoedd monitro a chanfod cyfeiriad o bell ledled y DU. Mae'r defnydd o drydan yn dibynnu ar y tywydd.

**Cwmpas 3** – Mae data ariannol am deithiau busnes wedi dod o'n system cofnodi, ac mae'n cynnwys teithiau gan bob cydweithiwr ni waeth ble maent wedi'u lleoli. Rydym wedi trosi data ariannol teithiau mewn tacsis ac ar drenau i bellteroedd drwy ddefnyddio canllawiau o Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, a data ariannol teithiau mewn ceir i bellteroedd drwy ddefnyddio data o hawliadau treuliau ar gyfer milltiroedd a deithir. Mae'r data am deithiau hedfan wedi dod yn uniongyrchol gan ein darparwr teithiau busnes, ac wedi'i gategoreiddio i deithiau domestig a rhyngwladol, yn unol â chanllawiau pellter hedfan Defra.

## Lleihau a rheoli gwastraff

Mae'r data am y defnydd o wastraff ar hyd y blynyddoedd yn ymwneud â phrif swyddfa Ofcom yn Llundain. Nid oes data cywir am y defnydd o wastraff ar gael ar gyfer swyddfeydd eraill Ofcom, ond mae'r costau sy'n gysylltiedig â chael gwared â gwastraff wedi'u cynnwys. O fis Mehefin 2017, mae cost gwastraff wedi'i gynnwys yn ein tâl gwasanaeth. Mae ein hasiant rheoli'n gweithredu ar sail 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi', ac mae'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi gan adfer ynni.

| **Dangosyddion Anariannol** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm gwastraff | 198 | 189 | 69 | 161 | 72 |
| Gwastraff wedi'i anfon i safle tirlenwi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwastraff TGCh wedi'i ailgylchu/ailddefnyddio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwastraff wedi'i ailgylchu/ailddefnyddio | 71 | 92 | 38 | 79 | 21 |
| Gwastraff wedi'i gompostio | 0 | 0 | 3 | 0 | 15 |
| Gwastraff wedi'i losgi gan adfer ynni | 127 | 98 | 28 | 82 | 36 |
| Gwastraff wedi'i losgi heb adfer ynni | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm gwastraff fesul FTE | 0.220 | 0.198 | 0.067 | 0.139 | 0.057 |
| **Dangosyddion Ariannol** | | | | | |
| Gwastraff | £43,805 | £35,000 | £12,470 | £28,576 | £26,949 |

## Defnydd o adnoddau cyfyngedig

Mae'r data dŵr ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfeydd Ofcom yn Llundain, Baldock, Birmingham a Haydock (a wnaeth gau yn 2018). Caiff costau dŵr ar gyfer swyddfeydd eraill eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny.

| **Dangosyddion Anariannol** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnydd dŵr (m3) | 13,988 | 18,874 | 6,375 | 13,075 | 20,842 |
| Defnydd dŵr fesul FTE | 15.53 | 19.71 | 6.19 | 11.28 | 16.59 |
| Rimiau papur | 2,579 | 2,446 | 23 | 16 | 168 |
| Rimiau A3 | 127 | 106 | 0 | 1 | 9 |
| Rimiau A4 | 2,452 | 2,305 | 23 | 15 | 159 |
| Rimiau A5 | 0 | 35 | 0 | 0 | 0 |
| **Dangosyddion Ariannol** | | | | | |
| Dŵr | £19,583 | £23,321 | £14,820 | £25,049 | £35,851 |

# Ein Swyddfeydd


**Prif Swyddfa Ofcom**

Y Swyddfa Gyfathrebiadau
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Switsfwrdd
+44 (0)300 123 3000
+44 (0)20 7981 3000

Ffôn testun
+44 (0)20 7981 3043

**Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom**

+44 (0)300 123 3333 neu
+44 (0)20 7981 3040

**Manceinion**

6th Floor
1 Circle Square
Oxford Road
Manceinion M1 7ED

+44 (0)289 026 5509

**Yr Alban**

Quartermile 1
15 Lauriston Place
Caeredin EH3 9EP

+44 (0)131 220 7300

**Cymru**

2 Caspian Point
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ

+44 (0)29 2046 7200

**Gogledd Iwerddon**

Landmark House
The Gasworks
Ormeau Road
Belfast BT7 2JD

+44 (0)28 9041 7500


ofcom.org.uk


Of606
E02925828
978-1-5286-4181-4